

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Adroddiad Cyfnod 1

Ionawr 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDiwygio@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Adroddiad Cyfnod 1

Ionawr 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 12 Gorffennaf 2023. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
David Rees AS
Llafur Cymru



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Darren Millar AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru

Cymerodd yr Aelod canlynol ran yn yr holl weithgarwch Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.49:



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	9
Argymhellion	11
1. Cyflwyniad	20
Diwygio'r Senedd.....	20
Y Bil.....	20
Cylch gorchwyl.....	21
Ein dull gweithredu.....	21
Cyfranogiad Jane Dodds AS.....	22
Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd.....	22
Biliau diwygio etholiadol eraill.....	23
2. Egwyddorion cyffredinol y Bil	25
Y cefndir.....	25
Egwyddorion cyffredinol y Bil.....	26
Dulliau eraill.....	29
Barn ac agweddau'r cyhoedd.....	31
Cyfrifoldeb am ddiwygio deddfwriaethol.....	34
Amserlenni.....	39
Ein barn ni.....	41
3. Nifer Aelodau'r Senedd	45
Y cefndir.....	45
Y rhesymeg dros gynyddu nifer yr Aelodau.....	45
96 o Aelodau.....	48
Y goblygiadau ariannol.....	50

Ein barn ni	59
4. Nifer y Dirprwy Lywyddion	62
Y cefndir	62
Y rhesymeg dros y ddarpariaeth.....	64
Gweithredu'n ymarferol	64
Cymhwystra ymgeiswyr i'w hethol.....	65
Teitlau deiliad swyddi.....	66
Ein barn ni	66
5. Nifer Gweinidogion Cymru.....	69
Y cefndir	69
Y rhesymeg dros gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru	70
Mecanwaith ar gyfer unrhyw newidiadau diweddarach.....	73
Ein barn ni	76
6. Etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml	79
Y cefndir	79
Yr egwyddor o leihau amllder etholiadau cyffredinol cyffredin	81
Mandad i ddeddfu.....	83
Effaith y ddarpariaeth	83
Rhyngweithio ag etholiadau eraill.....	87
Canlyniadau anfwriadol.....	90
Ein barn ni	92
7. Sut y caiff Aelodau eu hethol	95
Y cefndir	95
Rhestrau caeedig.....	98
Rhestrau hyblyg.....	107

Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	108
Proses dau gam?	110
Llenwi seddi gwag	112
Cynllun papur pleidleisio	117
Rhoi system etholiadol newydd ar waith	118
Ein barn ni	125
8. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru	130
Y cefndir	130
Cynyddu nifer aelodau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau	132
Penodi comisiynwyr	135
Anghymhwyso pobl rhag cael eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau	136
Perthynas â'r Senedd	138
Perthynas â phartneriaid etholiadol eraill	142
Enw'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau	145
Ein barn ni	145
9. Etholaethau Senedd Cymru ac adolygu ffiniau	149
Y cefndir	149
Model ffiniau etholaethau	150
Methodoleg adolygu ffiniau	153
Atodlen 1 Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026	156
Atodlen 2 Adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd (2030 ymlaen)	160
Enwau etholaethau	167
Ein barn ni	172

10.	Anghymhwysu ar sail ble y mae person yn preswyllo	178
	Y cefndir	178
	Egwyddor gofyniad 'preswyllo'	179
	Mandad i ddeddfu	180
	Diffiniad o'r 'gofyniad preswyllo'	181
	Anghymhwysu ar adeg ymgeisio neu ar adeg etholiad	183
	Cydymffurfio	184
	Canlyniadau anfwriadol	186
	Ein barn ni	189
11.	Mecanweithiau adolygu	192
	Darpariaeth yn y Bil	192
	Mecanwaith adolygu	192
	Adran 7 Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd	194
	Adran 19 Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026	199
	Ein barn ni	205
12.	Materion eraill	211
	Y cefndir	211
	Adnoddau datblygu polisi ar gyfer pleidiau gwleidyddol	211
	Ein barn ni	215
	Atebolrwydd Aelodau	216
	Ein barn ni	219
	Atodiad 1: Trosolwg o ddiwygio'r Senedd	221
	Atodiad 2: Tystiolaeth	225

**Atodiad 3: Trosolwg o'r prosesau a'r amserlenni ar gyfer adolygu
ffiniau.....227**

Rhagair y Cadeirydd

Heddiw, mae'r Senedd wrth galon democratiaeth yng Nghymru sy'n werthfawr iawn inni. Ar hyn o bryd, mae ganddi 60 o Aelodau a gaiff eu hethol drwy system ddeuol sy'n cynnwys mecanwaith 'y cyntaf i'r felin' traddodiadol ar gyfer yr etholaethau presennol a system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig ar gyfer y pum rhanbarth ledled Cymru. Mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol i weithio dros y cymunedau y maent yn eu cynrychioli, ac i weithio gyda'r cymunedau hyn, er mwyn sicrhau bod eu buddiannau nhw bob amser wrth wraidd yr hyn y mae'r Aelodau'n ei wneud wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Wrth wneud hynny, mae'r Aelodau yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, ac yn ceisio gwella penderfyniadau polisi, deddfwriaeth, gwariant a threthiant drwy gynnal gwaith craffu cadarn ac effeithiol.

Mae'r dadleuon ynghylch a yw 60 o Aelodau yn ddigonol i gyflawni ein cyfrifoldebau democrataidd wedi parhau wrth i'r Senedd ddatblygu'n endid cyfreithiol ar wahân, wrth inni ymgymryd â phwerau deddfu a threthu sylfaenol ychwanegol, wrth inni symud i fodel cadw pwerau o ran datganoli, ac wrth i'r dirwedd gyfansoddiadol ehangach ar draws y DU esblygu. Yng nghyd-destun y newidiadau hyn, mae'r Senedd a'i Haelodau wedi parhau i ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n wahanol ac yn fwy effeithlon, ac wrth iddynt wneud hynny, gwelsom yn aml gapasiti sefydlog y Senedd yn cael ei estyn i'r eithaf.

Yn 2017, rhoddwyd y pwerau i'r Senedd i fynd i'r afael ag un o'r materion sylfaenol yn hyn o beth, sef nifer yr Aelodau. Nid ni yw'r Senedd gyntaf i ystyried sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn, ond yn wahanol i'n rhagflaenwyr, rôl y Pwyllgor yn ystod y Senedd hon oedd archwilio cynigion deddfwriaethol penodol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn Bil sydd â'r nod o ddiwygio'r Senedd. Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth ehangach o ddiwygiadau a gyflwynwyd er mwyn i'r Aelodau allu cyflawni eu dyletswyddau mewn modd mwy effeithlon, gan gynnwys diwygiadau o ran nifer yr Aelodau sydd i'w hethol i'r Senedd a'r modd y caiff yr Aelodau hynny eu hethol.

Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwylllo gan y dystiolaeth bod angen diwygio, ac y bydd Senedd fwy o faint yn gallu cyflawni ei chyfrifoldebau i bobl Cymru yn well, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r maint arfaethedig, sef 96, y tu hwnt i unrhyw gynigion blaenorol, ond ni chlywsom unrhyw achos ar sail tystiolaeth fod y nifer hwn yn ormodol neu'n amhriodol.

Nid ydym wedi dod i gonsensws ar bob mater. Mae gwahanol safbwyntiau ynghylch a ddylid cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol ac ambell fater arall. Serch hynny, rydym yn unfrydol yn ein pryderon am y system etholiadol rhestrau caeedig arfaethedig sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, ei heffaith ar ddewis pleidleiswyr, ac i ba raddau y bydd yn cyfrannu at ddemocratiaeth iach yng Nghymru. Rydym o'r farn bod y cysylltiad rhwng pleidleiswyr a'r Aelodau sy'n eu cynrychioli yn hollbwysig, ac na ddylid ei golli drwy'r diwygiadau hyn.

Yn sgil hynny, dyma annog pob plaid wleidyddol yn y Senedd i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y system etholiadol yn y Bil yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ac yn sicrhau bod Aelodau'r dyfodol yn fwy atebol i'w hetholwyr.

Rydym wedi nodi ein safbwyntiau hefyd o ran sut y gellir gwella'r Bil, yn ein barn ni, er mwyn sicrhau bod democratiaeth yng Nghymru yn parhau i fod yn flaengar ac yn iach.



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Argymhellion

Argymhelliad 1. Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ond, drwy gydol eu gwaith craffu parhaus ar y Bil, dylai Aelodau o'r Senedd roi sylw i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiad. Tudalen 42

Argymhelliad 2. Os yw'r Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai Comisiwn y Senedd ysgrifennu atom cyn trafodion Cyfnod 2 i amlinellu beth fyddai'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon ariannol pe bai'r amcangyfrifon wedi'u seilio ar Benderfyniad 2023-24 yn hytrach na Phenderfyniad 202-23. Yna, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymgorffori'r amcangyfrifon hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a osodir ar ôl Cyfnod 2. Tudalen 60

Argymhelliad 3. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai Comisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth am unrhyw ryngweithio rhwng y cynigion ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (os caiff ei basio) a phrosiect swyddfeydd Bae Caerdydd 2032. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau'n effeithio ar gostau posibl prosiect 2032. Os nad yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o'r costau ar hyn o bryd, dylai Comisiwn y Senedd nodi yn ei ymateb pryd y gallai'r wybodaeth fod ar gael. Dylai Comisiwn y Senedd hefyd ymrwymo i roi diweddariadau i'r Senedd, ac i'r cyhoedd, ar y materion hyn. Tudalen 61

Argymhelliad 4. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod y gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso unrhyw broses i ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol o dan adran 25(1A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil). Tudalen 67

Argymhelliad 5. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ddefnyddio'r pŵer yn adran 25(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i bennu mai'r teitlau a ddefnyddir yn Saesneg ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fydd "Speaker" a "Deputy Speaker" yn y drefn honno. Tudalen 68

Argymhelliad 6. Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 5(b) o'r Bil (y pŵer i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru drwy reoliadau). Tudalen 77

Argymhelliad 7. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan uwchfwyafrif o Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd. Tudalen 77

Argymhelliad 8. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer chaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod yn cynnwys darpariaeth machlud ynddynt sydd â'r effaith y daw'r rheoliadau i ben (a bod y terfyn a bennir mewn deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei ailosod) cyn bod y Prif Weinidog a enwebir gan y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol nesaf yn penodi unrhyw Weinidogion Cymru. Tudalen 78

Argymhelliad 9. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â lleihau hyd tymhorau llywodraeth leol ar yr un pryd ag y mae'n lleihau hyd tymhorau'r Senedd. Dylai ymateb yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar y pwynt hwn, a pha fecanweithiau deddfwriaethol y byddai eu hangen i wneud unrhyw newidiadau i hyd tymhorau llywodraeth leol..... Tudalen 93

Argymhelliad 10. Heb oedi, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori ar leihau'r cyfnod o amser rhwng etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned o bum mlynedd i bedair blynedd, gyda golwg ar wneud y newid hwn oni bai bod tystiolaeth gref i'r gwrthwyneb..... Tudalen 93

Argymhelliad 11. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn ymgynghoriad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ymgymryd â gwaith pellach i amcangyfrif goblygiadau cost adran 3 (etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml) ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2..... Tudalen 93

Argymhelliad 12. Dylai Comisiwn y Senedd, fel rhan o'i Raglen i Ddiwygio'r Senedd, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r prosesau ar gyfer ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan y Senedd (neu a arweinir gan Gomisiwn y Senedd) i gyfrif am gylchoedd etholiadol amlach..... Tudalen 94

Argymhelliad 13. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu pa ystyriaeth a roddwyd i hyd y tymhorau ar gyfer penodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r bwriad i newid i dymhorau Senedd pedair blynedd, yn benodol y rhai y mae cytundeb y caiff y Senedd gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar eu cyfer..... Tudalen 94

Argymhelliad 14. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd i ddod i gytundeb ar sut y gellid diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y system etholiadol yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ac yn sicrhau bod Aelodau'r dyfodol yn fwy atebol i'w hetholwyr. Tudalen 127

Argymhelliad 15. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i bapurau pleidleisio gynnwys enwau pob ymgeisydd, gan gynnwys enwau ymgeiswyr sy'n sefyll ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestedig..... Tudalen 128

Argymhelliad 16. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi llenwi'r holl seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau, gan gynnwys seddi gwag sy'n cael eu gadael gan Aelodau a etholwyd fel rhai annibynnol, neu gan Aelodau a etholwyd i gynrychioli pleidiau nad yw eu rhestrau ymgeiswyr yn cynnwys rhagor o ymgeiswyr cymwys neu ymgeiswyr sy'n fodlon gwasanaethu. Tudalen 128

Argymhelliad 17. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, confensiynau neu arferion i liniaru'r effaith ar fusnes y Senedd, gan gynnwys y system bwyllograu, naill ai yn sgil seddi gwag na ellir eu llenwi, neu newidiadau yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Senedd rhwng etholiadau cyffredinol. Tudalen 128

Argymhelliad 18. Yn ei ymateb i'n adroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'n glir pwy fydd yn arwain, yn hyrwyddo ac yn cydlynu gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth lleol a chenedlaethol am y diwygiadau etholiadol, a'r system etholiadol newydd yn benodol..... Tudalen 129

Argymhelliad 19. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi sicrwydd i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth ariannol a'r cymorth a'r adnoddau eraill sydd eu hangen ar gyfer rhoi'r darpariaethau yn y Bil ar waith. Tudalen 129

Argymhelliad 20. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 4(1)(c) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 13 o'r Bil i leihau nifer aelodau (ac eithrio'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ddim mwy na phump..... Tudalen 146

Argymhelliad 21. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol wneud rhagor o waith gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn:

- Sefydlu nifer y comisiynwyr ychwanegol sydd i'w recriwtio (gan gynnwys sgiliau, cyfrifoldebau ac amseriad penodol penodiadau o'r fath).
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amrywiaeth ddaearyddol comisiynwyr.
- Nodi unrhyw ofynion am gymorth ysgrifenyddol ychwanegol.

.....Tudalen 146

Argymhelliad 22. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu ar wyneb y Bil bod rhaid i benodiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i rolau'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd, y comisiynwyr a'r prif weithredwr gael eu cynnal drwy'r broses penodiadau cyhoeddus..... Tudalen 146

Argymhelliad 23. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnwys personau eraill a gyflogir gan Lywodraeth Cymru neu bleidiau gwleidyddol, ac i sicrhau bod mesurau diogelu cadarn tebyg ar waith i atal gweithgarwch gwleidyddol tra byddant yn y swydd.

.....Tudalen 147

Argymhelliad 24. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a yw'r termau "aelod o staff Senedd Cymru" a "person a benodwyd i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau'r Aelod", sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 a gaiff ei hailenwi gan adrannau 14(1)(b), 14(2) ac 16(1)(b)(ii) o'r Bil, yn ddigon clir ac yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall.Tudalen 147

Argymhelliad 25. Fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried modelau priodol o atebolrwydd ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ran ei swyddogaethau mewn perthynas â ffiniau etholaethau'r Senedd, gan gynnwys y defnydd posibl o Bwyllgor y Llywydd. Dylai'r model atebolrwydd a roddir ar waith gynnwys yr opsiwn i un o bwyllgorau

perthnasol y Senedd, os yw'n dymuno gwneud hynny, gynnal gwrandawriad cyn penodi fel rhan o'r prosesau ar gyfer penodi cadeirydd a phrif weithredwr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru..... Tudalen 148

Argymhelliad 26. Os bydd y Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ysgrifennu atom ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i'r cynnig egwyddorion cyffredinol gael ei dderbyn, yn nodi ei farn ar bob un o'r argymhellion ar gyfer newidiadau technegol i Atodlenn 1 a 2 a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig inni. Dylai'r llythyr hwn gynnwys, ar gyfer pob argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, eglurhad a yw'n cytuno â'r Comisiwn bod angen y newid ai peidio, y rhesymau dros ei farn, a chadarnhad ynghylch a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i roi effaith i'r argymhelliad ai peidio.
..... Tudalen 173

Argymhelliad 27. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i ddarparu bod effaith ar y Gymraeg yn un o'r clymau lleol y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hystyried wrth bennu ffiniau etholaethau'r Senedd..... Tudalen 174

Argymhelliad 28. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r amrywiant a ganiateir o ± 10 y cant..... Tudalen 174

Argymhelliad 29. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i ddarparu y dylid cynnwys etholwyr a'r rhai a fydd yn dod i oed wrth gyfrifo'r cwota etholiadol.
..... Tudalen 175

Argymhelliad 30. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49I(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i nodi dyddiad cynharach erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoddi adroddiadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a'u hanfon at Weinidogion Cymru er mwyn osgoi gwrthdaro â'r terfyn amser o 1 Rhagfyr a bennwyd eisoes i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi'r gofrestr etholwyr ddiwygiedig yn dilyn y canfasiad blynyddol..... Tudalen 175

Argymhelliad 31. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49J(1)(b) a (3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r cyfnod y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynddo i roi effaith i argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o chwe mis i bedwar mis..... **Tudalen 176**

Argymhelliad 32. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar enw neu enwau arfaethedig etholaethau'r Senedd (ac unrhyw newidiadau i'r enw neu'r enwau arfaethedig), a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir. **Tudalen 176**

Argymhelliad 33. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu y dylid rhoi enw uniaith ar bob un o etholaethau'r Senedd (oni bai bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o'r farn bod rhesymau penodol pam y mae enwau dwyieithog yn briodol). **Tudalen 176**

Argymhelliad 34. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu mai yn Gymraeg yn unig y caiff enw etholaeth fod os rhoddir enw uniaith iddi. **Tudalen 177**

Argymhelliad 35. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rôl Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau arfaethedig yn gymwys i bob enw etholaeth arfaethedig (neu newidiadau i'r enwau hynny), p'un a yw'r cynigion at ddibenion adnabod etholaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gyfrwng y Saesneg, neu drwy enw uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall. **Tudalen 177**

Argymhelliad 36. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru weithredu unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau arfaethedig. Yn unol â'n Argymhelliad 35, dylai hyn gynnwys orgraff enwau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac unrhyw enwau uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall..... **Tudalen 177**

Argymhelliad 37. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymrwmo i gynnwys gofyniad i ymgeiswyr ddarparu eu cyfeirnod cofrestr etholiadol ar y papurau enwebu a ragnodir yn y gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel rhan o'r adolygiad a'r ymgynghoriad i lywio'r broses o wneud y

gorchymyn, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data i sicrhau y gellir cymryd unrhyw gamau priodol mewn perthynas â'r rhai sy'n gymwys i gofrestru'n ddiennw. Tudalen 189

Argymhelliad 38. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 6 o'r Bil i ddarparu cyfnod gras priodol fel y gall Aelod apelio os caiff ei enw ei ddileu o'r gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru, i'w atal rhag colli ei sedd o ganlyniad i ddileu ei enw ar ddamwain o'r gofrestr. Tudalen 190

Argymhelliad 39. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mecanwaith i ymgeisydd wrth gefn, a fyddai fel arall yn gymwys i gymryd sedd wag sy'n codi yn ystod tymor Senedd, gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Dylai'r mecanwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod rhesymol o amser y byddai'n ofynnol i'r darpar Aelod fodloni'r cymhwystra yn unol ag ef. Tudalen 191

Argymhelliad 40. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau na fydd person y mae ei brif breswylfa y tu allan i Gymru yn bodloni'r gofyniad preswyllo yn adran 6 o'r Bil os yw ei enw ar y gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru oherwydd bod ganddo ail gartref. Tudalen 191

Argymhelliad 41. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adrannau 7 (adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd) a 19 (adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026) o'r Bil ar y sail bod y darpariaethau yn broblematic o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol. Tudalen 206

Argymhelliad 42. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried naill ai cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd i archwilio i ba raddau y dylai personau allu dal y swyddi a restrir yn adran 7(3) o'r Bil ar y cyd, gan gynnwys i ba raddau y dylai person allu dal swydd o'r fath dros dro tra nad yw'r person a etholir neu a benodir i'r swydd honno ar gael, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gwaith perthnasol ymgymryd â gwaith o'r fath. Os bydd un o bwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith o'r fath, dylai'r Pwyllgor Busnes drefnu amser yn y Cyfarfod Llawn er mwyn i'r Senedd drafod y canlyniadau. Tudalen 207

Argymhelliad 43. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad ar weithrediad Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio'r enderfyniadau sydd i'w gwneud gan

Seneddau'r dyfodol a'u pwyllgorau o ran p'un a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol, ac os felly, pryd a sut..... **Tudalen 207**

Argymhelliad 44. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor a sefydlir i gynnal adolygiad o faterion sy'n ymwneud ag adolygu'r Ddeddf ac i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2026)..... **Tudalen 208**

Argymhelliad 45. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41 nac Argymhelliad 44, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 19(2)(b) i ddileu'r gofyniad presennol bod rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd bennu bod gwaith y pwyllgor i'w gwblhau o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2026 a rhoi yn ei le ddarpariaeth y caiff y cynnig gynnwys terfyn amser arfaethedig erbyn pryd y mae rhaid cwblhau adroddiad y pwyllgor..... **Tudalen 209**

Argymhelliad 46. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, os nad yw'n derbyn ein Hargymhelliad 41, gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(a)(ii) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru). **Tudalen 209**

Argymhelliad 47. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fewnosod yn adran 19 ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 7(5) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i'r adroddiad a gyflwynir a'r argymhellion a wneir gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig o dan adran 19(1). **Tudalen 210**

Argymhelliad 48. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i adolygu'r adnoddau a'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru at ddibenion datblygu polisi, ac i ba raddau y mae cymhwysra ar gyfer adnoddau a chyllid o'r fath, a'r modd y cânt eu dyrannu, yn adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig, cefnogaeth etholiadol i'r pleidiau yng Nghymru a'u cynrychiolaeth yn y Senedd. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, y dylid ei gwblhau a'i gyhoeddi mewn digon o bryd i ganiatáu i'r canlyniadau gael eu gweithredu o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026, dylid ystyried lefelau

cyllido, trefniadau llywodraethu, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â
chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd..... Tudalen 215

Argymhelliad 49. Wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn y Bil, dylai Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ystyried unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall y gellid ei darparu drwy ei Benderfyniad. Yn ystod y broses hon, dylai ystyried yn benodol i ba raddau y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r lefel a'r mathau o gymorth sydd ar gael mewn mannau eraill, gan gynnwys Arian Short ac Arian Cranborne yn Senedd y DU. Dylid gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026..... Tudalen 215

Argymhelliad 50. Dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad weithio gyda'r Comisiynydd Safonau, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol. Dylai hyn gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026. Tudalen 220

1. Cyflwyniad

Diwygio'r Senedd

1. Mae pwerau, rolau a chyfrifoldebau'r Senedd, fel y'i gelwir bellach, wedi newid ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), sef enw gwreiddiol y sefydliad, ym 1999, ond mae ei maint wedi aros yr un fath.¹ O ganlyniad, mae dadleuon ynghylch capasiti a maint y Senedd, a'r modd y caiff Aelodau eu hethol, wedi parhau. Mae trosolwg o gerrig milltir allweddol o ran diwygio'r Senedd yn Atodiad 1.

Y Bil

2. Ar 18 Medi 2023, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS ("yr Aelod sy'n gyfrifol") Fil gan Lywodraeth Cymru, sef Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("y Bil") i'r Senedd.² Yr un diwrnod, gosododd Femorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") i gyd-fynd â'r Bil (yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol)³, cyhoeddodd Ddatganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth⁴ a gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig ar y Bil⁵. Ar 19 Medi 2023, gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn.⁶

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil atom ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 19 Ionawr 2024.

¹ Cynyddwyd y terfyn o ran uchafswm maint Llywodraeth Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i 14 (12 o Weinidogion neu Ddirprwy Weinidogion yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), o'r terfyn cyffredinol blaenorol o naw a sefydlwyd gan Reolau Sefydlog y Cynulliad ar y pryd yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

² Mae gwybodaeth am y Bil a'i hynt drwy'r Senedd ar gael ar [dudalen y Bil ar y we](#).

³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023,

⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 18 Medi 2023

⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\)](#), 18 Medi 2023

⁶ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraffau 201-282], 19 Medi 2023

Cylch gorchwyl

4. Ar 20 Medi 2023, gwnaethom gytuno i ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni ei amcanion polisi datganedig.
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.
- A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 a Rhan 3 o'r Memorandwm).
- Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm).
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd deddfwriaeth.
- Unrhyw fater arall yn ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

Ein dull gweithredu

5. Ar 20 Medi 2023, cawsom sesiwn friffio dechnegol breifat ar y Bil gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar i'r Aelod sy'n gyfrifol am hwyluso hyn.

6. Ar 21 Medi 2023, gwnaethom gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig. Er mwyn sicrhau y gallai'r dystiolaeth a gafwyd lywio'r rhan fwyaf o'n sesiynau tystiolaeth lafar, y terfyn amser oedd 3 Tachwedd 2023. Cawsom dros 430 o ymatebion.⁷

⁷ Gellir darllen yr ymatebion ysgrifenedig a gawsom yn llawn ar [dudalen y Bil ar y we](#).

7. Rhwng 5 Hydref a 13 Rhagfyr 2023, gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil a rhanddeiliaid allweddol.⁸

8. Ar 6 Tachwedd 2023, gwnaethom gynnal grŵp ffocws ar-lein gydag Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru. Yn dilyn y sesiwn, cyhoeddwyd crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod y trafodaethau.⁹ At hynny, gwnaethom gyhoeddi'r deunydd briffio a'r cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer y grŵp ffocws, ynghyd â ffurflen y gallai Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru, neu blant a phobl ifanc eraill ei defnyddio i rannu eu barn.¹⁰

9. Rydym wedi gohebu ag amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol ac wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig ategol ganddynt, gan gynnwys pwyllgorau eraill y Senedd, cyn-Gadeiryddion y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ("y Pwyllgor Diben Arbennig"), y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru fel partneriaid y Cytundeb Cydweithio, y Comisiynydd Safonau a Chomisiwn y Senedd.¹¹

10. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu eu barn, eu profiadau, eu tystiolaeth a'u harbenigedd gyda ni. Gwyddom na fydd pawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn cytuno â'n casgliadau a'n hargymhellion. Serch hynny, hoffem sicrhau pawb sydd wedi cymryd rhan yn ein gwaith ein bod wedi ystyried a rhoi sylw i bob cyfraniad yn ofalus wrth inni gynnal ein gwaith craffu, dod i'n casgliadau, a pharatoi'r adroddiad hwn.

Cyfranogiad Jane Dodds AS

11. Er nad yw Jane Dodds AS yn aelod ffurfiol o'r Pwyllgor, mae wedi cymryd rhan lawn yn ein gwaith yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.¹² Mae hyn yn cynnwys datblygu a chytuno ar y casgliadau a'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

12. Yn unol â'u harfer, bu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cynnal gwaith craffu ar y Bil, ar eu priod feysydd diddordeb.

⁸ Mae manylion am y sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys lincs i'r trawsgrifiadau a darllediadau Senedd.tv, ar gael ar dudalen y Bil ar y we ac yn Atodiad 2.

⁹ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd Ieuencid Cymru](#), Tachwedd 2023

¹⁰ [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): barn plant a phobl ifanc](#)

¹¹ Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar dudalen y Bil ar y we.

¹² Mae Rheol Sefydlog 17.49 yn darparu y caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor, ond na chânt bleidleisio.

Mae gwybodaeth am eu gwaith, a'u hadroddiadau, i'w gweld ar dudalen y Bil ar y we.

Biliau diwygio etholiadol eraill

13. Yn anarferol, ochr yn ochr â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dau Fil arall sydd â chysylltiad agos (gweler Blwch 1). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ond trafodir materion sy'n ymwneud â'r ddau Fil arall pan fo hynny'n berthnasol.

Blwch 1 Biliau diwygio etholiadol eraill Llywodraeth Cymru

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

- Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar 2 Hydref 2023. Mae wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at ddibenion gwaith craffu Cyfnod 1, a'r dyddiad cau ar gyfer adrodd yw 26 Ionawr 2024.
- Pe bai'n cael ei basio, byddai Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (ymhlith pethau eraill) yn rhoi swyddogaethau bwrdd rheoli etholiadol i Gymru, a'r rhan fwyaf o swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (a gaiff ei ailenwi'n Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gan Ran 3 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sydd hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodau ychwanegol o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ac addasiadau i drefniadau datgymhwyso a chworwm). Bydd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) hefyd yn gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethiant Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Bydd yn anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, ac yn dileu'r 'cyfnodau gras' presennol ar gyfer prif gynghorwyr a etholir i'r Senedd, ac Aelodau o'r Senedd a etholir i Dŷ'r Cyffredin.

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

- Cyhoeddodd y Prif Weinidog ym mis Mehefin 2023 fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd.¹³ Dywedodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), wrthym ym mis Tachwedd 2023 fod "cwotâu yn rhan

¹³ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 27 Mehefin 2023

bwysig o'r pecyn cyffredinol ar gyfer diwygio'r Senedd ac mae'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd".¹⁴

- Roedd disgwyl i Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gael ei gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2023, ond nododd Llywodraeth Cymru ychydig cyn y dyddiad hwnnw y byddai oedi wrth ei gyflwyno. Yn ystod sesiwn dystiolaeth ar y Cytundeb Cydweithio ar 8 Rhagfyr 2023, dywedodd arweinydd Plaid Cymru wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog fod partneriaid y Cytundeb Cydweithio wedi ymrwmo o hyd i gyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr. Ychwanegodd: "a decision on the precise date on which we would proceed now reflects on the fact that work is continuing to make sure that we move towards being able to deliver what we want to deliver together".¹⁵

¹⁴ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Cymdeithasol, 1 Tachwedd 2023

¹⁵ Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Cofnod y Trafodion [paragraff 201], 8 Rhagfyr 2023

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

Y cefndir

14. Mewn datganiad llafar ar gyflwyno'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil:

"Mae'n rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni a phobl Cymru gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i foderneiddio'r Senedd, gan adlewyrchu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Senedd sy'n fwy effeithiol, sydd â'r gallu a'r cadernid i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; Senedd fwy cynrychioliadol i wasanaethu pobl Cymru yn well".¹⁶

15. Mae'r Bil yn cynnwys cynigion penodol (gweler Blwch 2) i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei diben datganedig:

"[...] diben cyffredinol y Bil yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'r diben hwn yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd yn ei adroddiad, i sicrhau 'senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru'".¹⁷

16. Yn hytrach na chreu deddfwriaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun, mae llawer o'r darpariaethau yn diwygio deddfwriaeth bresennol. Yn fwyaf nodedig, mae'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Blwch 2 Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

Os caiff ei basio, bydd y Bil yn:

- Cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau.
- Lleihau'r cyfnod rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd o bum mlynedd i bedair.
- Cynyddu nifer uchaf y Dirprwy Lywyddion o un i ddau.

¹⁶ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 204], 19 Medi 2023

¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 22

- Cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar faint Llywodraeth Cymru i 17 (yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda phŵer i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 18 neu 19.
- Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ac i Aelodau o'r Senedd, fod yn preswyllo yng Nghymru (drwy anghymhwysu ymgeiswyr ac Aelodau nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd).
- Cynnig mecanwaith i'r Seithfed Senedd ystyried rhannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd¹⁸ yn y Seithfed Senedd gynnig sefydlu pwyllgor yn y Senedd i adolygu materion penodedig).
- Newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau'n cael eu hethol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu troi'n seddi drwy ddefnyddio fformiwla D'Hondt.
- Newid diben Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'i ailenwi; ei alw'n Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau") a rhoi iddo'r swyddogaethau y mae arno eu hangen i sefydlu etholaethau Senedd newydd a chynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd; a rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau eu dilyn wrth gynnal adolygiadau o ffiniau.
- Darparu ar gyfer adolygu gweithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd ar ôl etholiad 2026 (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, ar ôl yr etholiad, gynnig sefydlu pwyllgor yn y Senedd i adolygu materion penodedig).

Egwyddorion cyffredinol y Bil

17. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.10, ein rôl ni yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo i gyfnodau nesaf y broses ddeddfwriaethol.

18. Clywsom wahaniaeth barn am egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd mwyafrif helaeth y rhai a rannodd eu barn bersonol yn gwrthwynebu'r Bil (gweler Blwch 3). Ar y llaw arall, roedd mwyafrif y sefydliadau a'r bobl a oedd yn rhannu eu barn broffesiynol yn gefnogol at ei gilydd i'r egwyddorion cyffredinol (gweler Blwch 4),

¹⁸ Yn yr adroddiad Saesneg, defnyddir y term "Llywydd" wrth gyfeirio at ddeiliad presennol y swydd a "Presiding Officer" neu "PO" wrth gyfeirio at ddarpar ddeiliad y swydd mewn Senedd yn y dyfodol. Defnyddir y term "Llywydd" yn gyffredinol yn Gymraeg.

hyd yn oed os oedd ganddynt bryderon am rai elfennau neu os oeddent am i rai cynigion gael eu mireinio yn ystod y cyfnodau diwygio.

Blwch 3 Enghreifftiau o farn am egwyddorion cyffredinol y Bil a roddwyd gan bobl a gyfrannodd at ein gwaith fel unigolion¹⁹

- Roedd llawer yn anfodlon ar bolisiau a phenderfyniadau eraill Llywodraeth Cymru. Ymhlith yr enghreifftiau a grybwyllwyd yn aml roedd y terfyn cyflymder 20mya a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi prynu Maes Awyr Caerdydd.
- Dywedodd llawer fod gan y Senedd ddigon, neu ormod, o Aelodau eisoes. Nid oedd rhai'n siŵr am y rhesymeg dros unrhyw gynnydd. Roedd eraill yn bendant nad oedd angen cynnydd.
- O ran y pecyn ehangach o ddiwygiadau, nid oedd rhai'n meddwl bod sail resymegol glir iddynt. Roedd eraill yn gryf o'r farn nad oedd angen diwygio'r Senedd. Roedd llawer yn amau a fyddai'r diwygiadau o fudd i bobl a chymunedau yng Nghymru, ac os byddent o fudd, sut. Roedd cyfranwyr yn aml yn dangos diffyg ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru a/neu'r Senedd a'i Haelodau i weithredu er budd pennaf Cymru. Roedd rhai'n meddwl y gallai fod angen diwygio, ond roeddent o'r farn bod yr amseru'n anghywir neu y dylid blaenoriaethu materion eraill.
- Roedd llawer yn poeni am y costau, ac yn cyfeirio at y cyd-destun economaidd anodd a'r argyfwng costau byw. Awgrymodd rhai flaenoriaethau gwario eraill, gan gynnwys iechyd, addysg a thrafnidiaeth.
- Roedd llawer yn teimlo y byddai'r diwygiadau'n niweidiol i ddemocratiaeth. Roedd pryderon am system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig; dywedodd cyfranwyr yn aml y byddai'n lleihau dewis a dylanwad pleidleiswyr dros ganlyniadau etholiadol, ac yn rhoi gormod o bŵer i bleidiau gwleidyddol.
- Dywedodd rhai y dylid cynnal refferendwm ar y cynigion neu ynghylch a ddylai'r Senedd gael ei diddymu. Roedd eraill yn teimlo na ddylai'r cynigion fynd rhagddynt.
- Roedd rhai cyfranwyr yn cefnogi lleihau hyd tymhorau'r Senedd a'r gofyniad i Aelodau breswyllo yng Nghymru.

¹⁹ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen we yr ymgynghoriad](#).

Blwch 4 Enghreifftiau o farn am egwyddorion cyffredinol y Bil a roddwyd gan sefydliadau a phobl a gyfrannodd at ein gwaith yn rhinwedd eu swyddi

- Tynnodd llawer sylw at y newidiadau ym mhwerau a chyfrifoldebau'r Senedd ers 1999, gan nodi na fu newidiadau cyfatebol yng nghapasiti'r Senedd.²⁰ Roedd croeso i'r Bil at ei gilydd fel cyfle i sicrhau bod gan y Senedd ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, gwneud cyfreithiau i Gymru, cytuno ar drethi Cymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.²¹ Cyfeiriodd rhai at ddiogelu at y dyfodol o ran rhagor o ddatganoli.²²
- Pwysleisiodd rhai effaith mwy o gapasiti i graffu; roedd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn credu y byddai hyn yn creu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen gwell a gwerth gwell am arian i bobl Cymru yn y pen draw. Rhybuddiodd mai dim ond pe bai mesurau i wella cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal yn cyd-fynd â'r diwygiadau y byddai'r manteision llawn yn cael eu gwireddu.²³ Roedd eraill yn cysylltu i ba raddau y byddai'r Bil yn sicrhau gwelliannau o ran ansawdd democratiaeth a safonau seneddol â phenderfyniadau ynghylch sut y byddai'n cael ei weithredu.²⁴
- Roedd llawer o'r farn bod diwygio'n gyfle i wella llywodraethiant a llywodraeth. Roedd disgwyl y byddai system etholiadol fwy cyfrannol yn golygu bod y Senedd yn adlewyrchu barn pleidleiswyr yn well, ac y byddai mwy o gapasiti'n golygu y byddai'n haws i'r llywodraeth gyflawni ei mandad.²⁵ Roedd rhai'n canolbwyntio ar y potensial i ehangu cyfranogiad ac ymgysylltiad democrataidd, gwella llywodraethiant, a rhoi mwy o gyfleoedd i ymgeiswyr ag ystod ehangach o gefndiroedd, profiadau a sgiliau.²⁶ Siaradodd eraill am bosibilrwydd rhoi mwy o gyfle i'r Aelodau feithrin arbenigedd a dealltwriaeth o bynciau mwy cymhleth.²⁷
- Cydnabuwyd heriau dod i gytundeb gwleidyddol a chyfaddawdu ar drefniadau etholiadol, ond roedd llawer yn poeni am effaith rhestrau caeedig

²⁰ Er enghraifft, SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

²¹ Er enghraifft, SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

²² SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

²³ SCME(P)10 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴ SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

²⁵ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 9 Tachwedd 2023, SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig), SCME(P)25 Unsain (Saesneg yn unig)

²⁶ SCME(P)25 Unsain (Saesneg yn unig)

²⁷ SCME(P)27 Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig)

ar y cydbwysedd rhwng dewis i bleidleiswyr a phŵer pleidiau gwleidyddol.²⁸ Roedd rhai'n pryderu am erydu'r cysylltiad rhwng Aelodau a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.²⁹

- Roedd cyfranwyr o lywodraeth leol yn poeni am y costau, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau ar arian cyhoeddus.³⁰ Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gellid gohirio'r newidiadau tan 2031.³¹
- Dywedodd llawer fod angen i ddiwygio fod yn rhan o ystyriaethau ehangach am ddemocratiaeth ac ymgysylltu gwleidyddol, a bod angen i gyfathrebu effeithiol a chydgyssylltiedig a gwybodaeth i'r cyhoedd fynd law yn llaw ag ef.³²

Dulliau eraill

19. Roedd ein cylch gorchwyl yn cynnwys ystyried a oes angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion polisi'r Bil.

20. Gwnaethom ofyn i'r Athro Laura McAllister, cyn-Gadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ("y Panel Arbenigol"), pa ddulliau eraill o gynyddu capasiti roedd y Panel Arbenigol wedi'u hystyried cyn argymhell cynyddu'r maint. Dywedodd fod y Panel Arbenigol wedi edrych ar amrywiaeth o opsiynau i wneud iawn am ddiffyg capasiti o ran yr Aelodau, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, newidiadau i'r wythnos waith, strwythur a gweithrediad pwyllgorau, ffyrdd o weithio, ac addasiadau o ran staff Comisiwn y Senedd a staff cymorth yr Aelodau.³³ Fodd bynnag, rhybuddiodd am y risgiau o ran craffu a chynrychiolaeth sy'n gysylltiedig ag opsiynau nad ydynt yn cynyddu capasiti gwleidyddol:

"[...] the evidence that we took in our expert panel, including from the Hansard Society and various other organisations and individuals, made the point quite clearly that the biggest asset to effective scrutiny is the time and the specialisation of politicians. You can compensate for that [...] by having great staff who are doing the

²⁸ Er enghraifft, SCME(P)10 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (Saesneg yn unig)

²⁹ SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

³⁰ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

³¹ SCME(P)29 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

³² SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

³³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 25-26], 26 Hydref 2023

research for you, but at the end of the day, it's you who needs to be in the committee room or challenging budgets and so on".³⁴

21. Dywedodd yr Athro McAllister fod y Panel Arbenigol wedi dod i'r casgliad na allai unrhyw un o'r dulliau eraill fynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfyngiadau o ran capasiti ar Aelodau nad ydynt yn y llywodraeth na sicrhau'r gwaith craffu gwell y gellid ei gyflawni drwy sicrhau bod gan y Senedd ddigon o Aelodau.³⁵

22. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y Senedd eisoes wedi cymryd camau i wneud y mwyaf o gapasiti ei aelodaeth bresennol, gan gynnwys lleihau meintiau pwyllgorau i lefel a oedd yn peri pryder iddo. Tynnodd sylw hefyd at yr ystod o bynciau y mae'n rhaid i Aelodau fod yn gyfarwydd â hwy, gan awgrymu y gall hyn arwain at ddibyniaeth drom ar Ymchwil y Senedd. Ychwanegodd fod llwythi gwaith Aelodau'n cyfyngu ar eu hymgyssylltiad a'u cyfranogiad mewn grwpiau trawsbleidiol, cyrff a ddisgrifiwyd ganddo fel ffordd ardderchog o ddod i gytundeb ar draws pleidiau gwleidyddol gwahanol a ffordd ddefnyddiol o ymgysylltu ag arbenigwyr a rhanddeiliaid yn uniongyrchol.³⁶

23. Yn 2021, cyhoeddodd Fforwm y Cadeiryddion adroddiad annibynnol y comisiynwyd yr Athro Diana Stirbu o Brifysgol Fetropolitan Llundain i'w lunio.³⁷ Gwnaed argymhellion yn yr adroddiad ynghylch strwythurau ac arferion gwaith pwyllgorau'r Senedd, a sut y gellid gwella eu heffaith a'u heffeithiolrwydd. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd yr Athro Stirbu wrthym fod ei hadroddiad yn dangos bod camau y gellid eu cymryd i wella gweithrediad y Senedd a'i phwyllgorau gyda'r nifer presennol o Aelodau. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad a ganlyn:

"[...] increasing the size of the Assembly is absolutely a necessary thing, but it's not sufficient. Actually, my report shows that there's a lot of things around ways of working, around prioritisation, around committee stability, committee membership stability—there are all these other things that are really important to ensure effective scrutiny and effective committee work. But, as you will know, and you'll all appreciate, I think the greatest currency in a parliament, and the greatest currency for effective scrutiny of legislation and of

³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 41], 26 Hydref 2023

³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 25-26], 26 Hydref 2023

³⁶ SCME(P)27 Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig)

³⁷ Stirbu, D., [Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd - Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau](#), Mai 2021

Government, is time, Members' time. And that is what the increase in the size of the Senedd will bring".³⁸

Barn ac agweddau'r cyhoedd

24. Mae'r Memorandwm yn nodi:

[..] nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol diwygio'r Senedd na Bil drafft o fewn yr amserlen a oedd ar gael i ddatblygu'r ddeddfwriaeth.

337. Yn hytrach na hynny, aeth Llywodraeth Cymru ati i:

- *Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol mewn ffordd wedi'i thargedu, i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'u safbwyntiau ar faterion allweddol; ac*
- *Ymgysylltu'n gynnar ac yn fanwl â'r gymuned gweinyddwyr etholiadol, gan sicrhau y byddai pryderon gweinyddol yn gallu cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r ddeddfwriaeth".³⁹*

25. Yn ogystal â'r safbwyntiau a rannwyd gan fwy na 430 o aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'n hymgyngoriad, rydym hefyd wedi myfyrio ar y ddeiseb sydd â mwy na 15,000 o lofnodion o'r enw "Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith".⁴⁰ Nodwn fod y ddeiseb yn tynnu sylw at gostau'r Bil, ac yn awgrymu y gellid gwario'r arian ar faterion eraill, gan gynnwys y GIG, ysgolion a ffyrdd.

26. Tynnodd Dr Jac Larner, Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, sylw at ymchwil ar agweddau'r cyhoedd tuag at gynlluniau i gynyddu nifer yr Aelodau.⁴¹ Roedd yr ymchwilwyr wedi dangos i sampl gynrychioliadol o 2,988 o oedolion o oedran pleidleisio un o bedair dadl dros gynyddu maint y Senedd neu, fel rheolydd, ddim dadl. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau

³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 333], 26 Hydref 2023

³⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 336-337

⁴⁰ [Deiseb: 'Rwy'n gwrthwynebu "Bil Diwygio'r Senedd" Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith'](#) [fel ar 2 Ionawr 2024]

⁴¹ Griffiths, J. D., Wyn Jones, R., Poole, E. G. a Larner, J. M. (2023) ['Making the Case for More Politicians: A Survey Experiment to Investigate Public Attitudes to an Expanded Welsh Parliament'](#), Parliamentary Affairs

roeddent yn cytuno y dylid cynyddu nifer yr Aelodau. Daeth yr ymchwil i'r casgliad a ganlyn:

“A clear plurality of the Welsh electorate opposes increasing the number of Senedd members and none of the arguments seriously challenge this generalised picture of hostility. That said, there are significant differences in attitudes across Welsh society that are worthy of note. Groups most positively inclined to support the development of the Welsh polity are also the most positive about expanding the size of the Senedd. Voters who identify as Welsh, are pro-autonomy, support Plaid Cymru, and skew younger—groups among which there tends to be considerable overlap—support an expanded Senedd.”⁴²

27. Esboniodd Dr Larner fod hyn yn adlewyrchu canfyddiadau rhyngwladol ehangach am amhoblogrwydd cymharol gwleidyddion, a oedd yn golygu:

“[...] it's very difficult to know whether that's something specific about this proposal, or whether that just reflects general levels of, 'Oh, politicians, we don't want any more', sort of feelings.”⁴³

28. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd gan Lywodraeth Cymru gefnogaeth gyhoeddus i'w chynigion. Dywedodd:

“[...] in order to [make the reforms set out in the Bill], there's a need for manifesto commitments to do it; I think there is a majority of Members who belong to parties where those commitments have already been given, and I think, for this type of democratic reform, that is appropriate.”⁴⁴

29. Pan gafodd ei holi a oedd yr ymrwymadau yn y maniffestos yn rhoi digon o fanylion mewn cysylltiad â'r diwygiadau penodol a gynigir yn y Bil, atebodd:

“I think the public support that we seek is for the reform. The precise detail of the mechanics is one that I think you have to work out within

⁴² SCME(P)7 Jac Larner (Saesneg yn unig)

⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 17, ac 20-21], 9 Tachwedd 2023

⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 23], 5 Hydref 2023

*a constitutional structure, and this is what this Bill does—it creates a constitutional structure that delivers, I think, a recognition that there was a need for reform, there was a need to change, a need to increase the size. I think the precise details of it are complicated, ones that have been subject to the special purpose committee and the various recommendations, and so on. Those are taken forward by Government to try and implement the recommendations of that committee, and convert it into legislation that is workable”.*⁴⁵

30. Gwnaethom ofyn hefyd a oedd Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau eraill i asesu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y cynigion yn y Bil. Cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol ni yn ôl at y dystiolaeth a roddodd ynghylch yr ymrwymïadau a wnaed gan Plaid Lafur Cymru, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn eu manifestos yn 2021. Ychwanegodd fod ystyriaeth wedi'i rhoi yn ystod gwaith datblygu'r Bil i ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd gan gyrff eraill, megis y Panel Arbenigol a Chomisiwn y Senedd.⁴⁶ Nodwn nad oedd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnwys y cynigion penodol yn y Bil.

31. Galwodd rhai cyfranwyr unigol i'r cynigion fod yn destun refferendwm. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod ei gynghorwyr yn unfryd y dylai'r cynigion gael eu profi drwy refferendwm yn gyntaf oherwydd y math o gynigion a'u maint, a'r costau sylweddol.⁴⁷

32. Pwysleisiodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad oedd angen cynnal refferendwm ar y pwerau dros faint a threfniadau etholiadol y Senedd, a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2017. Gan gyfeirio at newidiadau diweddar yn nifer etholaethau Senedd y DU a'r system etholiadol ar gyfer ymgeiswyr i fod yn faer yn Lloegr a wnaed heb gynnal refferenda yn eu cylch, ychwanegodd:

*“I don't think a referendum is necessary. And I think putting these things in terms of manifestos and commitments for reform et cetera is actually the way forward. We are an accountable, elected parliamentary democracy, and that's the way our democracy works”.*⁴⁸

⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 5 Hydref 2023

⁴⁶ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁴⁷ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 147], 5 Hydref 2023

Cyfrifoldeb am ddiwygio deddfwriaethol

33. Yn ystod ein gwaith, mae cymhlethdod rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau'r gwahanol randdeiliaid wedi bod yn amlwg (gweler Tabl 1).

Tabl 1 Rolau a chyfrifoldebau o ran diwygio'r Senedd

	Datblygu polisi	Datblygu'r Bil	Gwaith craffu deddfwriaethol	Gweithredu ar gyfer 2026 ac adolygu
Llywodraeth Cymru (yn gweithio gyda Phlaid Cymru fel partneriaid y Cytundeb Cydweithio)	Datblygu cynigion nad ydynt wedi deillio o'r Senedd na'i phwyllgorau. Ar gyfer cynigion sydd wedi deillio o'r Senedd neu ei phwyllgorau, datblygu polisi ymhellach yn ôl yr angen i droi cyfarwyddiadau polisi amlinellol yn gynigion ymarferol.	Datblygu'r Bil a'r dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys y Memorandwm a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.	Yr Aelod sy'n gyfrifol yn unol â Rheol Sefydlog 24.	Gweithredu'r Bil. Arfer pwerau i wneud gorchmynion o dan adran 13 o Ddeddf 2006. Rheoliadau o dan Atodlen 1 i'r Bil. Gweithio gyda phartneriaid i gyfleu'r newidiadau a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.
Y Senedd a'i phwyllgorau	Edrychodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar argymhellion y Panel Arbenigol. Datblygodd y Pwyllgor Diben Arbennig gyfarwyddiadau polisi, a gafodd eu cymeradwyo wedyn gan y Senedd.	Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â hwy fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Craffu ar y Bil. Swyddogaethau'r Pwyllgor Busnes sy'n ymwneud ag amserlennu'r Bil/ei gyfeirio at bwyllgor cyfrifol. Ymgynghorodd pwyllgorau craffu â hwy fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Craffu ar is-ddeddfwriaeth. Penderfyniadau ar strwythurau yn y Seithfed Senedd. Os yw'r Senedd yn derbyn cynigion o dan adrannau 7 a/neu 19, cynnal yr adolygiadau penodedig.

	Datblygu polisi	Datblygu'r Bil	Gwaith craffu deddfwriaethol	Gweithredu ar gyfer 2026 ac adolygu
	Gwnaeth y Pwyllgor Busnes argymhellion ar faterion penodol.			
Y Llywydd	Aelod o'r Pwyllgor Diben Arbennig.	Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â hi fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Swyddogaethau sy'n ymwneud â'r broses ddeddfwriaethol. Ymgynghorodd pwyllgorau craffu â hi fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Ar ôl etholiad 2026, rhaid i'r Llywydd gyflwyno cynigion o dan adrannau 7 a 19 o'r Bil i gynnig sefydlu pwyllgorau.
Comisiwn y Senedd	Sefydlu'r Panel Arbenigol, ac ymgynghori ar ei gasgliadau.	Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ag ef fel rhanddeiliad sylweddol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Ymgynghorodd pwyllgorau craffu ag ef fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno. Sicrhau bod gan y Senedd a'i phwyllgorau yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol.	Gweithredu, gan gynnwys cymorth i gyrff y Senedd. Gweithio gyda phartneriaid i gyfleu'r newidiadau a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.
Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd Taliadau")	Dim.	Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ag ef fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Ymgynghorodd pwyllgorau craffu ag ef fel rhanddeiliad arwyddocaol y mae'r Bil yn effeithio arno.	Penderfynu ar y tâl a'r cymorth ariannol y mae ar yr Aelodau eu hangen.

34. Disgrifiodd y Llywydd y Bil fel un sy'n:

"[...] more [...] unusual in its construct than other more straightforward Government Bills that come via manifesto and programmes of government that a Government would put forward".⁴⁹

35. Can nodi'r gwaith datblygu polisi a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd, a rôl y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, cadarnhaodd fod y Bil, serch hynny, yn Fil Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd nad oedd rhai o'i gynigion yn deillio o waith pwyllgorau'r Senedd, ac nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cynnig a dderbyniwyd gan y Senedd ym mis Mehefin 2022.⁵⁰

36. Ar y llaw arall, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"This is a Bill that I'm bringing forward. It's not a Government Bill; it's the Welsh Government facilitating the ability of a Bill to pass through the Senedd".⁵¹

37. Ar 13 Rhagfyr 2023, pan gafodd ei holi am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio, atebodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Well, it's not the Government that wants to pursue this particular reform—this is a reform that comes from the Senedd itself. My role as Counsel General and the Minister responsible for taking this Bill forward is to convert into legislation the recommendations from the special purpose committee".⁵²

38. Pan ofynnwyd iddo sut y byddai'n ystyried argymhellion neu welliannau, dywedodd:

"Byddai Llywodraeth Cymru yn sicr yn dymuno rhoi ystyriaeth i argymhellion y pwyllgorau wrth ystyried gwelliannau, a bydd yn agored i unrhyw farn, tystiolaeth ac argymhellion y bydd y Pwyllgorau'n eu derbyn neu'n eu gwneud yn ystod y broses graffu.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 26 Hydref 2023

⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 141-142 a 144], 26 Hydref 2023

⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 5 Hydref 2023

⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 13 Rhagfyr 2023

Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi efallai na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno gwelliannau i weithredu argymhellion y pwyllgorau am amryw o resymau. Er enghraifft, bydd angen i'r Llywodraeth ystyried goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol argymhelliad wrth lunio ei hymateb".⁵³

39. Yn yr un modd, pan ofynnwyd iddo am y dull y byddai'n ei fabwysiadu i ymgysylltu â phartneriaid y Cytundeb Cydweithio a phleidiau gwleidyddol eraill i asesu a oedd y Bil yn ennyn cefnogaeth uwchfwafrif, a/neu a allai cynigion eraill ennyn cefnogaeth uwchfwafrif, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Yn ystod gwaith datblygu'r Bil, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru yn rheolaidd â phartneriaid y Cytundeb Cydweithio. Siaradais innau ag Aelodau o bleidiau gwleidyddol eraill ynghylch datblygu'r ddeddfwriaeth. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am y ddeialog adeiladol hon ac rwy'n rhagweld y bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau wrth i'r Senedd graffu ar y ddeddfwriaeth.

Yn yr un modd, rwy'n rhagweld y bydd pob Aelod yn dymuno ystyried a fydd y dulliau amgen sy'n cael eu hystyried ar gyfer argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd, neu welliannau a gyflwynir gan Aelodau unigol, yn galluogi i'r Bil gael ei basio gan uwchfwafrif".⁵⁴

40. Ategodd y Prif Weinidog y pwyntiau hyn mewn gohebiaeth wrth ymateb i gais i roi tystiolaeth lafar, a wrthodwyd ganddo:

"Rydym yn parhau i fod yn hyderus y bydd y cynigion yn y Bil, sydd, i bob pwrpas, yn rhoi effaith i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn ennyn cefnogaeth uwchfwafrif yn y Senedd. Fel y gwyddoch, yn unol â'i gylch gwaith, dim ond argymhellion a oedd yn cael eu cefnogi gan uwchfwafrif y caniatwyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig eu gwneud i'r Senedd.

[...]

Rydym, wrth gwrs, yn agored i ganfyddiadau eich pwyllgor, yn ogystal â'r pwyllgorau eraill sydd wedi bod yn rhan o'r trefniadau craffu ar y Bil. Fel rhan o'i drafodaethau, bydd y Pwyllgor, rwy'n siŵr, yn ystyried a

⁵³ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

⁵⁴ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

oes cynigion eraill a fydd yn golygu bod modd i'r Bil gael ei basio gan uwchfwyafrif.

Rhaid imi fod yn gwbl glir, fodd bynnag, fod y Bil yn cynrychioli pecyn o fesurau sydd wedi'u pwysu a'u mesur yn ofalus. Ni ellir ystyried newid unrhyw un elfen yn y Bil yn annibynnol ar y gweddill, oherwydd bydd newidiadau i un elfen yn newid natur y cynigion o'u hystyried fel un pecyn yn ei gyfanrwydd".⁵⁵

Amserlenni

41. Mae llawer o gyfranwyr wedi codi'r amserlenni tynn, ac wedi tynnu sylw at Egwyddor Gould, sy'n dadlau y dylai'r holl ddeddfwriaeth (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth) fod ar waith o leiaf chwe mis cyn yr etholiad, ac yn gynharach yn ddelfrydol. Fel yr esboniodd y Comisiwn Etholiadol, mae hyn er mwyn darparu eglurder ac amser i ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol gynllunio a pharatoi.⁵⁶ Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Rhydian Thomas, pennaeth swyddfa'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, fod hyn yn golygu bod rhaid i'r holl ddeddfwriaeth fod ar waith erbyn hydref 2025.⁵⁷

42. Rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol drosolwg i ni o'r amserlenni gweithredu arfaethedig (gweler Ffigur 1), gan ddweud ei fod yn hyderus iawn fod yr arbenigedd a'r strwythur yno, ac y bydd hynny'n golygu y gall hyn oll ddigwydd. Ychwanegodd mai'r pwynt allweddol oedd sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r gymuned etholiadol gyfan.⁵⁸


⁵⁵ Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 29 Tachwedd 2023

⁵⁶ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 22 Tachwedd 2023

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 18-19], 13 Rhagfyr 2023

Ffigr 1 Amserlenni diwygio'r Senedd⁵⁹



43. Dywedodd rhai cyfranwyr fod y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r ymwahanu cynyddol o ran y ddeddfwriaeth etholiadol sy'n sail i etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau nas cedwir yn ôl yn golygu bod Egwyddor Gould yn fwy pwysig fyth. Galwodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru am gyn lleied â phosibl o ymwahanu o ran y gyfraith ac ymarfer er mwyn osgoi drysu pleidleiswyr a gwallau gweinyddol, gan ychwanegu bod rhaid datblygu a phrofi cyfraith etholiadol mewn partneriaeth â'r rhai sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ymarferol dros ei gweithredu.⁶⁰ Croesawodd y Comisiwn Etholiadol y cynnig yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ym mis Hydref 2022 ar weinyddu a diwygio etholiadol⁶¹ i gydgrynhoi cyfraith etholiadol ddatganoledig yng Nghymru a gwella ei hygyrchedd.⁶²

⁵⁹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 1 Rhagfyr 2023

⁶⁰ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

⁶¹ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol, Hydref 2022

⁶² SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

44. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd) ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") wedi'i wneud yn wreiddiol yn 2007 a'i ddiwygio wedi hynny gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru cyn i'r pŵer gael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod o faterion, gan gynnwys cynllun y papur pleidleisio, a rheolau ar gyfer cynnal yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol.⁶³ Ychwanegodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai ei adolygu a'i ail-wneud cyn etholiad 2026 yn gyfle gwerthfawr fel rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi cyfraith Cymru a darparu "fframwaith deddfwriaethol hygyrch a dwyieithog".⁶⁴

Ein barn ni

45. Ein rôl ni yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hynny, rydym wedi myfyrio ar y safbwyntiau a rannwyd â ni gan y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sydd wedi llofnodi'r ddeiseb yn gwrthwynebu'r Bil. Rydym hefyd wedi myfyrio ar y corff o dystiolaeth academiaidd a seneddol a ddatblygwyd dros yr 20 mlynedd diwethaf, o Gomisiwn Richard ymlaen. Er ein bod yn deall y pryderon, ac yn parchu safbwyntiau'r rhai sy'n gwrthwynebu'r Bil, mae mwyafrif o blith aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth yn glir fod angen diwygio'r gyfraith i sicrhau bod gan y Senedd ddigon o gapasiti i gyflawni ei swyddogaethau ar ran pobl Cymru. Felly, mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylai'r Senedd bleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 i'w alluogi i fynd rhagddo i gyfnodau diwygio'r broses graffu deddfwriaethol.

46. Os caiff y Bil ei basio gan y Senedd, mae cyfrifoldeb ar yr Aelodau o'r Chweched Senedd a'n holynwyr yn y Seithfed Senedd i sicrhau bod y manteision posibl a'r canlyniadau gwell y gellid eu cyflawni dros bobl a chymunedau Cymru drwy fwy o graffu a chynrychioli, gwaith polisi gwell, deddfwriaeth fwy effeithiol, a gwariant wedi'i dargedu'n fwy effeithlon yn cael eu gwireddu'n ymarferol.

47. Nid yw Darren Millar AS yn cytuno y dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil gan nad yw'n credu bod mandad cyhoeddus na digon o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd i gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd na newid y system etholiadol yn sylweddol. Wrth ddod i'r farn hon, mae wedi ystyried y safbwyntiau y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'u rhannu â'r Pwyllgor, a'r ymchwil academiaidd a wnaed gan Dr Lerner et al a oedd yn awgrymu, hyd yn oed os

⁶³ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 1 Rhagfyr 2023

⁶⁴ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

cyflwynir dadleuon o blaid cynyddu nifer yr Aelodau i'r cyhoedd, fod cefnogaeth y cyhoedd yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Argymhelliad 1. Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ond, drwy gydol eu gwaith craffu parhaus ar y Bil, dylai Aelodau o'r Senedd roi sylw i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiad.

48. Ni ddylid dehongli'r farn fwyafrifol a amlinellir uchod fel cefnogaeth ddiamod i'r holl ddarpariaethau yn y Bil. Fel yr ydym yn ei drafod yn y penodau perthnasol o'r adroddiad hwn, mae elfennau o'r cynigion manwl yr ydym yn credu bod angen rhagor o fyfyrion a diwygio arnynt os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i Gyfnod 1. Ein pryder mwyaf yw'r system a gaiff ei defnyddio i ethol Aelodau, ond mae gennym amheuan hefyd ynghylch materion eraill, gan gynnwys nifer y comisiynwyr ychwanegol y caniateir eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, a'r canlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â chymhwysu'n ymarferol y gofyniad i ymgeiswyr ac Aelodau fod wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru.

49. Er mwyn i'r Bil gael ei basio yng Nghyfnod 4, rydym yn ymwybodol y bydd arno angen cefnogaeth o leiaf 40 Aelod. Ond mae'r un mor bwysig bod rhaid i unrhyw Fil sy'n cael ei basio fod yn gam ymlaen i ddemocratiaeth yng Nghymru. Rydym yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol, a'r holl Aelodau, i ystyried hyn.

50. Heb os, mae hwn yn Fil sy'n gyfansoddiadol arwyddocaol, ond, mewn sawl ffordd, nid yw'n wahanol i unrhyw Fil arall gan Lywodraeth Cymru y mae'r gwaith o'i ddatblygu wedi'i lywio gan ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol y mae'n effeithio arnynt. Er ein bod yn deall y pwysau o ran amser sy'n gysylltiedig â gweithredu diwygiadau ar gyfer 2026, mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru, yn lle cynnal ei hymgyngoriad ei hun, yn dibynnu yn y Memorandwm ar waith ymgynghori a gynhaliwyd gan bwyllgorau'r Senedd neu Gomisiwn y Senedd ar gynigion diwygio cwbl wahanol. Rydym yn derbyn bod rhai o'r polisiau y mae'r Bil yn rhoi effaith iddynt wedi cael eu datblygu, yn rhannol, gan y Senedd neu ei phwyllgorau. Mae gwaith y Senedd a'i phwyllgorau, yn ei dro, wedi ei lywio gan dystiolaeth a barn Llywodraeth Cymru a phartneriaid y Cytundeb Cydweithio. Wrth ddatblygu'r darpariaethau penodol yn y Bil, mae'r Aelod sy'n gyfrifol o reidrwydd wedi gwneud rhagor o waith datblygu polisi i lywio ei ddewisiadau ynghylch sut i roi effaith i gynigion y Pwyllgor Diben Arbennig. Mae hefyd wedi ychwanegu dau faes polisi cwbl newydd at y Bil.

51. Nid ein rôl ni yw craffu ar broses diwygio'r Senedd. Serch hynny, nodwn y gellir yn rhesymol ei disgrifio fel un anarferol. Er enghraifft:

- Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywydd a'r Prif Weinidog i alluogi gweision sifil Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth polisi a deddfwriaethol i Gomisiwn y Senedd ar ddarpariaethau etholfraint yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn beth newydd.⁶⁵ Yn 2020, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd y byddai trefniadau o'r fath yn “anymarferol ac yn anghynladwy ar gyfer meysydd polisi ehangach a/neu gyfnodau amser hirach”, ac mai barn Llywodraeth Cymru oedd y dylai'r “Llywodraeth Cymru bresennol arwain unrhyw waith diwygio yn y dyfodol” i adlewyrchu'r capasiti, yr arbenigedd a'r perthnasoedd â rhanddeiliaid a “darparu dealltwriaeth glir ynghylch atebolrwydd am y polisi yn y Bil”.⁶⁶
- Tan y Pwyllgor Diben Arbennig, nid oedd y Senedd erioed wedi sefydlu pwyllgor o'r blaen at ddiben penodol darparu cyfarwyddiadau polisi i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

52. Mae diwygio senedd drwy ddeddfwriaeth yn anochel yn gymhleth. Mae'n rhaid i'r Senedd, fel senedd aeddfed, gael lle a hyblygrwydd i lywio ac arwain ei dyfodol ei hun. I'r perwyl hwnnw, caiff y Senedd, a'i phwyllgorau, ddewis gwneud gwaith datblygu polisi, gan gynnwys Biliau pwyllgorau. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru, fel y weithrediaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac mae ganddi'r capasiti a'r arbenigedd i wneud hynny. Efallai nad yw cydbwysu rolau a chyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru bob amser yn syml. Gallai fod yn ddefnyddiol, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch sut i fynd i'r afael â diwygio'r Senedd drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol, pe bai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn gwerthuso'r broses a ddilynwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

53. Am y rhesymau a amlinellir uchod, rydym yn anghytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol sydd, dro ar ôl tro, wedi disgrifio'r Bil fel Bil gan y Senedd⁶⁷ neu Fil nad yw'n Fil Llywodraeth⁶⁸. Nid mater dibwys neu semantig yw hwn. Yng nghyd-destun dealltwriaeth dameidiog y cyhoedd o rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, mae

⁶⁵ [Llythyr oddi wrth y Llywydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 2 Ebrill 2019, Atodiad E

⁶⁶ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), 11 Awst 2020

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 178], 18 Hydref 2023

⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 16 a 124], 5 Hydref 2023; y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 114], 11 Hydref 2023

methu â chyfleu'r rolau hyn yn gywir, ar y gorau, yn ddi-fudd, ac, ar y gwaethaf, yn niweidiol o bosibl i ddealltwriaeth pobl o'u democratiaeth. Rydym yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol yn gryf i fod yn glir yn y dyfodol mai Bil Llywodraeth Cymru yw hwn, sy'n destun gwaith craffu gan y Senedd a'i phwyllgorau.

3. Nifer Aelodau'r Senedd

Y cefndir

Y trefniadau presennol

54. Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 2006 rhyngddynt yn darparu bod y Senedd yn cynnwys:

- Un Aelod ar gyfer pob un o etholaethau'r Senedd (y mae eu nifer wedi'i nodi yng Ngorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd)).
- Pedwar Aelod ar gyfer pob un o'r pum rhanbarth etholiadol.

55. Effaith hyn yw Senedd â 60 o Aelodau.

Darpariaeth yn y Bil

56. Mae adran 1 o'r Bil yn diwygio Deddf 2006 i ddarparu y bydd gan y Senedd 16 o etholaethau, a phob un yn ethol chwe Aelod. Effaith hyn yw Senedd â 96 o Aelodau.

Y rhesymeg dros gynyddu nifer yr Aelodau

57. Mae'r Memorandwm yn dweud bod cynyddu nifer yr Aelodau'n "allweddol" er mwyn cyflawni diben y Bil o wneud y Senedd yn fwy effeithiol:

"Mae maint senedd yn cael dylanwad allweddol ar allu ei Haelodau i ddal gweithrediaeth i gyfrif. Mae'n effeithio ar ei gallu i graffu ar bolisiau, deddfwriaeth, gwariant a threthiant ac i'w goruchwylio a'u gwella, er mwyn gwasanaethu ac ymgysylltu â'r bobl mae'n eu cynrychioli".⁶⁹

58. Mae'n ychwanegu y gallai'r nifer presennol arwain at: waith craffu aneffeithiol; cyfyngu ar gapasiti'r Aelodau i arbenigo, hwyluso gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, a chraffu ar fframweithiau cyffredin y DU gyfan, cytundebau rhyngwladol neu

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 26

ddeddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar fuddiannau Cymru; a chyfyngu ar ddatganoli rhagor o bwerau.⁷⁰

59. Wrth amlinellu cyfrifoldebau cynyddol y Senedd mewn meysydd megis trafniadaeth, datblygu economaidd, rheilffyrdd a threthiant, a phwysigrwydd cysylltiadau rhynglywodraethol (gan gynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU), dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y rhesymeg yn ymwneud â:

"[...] the capacity to have the depth of scrutiny that is needed, and for having enough Members who will be able to develop the particular skills, the expertise, the specialisms that are necessary. And I think increasing the size of the Senedd enables that to happen. It doesn't guarantee it happens, but I think, without that increase in size, the ability to fulfil all those new, additional functions to the standard that is required is not going to be possible".⁷¹

60. Nid oedd mwyafrif helaeth yr ymatebion gan unigolion yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig. Roedd eu rhesymau'n amrywio, ond ymhlith y themâu cyffredin roedd y costau; barn pobl fod digon (neu ormod) o Aelodau eisoes; anfodlonrwydd â pholisi Llywodraeth Cymru neu waith craffu'r Senedd; ac ansicrwydd ynghylch sut y byddai unrhyw gynnydd o fudd i bobl a chymunedau ledled Cymru.

61. Roedd mwyafrif y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol yn cefnogi'r cynnydd. Tynnodd rhai sylw at swyddogaethau, pwerau a rolau esblygol y Senedd. Wrth amlinellu'r newidiadau hyn, dywedodd yr Athro Thomas Glyn Watkin ei bod yn syndod braidd nad oedd maint y Senedd eisoes wedi cynyddu. Dywedodd fod yr achos o blaid cynyddu capasiti er mwyn sicrhau gwaith craffu gwybodus ac effeithiol yn ddiymwad, ac ychwanegodd:

"Not to recognise this necessity and act upon it risks condemning Wales' democratic institutions to an inevitably poorer level of performance. [...] To argue that now is not the right time because of other problems facing the nation or because of increased cost misses

⁷⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 36-53

⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 5 Hydref 2023

*the point that these other problems can only be properly addressed and resolved by properly resourced bodies”.*⁷²

62. Tynnodd yr Athro Stirbu sylw at y dystiolaeth a nodwyd mewn adroddiadau eraill, gan gynnwys Comisiwn Richard a'r Panel Arbenigol. Eglurodd fod y dadleuon yn ymwneud â:

*“[...] this mismatch between the capacity to scrutinise, to make legislation, to represent and engage with the people of Wales, and the pace of change that the Assembly, now the Senedd, has had to absorb, especially after 2007 and then 2011”.*⁷³

63. Roedd ei gwaith ymchwil hithau ar effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd yn awgrymu y gallai effaith y ffaith bod y Senedd yn fach ar strwythur a gweithrediad ei phwyllgorau arwain at waith aneffeithiol, er enghraifft o ganlyniad i bwyllgorau bach neu Aelodau (a chadeiryddion) yn eistedd ar sawl pwyllgor. Gan nodi bod y Senedd yn fach o gymharu â safonau rhyngwladol, ychwanegodd:

*“And whilst it has done a great job of overcompensating for this weak political capacity with adapting and adjusting its administrative capacity to support politicians more, I think there’s a great danger there around the scope, the nature and the quality of political democratic deliberation, which should be the essence of this”.*⁷⁴

64. Yn yr un modd, awgrymodd Unsain y byddai Senedd â mwy o gapasiti yn rhoi mwy o gyfle i'r Aelodau arbenigo, yn hwyluso llywodraethu gwell a phrosesau gwneud penderfyniadau gwell, ac yn darparu cronfa gryfach o dalent o ran penodi Gweinidogion Llywodraeth Cymru.⁷⁵ Nododd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (“ERS Cymru”) y cyfrifoldebau cynyddol mewn meysydd datganoledig yn dilyn Brexit, a'r bwriad i leihau nifer yr Aelodau o Senedd y DU ar gyfer Cymru o 40 i 32.⁷⁶

65. Canolbwyntiodd rhai cyfranwyr ar sut y gallai Senedd fwy o faint weithredu er mwyn sicrhau bod mwy o gapasiti yn sicrhau manteision i bobl Cymru. Er ei fod yn cefnogi'r cynnydd, galwodd y Sefydliad Materion Cymreig am fwy o eglurder

⁷² SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig)

⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 328], 26 Hydref 2023

⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 329-331], 26 Hydref 2023

⁷⁵ SCME(P)25 Unsain (Saesneg yn unig)

⁷⁶ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

ynghylch sut y byddai'r capasiti ychwanegol yn cael ei adlewyrchu yn strwythurau'r Senedd a ffyrdd ymarferol o weithio, megis nifer y Cyfarfodydd Llawn a'r diwrnodau eistedd, nifer a strwythur pwyllgorau'r Senedd, cydbwysedd yr amser y mae'r Aelodau'n ei dreulio yn y Senedd ac yn eu hetholaethau, a'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau. Dywedodd wrthym y gallai mwy o eglurder ar y materion hyn wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r achos o blaid diwygio.⁷⁷

96 o Aelodau

66. Yn ei adroddiad yn 2017, argymhellodd y Panel Arbenigol:

"... 80 Aelod fan lleiaf, ac yn ddelfrydol [...] 90 Aelod, i sicrhau bod gan y senedd [...] ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran craffu ar bolisi, deddfwriaeth a chyllid, ac y gall yr Aelodau hefyd gyflawni eu rolau fel cynrychiolwyr, ymgyrchwyr, gwleidyddion, a rolau eraill".⁷⁸

67. Mewn datganiad safbwynt a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 i lywio gwaith y Pwyllgor Diben Arbennig, nododd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd eu barn y dylai fod gan y Senedd 96 o Aelodau.⁷⁹ Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig wedi hynny y dylai fod gan y Senedd 96 o Aelodau, ac y dylid pennu hynny mewn deddfwriaeth sylfaenol.⁸⁰ Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn cydnabod bod hyn y tu allan i'r ystod a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, ond dywedodd fod hyn yn:

"[...] addasiad cymesur, yn sgil yr amrywiaeth eang o newidiadau yn nhirwedd wleidyddol Cymru, ers i'r Panel Arbenigol adrodd. Credwn hefyd y bydd cynyddu capasiti'r Senedd i 96 yn diogelu at y dyfodol ac yn lliniaru yn erbyn cyfyngiadau o ran capasiti'r Senedd yn cwtogi ar ddadleuon ynghylch datganoli pwerau'n briodol".⁸¹

⁷⁷ SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

⁷⁸ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, argymhelliad 1

⁷⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Ffordd ymlaen ar gyfer diwygio'r Senedd](#), 10 Mai 2022

⁸⁰ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhellion 2 a 3

⁸¹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, paragraff 30

68. Mae'r Memorandwm yn nodi bod cynigion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliadau'r Pwyllgor Diben Arbennig:

- Y dylid paru'r 32 o etholaethau Senedd y DU i greu 16 o etholaethau'r Senedd i'w defnyddio'n sail ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026.
- Y dylai holl etholaethau'r Senedd ethol yr un nifer o Aelodau.
- Y byddai'n well pe bai etholaethau â maint ardal o ddim mwy na chwech.⁸²

69. Gyda'i gilydd, mae'r uchod yn awgrymu naill ai Senedd ag 80 Aelod (maint ardal o bump), neu Senedd â 96 o Aelodau (maint ardal o chwech).

70. Disgrifiodd Cyngor Sir y Fflint y cyfiawnhad dros gynyddu nifer yr Aelodau fel un gwan, yn enwedig y cynnig ar gyfer maint y tu allan i ystod y Panel Arbenigol. Ni chafodd ei gynghorwyr eu darbwylo gan gymariaethau â Senedd yr Alban, y mae ganddi bwerau gwahanol ac sy'n cynrychioli poblogaeth fwy. Ychwanegodd, pe bai angen lluosrif o 16, y dylai fod gan y Senedd 80 Aelod.⁸³

71. Fodd bynnag, ymhlith y cyfranwyr at ein gwaith a oedd yn cefnogi cynyddu nifer yr Aelodau, roedd y mwyafrif yn gyfforddus â 96.⁸⁴

72. Dywedodd yr Athro McAllister y gellid cyfiawnhau 96 o Aelodau oherwydd yr angen i ymateb i amgylchiadau sy'n newid (gan gynnwys Brexit), a manteision diogelu'r Senedd (a Llywodraeth Cymru) at y dyfodol o ran datganoli unrhyw bwerau pellach. Fodd bynnag, nododd fod rhaid cydbwysu manteision cynyddu'r capasiti yn erbyn y costau.⁸⁵ Dywedodd yr Athro Alan Renwick, cyn-aelod o'r Panel Arbenigol, y byddai Senedd â rhwng 80 a 90 o Aelodau yn dal i wynebu rhai cyfyngiadau ar faint ac aelodaeth pwyllgorau. Eglurodd, er bod y Panel Arbenigol wedi dod i'r casgliad yn 2017 fod y cydbwysedd rhwng buddion capasiti a'r costau ariannol yn dod yn fwy anodd eu cyfiawnhau uwchlaw 90, fod yr amgylchiadau wedi newid:

⁸² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 216

⁸³ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

⁸⁴ SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig)

⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 5 ac 11-12], 26 Hydref 2023

"[...] Brexit in particular has happened and brings additional changes, and the desirability of futureproofing is considerable. So, I would be quite comfortable with 96 as a number at this stage".⁸⁶

73. Yn 2013, argymhellodd ERS Cymru gynnydd i tua 100 Aelod, yn seiliedig ar ei dadansoddiad o ddeddfwrfeydd tebyg ledled Ewrop. Disgrifiodd Jess Blair, Cyfarwyddwr ERS Cymru, 96 fel ffigur sydd fwy na thebyg yn iawn.⁸⁷ Roedd y Llywydd yn cytuno y byddai gan Senedd â 96 o Aelodau fwy o gapasiti a hyblygrwydd.⁸⁸

74. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol, pe bai maint y Senedd yn cael ei gynyddu i 96, a fyddai angen ailedrych ar hyn eto yn y dyfodol. Dywedodd:

"Not in my lifetime, I hope. I think the figure of 96 is one that you want to futureproof; you do not want these sorts of discussions or need necessarily to have the sort of discussions and reforms on an ongoing basis. [...] As I see this, this is something that sees us through for the next 30, 40, 50 years. That's how I would see it—that what we're doing now is basically creating a model that will carry us through the twenty-first century".⁸⁹

Y goblygiadau ariannol

Crynodeb o'r costau amcangyfrifedig i Comisiwn y Senedd

75. Tynnodd llawer o'r cyfranwyr sylw at y costau. Fel y mae'n ei wneud ar gyfer pob Bil, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu'n benodol ar y goblygiadau ariannol. Rydym ninnau hefyd wedi ystyried y materion hyn drwy gydol ein gwaith.

76. Comisiwn y Senedd fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â chynyddu nifer yr Aelodau. Mae'r amcangyfrifon a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o reidrwydd, yn seiliedig ar dybiaethau, ond disgrifiodd y Llywydd hwy fel y costau mwyaf cywir a chadarn y gallent fod wedi'u darparu ar y pryd.⁹⁰ Yn yr un modd, cadarnhaodd Will Whiteley, Dirprwy Cyfarwyddwr Diwygio'r Senedd yn Llywodraeth Cymru, fod y Prif Weinidog, mewn cytundeb â'r

⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 14-16], 26 Hydref 2023

⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 278 a 280], 9 Tachwedd 2023

⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 217], 26 Hydref 2023

⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 81], 5 Hydref 2023

⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 155], 26 Hydref 2023

Llywydd, yn fodlon mai'r amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oedd yr amcangyfrifon gorau.⁹¹

77. Eglurodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, fod yr amcangyfrifon wedi'u paratoi ar sail tybiaethau cyffredin a ddatblygwyd gan Gomisiwn y Senedd ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau a'r Pwyllgor Busnes (gweler Blwch 5). Roedd y tybiaethau wedi llywio gwaith cynllunio ar lefel gwasanaeth Comisiwn y Senedd. Craffwyd ar yr amcangyfrifon yn unol â strwythurau llywodraethu mewnol Comisiwn y Senedd, a chanlyniad hynny oedd bod y Bwrdd Gweithredol wedi ei fodloni bod yr amcangyfrifon hynny o'r costau wedi'u modelu'n gywir ac nad oedd unrhyw fylchau na dyblygu, a'i fod wedi cyflwyno'r ffigurau hynny i'r Comisiwn. Ar ôl i Gomisiwn y Senedd gytuno arnynt, anfonwyd yr amcangyfrifon o'r costau at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Dilynwyd hyn gan gyfnod o ddeialog i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn deall y ffigurau.⁹² Yn ystod y cyfnod hwn, ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaed dau addasiad allweddol i adlewyrchu:

- Cynnig Llywodraeth Cymru y dylid lleihau'r amser rhwng etholiadau i bedair blynedd.
- Y fethodoleg a ffefrir gan Lywodraeth Cymru o amcangyfrif costau staff yn seiliedig ar gyfartaledd y raddfa gyflog berthnasol yn hytrach na'r pwynt uchaf.⁹³

Blwch 5 Tybiaethau cyffredin Comisiwn y Senedd

Mae Atodiad 5 i'r Memorandwm yn amlinellu tybiaethau cyffredin Comisiwn y Senedd a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau, at ddibenion amcangyfrif y goblygiadau ariannol. Mae hefyd yn rhoi rhagor o fanylion am y fethodoleg, gan gynnwys tybio y **cedwir unrhyw gynnydd yn nifer staff Comisiwn y Senedd mor isel â phosibl**, ac o fewn unrhyw 'gap' y cytunwyd arno yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Comisiwn. Mae'n nodi y bydd hyn yn **"golygu bod angen adolygu lefelau gwasanaeth"**.

Tybiaethau deddfwriaethol

- Y bydd y diwygiadau'n dod i rym ar gyfer y **Seithfed Senedd** (a etholir ym mis Mai 2026).

⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 194], 5 Hydref 2023

⁹² Cofnod y Trafodion [paragraffau 152-153], 26 Hydref 2023

⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 150], 26 Hydref 2023

- Bod **pwerau'r Senedd yn parhau fel ag yr oeddent** pan wnaed yr amcangyfrifon.
- Y bydd **96 o Aelodau, pob un wedi'i ethol ar yr un sail i gynrychioli 16 o etholaethau amlaelod.**

Tybiaethau busnes (newid lleiaf neu newid mwyaf)

- Mae'r **senario newid lleiaf** yn tybio y bydd y Senedd: yn cynnwys hyd at **bedwar grŵp plaid**; yn sefydlu **un pwyllgor ychwanegol** (o'i gymharu â nifer y pwyllgorau a sefydlwyd gan y Chweched Senedd ar yr adeg y gwnaed yr amcangyfrifon); yn cwrdd mewn **Cyfarfod Llawn am gyfnod tebyg o amser ag** yn ystod y Chweched Senedd; yn eistedd am **nifer tebyg o wythnosau**; yn hwyluso cyflwyno **nifer tebyg o Filiau Aelodau**; heb ddim mwy na **12 o Weinidogion Llywodraeth Cymru** yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol; ac yn ethol dim mwy nag **un Dirprwy Lywydd**.
- Mae'r **senario newid mwyaf** yn tybio y bydd y Senedd: yn cynnwys hyd at **bum grŵp plaid**; yn sefydlu **tri phwyllgor ychwanegol**; yn cwrdd mewn **Cyfarfod Llawn am ddiwrnod ychwanegol yr wythnos**; yn eistedd am **wythnos ychwanegol**; yn hwyluso cyflwyno **cynnydd cyfrannol yn nifer y Biliau Aelodau**; heb ddim mwy na **17 o Weinidogion Llywodraeth Cymru** yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol; ac yn ethol **dau Ddirprwy Lywydd**.

78. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y costau i Gomisiwn y Senedd dros gyfnod o wyth mlynedd: 2024-25 i 2031-32.

Tabl 2 Amcangyfrif o'r costau cyffredinol i Gomisiwn y Senedd rhwng 2024-25 a 2031-32⁹⁴

	Senario newid lleiaf	Senario newid mwyaf
Amcangyfrif o'r costau parhaus (yn cynnwys staff ychwanegol Comisiwn y Senedd, costau deiliaid swyddi, a chostau sy'n gysylltiedig â chyflogau'r Aelodau a staff cymorth yr Aelodau a lwfansau eraill)	£82,196,900	£100,017,500
Amcangyfrif o'r costau pontio (yn cynnwys ehangu'r Siambr, creu swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Hywel, a chostau staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil)	£5,787,300	£5,986,800

79. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, er mwyn cefnogi'r Aelodau ychwanegol, y bydd angen i staffio Comisiwn y Senedd gynyddu. Mae'r cynnydd a amcangyfrifir yn llai na chymesur â'r cynnydd yn nifer yr Aelodau.⁹⁵

Tabl 3 Amcangyfrif o'r cynnydd yn nifer staff Comisiwn y Senedd o gymharu â 522 o staff yn 2023-24⁹⁶

	Senario newid lleiaf	Senario newid mwyaf
Amcangyfrif o'r cynnydd yn nifer y staff	78.1 cyfwerth ag amser llawn	113.0 cyfwerth ag amser llawn
Newid canrannol o gymharu â 522 o staff yn 2023-24	14.96 y cant	21.65 y cant
Newid canrannol yng nghyfanswm nifer yr Aelodau o 60 i 96	60.00 y cant	60.00 y cant

80. Mae'r costau nad ydynt yn gostau staff a amcangyfrifwyd gan Gomisiwn y Senedd yn cynnwys:

- Costau llety, gan gynnwys gwaith i adnewyddu Tŷ Hywel ac ehangu'r Siambr. Mae hyn yn cynnwys costau pensaernïol a dylunio.

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, dadansoddiad Ymchwil y Senedd o Dabl 8.7

⁹⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 473-476

⁹⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 474

- Costau cyfalaf eraill, gan gynnwys pecynnau dehongli symudol ac arbenigol ar gyfer cyfarfodydd grŵp a chlustffonau; caledwedd ar gyfer yr Aelodau, staff cymorth a swyddfeydd; a chostau adnewyddu/newid TGCh.
- Costau refeniw, gan gynnwys gwasanaethau wedi'u contractio'n allanol ar gyfer yr Aelodau (fel gwasanaeth cyfieithu yn yr etholaethau), trwyddedau TGCh, diogelwch ac, yn y senario newid mwyaf, Senedd leuenctid Cymru. O dan y senario newid mwyaf, mae hefyd yn cynnwys costau cyfleustodau uwch ar gyfer gwresogi, oeri a goleuo yn ystod busnes ychwanegol y Senedd.
- Costau etholiadau, gan gynnwys talu grantiau ymaddasu i'r Aelodau cymwys, a chostau sy'n deillio o waith megis prynu pecynnau TGCh ac adnewyddu ardaloedd yr Aelodau o'r ystad.⁹⁷

Tabl 4 Amcangyfrif o'r costau nad ydynt yn gostau staff i Gomisiwn y Senedd rhwng 2024-25 a 2031-32⁹⁸

		Senario newid lleiaf	Senario newid mwyaf
Costau llety	Parhaus	£0	£0
	Pontio	£1,880,000	£1,880,000
Costau cyfalaf eraill	Parhaus	£335,100	£413,100
	Pontio	£1,369,900	£1,426,900
Costau refeniw	Parhaus	£3,193,100	£6,790,400
	Pontio	£38,800	£78,700
Costau etholiadau	Parhaus	£1,800,000	£1,800,000
	Pontio	£0	£0

81. Mae'r costau a amcangyfrifwyd gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â chyflogau a lwfansau i'r Aelodau a'u staff cymorth wedi'u cyfrifo ar sail Penderfyniad 2022-23 (Tabl 5).

⁹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 477-486

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, dadansoddiad Ymchwil y Senedd o Dabl 8.3

82. Disgrifiodd Dr Elizabeth Haywood, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau, hyn fel llinell sylfaen synhwyrol i weithio ohoni, gan ddisgrifio'r dull gweithredu fel y ffordd symlaf a mwyaf tryloyw, yn ôl pob tebyg, o bennu costau posibl ar gyfer Senedd yn y dyfodol. Roedd yn cydnabod y gallai effaith chwyddiant a newidiadau mewn patrymau gwaith effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon, ond dywedodd ei bod yn bosibl y gallai costau mewn rhai meysydd ostwng o ganlyniad i fwy o weithio hybrid neu newidiadau mewn arferion gwaith.⁹⁹ Cadarnhaodd Clerc y Bwrdd Taliadau, Daniel Hurford, fod yr amcangyfrifon o'r costau'n seiliedig ar dybiaethau y byddai'r holl Aelodau ychwanegol yn hawlio'r uchafswm a oedd ar gael drwy'r Penderfyniad, er bod profiad blaenorol yn awgrymu mai anaml yr oedd hynny'n digwydd yn ymarferol.¹⁰⁰

Tabl 5 Amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff cymorth yr Aelodau a lwfansau cysylltiedig, rhwng 2024-25 a 2031-32¹⁰¹

	Senario newid lleiaf	Senario newid mwyaf
Cyflogau'r Aelodau	£19,502,400	£19,502,400
Cyflogau staff cymorth yr Aelodau	£29,336,400	£29,336,400
Dirprwy Lywydd ychwanegol	£0	£172,200
Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru	£0	£1,505,400
Cadeiryddion pwyllgorau	£103,200	£310,200
Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol	£103,200	£207,000
Aelodau'r Pwyllgor Busnes	£66,000	£132,600
Lwfansau a chostau swyddfa'r Aelodau	£5,204,400	£5,204,400
Llety preswyl	£1,600,800	£1,600,800
Costau teithio'r Aelodau	£900,000	£900,000
Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol	£3,777,000	£3,777,000
Cyfanswm	£60,593,400	£62,648,400

83. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi "costau suddedig" o £515,000 ar gyfer Comisiwn y Senedd (sy'n ymwneud â chostau staff, gwaith

⁹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 30 Tachwedd 2023

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 52-53], 30 Tachwedd 2023

¹⁰¹ Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, dadansoddiad Ymchwil y Senedd o Dablau 8.4 ac 8.5

paratoi swyddfeydd ac adeiladau a rhai costau cyfalaf), a £2.2 miliwn i Lywodraeth Cymru (sy'n ymwneud â pharatoi a chyflawni'r ddeddfwriaeth). Mae'n egluro bod y costau hyn eisoes wedi digwydd, neu y disgwylir iddynt ddigwydd cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, ac na fydd modd eu hadennill os bydd y Bil yn methu.¹⁰²

Sicrwydd am y costau amcangyfrifedig

84. Wrth fyfyrio ar y gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon hyn a'r amcangyfrifon ariannol cynnar a ddarparwyd i'r Panel Arbenigol (mewn atodiad i'w adroddiad yn 2017), tynnodd y Llywydd sylw at raddfa'r newid dros y chwe blynedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau sylweddol mewn patrymau a threfniadau gwaith o ganlyniad i bandemig COVID-19, a phenderfyniad y Senedd wedi hynny i barhau â gweithio hybrid.¹⁰³ Mewn gohebiaeth, nododd fod y Panel Arbenigol wedi disgrifio'r amcangyfrifon a ddarparwyd iddo fel "dangosyddion o faint y gost yn hytrach na rhagfynegiadau manwl gywir". Mewn cymhariaeth, dywedodd fod yr amcangyfrifon a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar gynigion deddfwriaethol penodol a "thybiaethau sylfaenol manylach" wedi'u llywio gan newidiadau ers 2017. Rhoddodd swyddfeydd Tŷ Hywel fel enghraifft. Roedd yr amcangyfrifon a ddarparwyd i'r Panel Arbenigol yn tybio y byddai staff Comisiwn y Senedd yn cael eu hadleoli er mwyn i Dŷ Hywel gael ei addasu ar gyfer yr Aelodau a'u staff. Ar y llaw arall, mae'r amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu patrymau gwaith ar ôl y pandemig, sy'n golygu nad oes angen adleoli staff bellach.¹⁰⁴ Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth lafar a roddwyd gan y Llywydd, sef er bod yr amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynrychioli'r costau gorau ar y pryd, mewn Senedd ddeinamig bydd gweithgarwch a ffyrdd o weithio bob amser yn agored i newid.¹⁰⁵

85. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd y Llywydd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith o fewn Comisiwn y Senedd i gefnogi paratodau ar gyfer gweithredu'r Bil pe bai'n cael y Cydsyniad Brenhinol.¹⁰⁶ Eglurodd Alun Davidson, Clerc Newid Cyfansoddiadol a Strategaeth Busnes Seneddol yr ymgynghorir â'r Aelodau fel rhan o'r broses hon er mwyn llywio'r gwaith cynllunio

¹⁰² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 456

¹⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 26 Hydref 2023

¹⁰⁴ [Llythyr oddi wrth y Llywydd](#), 1 Rhagfyr 2023

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 155], 26 Hydref 2023

¹⁰⁶ SCME(P)2 Y Llywydd

mewn perthynas ag ailgyflunio a defnyddio'r ystad. Eglurodd y byddai adborth yr Aelodau yn cael ei adlewyrchu yn y penderfyniadau a'r cynlluniau terfynol.¹⁰⁷

86. Eglurodd y Llywydd, er bod yr amcangyfrifon yn gadarn, y byddai cynlluniau gwariant manylach o reidrwydd yn cael eu paratoi fel rhan o gylchoedd y gyllideb flynyddol. Gallai penderfyniadau penodol a wneir gan y Seithfed Senedd ynghylch ei strwythurau a'r ffordd y mae'n gweithredu olygu bod y gwariant gwirioneddol yn wahanol i'r amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cadarnhaodd y byddai Comisiwn y Senedd yn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu mor ddarbodus ac mor ddoeth ag sy'n bosibl o ran cyllid cyhoeddus.¹⁰⁸ Ychwanegodd Manon Antoniazzi y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn ystod cylchoedd y gyllideb flynyddol i chwyddiant, ac unrhyw eglurder sy'n dod i'r amlwg ynghylch busnes y Senedd neu waith dylunio manwl. Pwysleisiodd y byddai Comisiwn y Senedd, drwy gydol cyfnod gweithredu'r Bil, yn chwilio'n ddygn am arbedion drwy ffyrdd o weithio.¹⁰⁹

Mantoli'r costau a'r manteision

87. Rydym wedi ystyried a yw'r costau'n gymesur â'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o gynyddu capasiti'r ddeddfwrfa.

88. Dywedodd yr Athro Renwick, er ei bod yn bwysig ystyried y costau'n ofalus:

"[...] when we're thinking about the merits of a larger Senedd, it seems to me, in the grand scheme of things, these are fairly small sums of money, and the benefits of a well-functioning legislature are very, very considerable. So, it's absolutely right to be careful about the costs, but I'm just wary of placing too much emphasis on those when we're looking at the Bill as a whole".¹¹⁰

89. Awgrymodd yr Athro McAllister y dylid canolbwyntio ar sicrhau bod y strwythurau cymorth cywir ar waith i adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr Aelodau. Nododd fod penderfyniadau ynghylch staffio Comisiwn y Senedd a'r adnoddau sydd ar gael i'r Aelodau drwy'r Penderfyniad i benodi eu staff cymorth eu hunain wedi eu gwneud yn rhannol i wneud iawn am y cyfyngiadau amser a chapasiti a oedd ar yr Aelodau. Fodd bynnag, pwysleisiodd ei bod yn debygol, ar ôl mynd dros y trothwy o 90 o Aelodau, y bydd angen ailedrych ar yr adnoddau staffio a roddir

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 163], 26 Hydref 2023

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 147-148], 26 Hydref 2023

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 26 Hydref 2023

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 26 Hydref 2023

i'r Aelodau, a rhybuddiodd rhag glastwreiddio manteision cael mwy o wleidyddion drwy gael cyflenwad staff trwm.¹¹¹

90. Amlinellodd Dr Haywood waith y Bwrdd Taliadau ar adolygu rolau, graddau a thâl staff cymorth yr Aelodau.¹¹² Eglurodd Daniel Hurford y byddai hynny'n cynnwys ymgysylltu â'r Aelodau presennol a'u staff cymorth yn ogystal ag ystyried beth fyddai'n briodol mewn Senedd fwy.¹¹³

91. Rhybuddiodd Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol ("Undeb PCS"), un o'r undebau llafur sy'n cynrychioli staff Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru, y gallai cyllid annigonol ar gyfer Comisiwn y Senedd gyfyngu ar y graddau y byddai'r amcan cyffredinol o gynyddu capasiti'r Senedd—i'w gwneud yn ddeddfwrfa fwy effeithiol—yn cael ei gyflawni'n ymarferol. Mynegodd bryderon yn benodol ynghylch y canlynol:

- Tybiaethau am barhad patrymau gweithio hybrid. Galwodd am ragor o fanylion ynghylch sut y byddai ystad y Senedd yn cael ei haddasu i ddarparu ar gyfer yr Aelodau, gofod digwyddiadau a staff Comisiwn y Senedd, a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'r ystad.
- Cyfyngiadau ar nifer staff Comisiwn y Senedd, a allai effeithio ar y graddau y byddai'r Aelodau a'r pwyllgorau yn gallu defnyddio'u capasiti a'u hyblygrwydd ychwanegol.
- I ba raddau yr adlewyrchwyd unrhyw ofynion ychwanegol o ran staff Llywodraeth Cymru yn yr amcangyfrifon.
- I ba raddau yr oedd gwaith paratoi a'r gwaith sydd ei angen er mwyn gweithredu'r Bil wedi'i adlewyrchu mewn penderfyniadau ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25.
- A ellid colli cyfle i fuddsoddi mewn cymunedau ledled Cymru a sicrhau arbedion drwy sefydlu 16 o ganolfannau rhanbarthol lle y gallai'r Aelodau sefydlu eu swyddfeydd etholaethol a lle y gallai staff y Comisiwn weithio.¹¹⁴

¹¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 21-22 a 41], 26 Hydref 2023

¹¹² Cofnod y Trafodion [paragraffau 41-42], 30 Tachwedd 2023

¹¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 44], 30 Tachwedd 2023

¹¹⁴ SCME(P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig)

92. Gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Taliadau a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu hybiau etholaethol. Dywedodd Dr Haywood ei bod ar ddeall nad oedd Comisiwn y Senedd yn mynd ar drywydd hyn oherwydd negyddiaeth ddifrifol yn ei gylch gan yr Aelodau.¹¹⁵ Cadarnhaodd Comisiwn y Senedd nad oedd bwriad i ystyried hyn ymhellach, yn dilyn adborth gan yr Aelodau.¹¹⁶

Ein barn ni

93. Mae a oes gan y Senedd nifer yr Aelodau sydd ei angen arni yn gwestiwn sydd wedi'i drafod droeon dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Fel y rheini sydd eisoes wedi trafod y mater hwn, clywsom dystiolaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig â maint y Senedd ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd y gellid eu colli i wella canlyniadau i bobl a chymunedau ledled Cymru pe na chynyddid capasiti'r Senedd i graffu a chynrychioli.

94. Ymhlith yr holl gyfranwyr at ein gwaith, hyd yn oed y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnydd, un o'r materion a godwyd amlaf oedd y gost. Rydym yn deall yr heriau o ran amcangyfrif goblygiadau ariannol unrhyw ddeddfwriaeth. Gallai'r costau gwirioneddol amrywio'n sylweddol o ganlyniad i benderfyniadau a wneir gan Seneddau nad ydynt wedi'u hethol eto, Llywodraethau Cymru nad ydynt wedi'u ffurfio eto, ac Aelodau nad ydynt efallai hyd yn oed wedi ystyried cynnig eu henwau fel ymgeiswyr eto. Rydym yn cydnabod pa mor anodd oedd y gwaith a wnaed gan Gomisiwn y Senedd, ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau, i ddarparu amcangyfrifon i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn ddiolchgar am y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i lywio ein gwaith craffu. Mae mwyafrif yr Aelodau'n fodlon at ei gilydd fod yr amcangyfrifon yn rhoi syniad rhesymol o'r costau posibl. Mae Darren Millar AS o'r farn bod y costau i Gomisiwn y Senedd wedi'u tanamcangyfrif. Fel Pwyllgor, nid ydym wedi ein darbwylllo mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd defnyddio Penderfyniad 2022-23 yn sail ar gyfer amcangyfrif y costau o ran cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Cyhoeddwyd Penderfyniad 2023-24 ym mis Mawrth 2023¹¹⁷, ac yn ein barn ni, byddai wedi bod yn sail well ar gyfer yr amcangyfrifon.¹¹⁸

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 30 Tachwedd 2023

¹¹⁶ Llythyr oddi wrth Comisiwn y Senedd, 14 Rhagfyr 2023

¹¹⁷ Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, 2023-24, Mawrth 2023

¹¹⁸ Nodwn fod Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2023-24 (Rhif 2) wedi ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023 i wneud darpariaeth ar gyfer taliadau costau byw untro i staff cymorth yr Aelodau a chodiad dros dro i staff cymorth yr Aelodau sy'n cael eu talu leiaf er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Argymhelliad 2. Os yw'r Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai Comisiwn y Senedd ysgrifennu atom cyn trafodion Cyfnod 2 i amlinellu beth fyddai'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon ariannol pe bai'r amcangyfrifon wedi'u seilio ar Benderfyniad 2023-24 yn hytrach na Phenderfyniad 2022-23. Yna, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymgorffori'r amcangyfrifon hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a osodir ar ôl Cyfnod 2.

95. Mae hefyd yn heriol mesur y manteision a allai ddeillio o well effeithiolrwydd y Senedd a ddisgwylir o ganlyniad i gynyddu nifer yr Aelodau. Mae'n anodd pwysu a mesur effaith gwaith craffu, yn enwedig oherwydd y gall yr effeithiau hynny fod yn rhagataliol; gall gorfod wynebu craffu cadarn ddylanwadu ar y ffordd y mae Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau ynghylch polisi, deddfwriaeth neu wariant. Nodwn fod yr Athro Stirbu wedi llunio adroddiad i Gomisiwn y Senedd yn trafod effaith ac effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd. Os ydym am weld dealltwriaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid o rôl y Senedd, ac o'r rhesymeg dros y diwygiadau yn y Bil, yn gwella, rhaid i'r Senedd, ei phwyllgorau a'i Haelodau barhau i ddod o hyd i ffyrdd o ddeall, mesur a chyfleu effaith eu gwaith craffu a chynrychioli, boed hynny drwy roi argymhellion yr Athro Stirbu ar waith neu mewn rhyw ffordd arall.

96. Mae Rheol Sefydlog 26.6(viii) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil nodi'r "amcangyfrifon gorau" o oblygiadau ariannol y Bil a'i ddarpariaethau. Er gwaethaf ein sylwadau uchod ynghylch sut y gellid gwella'r amcangyfrifon yn y Memorandwm a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym yn cydnabod y gallai'r costau gwirioneddol fod yn fwy neu'n llai yn sgil penderfyniadau penodol a wneir ynghylch trefn busnes, sut y mae'r Aelodau'n dymuno gweithio, a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir iddynt. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod y Bil yn cynnig cyfle i feddwl mewn modd strategol am anghenion Senedd â 96 o Aelodau lle y bydd y cyfyngiadau sydd ar amser yr Aelodau ar hyn o bryd wedi eu lliniaru.

97. Nodwn fod Comisiwn y Senedd wedi clustnodi darpariaeth ar gyfer diwygio'r Senedd yn ei gyllideb ar gyfer 2024-25. Rydym yn croesawu'r tryloywder y mae hyn yn ei roi. Bydd yn bwysig i Gomisiwn y Senedd barhau i fod yn dryloyw wrth gyflwyno costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil yn ei gyllidebau a'i gyfrifon blynyddol drwy gydol y cyfnod gweithredu. Bydd hyn yn fodd i'r Senedd, y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yr Aelodau a'r cyhoedd ddeall y costau a sut y gallent fod yn wahanol i'r amcangyfrifon gwreiddiol yn y Memorandwm. At hynny, bydd yr eglurder hwnnw'n helpu i lywio gwaith ymgysylltu ag Aelodau'r Chweched a'r Seithfed

Senedd ynghylch goblygiadau posibl y penderfyniadau gweithredu manwl y bydd angen eu gwneud ynghylch busnes y Senedd, gwasanaethau Comisiwn y Senedd ac ystad y Senedd pe bai'r Bil yn pasio.

98. Nodwn fod prosiect Bae Caerdydd 2032 Comisiwn y Senedd¹¹⁹ yn edrych ar opsiynau ar gyfer swyddfeydd y tu hwnt i ddiwedd prydles Tŷ Hywel yn 2032. Megis dechrau y mae'r prosiect ac nid yw'r costau'n glir eto. Mae angen y prosiect ni waeth a fydd y Bil yn pasio ai peidio, ond mae'n anochel y bydd nifer yr Aelodau'n effeithio ar anghenion y Senedd o ran swyddfeydd ac adeiladau.

Argymhelliad 3. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai Comisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth am unrhyw ryngweithio rhwng y cynigion ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (os caiff ei basio) a phrosiect swyddfeydd Bae Caerdydd 2032. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau'n effeithio ar gostau posibl prosiect 2032. Os nad yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o'r costau ar hyn o bryd, dylai Comisiwn y Senedd nodi yn ei ymateb pryd y gallai'r wybodaeth fod ar gael. Dylai Comisiwn y Senedd hefyd ymrwymo i roi diweddariadau i'r Senedd, ac i'r cyhoedd, ar y materion hyn.

99. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r rhai sydd wedi ystyried y materion hyn drwy bwyllgorau, paneli a chomisiynau blaenorol fod rhesymeg glir dros gynyddu nifer yr Aelodau. Er nad ydym am fynegi barn ynghylch ai 96 yw'r nifer gorau, nid oes dim o'r dystiolaeth a glywsom wedi ein darbwylllo bod y nifer hwn yn amhriodol. Mae 96 yn fwy na'r 80 i 90 a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol. Fodd bynnag, nodwn fod adroddiad y Panel Arbenigol yn cydnabod y byddai manteision posibl megis capasiti ac arbenigedd Aelodau yn parhau i gynyddu pe bai gan y Senedd fwy na 90 o Aelodau, er ei fod yn rhybuddio "y gallai'r pryder posibl ymhlith y cyhoedd am y costau gynyddu [a] byddai'r ychydig fuddion a fyddai'n deillio o hynny yn darfod yn eithaf cyflym".¹²⁰ Nodwn hefyd fod 96 yn rhannu ag 16, a fyddai'n golygu y gellid defnyddio'r model paru ffiniau etholaethau â maint ardal o chwech, sydd o fewn yr ystod o bedwar i chwech a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol.¹²¹

100. Nid oedd un aelod o'r Pwyllgor yn cytuno â'r casgliad hwn. Dywedodd nad oedd yn cefnogi unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau.

¹¹⁹ Comisiwn y Senedd, [Cyllideb ddrafft: 2024-25](#), mis Medi 2023, tudalennau 14-15

¹²⁰ Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Cymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, paragraff 03.16

¹²¹ Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Cymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, argymhelliad 5

4. Nifer y Dirprwy Lywyddion

Y cefndir

Y trefniadau presennol

101. Mae adran 25 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ethol un Dirprwy Lywydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn etholiad cyffredinol. At hynny, mae hefyd yn gwneud ystod o ddarpariaethau eraill mewn cysylltiad â'r Dirprwy Lywydd, gan gynnwys:

- Y teitl a ddefnyddir ar ei gyfer.
- Y cyfnod y mae'n dal y swydd (hyd nes y bydd yn ymddiswyddo, y bydd yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd ac eithrio drwy ddiddymiad y Senedd, y caiff ei ddiswyddo gan y Senedd, neu y caiff y Senedd ei diddymu).
- Cyfyngiadau ar y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd o ran perthyn i'r un grŵp gwleidyddol, neu i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol (oni bai bod y Senedd yn penderfynu diystyru'r cyfyngiadau drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n cymryd rhan yn y bleidlais).¹²²
- Y caiff arfer swyddogaethau'r Llywydd os yw swydd y Llywydd yn wag, neu os nad yw deiliad y swydd yn gallu gweithredu, neu os yw'r Llywydd yn ei awdurdodi felly (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Rheolau Sefydlog).

Darpariaeth yn y Bil

102. Mae adran 4 o'r Bil yn diwygio adran 25 o Ddeddf 2006 i wneud darpariaeth i'r Senedd gael yr hyblygrwydd i ethol un Dirprwy Lywydd ychwanegol os yw am wneud hynny. Nid oes unrhyw beth yn adran 4 sy'n ei gwneud yn ofynnol ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol.

¹²² Mae Rheol Sefydlog 6.12 yn ailddatgan y ddarpariaeth hon, ac yn ei hategu â chyfyngiad ychwanegol na chaiff y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol. Mae Rheol Sefydlog 6.13 yn rhoi effaith i'r ddarpariaeth yn Neddf 2006 y caiff y Senedd ddiystyru'r cyfyngiadau ar sail mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n cymryd rhan yn y bleidlais, ac mae'n estyn hyn i'r chyfyngiad ychwanegol a gymhwysir gan Reol Sefydlog 6.12.

103. Mae darpariaethau eraill yn adran 4 yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw ethol unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol yn un o'r eitemau cyfyngedig o fusnes y Senedd y gall Aelod gymryd rhan ynddynt cyn iddo dyngu llw neu wneud cadarnhad.
- Caiff y Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Senedd, ond ni chaiff ethol mwy nag un Dirprwy Lywydd ychwanegol ar unrhyw adeg.
- Caniateir ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol i ddal ei swydd am gyfnod sy'n fyrrach na'r amser sy'n weddill hyd nes y caiff y Senedd ei diddymu.
- Oni bai bod y Senedd yn penderfynu diystyru gofynion o'r fath drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio, ni chaiff unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd a etholwyd o dan adran 25(1)(b). At hynny, os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a etholwyd o dan adran 25(1)(b) yn perthyn i grwpiau gwleidyddol nad oes ganddynt rôl weithredol, ni chaiff y Dirprwy Lywydd ychwanegol hefyd berthyn i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol.

104. Os yw'r Senedd yn penderfynu ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol, yna, o ran deiliad y swydd honno a'r Dirprwy Lywydd y mae'n ofynnol i'r Senedd ei ethol o dan adran 25(1)(b):

- Y teitl a ddefnyddir ar eu cyfer fydd Dirprwy Lywydd (neu unrhyw deitl arall y caiff y Rheolau Sefydlog ei ddarparu).
- Cânt arfer swyddogaethau'r Llywydd os yw swydd y Llywydd yn wag, neu os nad yw deiliad y swydd yn gallu gweithredu, neu os yw'r Llywydd yn eu hawdurdodi felly (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Rheolau Sefydlog). Gall hyn gynnwys cadeirio Pwyllgor y Llywydd.¹²³

105. Os yw'r Dirprwy Lywydd a etholwyd o dan adran 25(1)(b) yn peidio â dal ei swydd, ni fydd unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol yn cymryd ei le yn awtomatig; byddai'n dal i fod yn ofynnol i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd newydd

¹²³ Mae paragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgor, sydd i'w adnabod fel Pwyllgor y Llywydd. Rhaid i'r pwyllgor gael ei gadeirio naill ai gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd. Rôl Pwyllgor y Llywydd yw craffu ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol, fel y maent yn ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

o dan adran 25(1)(b). Byddai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol yn gymwys i sefyll i'w ethol pe dymunai wneud hynny. Pe bai'n cael ei ethol, byddai'n peidio â bod yn Ddirprwy Lywydd ychwanegol. Gallai'r Senedd, pe bai'n dymuno gwneud hynny, ethol Aelod gwahanol fel Dirprwy Lywydd ychwanegol.

Y rhesymeg dros y ddarpariaeth

106. Mae'r Memorandwm yn esbonio bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu ei chynigion deddfwriaethol, yn ymwybodol y gallai Senedd fwy o faint benderfynu eistedd yn amlach neu am gyfnodau hwy. Ar y sail ei bod yn "rhesymol disgwyl y bydd rheoli busnes y Senedd yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r Senedd i gyflawni ei rôl o ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif", mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyblygrwydd i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol i helpu i reoli busnes a/neu gyflawni cyfrifoldebau a swyddogaethau ehangach y Llywydd.¹²⁴ Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Rheolau Sefydlog eisoes yn caniatáu ar gyfer cadeiryddion dros dro neu gadeiryddion gweithredol Cyfarfodydd Llawn, ond na chaiff rolau o'r fath gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau ehangach y Llywydd.¹²⁵

107. Disgrifiodd yr Athro Alistair Clark o Brifysgol Newcastle adran 4 fel diwygiad cwbl resymol sy'n darparu capasiti ychwanegol ar gyfer cynnal busnes seneddol.¹²⁶ Roedd yr Athro Stirbu yn cytuno, gan gadarnhau ei bod yn eithaf cyffredin yn rhyngwladol i ddeddfwrfeydd bach ethol mwy nag un deiliad swydd sy'n cyfateb i'r Dirprwy Lywydd. Ychwanegodd y dylai'r Senedd, wrth benderfynu a ddylid ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol ai peidio, fod yn glir ynghylch ei rôl a'i gyfrifoldebau.¹²⁷

Gweithredu'n ymarferol

108. Nid yw'r Bil yn rhagnodi hierarchaeth rhwng Dirprwy Lywyddion a etholir o dan adran 25(1)(b) ac adran newydd 25(1A). Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai'r unig wahaniaethau posibl rhwng y ddau ddeiliad swydd fyddai amseriad a hyd eu penodiadau.¹²⁸ Ychwanegodd ei fod wedi ystyried a ddylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer sut y byddai unrhyw anghydfod rhwng dau Ddirprwy Lywydd o ran y

¹²⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 85

¹²⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 87

¹²⁶ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

¹²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 383-384], 26 Hydref 2023

¹²⁸ Gwahaniaeth arall yw na allai Aelod nad yw eto wedi tyngu'r llw neu wneud y cadarnhad gymryd rhan mewn etholiad ar gyfer y Dirprwy Lywydd ychwanegol.

modd y byddai swyddogaethau'r Llywydd yn cael eu harfer yn cael ei ddatrys pe bai swydd y Llywydd yn wag, neu pe na bai'r Llywydd yn gallu gweithredu, ond roedd o'r farn y byddai hynny'n arwain at "benderfyniad mympwyol ar hierarchaeth" a fyddai'n anghydnaws â'r ddeddfwriaeth sy'n sail i benodi dirprwyon mewn manau eraill yn y DU.¹²⁹

Cymhwysra ymgeiswyr i'w hethol

Aelodaeth o grwpiau gwleidyddol y mae ganddynt rolau gweithredol ac anweithredol

109. Cadarnhaodd Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd, fod y Bil yn rhoi effaith i argymhelliad y Pwyllgor Busnes na allai carfan y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion i gyd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan bob un ohonynt rôl weithredol, nac i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol. Mae'r Bil hefyd yn cynnal y trefniadau presennol sy'n galluogi'r Senedd, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio, i ddiystyru'r gofyniad hwnnw.¹³⁰

Cydbwysedd rhwng y rhywiau

110. Yn Nhŷ'r Cyffredin, mae darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer hierarchaeth o Ddirprwy Lefarwyr, a darpariaeth i sicrhau bod carfan y Llefarydd a'r Dirprwy Lefarwyr yn cynnwys o leiaf un dyn ac o leiaf un fenyw.¹³¹ Nid oes darpariaeth o'r fath yn Senedd yr Alban. Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r trefniadau sydd ar waith yn neddfwrfeydd eraill y DU o ran meini prawf sy'n gymwys i'w carfanau o Lefarwyr/Llywyddion a'u dirprwyon, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y Bil yn rhoi effaith i argymhellion y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â rhoi hyblygrwydd i'r Senedd i ethol hyd at ddau Ddirprwy Lywydd.¹³² Ni nododd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r gofynion o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau sy'n gymwys yn Nhŷ'r Cyffredin.

Y Gymraeg

111. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid ystyried cymhwyso gofynion o ran y Gymraeg o fewn carfan y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion; er enghraifft i'w

¹²⁹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

¹³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 299], 26 Hydref 2023

¹³¹ Tŷ'r Cyffredin, [Standing Orders: Public business 2023](#), 23 Hydref 2023, Rheol Sefydlog 2A(5)(e)(iii)

¹³² Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

gwneud yn ofynnol bod o leiaf un yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd y byddai hynny'n helpu i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y Senedd.¹³³

Teitlau deiliad swyddi

112. Yn ei ymateb i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad a ganlyn:

*“Casgliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio newid teitlau deddfwriaethol ‘Presiding Officer’ a ‘Deputy Presiding Officer’ i ddarparu ar gyfer y teitlau dwyieithog canlynol yn Neddf Llywodraeth Cymru: ‘Llywydd/Speaker’ a ‘Dirprwy Lywydd/Deputy Speaker’. Dim ond os oes gan Lywodraeth Cymru hyder eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y dylai darpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth ddiwygio”.*¹³⁴

113. Eglurodd y Llywydd mai dyma y byddai'n ei ffafrio o hyd, gan fod y teitl Saesneg ‘Speaker’ yn cael ei ddeall yn well na ‘Presiding Officer’. Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthi y byddai'r newid y tu allan i gymhwysedd y Senedd.¹³⁵

114. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol hyn:

*“Ysgrifennodd y Trefnydd yn ddiweddarach at y Pwyllgor Busnes ar 21 Mehefin 2023 i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad na allai ddatgan y byddai'n gwbl hyderus y byddai newidiadau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, nid yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn”.*¹³⁶

Ein barn ni

115. Rydym yn fodlon â'r ddarpariaeth yn adran 4 o'r Bil i roi hyblygrwydd i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol os yw am wneud hynny. Mae'n briodol bod gan senedd hyblygrwydd o ran ei threfniadau a'i strwythurau mewnol ei hun. Mater i'r Seithfed Senedd (a Seneddau a ddaw wedi hynny) fydd a ddyliid

¹³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 436], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

¹³⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Rhagfyr 2022

¹³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 301], 26 Hydref 2023

¹³⁶ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

defnyddio'r hyblygrwydd, a pha resymau y gallent ystyried eu bod yn briodol dros wneud hynny.

116. Rydym hefyd yn fodlon â'r darpariaethau yn y Bil sy'n golygu na allai carfan y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion i gyd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan bob un ohonynt rôl weithredol, nac i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol, oni bai bod y Senedd yn pleidleisio i'r gwrthwyneb drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio.

117. Mae'n briodol nad yw'r ddeddfwriaeth yn pennu unrhyw hierarchaeth rhwng y ddau Ddirprwy Lywydd. Nodwn, fodd bynnag, pe bai'r Senedd yn ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol, efallai y byddai'r Llywydd ar y pryd yn dymuno ystyried a fyddai unrhyw drefniadau neu gytundebau ffurfiol neu anffurfiol yn briodol neu'n ddefnyddiol, er mwyn rhoi eglurder a thryloywder i Aelodau, swyddogion y Comisiwn a'r cyhoedd.

118. Rydym yn deall yr amcan sy'n sail i gynnig Comisiynydd y Gymraeg y dylai'r Bil gynnwys gofyniad bod o leiaf un o garfan y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion yn siaradwr Cymraeg, ond nid ydym wedi ein darbwylllo bod angen cynnwys hyn yn y Bil. Os yw'r Senedd yn dymuno gwneud darpariaeth yn hyn o beth yn y dyfodol, gellid ystyried gwneud hynny drwy'r Rheolau Sefydlog. Yn niffyg darpariaeth o'r fath, mater i Aelodau unigol fydd penderfynu a ydynt am ystyried sgiliau Cymraeg ymgeiswyr ar gyfer y swyddi hyn. At hynny, gall Aelod sy'n dal un o'r swyddi hyn ddewis datblygu a gwella ei sgiliau a'i hyder yn y Gymraeg tra bydd yn y rôl, a dylid ei gefnogi i wneud hynny.

119. Bydd angen adolygu Rheolau Sefydlog y Senedd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i hwyluso unrhyw benderfyniad gan Seneddau yn y dyfodol ynghylch a ddylid ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol, ac unrhyw etholiadau wedi hynny ar gyfer deiliad y swydd.

Argymhelliad 4. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod y gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso unrhyw broses i ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol o dan adran 25(1A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil).

120. Rydym yn deall nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i addasu adran 25(1)(a) o Ddeddf 2006, sy'n darparu bod rhaid i'r Senedd ethol "Presiding Officer", ond bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i addasu adran

25(1)(b), sy'n darparu bod rhaid i'r Senedd ethol "Deputy Presiding Officer". Nodwn fod adran 25(2) o Ddeddf 2006 yn darparu mai'r teitlau a ddefnyddir yn Saesneg ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fydd "Presiding Officer" a "Deputy Presiding Officer", neu unrhyw deitlau eraill a bennir yn y rheolau sefydlog. Yn Saesneg, mae'r Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'r teitlau a bennir yn Neddf 2006. Yn Gymraeg, mae'r Rheolau Sefydlog yn defnyddio'r termau "Llywydd" a "Dirprwy Lywydd". Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Busnes a'r Llywydd nad yw'r teitlau Saesneg yn rhai sy'n cael eu deall yn eang. Pan ddefnyddir teitlau Saesneg deiliaid y swyddi hyn yn y Rheolau Sefydlog (ac mewn manau eraill) byddai'n well gennym pe defnyddid y termau "Speaker" a "Deputy Speaker". Rydym yn derbyn y gallai hynny olygu y bydd angen egluro o dan rai amgylchiadau pam y mae'r termau a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth (neu mewn rhai sefyllfaoedd ffurfiol eraill) yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y Rheolau Sefydlog ac ar lafar gwlad, ond nid ydym o'r farn y byddai unrhyw anghyfleustra sy'n gysylltiedig â hynny'n drech na'r manteision a fyddai'n deillio o gael mwy o eglurder a dealltwriaeth ynghylch rolau deiliaid swyddi uwch yn y Senedd. Yn ogystal, rydym yn croesawu'r ffaith bod y termau Llywydd a Dirprwy Lywydd yn dod yn fwy cyffredin yn y ddwy iaith; nid bwriad ein hargymhelliad yw effeithio ar hyn ond yn hytrach sicrhau bod mwy o eglurder pan ddefnyddir y termau Saesneg.

Argymhelliad 5. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ddefnyddio'r pŵer yn adran 25(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i bennu mai'r teitlau a ddefnyddir yn Saesneg ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fydd "Speaker" a "Deputy Speaker" yn y drefn honno.

5. Nifer Gweinidogion Cymru

Y cefndir

Y trefniadau presennol

121. Mae adran 51(1) o Ddeddf 2006 yn darparu fel a ganlyn: “no more than 12 persons are to hold a relevant Welsh Ministerial office at any time”. Mae adran 51(2) yn diffinio hyn fel swyddi Gweinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru. Mae'r swyddi hyn yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol¹³⁷, sy'n golygu mai 14 yw'r terfyn maint cyffredinol (sef 23.3 y cant o aelodaeth y Senedd).

Darpariaeth yn y Bil

122. Mae adran 5(a) o'r Bil yn diwygio adran 51(1) o Ddeddf 2006 er mwyn cynyddu nifer uchaf y bobl a gaiff ddal swydd fel un o Weinidogion Cymru (neu un o Ddirprwy Weinidogion Cymru) o 12 i 17. Mae adran 5(b) yn mewnosod pŵer newydd i wneud rheoliadau yn adran 51 o Ddeddf 2006. Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynyddu'r terfyn o 17 i naill ai 18 neu 19, neu o 18 i 19¹³⁸. Ni chaniateir defnyddio'r pŵer i leihau'r terfyn, ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol, h.y. ni fyddai'r rheoliadau'n dod i rym oni bai bod y Senedd yn eu cymeradwyo drwy fwyafrif syml. Mae Tabl 6 yn dangos cyfran uchaf yr Aelodau o'r Senedd a fyddai'n cael dal swydd yn Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r diwygiadau yn adran 5.

Tabl 6 Cyfran uchaf yr Aelodau a allai ddal swydd yn Llywodraeth Cymru

	60 o Aelodau	96 o Aelodau		
Y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol	2	2	2	2
Nifer uchaf y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion	12	17	18	19
Cyfran uchaf yr Aelodau a fyddai'n cael dal swyddi yn Llywodraeth Cymru	23.3 y cant	19.8 y cant	20.8 y cant	21.9 y cant

¹³⁷ O dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid oes rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol gael ei benodi o blith Aelodau o'r Senedd. Er enghraifft, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, penodwyd Theodore Huckle QC yn Gwnsler Cyffredinol.

¹³⁸ Ym mhob achos, nid yw'r terfynau hyn yn cynnwys y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol.

Y rhesymeg dros gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru

123. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd yr Athro Renwick y dylid pwysu a mesur manteision posibl cynyddu capasiti Llywodraeth Cymru yn erbyn yr effaith ar gapasiti'r Senedd i graffu. Fel mater o egwyddor, dywedodd y dylai unrhyw gynydd fod yn llai na chymesur â'r cynnydd yn nifer yr Aelodau¹³⁹

124. Un o'r prif ddadleuon dros gynyddu nifer yr Aelodau yw er mwyn cynyddu'r capasiti i graffu. Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol pam y mae'r Bil yn galluogi defnyddio rhywfaint o'r capasiti ychwanegol i gynyddu maint y weithrediaeth. Dywedodd wrthym fod y cyfrifoldebau ychwanegol sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru (neu y gellid eu datganoli yn y dyfodol), yn golygu bod angen Llywodraeth fwy, a chanddi fwy o sgiliau ac arbenigedd. Yn ei farn ef, gallai cynyddu maint Llywodraeth Cymru ganiatáu mwy o arbenigedd o fewn y Llywodraeth, a hwyluso proses fwy effeithiol o ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd:

"At the moment, we combine everything that has been added on in terms of governmental responsibilities into the same number, so it means that Ministers have probably more functions than it is desirable to have, in an area where the Minister needs to be fully in control of what they are doing, but also, then, to be able to engage with the Senedd, which has a committee structure that is also capable of holding Government to account in that particular way as well".¹⁴⁰

125. Mae'r Memorandwm yn amlinellu newidiadau i bwerau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru ers gosod y terfyn presennol yn 2006, gan gynnwys¹⁴¹:

- Pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017 yn rhinwedd trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 58A o Ddeddf 2006.
- Pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (yn enwedig o ran yr amgylchedd, materion gwledig a materion economaidd).

¹³⁹ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 5 Hydref 2023

¹⁴¹ Cynyddwyd y terfyn o ran uchafswm maint Llywodraeth Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i 14 (12 o Weinidogion neu Ddirprwy Weinidogion yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), o'r terfyn cyffredinol blaenorol o naw a sefydlwyd gan Reolau Sefydlog y Cynulliad ar y pryd yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

- Mwy o waith rhynglywodraethol i “gyd-drefnu polisiau a rhaglenni, a gweithredu'r fframweithiau rhynglywodraethol”.¹⁴²

126. Mae'r Memorandwm hefyd yn dadlau bod angen hyblygrwydd ar Lywodraeth Cymru i ymateb i ddigwyddiadau. Mae'n nodi nad oes terfyn statudol ar nifer Gweinidogion yr Alban, gan alluogi Llywodraeth yr Alban i benodi Gweinidog ychwanegol ar gyfer materion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnwys y nifer uchaf o Weinidogion Cymru ar y pryd, roedd rhaid i'r Prif Weinidog ddyrannu'r cyfrifoldebau ychwanegol i rywun a oedd eisoes yn dal swydd yn Llywodraeth Cymru, sef y Cwnsler Cyffredinol.¹⁴³

127. Er ei fod yn cefnogi cynyddu'r terfyn o ran Gweinidogion Cymru, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod digon o gapasiti yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Gall adnoddau annigonol lesteirio gwaith datblygu a gweithredu polisi, a'i gwneud yn fwy anodd i Weinidogion ymwneud yn effeithiol â gwaith craffu'r Senedd.¹⁴⁴

128. Yn ei ymateb i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, trafododd y Pwyllgor Busnes faint Llywodraeth Cymru. Drwy fwyafrif,¹⁴⁵ argymhellwyd terfyn o 17.¹⁴⁶

129. Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020 y dylai Llywodraeth Cymru “gomisiynu ymchwil academaidd i strwythur a chapasiti Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dyrannu cyfrifoldebau ymhlith Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion.”¹⁴⁷ Pan ofynnwyd i'r Aelod sy'n Gyfrifol pa ddadansoddiad yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch a oedd 17 yn derfyn uchaf priodol, tynnodd sylw at newidiadau i gyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru, y posibilrwydd y câi cyfrifoldebau pellach eu datganoli yn y dyfodol, a'r llwyth gwaith Gweinidogol sy'n gysylltiedig â bod yn atebol i bwyllgorau'r Senedd.¹⁴⁸

¹⁴² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 70-73

¹⁴³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 74-75

¹⁴⁴ SCME(P)27 Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁴⁵ Mae'r adroddiad yn dweud: “Mynegodd Darren Millar, sy'n cynrychioli'r Ceidwadwyr Cymreig, a'r Llywydd y farn y dylai'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru gael ei osod ar 16.”

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd - Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Rhagfyr 2022, paragraff 15

¹⁴⁷ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, argymhelliad 3

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 106-107], 13 Rhagfyr 2023

130. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod ei gynghorwyr yn cydymdeimlo â chynyddu'r nifer uchaf, ond ei fod yn teimlo bod y nifer a ddewiswyd fel pe bai heb unrhyw sail empirig nac enghreifftiau cyfatebol.¹⁴⁹ Ymhlith y sefydliadau a'r bobl eraill a rannodd eu barn proffesiynol a wnaeth sylwadau ar adran 5, roedd consensws eang ei bod yn briodol cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru, a bod 17 yn dderbyniol.¹⁵⁰

131. Dywedodd yr Athro McAllister y gallai cynnydd helpu i fynd i'r afael â phortffolios Gweinidogol sy'n fawr ac yn anhylaw.¹⁵¹ Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg y gallai cynnydd gynnig cyfle i gael Gweinidog i "ganolbwyntio yn llwyr ar y Gymraeg", gan ddadlau y gallai hyn "sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn strategol ar draws portffolios pob gweinidog yn y Llywodraeth".¹⁵²

132. Dywedodd yr Athro Diana Stirbu fod modd cyfiawnhau cynnydd ar sail ehangder portffolios presennol y Gweinidogion, a pharatoi at y dyfodol. Rhybuddiodd y byddai angen i Seneddau'r dyfodol sicrhau bod y system bwyllgorau wedi'i chynllunio'n briodol i graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol.¹⁵³ Roedd yr Athro McAllister yn cytuno, gan nodi, er mai mater i'r Senedd berthnasol oedd cynllunio'r system bwyllgorau, fod adroddiad y Panel Arbenigol wedi trafod materion megis maint a gweithrediad pwyllgorau.¹⁵⁴

133. Pan ofynnwyd iddo am y dybiaeth yn y Memorandwm y gallai'r Seithfed Senedd sefydlu rhwng un a thri phwyllgor ychwanegol pe bai rhwng pump a saith yn rhagor o Weinidogion Cymru, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai mater i'r Senedd oedd strwythurau'r pwyllgorau. Dywedodd wrthym y byddai'r cynnydd yng nghapasiti'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn cynnig mwy o gyfle i bob Aelod (gan gynnwys Gweinidogion) arbenigo, a chymryd rhan mewn gwaith dadansoddi a datblygu polisi, ac y byddai goblygiadau cadarnhaol i hynny o ran effeithiolrwydd gwaith y pwyllgorau ac effeithiolrwydd ac atebolrwydd Gweinidogion:

"What I would hope is that with 96 Members the accountability and scrutiny of Government is going to be not only much sharper, but far more specialist, and far more effective. Ultimately, the quality of any Parliament is the quality of the Members themselves and their ability

¹⁴⁹ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

¹⁵⁰ Er enghraifft, SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig), SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig)

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 26 Hydref 2023

¹⁵² SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

¹⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 342], 26 Hydref 2023

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 26 Hydref 2023

to actually do the job and be motivated to do that. I think that would be achieved by an increased membership of the Senedd, but I think, equally so, it would mean that Ministers would be far more effective as well”.¹⁵⁵

134. Rhybuddiodd y Llywydd rhag canolbwyntio'n ormodol ar nifer y pwyllgorau. Roedd angen i Gomisiwn y Senedd wneud rhagdybiaethau o'r fath er mwyn amcangyfrif y costau, ond disgrifiodd hyn fel ffordd eithaf elfennol o feddwl am y peth oherwydd y gallai llacio'r cyfyngiadau presennol o ran capasiti ar Aelodau unigol alluogi pwyllgorau'r Senedd i weithredu yn wahanol ac yn fwy hyblyg.¹⁵⁶

Mecanwaith ar gyfer unrhyw newidiadau diweddarach

135. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi na ddisgwylir y byddai'r pŵer i gynyddu'r nifer uchaf ymhellach yn cael ei ddefnyddio ar unwaith. Mae'n ychwanegu, pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn defnyddio'r pŵer—er enghraifft o ganlyniad i ddatganoli pellach neu amgylchiadau eraill—y byddai'n rhaid iddi gyfiawnhau'r cynnydd fel rhan o'r drefn graffu gadarnhaol y byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig iddi.¹⁵⁷ Ategodd yr Aelod sy'n gyfrifol hyn, gan ddadlau y byddai angen cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer unrhyw gynnydd.¹⁵⁸ Dywedodd fod y gwaharddiad ar leihau'r terfyn uchaf wedi'i argymhell gan y Pwyllgor Busnes, ond ychwanegodd mai mater i'r Prif Weinidog perthnasol bob amser fyddai penderfynu faint o Weinidogion i'w penodi o fewn i'r terfyn.¹⁵⁹ Pwysleisiodd y pwynt hwn ymhellach ar 13 Rhagfyr 2023, gan nodi y byddai'r Bil yn cael yr effaith a ganlyn, pe bai'n cael ei basio::

“[...] the Senedd recognising that these are things that are potentially necessary for good governance and you're empowering that to actually happen, but with certain caveats, and the caveat is an affirmative vote in the Senedd”.¹⁶⁰

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 19 a 21], 5 Hydref 2023

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 223-224], 26 Hydref 2023

¹⁵⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 18 Medi 2023

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 5 Hydref 2023

¹⁵⁹ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 13 Rhagfyr 2023

136. Aeth ymlaen i ddweud:

"I think the issue of whether there should be a reduction is something that doesn't—. I think that then begins to hold a Government hostage to fortune in terms of internal politics and so on, in terms of what the mechanisms might be for a First Minister who's basically saying, 'We need these number of Ministers in order to do this particular function', and how that would actually be reduced. I don't think that is the best way forward; I think the way forward is to give the empowerment for it to happen and then for Government and the First Minister to actually justify the ministerial structure within those frameworks that have been set".¹⁶¹

137. Pan ofynnwyd iddo a ellid defnyddio'r pwerau i gynyddu'r terfyn ar faint Llywodraeth Cymru i ganiatáu ar gyfer cytundebau clymblaid, neu sefyllfaoedd eraill y gellid eu disgrifio fel enillion gwleidyddol, ategodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai unrhyw reoliadau yn ddarostyngedig i bleidlais gadarnhaol.¹⁶²

Ychwanegodd:

"And the position with regard to the issue of coalitions, I think that is part of the capacity to actually form stable Governments. In this Senedd there has never been one party that's had an absolute majority in it—I'm sure someone will correct me if I'm wrong on that—so, there's always been a dependency on partnerships, co-operations, agreements of one form or another. And if this were to facilitate that to give stability to Government, then I think that is a very positive outcome".¹⁶³

138. Dim ond mwyafrif syml y byddai ei angen o dan y weithdrefn gadarnhaol y byddai'r Bil yn ddarostyngedig iddi. . Fodd bynnag, mae adran 111A(2)(f) o Ddeddf 2006 yn pennu bod nifer y personau a gaiff ddal swydd un o Weinidogion Cymru a benodir o dan adran 48 neu swydd un o Ddirprwy Weinidogion Cymru yn fater a fyddai, pe câi ei gynnwys mewn Bil, yn sbarduno gofyniad am uwchfwyafrif, h.y. ni allai'r Senedd basio'r Bil hwnnw oni bai bod yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y Bil yng Nghyfnod 4 yn cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd. Mae hwn yn far sylweddol uwch na'r weithdrefn graffu gadarnhaol ar

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 13 Rhagfyr 2023

¹⁶² Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 13 Rhagfyr 2023

¹⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 121], 13 Rhagfyr 2023

gyfer is-ddeddfwriaeth, yn anad dim oherwydd bod darpariaethau mewn Bil hefyd yn ddarostyngedig i'r broses graffu lawn ar ddeddfwriaethol sylfaenol.

139. Dywedodd yr Athro Renwick wrthym y dylai'r penderfyniad ar nifer uchaf Gweinidogion Cymru gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol fel mater o egwyddor, ac na ddylai fod yn ddarostyngedig i'w newid gan is-ddeddfwriaeth.¹⁶⁴ Dywedodd fod cynnwys pŵer yn y Bil i newid y terfyn yn destun pryder amlwg:

"It just seems to me a really fundamental point that it shouldn't be for Ministers to decide an increase in the number of Ministers; that ought to be a decision that is made by the Senedd as a whole, through full scrutiny, i.e. through primary legislation".¹⁶⁵

140. Nid oedd yr Athro McAllister yn gwrthwynebu cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru yn y dyfodol mewn egwyddor, er enghraifft i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach ym mhwerau'r Senedd megis datganoli cyfiawnder, lles neu ddarlledu. Fodd bynnag, roedd yn gadarn y dylai unrhyw gynnydd o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r broses graffu lawn ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol a phleidlais uwchfyafrif.¹⁶⁶ Dywedodd yr Athro Clark ei bod yn anghyson fod angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynnydd cychwynol, ond na fyddai ond angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer unrhyw gynnydd wedi hynny.¹⁶⁷

141. Roedd gan yr Athro Watkin farn wahanol, a dywedodd fod y ddarpariaeth yn ffordd briodol o ddefnyddio pŵer Harri'r Wythfed¹⁶⁸:

"[...] a proposal to increase the number to 18 or 19 neither changes the principles of the enabling statute nor amends the detail in a manner which requires anything more than simple agreement or disagreement. The use of the affirmative procedure, allowing the Senedd to approve the change before it takes effect, is also entirely in accordance with democratic principles".¹⁶⁹

142. Pan ofynnwyd iddo a fyddai'n fwy priodol, pe bai mecanwaith ar gyfer cynyddu nifer uchaf y Gweinidogion drwy is-ddeddfwriaeth, i hynny fod yn

¹⁶⁴ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

¹⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 26 Hydref 2023

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 55 a 57], 26 Hydref 2023

¹⁶⁷ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

¹⁶⁸ Pŵer sy'n galluogi gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol drwy offerynnau statudol.

¹⁶⁹ SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig)

ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan uwchfwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf o nifer y seddi yn y Senedd, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"[...] I think the supermajority goes to the Bill and to the empowerment of the change. The actual implementation of the change within the Bill is one that will be a simple majority. But it's a matter for the Senedd as to how they want that to happen. If it was the Senedd's view that that's what should be the case, well then that would be a matter for the Senedd. But I don't think that was one of the recommendations that came through".¹⁷⁰

Ein barn ni

143. Rydym yn deall rhesymeg cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru. Rydym yn derbyn y gallai roi mwy o hyblygrwydd a gallu i Brif Weinidogion y dyfodol sicrhau nad yw portffolios Gweinidogol yn rhy eang neu anhylaw. Rydym yn derbyn y gallai o bosibl wella effeithiolrwydd y llywodraeth, er y bydd sicrhau bod hyn yn digwydd yn ymarferol yn dibynnu ar benderfyniadau sydd i'w gwneud gan Brif Weinidogion yn y dyfodol, gan gynnwys manylebau portffolios a faint o gapasiti ac adnoddau sydd gan y gwasanaeth sifil. Nid yw'r dystiolaeth a gawsom wedi cyfeirio at unrhyw uchafswm maint penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth sydd wedi ein darbwylllo nad yw'r terfyn arfaethedig o 17 o Weinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru (yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn briodol. Mae Darren Millar AS yn pryderu y bydd cynyddu nifer y Gweinidogion yn tanseilio nod y Bil, sef cynyddu capasiti'r Senedd o ran gwaith craffu.

144. Mae strwythur pwyllgorau unrhyw Senedd yn y dyfodol yn fater i'r Senedd honno. Nodwn nad yw pwyllgorau'r Senedd yn gyffredinol wedi cysgodi portffolios neu adrannau Gweinidogol fel sy'n digwydd mewn rhai seneddau eraill. Yr hyn sy'n bwysig yw bod strwythur y pwyllgorau yn cwmpasu holl swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Senedd, a bod digon o gapasiti i ddwyn holl ddeiliaid swyddi Llywodraeth Cymru i gyfrif. Rydym yn cydnabod bod portffolios rhai pwyllgorau yn eang iawn ar hyn o bryd; mae'n bosibl y bydd cynnydd yn nifer y pwyllgorau yn y dyfodol. Fodd bynnag, er y bydd nifer Gweinidogion Cymru a benodir gan Brif Weinidog yn y dyfodol yn ffactor perthnasol wrth gynllunio strwythur y pwyllgorau, nid ydym yn credu y dylid seilio'r penderfyniad ar hynny.

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 5 Hydref 2023

145. Rydym yn derbyn y gallai fod amgylchiadau pan fyddai'n briodol cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru ymhellach, er enghraifft pe bai pwerau sylweddol pellach yn cael eu datganoli. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif aelodau'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r terfyn uchaf drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Llyr Gruffydd AS¹⁷¹ yn fodlon ar y ddarpariaeth yn y Bil fel y'i drafftiodd.

146. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylai newidiadau sydd mor arwyddocaol o safbwynt cyfansoddiadol gael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, a dylent fod yn ddarostyngedig i'r broses graffu ddeddfwriaethol lawn. Gan fod nifer Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru yn ymwneud â phwnc gwarchodedig a bennir yn adran 111A o Ddeddf 2006, mae hyn yn cynnwys cymeradwyaeth gan uwchfwyafrif o Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd yng Nghyfnod 4. Yn ein barn ni, nid yw'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno a phasio deddfwriaeth o'r fath yn rhwystr, gan ei bod yn bur annhebyg y câi unrhyw bwerau pellach eu datganoli heb rybudd.

Argymhelliad 6. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 5(b) o'r Bil (y pŵer i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru drwy reoliadau).

147. Fel y nodwyd uchod, byddai mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn ffafrio dileu'r pŵer i wneud rheoliadau o'r Bil. Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylid o leiaf ddiwygio'r Bil i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan uwchfwyafrif o Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd. Dyma'r ffon fesur y byddai angen ei defnyddio pe bai'r darpariaethau yn cael eu cynnwys mewn Bil, ac ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai'r un gofyniad fod yn berthnasol os ymdrinnir â'r mater mewn unrhyw ffordd arall.

Argymhelliad 7. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan uwchfwyafrif o Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd.

¹⁷¹ Roedd Llyr Gruffydd AS yn dirprwyo ar ran Heledd Fychan AS yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2024, pan drafodwyd a chytunwyd ar yr adroddiad hwn.

148. Rydym yn pryderu hefyd na ellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau i leihau'r terfyn unwaith y bydd wedi'i gynyddu. Cynyddodd ein pryderon yn sgil yr hyn a nodwyd yn nhystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol, sef y byddai'r gallu i gynyddu'r terfynau drwy reoliadau yn gam cadarnhaol i ddarparu ar gyfer cytundebau clymblaid posibl.¹⁷² Credwn y dylid gosod cyfyngiadau ar y pwerau er mwyn darparu na fydd y terfyn uwch ond yn parhau i fod mewn grym ar gyfer cyfnod y Gweinidogion hynny a benodir yn ystod y Senedd lle gwneir y rheoliadau h.y. pan fo Prif Weinidog yn penodi Gweinidogion yn dilyn pob etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol, y terfyn o 17 a bennir mewn deddfwriaeth sylfaenol fydd yn gymwys, oni wneir rheoliadau ar ôl yr etholiad perthnasol i gynyddu'r terfyn i naill ai 18 neu 19. Rydym yn cydnabod bod hyn yn ychwanegu rhywfaint o gymhlethdod deddfwriaethol, ac y gellir ei ystyried yn anghymesur os cynyddwyd y terfyn i adlewyrchu sefyllfa barhaol fel datganoli pwerau pellach. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ein barn ni drwy fwyafrif yw mai drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y dylid cynyddu'r terfyn parhaol. Felly, ni fyddai'r ddarpariaeth machlud yr awgrymwn y dylid ei hymgorffori yn y pŵer i wneud rheoliadau yn y Bil yn effeithio ar newidiadau a wneir mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Argymhelliad 8. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod yn cynnwys darpariaeth machlud ynddynt sydd â'r effaith y daw'r rheoliadau i ben (a bod y terfyn a bennir mewn deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei ailosod) cyn bod y Prif Weinidog a enwebir gan y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol nesaf yn penodi unrhyw Weinidogion Cymru.

¹⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 121], 13 Rhagfyr 2023

6. Etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml

Y cefndir

Y trefniadau blaenorol

149. Cyn Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 (“Deddf 2011”) a osododd gyfnod o bum mlynedd rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin Senedd y DU, cynhaliwyd etholiadau i’r Cynulliad ar y pryd bob pedair blynedd.¹⁷³ Ar 16 Mawrth 2011, pasiodd y Cynulliad benderfyniad a oedd yn galw am ohirio ei etholiad nesaf am flwyddyn er mwyn osgoi gwrthdaro ag etholiad cyffredinol cyffredin Senedd y DU yn 2015.¹⁷⁴ Gweithredwyd hyn gan adran 5 o Ddeddf 2011 a newidiodd ddyddiad etholiad nesaf y Cynulliad o 7 Mai 2015 i 5 Mai 2016.

150. Diwygiwyd adran 3(1) o Ddeddf 2006 wedyn gan adran 1 o Ddeddf Cymru 2014 i ddarparu ar gyfer etholiadau cyffredinol cyffredin bob pum mlynedd.

151. Diddymwyd Deddf 2011 gan Ddeddf Diddymu a Galw Senedd y DU 2022.

Y trefniadau presennol

152. Mae adran 3(1) o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd ar y dydd lau cyntaf ym mis Mai yn y bumed flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol cyffredin blaenorol ynddi, oni bai bod etholiad cyffredinol Senedd y DU yn atal y bleidlais rhag cael ei chynnal y diwrnod hwnnw neu oni bai bod diwrnod y bleidlais yn cael ei bennu gan gyhoeddiad o dan adran 4.

153. Pan fo etholiad cyffredinol Senedd y DU yn atal etholiad cyffredinol cyffredin Senedd Cymru rhag cael ei gynnal y diwrnod hwnnw, mae adran 3(1B) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru symud dyddiad y bleidlais (oni bai bod diwrnod y bleidlais yn cael ei bennu gan gyhoeddiad o dan adran 4).

154. Mae adran 4 yn darparu i’r Llywydd gynnig cynnal y bleidlais ar ddiwrnod nad yw’n hwy na mis yn gynharach, na mis yn ddiweddarach, na’r dydd lau cyntaf ym mis Mai. Yna, caiff Ei Fawrhydi, drwy gyhoeddiad o dan Sêl Cymru, ddiddymu’r Senedd, ei gwneud yn ofynnol i’r bleidlais yn yr etholiad gael ei chynnal ar y

¹⁷³ Y Cynulliad Cyntaf: 1999-2003; yr Ail Gynulliad: 2003-2007; y Trydydd Cynulliad: 2007-2011

¹⁷⁴ Y Trydydd Cynulliad: y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [tudalen 65], **16 Mawrth 2011**

diwrnod a gynigir, a'i gwneud yn ofynnol i'r Senedd gyfarfod o fewn y cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg gan ddechrau yn union ar ôl dyddiad y bleidlais.

155. Mae adran 5 yn darparu mecanwaith ar gyfer cynnal etholiad cyffredinol eithriadol i'r Senedd. Os cynhelir etholiad cyffredinol eithriadol lai na chwe mis cyn y dyddiad y byddai etholiad cyffredinol cyffredin fel arfer yn cael ei gynnal (gan anwybyddu adran 4), mae adran 5(5) yn darparu nad yw'r etholiad cyffredinol cyffredin i'w gynnal, ac mae adran 5(6) yn darparu na fyddai effaith ar ddyddiad yr etholiad cyffredinol cyffredin dilynol.

156. Er 2011, mae etholiadau cyffredinol cyffredin i'r Senedd wedi cael eu cynnal bob pum mlynedd.¹⁷⁵

Darpariaeth yn y Bil

157. Mae adran 3 o'r Bil yn cynnig lleihau hyd tymor Senedd o'r tymor sefydlog presennol o bum mlynedd i dymor sefydlog o bedair blynedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y newid i dymhorau Senedd o bum mlynedd mewn ymateb i newidiadau a wnaed i etholiadau Senedd y DU drwy Ddeddf 2011, ac mae'n awgrymu ei bod yn "ymddangos yn rhesymegol" y dylai etholiadau'r Senedd ddychwelyd i'r sefyllfa fel yr oedd cyn 2011 nawr bod Deddf 2011 wedi'i diddymu.¹⁷⁶

158. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y newid i dymhorau pedair blynedd yn cyd-fynd â'r nod cyffredinol o wneud Cymru'n wlad fwy democrataidd drwy ganiatáu i bleidleiswyr "fynegi eu barn ar berfformiad llywodraethau yn amlach a rhoi mwy o gyfreithlondeb i lywodraethiant Cymru o safbwynt y boblogaeth". Mae'n nodi ei bod o'r farn bod tymhorau pedair blynedd yn cydbwysu tri ffactor allweddol yn ddigonol:

- Adnewyddiad democrataidd.
- Blinder pleidleiswyr.
- Rhoi digon o amser i weinyddiaeth weithredu ei hagenda.¹⁷⁷

159. Mae asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai etholiadau amlach yn golygu bod staff a gyflogir gan Aelodau'r Senedd "o bosibl

¹⁷⁵ Y Pedwerydd Cynulliad: 2011-2016; y Bumed Senedd: 2016-2021; y Chweched Senedd: 2021-2026

¹⁷⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 193

¹⁷⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 194-195

yn wynebu risg o golli eu swyddi'n amlach", yn cynyddu cost gyffredinol gweinyddu etholiadau'r Senedd ac hefyd yn golygu bod angen adolygiadau ffiniau amlach (unwaith bob wyth mlynedd yn hytrach nag unwaith bob deng mlynedd).¹⁷⁸ Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn datgan y byddai'r newid arfaethedig i dymhorau Senedd o bedair blynedd yn cael effaith gadarnhaol, gan y byddai'n cynyddu "pa mor aml y mae'r etholwyr yn arfer eu mandad democrataidd i ddewis y ddeddfwrfa".¹⁷⁹ Yn ei lythyr ar 8 Tachwedd 2023, datganodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod asesiad effaith Llywodraeth Cymru wedi nodi "nad ystyriwyd bod y newid i hyd tymhorau yn cael effaith wahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig".¹⁸⁰

160. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod hyblygrwydd y pwerau uchelfreiniol i alw etholiad cyffredinol yn y DU yn golygu y gallai etholiadau Senedd Cymru a Senedd y DU barhau i wrthdaro, p'un a yw tymhorau'r Senedd yn parhau am bum mlynedd neu'n dychwelyd i bedair blynedd.¹⁸¹

Yr egwyddor o leihau amllder etholiadau cyffredinol cyffredin

161. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael wedi bod yn gefnogol i'r newid i dymhorau o bedair blynedd. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd yr Athro Renwick mai pum mlynedd yw'r hyd mwyaf cyffredin mewn tymor seneddol, ond bod tymhorau byrrach i'r rhan fwyaf o ddemocratiaethau iachaf y byd. Teimlai fod tymhorau pedair blynedd yn debyg o daro gwell cydbwysedd rhwng yr angen i'r llywodraeth allu cynllunio ymlaen llaw a'r angen i bleidleiswyr ddweud eu dweud.¹⁸²

162. Roedd yr Athro Clark hefyd yn gefnogol i ddychwelyd i dymhorau pedair blynedd, gan nodi ei fod yn galluogi mwy o atebolrwydd ac yn ei gwneud yn angenrheidiol i lywodraethau fod yn ymatebol a gweithredu ymrwymadau'n gyflym ac yn effeithiol.¹⁸³

¹⁷⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Asesiad effaith integredig](#) [fel ar 19 Rhagfyr 2023]

¹⁷⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb](#) [fel ar 19 Rhagfyr 2023]

¹⁸⁰ [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

¹⁸¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 197

¹⁸² SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

¹⁸³ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

163. Dywedodd ERS Cymru fod y newid yn dda i ddemocratiaeth ac awgrymodd fod pedair blynedd yn eithaf agos ati.¹⁸⁴ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd hefyd ar Lywodraeth Cymru i ystyried newid amllder etholiadau llywodraeth leol.¹⁸⁵

164. Roedd Unsain hefyd yn cefnogi cylch pedair blynedd, gan amlygu bod deddfwriaeth bresennol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn sicrhau llunio polisïau yn y tymor hir ac yn diogelu rhag llunio polisïau yn y tymor byr a anogir gan gylchoedd etholiadol.¹⁸⁶

165. Mewn cyferbyniad, roedd CLILC yn teimlo bod pum mlynedd "yn caniatáu sefydlogrwydd a llywodraeth effeithiol er mwyn dilyn rhaglen lywodraethu" ac y byddai'n helpu i atal etholiadau'r Senedd a chynghorau lleol rhag disgyn ar yr un pryd.¹⁸⁷

166. Roedd Aelodau o Senedd leuenctid Cymru a gymerodd ran yn ein grŵp ffocws ar-lein yn cefnogi'r egwyddor o dymhorau pedair blynedd; roeddent yn teimlo y byddai'n rhoi mwy o gyfleoedd i bleidleisio ac y byddai'n gwella amrywiaeth ac yn annog mwy o bobl i sefyll. Nid oeddent yn credu y byddai tymor byrrach o bedair blynedd yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw benderfyniad a wnaed ganddynt ynghylch a fyddent yn sefyll mewn etholiad.¹⁸⁸

167. Cawsom safbwyntiau cymysg gan bobl a ymatebodd i'n hymgyngoriad plant a phobl ifanc. Roedd y rhai o blaid yn awgrymu bod tymor pedair blynedd yn ddigon hir i gyflawni newid ond yn ddigon byr na fyddai pobl yn mynd yn hunanfodlon ac yn amharod i wneud rhywbeth ac y gallai arwain at syniadau a safbwyntiau newydd yn amlach. Teimlai un arall y gallai tymor byrrach achosi i bobl wneud penderfyniadau byrdymor byrbwyll nad ydynt er budd y boblogaeth mewn gwirionedd a dywedodd un ymatebydd ei fod yn newid dibwrpas sy'n wahanol i'r cynsail a dderbynnir gan gyrff etholedig eraill yn y DU.¹⁸⁹

168. Roedd rhaniad barn clir ymhlith unigolion wrth iddynt fynd i'r afael â'r cynnig yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Er nad oedd y rhai o blaid tymhorau pedair blynedd yn ymhelaethu ar eu rhesymau ar y cyfan, roedd y rhai yn erbyn y cynnig yn poeni am y gost ychwanegol. Roedd yr ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 228], 9 Tachwedd 2023

¹⁸⁵ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁸⁶ SCME(P)25 Unsain (Saesneg yn unig)

¹⁸⁷ SCME(P)29 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd leuenctid Cymru](#), Tachwedd 2023, paragraff 10

¹⁸⁹ Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): [barn plant a phobl ifanc](#)

cynnig hefyd yn awgrymu y byddai tymhorau pedair blynedd yn lleihau'r amser sydd ar gael i'r Aelodau wella eu sgiliau a'u gwybodaeth ac y byddent yn gwneud polisiau hyd yn oed yn fyrrach eu tymor o ran eu ffocws.¹⁹⁰

Mandad i deddfu

169. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol pam oedd ei fod wedi penderfynu cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil i leihau'r cyfnod rhwng etholiadau'r Senedd, pan nad oedd hwn yn fater a ystyriwyd neu a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol na'r Pwyllgor Diben Arbennig. Dywedodd y canlynol:

"I think that is solely that, when you're bringing legislation of this type forward, there are other things that are there that naturally fit within that, that are an opportunity to raise, and again will go through, or not go through, depending upon the wishes of the Senedd itself. So, for example, the reversion to four years, we in fact never had a detailed policy discussion in terms of moving to five years. It was essentially a technical change to avoid a conflict of elections when the Fixed-term Parliaments Act 2011 came through. That has been repealed, so we would naturally go back to four years, but there needs to be a mechanism to do that. So, that is very much a mechanistic issue".¹⁹¹

170. Er nad ymgynghorwyd â Chomisiwn y Senedd ar gynnwys y ddarpariaeth yn y Bil, eglurodd y Llywydd fod Comisiwn y Senedd wedi cael gwybod am yn, ac wedi ailbroffilio ei gostau wedi hynny, sy'n sylweddol wahanol o flwyddyn etholiad i flwyddyn heb etholiad.¹⁹²

Effaith y ddarpariaeth

171. Nid oedd gan Gomisiynydd y Gymraeg farn am amllder etholiadau cyffredin y Senedd, ond gofynnodd i'r Aelodau sicrhau bod pedair blynedd yn "rhoi digon o amser i graffu a deddfu ar bolisi a deddfwriaeth ym mhob maes sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, gan gynnwys y Gymraeg", a bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni o fewn yr amser sydd ar gael.¹⁹³

¹⁹⁰ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen we yr ymgynghoriad](#).

¹⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 44], 5 Hydref 2023

¹⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 234], 26 Hydref 2023

¹⁹³ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

172. Wrth fynd i'r afael ag effaith tymhorau Senedd byrrach ar effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd, dywedodd yr Athro Stirbu:

"If we look back at the Senedd committees before the five-year term, I don't think that would make a great impact, in my view. I would say that it's only reverting to something that was happening before anyway. But I don't have any strong views or evidence that I can rely on on this, and in the 2026 term, this would probably need to be one of the things that we need to look at carefully in terms of evaluating what impact this might have on committees' work".¹⁹⁴

173. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru sylw at rai goblygiadau cost sy'n deillio o gylchoedd etholiadol amlach na chawsant eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol:

- Mae adran 15 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal o leiaf un archwiliad datblygu cynaliadwy o bob corff cyhoeddus ym mhob cylch etholiadol. Y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag archwilio ac adrodd ar 48 o gyrff cyhoeddus dynodedig yw tua £435,000 (er y gallai hyn fod yn fwy os caiff rhagor o gyrff eu dynodi). Mae'r cynnydd hwn mewn adroddiadau gorfodol hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ei raglen waith gyffredinol ac yn lleihau cwmpas i gynnal archwiliadau dewisol.
- Mae adran 8 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod a chyhoeddi "amcanion llesiant" chwe mis ar ôl pob etholiad cyffredinol. Yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), amcangyfrifwyd bod gosod amcanion llesiant yn costio £186,600 (prisiau 2016-17), er efallai na fydd ymarferion ailadroddus mor ddwys o ran adnoddau.
- Y costau uwch sy'n gysylltiedig â'r gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio "Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol" ym mhob cylch etholiadol (adran 11 o Ddeddf 2015), ac ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i lunio "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol" ym mhob cylch etholiadol (adran 23 o Ddeddf 2015).¹⁹⁵

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 377], 26 Hydref 2023

¹⁹⁵ SCME(P)15 Archwilio Cymru

174. Dywedodd Daniel Hurford wrthym na fyddai'r gyllideb sydd ei hangen ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cynyddu o ganlyniad i reoli ei waith mewn ffenestr fyrrach o bedair blynedd.¹⁹⁶

175. Wrth ateb cwestiynau am effaith bosibl lleihau hyd tymhorau'r Senedd ar hyd a lled yr uchelgeisiau polisi a deddfwriaethol y caiff pleidiau eu nodi yn eu maniffestos, a'r amser sydd ar gael i'r Senedd graffu ar ddeddfwriaeth a'i datblygu, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol:

"In terms of my view, I think that having a four-year refresh, having a refresh of accountability of the Senedd and Members is, I think, an attractive one. There is a counter-argument that says, 'Well if you have that extra year, it gives you that much more time to fulfil your manifesto, to carry out further legislation.' I think those are things for Senedd Members to weigh up. But I think reverting to four years, which was the original intention within the Senedd, that there would be an accountability through an election every four years, is the correct starting point. If Senedd Members are not happy with that, then, no doubt there will be opportunities to look at that during the process of this legislation".¹⁹⁷

176. Gwnaethom bwysu ar yr Aelod sy'n gyfrifol ar y potensial i'r tymhorau byrrach achosi i'r rhaglen ddeddfwriaethol fod yn llawnach tuag at ddiwedd tymor y Senedd, gyda goblygiadau posibl ar gyfer yr amser a'r capasiti sydd ar gael i'r Senedd graffu ar ddeddfwriaeth. Awgrymodd y gallai deddfwriaeth lai sy'n fwy penodol fod yn ddull gweithredu mwy effeithiol i'r llywodraeth a pha amser bynnag oedd ar gael, byddai angen i bleidiau a llywodraethau flaenoriaethu'r hyn yr oeddent am ei gyflawni a datblygu eu maniffestos yn unol â hynny. Ei farn oedd bod tymhorau pedair blynedd yn debyg o fod yn fwy effeithlon, ond dywedodd y byddai'n gwrando ar farn y Senedd yn hyn o beth.¹⁹⁸

177. Dim ond yn 2011 y cafodd y Senedd bwerau deddfu sylfaenol, a chafodd bwerau i osod trethiant yn 2014 a 2019. Pan ofynnwyd a oedd yn rhesymol defnyddio tymhorau pedair blynedd cyn 2011 fel sail i asesu digonolrwydd tymhorau pedair blynedd ar ôl 2026, dadleuodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y pwerau

¹⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 30 Tachwedd 2023

¹⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 5 Hydref 2023

¹⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 60], 5 Hydref 2023

ychwanegol yn golygu ei bod yn bwysicach fyth mynd yn ôl at y bobl yn fwy rheolaidd.¹⁹⁹

¹⁹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 5 Hydref 2023

Rhyngweithio ag etholiadau eraill

178. Mae Tabl 7 yn crynhoi'r darpariaethau deddfwriaethol sydd naill ai'n atal etholiadau'r Senedd rhag digwydd ar yr un diwrnod â chynnal pleidleisiau eraill, neu'n caniatáu cyfuno etholiadau'r Senedd â chynnal y pleidleisiau hynny.

Tabl 7 Crynodeb o'r rhyngweithio posibl rhwng etholiadau

	Etholiad cyffredinol Senedd y DU (a gedwir yn ôl)	Is-etholiad Senedd y DU (a gedwir yn ôl)	Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (a gedwir yn ôl)	Etholiadau llywodraeth leol (nas cedwir yn ôl)
Etholiad cyffredinol cyffredin Senedd Cymru (nas cedwir yn ôl)	✘ Mae adran 3(1A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd rhag disgyn ar yr un diwrnod	✓ Mae adran 13A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfuno (gyda chytundeb Gweinidogion Cymru)	✓ Mae adran 58(2)(e) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfuno cynnal pleidleisiau	✘ Mae adran 37ZA(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn atal etholiadau llywodraeth leol rhag disgyn ar yr un diwrnod
Etholiad cyffredinol eithriadol Senedd Cymru (nas cedwir yn ôl)	✓ Mae adran 13A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfuno (gyda chytundeb Gweinidogion Cymru)	✓ Mae adran 13A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfuno (gyda chytundeb Gweinidogion Cymru)	✓ Mae adran 58(2)(e) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfuno cynnal pleidleisiau	✓ Nid oes rhyngweithio rhwng adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (etholiadau cyffredinol eithriadol y Senedd) a dyddiad etholiadau llywodraeth leol

✘ Etholiadau y mae deddfwriaeth yn eu hatal rhag cael eu cyfuno neu eu cynnal ar yr un diwrnod

✓ Etholiadau y caniateir eu cyfuno neu nad yw deddfwriaeth yn eu hatal rhag cael eu cynnal ar yr un diwrnod

Etholiadau a gedwir yn ôl

179. Dywedodd Colin Everett, Cadeirydd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, wrthym nad yw newid i dymhorau pedair blynedd yn her fawr o ran adnoddau ond aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“Our biggest nightmare is a combined election of any sort, because logistically it's so difficult. Our biggest, biggest nightmare is we end up with a reserved and a non-reserved election falling, where the franchise is different, the system is different, and we know there's been a really strong commitment from Ministers of both Governments to avoid that, but there is still a legislative loophole, and we are terrified by it.”²⁰⁰

180. Cydnabu fod rhai amddiffyniadau deddfwriaethol a chytundebau gweinidogol ar waith, ond byddai'n well ganddo weld darpariaethau'n atal etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau nas cedwir yn ôl rhag cael eu cynnal ar yr un diwrnod.²⁰¹

181. Mewn perthynas â'r potensial ar gyfer amseru etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau Senedd y DU i wrthdaro, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol:

“I think there is a recognition with the UK Government and with ourselves, and indeed, with the Scottish Government—this is one of those areas we've discussed that everyone wants to avoid a conflict of elections. The way the UK parliamentary constitution works, you can never predict when a general election might actually take place. And with the repeal of the 2011 Act—[Inaudible.] And if you have, after the next general election, a different Government, or you have a Government that is dependent on an agreement between a number of political parties and so on, you cannot predict how long that stability might be there, when there might be a general election, when there might not be one. So, those are always a risk. I think what there is agreement on is that we all want to see that not happen. And secondly, it is desirable that there is a mechanism that were that to happen, we would need to do something to ensure it didn't happen. There already are some provisions in terms of the length of time by

²⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 15 Tachwedd 2023

²⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 154], 15 Tachwedd 2023

which you can actually defer an election and so on, but I think that is an area that is well worthy of scrutiny”.²⁰²

Etholiadau nas cedwir yn ôl

182. Wrth gydnabod bod etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yn rhannu'r un etholfraint, amlygodd tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y byddai maint a chymhlethdod cyfuno'r etholiadau hyn hefyd yn peri heriau sylweddol i swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol:

“If we are to have legally-enabled combined elections of this type in the future then full consideration should be given to the resourcing needs of local authorities, and also possible further electoral change such as a lengthened elections period/timetable for non-reserved elections”.²⁰³

183. Roedd CLILC yn rhannu'r pryderon hyn a phwysleisiodd hefyd y byddai angen cyfleu'r gwahanol systemau pleidleisio i etholwyr Cymru.²⁰⁴

184. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Etholiadol, nodwyd y bydd etholiadau'r Senedd a'r prif gynghorau a'r cynghorau tref a chymuned yn disgyn ar yr un diwrnod yn 2042. Cydnabu y byddai adran 37ZA o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru newid dyddiad etholiadau llywodraeth leol drwy offeryn statudol, ond awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried egluro ei safbwynt mewn perthynas â chynnal etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yn yr un flwyddyn.²⁰⁵

185. Mewn cysylltiad ag etholiadau llywodraeth leol, cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol at safbwyntiau eithaf cymysg pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru²⁰⁶ ynghylch a ddylai prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ddychwelyd i dymhorau pedair blynedd:

“There was obviously a concern that relates to the synchronisation between local government and with the Senedd. It's a matter for local government in terms of their views on how this might impact. But I

²⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 5 Hydref 2023

²⁰³ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁰⁴ SCME(P)29 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

²⁰⁵ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

²⁰⁶ Llywodraeth Cymru, [Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol](#), Hydref 2022

think, for the purpose of this Bill, and for the purpose of the Senedd, I think the key issue is whether it is considered, firstly, right that it reverts back in the light of the repeal of the 2011 Act, but secondly, whether it's what the Senedd actually wants".²⁰⁷

186. Wrth bwysu a mesur a oedd unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal â llywodraeth leol ynghylch a ddylid gwneud unrhyw newidiadau cyfatebol i hyd tymor llywodraeth leol er mwyn osgoi gwrthdaro posibl o ran dyddiadau etholiadau, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod llywodraeth leol am adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r hyn y mae'r Senedd yn ei benderfynu. Ychwanegodd:

"Clearly, there are views that this has a relevance to the local government situation, which was four years but also went to five years. Whether that would change in the future I think is probably a matter for further discussion. I've certainly got no mandate. It's not within my portfolio of policy decisions. All I think I can say on it is that, clearly, it is a relevant factor that is consequential upon this legislation, and I think those discussions will take place and a decision will need to be taken at some stage whether that should change or not. It's not a part of this Bill, but it clearly is something that will be considered in the round later on".²⁰⁸

187. Mewn gohebiaeth ddilynol, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad oes cynlluniau i newid amllder etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a chan fod disgwyl i'r gwrthdaro nesaf fod yn 2042, y byddai "cyfnod amser sylweddol i benderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol."²⁰⁹

Canlyniadau anfwriadol

188. Wrth fynd i'r afael â'r cynnig i ddychwelyd i dymhorau pedair blynedd, cyfeiriodd y Llywydd at y penodiadau cyhoeddus a wneir gan y Senedd ac awgrymodd y gallai tymhorau pum mlynedd atal penodiadau rhag cyddigwydd.²¹⁰

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 5 Hydref 2023

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 63, 67 ac 71], 5 Hydref 2023

²⁰⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

²¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 242], 26 Hydref 2023

189. Ymhelaethodd Siwan Davies ar y pwynt hwn:

"[...] the term had changed from four to five and now we're back to four, so there are many statutory office holders who would have predated the five, but there are some—the auditor general, the standards commissioner, the remuneration board—who have terms that are not the same as Senedd terms and so there would be an impact in terms of when these people are appointed. But it would depend on the nature of the term of the individuals and whether, when the legislation creating those offices was put together, it was done on the basis of the Senedd terms, and it would depend on the officer holder in question. But it would have an impact, potentially, as to which Senedd and at what point in the Senedd term an office holder was to be appointed".²¹¹

190. Mewn gohebiaeth ar 1 Rhagfyr 2023²¹², nododd y Llywydd y penodiadau cyhoeddus y gallai'r newid yn hyd tymhorau'r Senedd effeithio arnynt:

Tabl 8 Penodiadau cyhoeddus a wneir gan y Senedd, Comisiwn y Senedd, neu Ei Fawrhydi ar enwebiad y Senedd

Penodiad	Cyfnod y penodiad
Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn y swydd er 21 Gorffennaf 2018)	Uchafswm o 8 mlynedd
Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru	Heb fod yn hwy na phedair blynedd (am uchafswm o ddau dymor) <i>Un Aelod yn dod â'i ail dymor i ben ym mis Mehefin 2025²¹³</i>
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yn y swydd er 1 Ebrill 2022)	Saith mlynedd
Comisiynydd Safonau (yn y swydd er 1 Ebrill 2021)	Chwe blynedd
Aelodau Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd	Pum mlynedd (am uchafswm o ddau dymor) <i>Dau Aelod yn dod â'u hail dymor i ben ym mis Medi 2025</i>

²¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 243], 26 Hydref 2023

²¹² [Llythyr gan y Llywydd](#), 1 Rhagfyr 2023

²¹³ [Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru](#), Medi 2020

191. Nododd y Llywydd na fydd tymhorau Senedd byrrach “o reidrwydd yn broblematic” ar gyfer y penodiadau cyhoeddus a restrir, ac aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“Bydd y sbardunau sy’n pennu hyd eu cyfnod mewn swydd mewn deddfwriaeth yn amrywio yn ôl swyddogaethau pob un o’r penodiadau cyhoeddus hyn, a byddant yn rhoi sylw dyledus i’w heffeithiolrwydd. Gall y rhyngweithio rhwng hyd penodiadau cyhoeddus a thymhorau seneddol fod yn ystyriaeth o safbwynt gweinyddu penodiadau a chanfyddiadau o annibyniaeth deiliaid swyddi statudol, a’u gallu i weithredu heb ofn na ffafraeth. At hynny, mae dwy o’r categorïau swyddi yn ymwneud yn benodol ag Aelodau o’r Senedd, sef y Comisiynydd Safonau a’r Bwrdd Taliadau Annibynnol.”²¹⁴

Ein barn ni

192. Nodwn resymeg yr Aelod sy’n gyfrifol dros newid i dymhorau pedair blynedd a’i gyfiawnhad dros gynnwys y cynnig yn y Bil, er nad yw’n ymddangos mewn unrhyw waith ar ddiwygio’r Senedd hyd yma. Mae’n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynnig polisi sylweddol heb unrhyw ymgynghori nac ymgysylltu blaenorol. Mae’n destun gofid hefyd nad yw’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried na fydd y newid arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol ar sail unrhyw nodweddion gwarchoddedig.

193. Er nad ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth gymhellol i awgrymu bod angen newid i dymhorau Senedd pedair blynedd, rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o bobl sy’n cyfrannu at ein gwaith yn cefnogi’r atebolrwydd a’r ffocws ychwanegol y byddai cylchoedd etholiadol byrrach yn eu cynnig.

194. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y bydd etholiadau Senedd amlach yn gwneud gwrthdaro ag etholiadau eraill yn fwy tebygol. Rydym yn cytuno â gweinyddwyr etholiadol bod rhaid osgoi cyfuno etholiadau—yn enwedig etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig—o ystyried y gwahaniaeth cynyddol mewn trefniadau etholiadol a’r risgiau y mae’n eu cyflwyno i weinyddu etholiadau a dryswch pleidleiswyr.

²¹⁴ [Llythyr gan y Llywydd](#), 1 Rhagfyr 2023

195. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o wrthdaro y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ond mae amseru etholiadau llywodraeth yn rhywbeth y mae'n gallu ei reoli. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi nodi nad oes cynlluniau brys i newid amllder etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a bod y gwrthdaro nesaf a ddisgwylir yn 2042 yn rhoi "cyfnod amser sylweddol i benderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol".²¹⁵ Y ddadl a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yw bod tymhorau Senedd pedair blynedd yn cydbwysu'n ddigonol adnewyddiad democrataidd, blinder pleidleiswyr ac yn rhoi amser digonol i weinyddiaeth weithredu ei hagenda. Nid yw'n glir pam na fyddai'r egwyddorion hyn yn cael eu hestyn i etholiadau lleol yng Nghymru. Nid ydym yn fodlon ar ymateb yr Aelod sy'n gyfrifol ar y pwynt hwn.

Argymhelliad 9. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â lleihau hyd tymhorau llywodraeth leol ar yr un pryd ag y mae'n lleihau hyd tymhorau'r Senedd. Dylai ymateb yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar y pwynt hwn, a pha fecanweithiau deddfwriaethol y byddai eu hangen i wneud unrhyw newidiadau i hyd tymhorau llywodraeth leol.

Argymhelliad 10. Heb oedi, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori ar leihau'r cyfnod o amser rhwng etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned o bum mlynedd i bedair blynedd, gyda golwg ar wneud y newid hwn oni bai bod tystiolaeth gref i'r gwrthwyneb.

196. Nodwn y costau ychwanegol a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mewn perthynas â'r cynnydd mewn amllder ymgymryd â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf 2015, a'r goblygiadau ar gyfer ei raglen waith gyffredinol. Amlygodd effeithiau tebyg tymhorau pedair blynedd ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru. Dylid adlewyrchu'r costau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 11. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn ymgynghoriad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ymgymryd â gwaith pellach i amcangyfrif goblygiadau cost adran 3 (etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml) ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

197. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Llywydd ynghylch yr effaith bosibl y gall tymhorau pedair blynedd ei chael ar benodiadau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r

²¹⁵ [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

Senedd. Er nad ydym wedi cael tystiolaeth gan eraill i awgrymu ei bod yn debygol o arwain at unrhyw faterion sylweddol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried hyd tymhorau'r Senedd wrth ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus yn y dyfodol.

Argymhelliad 12. Dylai Comisiwn y Senedd, fel rhan o'i Raglen i Ddiwygio'r Senedd, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r prosesau ar gyfer ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan y Senedd (neu a arweinir gan Gomisiwn y Senedd) i gyfrif am gylchoedd etholiadol amlach.

Argymhelliad 13. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu pa ystyriaeth a roddwyd i hyd y tymhorau ar gyfer penodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r bwriad i newid i dymhorau Senedd pedair blynedd, yn benodol y rhai y mae cytundeb y caiff y Senedd gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar eu cyfer.

7. Sut y caiff Aelodau eu hethol

Y cefndir

Y trefniadau presennol

198. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2006 yn darparu bod Aelodau'n cael eu hethol drwy ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol aelodau cymysg:

- **Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.** Mae adran 6 yn darparu bod gan berson sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ddwy bleidlais: pleidlais i ymgeisydd fod yn Aelod etholaethol ar gyfer yr etholaeth berthnasol; a phleidlais ranbarthol, h.y. pleidlais naill ai dros restr o ymgeiswyr a gyflwynwyd gan blaid wleidyddol gofrestredig, neu ymgeisydd rhanbarthol unigol.
- **Systemau pleidleisio.** Mae adran 6(4) yn darparu bod Aelodau etholaethol yn cael eu hethol drwy'r system fwyafrif syml (a elwir hefyd yn system y cyntaf i'r felin). Mae adran 6(5) yn darparu bod Aelodau rhanbarthol yn cael eu dychwelyd gan y system aelod ychwanegol sy'n 'digolledu' pleidiau gwleidyddol am unrhyw ddiffyg cyfranoldeb yng nghanlyniadau etholiad etholaethol.
- **Ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol.** Mae darpariaeth yn adran 7 yn cynnwys atal person rhag sefyll mewn mwy nag un etholaeth neu ranbarth yn yr etholiad perthnasol²¹⁶; ac yn pennu y gall rhestr o ymgeiswyr rhanbarthol a gyflwynir gan blaid wleidyddol gynnwys rhwng un a deuddeg enw.
- **Cyfrifo ffigurau dyrannu seddi.** Mae adran 8 yn darparu bod y cyfrifiad o ffigurau rhanbarth etholiadol yn cael ei wneud ar ôl penderfynu pa ymgeiswyr etholaethol sydd i'w dychwelyd. Yna, o dan ddull D'Hondt, cyfrifir ffigurau dyrannu seddi ar sail y fformiwla a ganlyn:²¹⁷

²¹⁶ Gall person fod yn ymgeisydd etholaethol ac yn ymgeisydd rhanbarthol, ond dim ond os yw'r etholaeth berthnasol yn y rhanbarth perthnasol. Rhaid i berson sy'n sefyll fel ymgeisydd etholaethol ac ymgeisydd rhanbarthol fod naill ai'n sefyll dros yr un blaid wleidyddol gofrestredig yn y ddau rinwedd, neu fel ymgeisydd unigol yn y ddau rinwedd h.y. ni all sefyll fel ymgeisydd etholaethol ar gyfer un blaid ac fel ymgeisydd rhanbarthol ar gyfer plaid arall.

²¹⁷ I fydd y rhannydd ar gyfer ymgeisydd rhanbarthol unigol ar bob adeg.

Nifer y pleidleisiau a enillwyd gan blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol

(Nifer y seddi etholaethol neu ranbarthol a enillwyd hyd yn hyn gan y blaid wleidyddol berthnasol + 1)

- **Dyrannu seddi i Aelodau rhanbarthau etholiadol.** Mae adran 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyrannu seddi i bleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr unigol ar sail eu ffigurau dyrannu seddi. Mae'r sedd gyntaf ym mhob etholaeth yn cael ei dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Yna, caiff y fformiwla ei hailgymhwyso i ystyried y sedd sydd wedi'i dyrannu, a dyrennir yr ail sedd i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd, wedyn, â'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Mae'r broses yn parhau hyd nes bod yr holl seddi wedi'u dyrannu. At hynny, mae adran 9 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datrys unrhyw achos lle ceir ffigur dyrannu seddi cyfartal.
- **Llenwi seddi gwag.** Mae adrannau 10 ac 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol. Mae seddi gwag mewn etholaethau yn cael eu llenwi gan is-etholiad y cyntaf i'r felin; llenwir y seddi gwag mewn rhanbarthau a ddelir gan bleidiau gwleidyddol gan y person cymwys nesaf ar restr y blaid berthnasol o'r etholiad blaenorol (os yw'r rhestr wedi'i disbyddu, bydd y sedd yn wag tan yr etholiad nesaf); ac mae seddi gwag mewn rhanbarthau a ddelir gan Aelodau a etholwyd fel unigolion yn parhau'n wag tan yr etholiad nesaf.
- **Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc.** Mae adran 13 eisoes yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy orchymyn mewn perthynas â chynnal etholiadau, cwestiynu etholiad Aelod a chanlyniadau anghysondebau, a dychwelyd Aelod heblaw yn ystod etholiad. Mae gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r manylion am y modd y cynhelir etholiadau'r Senedd wedi'u nodi yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Darpariaeth yn y Bil

199. Mae Rhan 2 o'r Bil yn darparu ar gyfer system etholiadol rhestr gaeedig newydd gan ddefnyddio fformiwla etholiadol D'Hondt ar gyfer dyrannu seddi i restrau pleidiau gwleidyddol (neu ymgeiswyr unigol), a threfniadau ar gyfer llenwi seddi gwag rhwng etholiadau cyffredinol.

200. Mae adran 8 yn disodli adrannau 6 i 9 o Ddeddf 2006:

- **Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.** Mae adran 6 newydd yn darparu y caiff person sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd bleidleisio naill ai dros blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer yr etholaeth berthnasol, neu dros ymgeisydd nad yw ar restr plaid wleidyddol gofrestredig ond sydd yn sefyll fel ymgeisydd unigol ar gyfer yr etholaeth.
- **Ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol.** Mae adran 7 newydd yn gwneud darpariaeth ynghylch enwebu ymgeiswyr. Mae'n nodi y caiff pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno rhestrau sy'n cynnwys rhwng un ac wyth ymgeisydd, ac y caiff unigolion sefyll fel ymgeiswyr unigol. At hynny, mae'n atal unrhyw berson rhag sefyll ar restr plaid a hefyd fel ymgeisydd unigol, ac yn atal unrhyw berson rhag bod yn ymgeisydd mewn mwy nag un o etholaethau'r Senedd yn yr un etholiad.
- **Cyfrifo ffigurau dyraniad seddi.** Mae adran 8 newydd yn darparu ar gyfer defnyddio dull D'Hondt i gyfrifo ffigurau dyrannu seddi ar gyfer pleidiau gwleidyddol a/neu ymgeiswyr unigol. Yna, o dan ddull D'Hondt, cyfrifir ffigurau dyrannu seddi ar sail y fformiwla a ganlyn:

Nifer y pleidleisiau a enillwyd gan blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol
(Nifer y seddi a enillwyd hyd yn hyn gan y plaid wleidyddol berthnasol + 1)

- **Dyrannu seddi.** Mae adran 9 newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyrannu seddi i bleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr unigol ar sail eu ffigurau dyrannu seddi. Mae'r sedd gyntaf ym mhob etholaeth yn cael ei dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Yna, caiff y fformiwla ei hailgymhwyso i ystyried y sedd sydd wedi'i dyrannu, a dyrennir yr ail sedd i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd, wedyn, â'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Mae'r broses yn parhau hyd nes bod yr holl seddi wedi'u dyrannu. At hynny, mae adran 9 newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datrys unrhyw achos lle ceir ffigur dyrannu seddi cyfartal.

201. Mae adran 9 o'r Bil yn diwygio Deddf 2006 er mwyn:

- Dileu'r ddarpariaeth a fyddai'n dod yn ddiangen yn adran 10 o Ddeddf 2006 mewn perthynas â llenwi lleoedd gwag yn y 40 sedd bresennol sydd gan Aelodau a etholwyd drwy ddull y cyntaf i'r felin.

- Disodli adran 11, sy'n ailadrodd i raddau helaeth y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer llenwi'r 20 sedd ranbarthol a ddelir gan Aelodau a etholwyd drwy restrau caeedig, yng nghyd-destun y trefniadau system aelodau ychwanegol presennol.

202. Mae adran 10 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2006 a Deddfwriaeth arall i adlewyrchu darpariaeth yn y Bil.

Rhestrau caeedig

203. Yn eu datganiad safbwynt ym mis Mai 2022, nododd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd eu barn y dylai'r Senedd gael ei hethol drwy restrau caeedig, gyda seddi'n cael eu dyrannu gan ddefnyddio dull D'Hondt.²¹⁸ Yn dilyn hynny, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig, drwy fwyafrif²¹⁹, y dylai'r Senedd gael ei hethol drwy restrau caeedig, gyda seddi'n cael eu dyrannu gan ddefnyddio dull D'Hondt.²²⁰ Cydnabu'r Pwyllgor Diben Arbennig effaith rhestrau caeedig ar y berthynas rhwng pleidleiswyr ac Aelodau, ond daeth i'r casgliad a ganlyn:

"Mae'r mwyafrif²²¹ hwn yn cydnabod na fydd y system hon yn caniatáu i'r cyhoedd ethol Aelodau unigol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ystyrir y byddai Aelodau yn y pen draw yn dal i fod yn atebol i'r etholwyr, oherwydd bydd eu perfformiad fel Aelodau unigol yn

²¹⁸ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Ffordd ymlaen ar gyfer diwygio'r Senedd](#), 10 Mai 2022

²¹⁹ Mae'r adroddiad yn nodi ym mharagraff 83 bod Jane Dodds AS "yn ffafrio defnyddio fformiwla Sainte-Laguë, gan ystyried y byddai'r fformiwla honno yn cynnig mwy o gyfranoldeb ac yn adlewyrchu'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw ar gyfer pleidiau llai [...] [ni] fyddai'r rhesymeg ar gyfer y fformiwla D'Hondt o dan system etholiadol bresennol y Senedd - a oedd mewn gwirionedd i gywiro anghymesuredd yng nghanlyniadau etholiad yr etholaethau - yn gymwys mewn Senedd nad oedd yn cynnwys cymysgedd o restrau ac etholaethau un-aelod", ac ym mharagraff 84, fod Siân Gwenllïan "yn ffafrio defnyddio fformiwla Sainte-Laguë. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r uwchfwyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, roedd o'r farn y byddai dyrannu seddi i bleidiau drwy fformiwla D'Hondt yn dderbyniol a byddai'n fwy cyfrannol na system etholiadol bresennol y Senedd.

²²⁰ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhellion 7 ac 8.

²²¹ Dywed yr adroddiad ym mharagraff 75 fod Jane Dodds AS o'r farn "na ddylid mabwysiadu rhestrau caeedig", ac ym mharagraff 76 bod Siân Gwenllïan "yn ffafrio system gyfrannol rhestr agored neu hyblyg [...] Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyfres wedi'i negodi o ganlyniadau ar yr uwchfwyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, roedd o'r farn y byddai system gyfrannol rhestr gaeedig yn dderbyniol".

effeithio ar y pleidleisiau a fwir dros eu pleidiau, a fydd yn ei dro yn pennu'r tebygolrwydd o gael eu hethol".²²²

204. Yn ystod ein gwaith rydym wedi clywed am rai o fanteision posibl rhestrau caeedig (gweler Blwch 6). Fodd bynnag, mynegodd y mwyafrif (gan gynnwys y rheini a oedd yn cydnabod y manteision posibl) amheuan a phryderon ynghylch yr anfanteision (gweler Blwch 7).

Blwch 6 Manteision rhestrau caeedig

Cyfranoldeb

- Awgrymodd rhai y gallai rhestrau caeedig arwain at ganlyniadau mwy cymesur na'r system bresennol, ac felly darparu Senedd a oedd yn fwy cynrychioliadol o farn y bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.²²³ Dywedodd Make Votes Matter y gallai mwy o gyfranoldeb wella llywodraethiant, ac arwain at bolisi sy'n fwy ymwrthol i anweddolrwydd etholiadol.²²⁴
- Rhybuddiodd eraill nad oedd gwarant y byddai'r canlyniadau yn fwy cyfrannol. Daeth yr Athro Renwick i'r casgliad y byddai patrymau pleidleisio hanesyddol yng Nghymru, etholaethau chwe Aelod a dull D'Hondt yn golygu cynnydd cymedrol yn unig.²²⁵

Dealltwriaeth pleidleiswyr, a bod yn gyfarwydd â'r system

- Defnyddir rhestrau caeedig i ethol Aelodau rhanbarthol, sydd felly'n system eithaf cyfarwydd i bleidleiswyr. Mae papurau pleidleisio rhestr gaeedig yn gymharol syml i bleidleiswyr eu llenwi.²²⁶
- Fodd bynnag, mae ymchwil academiaidd yn awgrymu, er bod pleidleiswyr yn sôn eu bod yn gwybod sut i gwblhau papurau pleidleisio rhanbarthol, bod camddealltwriaeth eang ynghylch sut mae rhestrau caeedig yn gweithio'n ymarferol. Eglurodd Dr Lerner fod ymchwil yng Nghymru a'r Alban yn

²²² Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, paragraff 78

²²³ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 372], 26 Hydref 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 9 Tachwedd 2023

²²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023

²²⁵ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

²²⁶ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 9 Tachwedd 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 61-63], 15 Tachwedd 2023; SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig); SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

awgrymu bod y camddealltwriaeth bod y system bresennol yn un a ffefrir, yn fwy cyffredin na'r ddealltwriaeth gywir o ran y modd y mae seddi'n cael eu dyrannu.²²⁷

Proses gyfarwydd i weinyddwyr etholiadol

- Dywedodd gweinyddwyr etholiadol eu bod nhw a swyddogion canlyniadau yn gyfarwydd â'r prosesau cyfrif rhestrau caeedig a dyrannu seddi. Disgrifiwyd rhestrau caeedig ganddynt fel system a brofwyd yng Nghymru.²²⁸

Rôl pleidiau gwleidyddol yn y DU

- Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai system rhestr gaeedig yn galluogi ethol Aelodau ar sail maniffesto cyffredin clir.²²⁹
- Cydnabu'r Athro McAllister fod y pŵer sydd gan bleidiau gwleidyddol mewn systemau rhestr gaeedig yn gyson â'r diwylliant cyffredinol o oruchafiaeth pleidiau gwleidyddol yng ngwleidyddiaeth y DU.²³⁰

Rhwyddineb integreiddio cwotâu rhywedd â meini prawf gosod fertigol a llorweddol

- Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai rhestrau caeedig yn ei gwneud hi'n haws cyflwyno system cwota rhywedd.²³¹
- Dywedodd eraill wrthym na fyddai rhestrau caeedig – hyd yn oed gyda chwotâu rhywedd statudol – yn gwarantu Senedd sy'n gytbwys o ran rhywedd²³², a bod mwy y gallai pleidiau gwleidyddol ei wneud eisoes o fewn y fframwaith statudol presennol, er mwyn mynd i'r afael â chyfranogiad a chydraddoldeb mewn prosesau dethol, waeth beth fo'r system etholiadol.²³³
- Mae tystiolaeth academaidd yn awgrymu bod y tebygolrwydd y bydd pleidleiswyr yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr benywaidd yn lleihau.²³⁴ Dywedodd Dr Larner fod hyn yn golygu y gellir gorbwysleisio'r angen i restrau

²²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 23-24], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)7 Jac Larner (Saesneg yn unig)

²²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 61-63], 15 Tachwedd 2023; SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

²²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 186], 13 Rhagfyr 2023

²³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 89-90], 26 Hydref 2023

²³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 5 Hydref 2023

²³² Cofnod y Trafodion [paragraffau 198-199], 9 Tachwedd 2023

²³³ SCME(P)25 Unsain (Saesneg yn unig)

²³⁴ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 26 Hydref 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 9 Tachwedd 2023

fod yn gaeedig er mwyn cyfrannu at ganlyniadau sy'n gytbwys rhwng y rhywiau.²³⁵

Gwell na'r cyntaf i'r felin

- Nododd rhai fod rhestrau caeedig yn well na'r Cyntaf i'r Felin.²³⁶

Blwch 7 Anfanteision rhestrau caeedig

Effaith ar ddewis i bleidleiswyr

- Roedd llawer – gan gynnwys pobl a ymatebodd o safbwynt personol – yn pryderu i ba raddau y byddai dewis ac ymreolaeth pleidleiswyr yn cael eu lleihau gan restrau caeedig.²³⁷ Disgrifiodd Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru y gallu i bleidleisio dros ymgeisydd unigol fel “egwyddor bwysig”.²³⁸
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai rhan o'r rheswm dros anghymhwysu ymgeiswyr nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru yw oherwydd na fydd pleidleiswyr yn gallu dewis peidio â phleidleisio drostynt os ydynt ar restr plaid benodol²³⁹; disgrifiodd ERS Cymru hyn fel dadl yn erbyn rhestrau caeedig gan y gallai fod rhesymau diddiwedd pam na all etholwr gefnogi'r ymgeisydd ar frig rhestr plaid benodol, ond ei fod yn dymuno cefnogi un neu fwy o'r ymgeiswyr ymhellach i lawr y rhestr.²⁴⁰

Cysylltiad rhwng cynrychiolwyr a phleidleiswyr

- Roedd llawer o gyfranwyr yn pryderu am y posibilrwydd o erydu atebolrwydd uniongyrchol rhwng cynrychiolwyr a phleidleiswyr.²⁴¹

²³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 142-143], 9 Tachwedd 2023

²³⁶ SCME(P)25 Unsain Cymru (Saesneg yn unig)

²³⁷ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)29 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

²³⁸ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd Ieuencid Cymru](#), Tachwedd 2023, paragraff 4

²³⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 183-184

²⁴⁰ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴¹ Er enghraifft Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 26 Hydref 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig); Pwyllgor y Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd Ieuencid Cymru](#), Tachwedd 2023, paragraff 5

Rôl pleidiau gwleidyddol

- Mynegodd llawer bryderon am y cydbwysedd pŵer rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr mewn systemau rhestr gaeedig, ac i ba raddau y byddai buddiannau pleidiau gwleidyddol yn cael eu blaenoriaethu dros rai pleidleiswyr.²⁴²
- Nododd Keith Bush fod pleidiau gwleidyddol yn gyrff hunanlywodraethol, sy'n ddarostyngedig i reoleiddio statudol mewn perthynas â gweithgareddau ariannol yn unig. Holodd a yw hyn yn gynaliadwy pe bai dylanwad pleidiau dros aelodaeth y Senedd yn cynyddu trwy restrau caeedig. At hynny, dywedodd fod mwyafrif y pleidiau gwleidyddol yn gyrff y DU sydd, ar y mwyaf, yn datganoli penderfyniadau dros rai materion o dan drefniadau mewnol pur. Dadleuodd fod hyn yn groes i'r egwyddor ddatganoli sy'n sail i ddatganoli.²⁴³

Effaith ar gapasiti ac effeithiolrwydd y Senedd

- Dywedodd rhai cyfranwyr y byddai rhestrau caeedig yn lleihau effeithiolrwydd gwaith craffu'r Senedd. Dywedodd Dr James Gilmour y gallai atgyfnerthu dibyniaeth yr aelodau etholedig ar eu pleidiau ar gyfer eu hethol a'u hailethol yn aelodau o'r Senedd, ac y byddai'n lleihau dylanwad y pleidleiswyr lleol y mae'r aelodau'n cael eu hethol i'w cynrychioli.²⁴⁴ Yn yr un modd, rhybuddiodd yr Athro Renwick am y risg o roi rheolaeth ormodol i bleidiau dros eu Haelodau o'r Senedd, a thrwy hynny gyfyngu ar werth y siambr estynedig.²⁴⁵

Effaith ar drafodaeth wleidyddol

- Dywedodd ERS Cymru, yn ôl ymchwil, y gall rhestrau caeedig arwain at bleidleiswyr yn dewis pa blaid i bleidleisio drosti yn seiliedig ar faterion unigol – sy'n aml yn faterion cynhennus – yn unig. Roedd hyn i'w briodoli i safbwynt y blaid ar bwnc yn cael ei gymhwyso'n fras i bawb sy'n sefyll o dan y rhestr honno – a'r diffyg ystyriaeth i safbwyntiau ymgeiswyr unigol – a all amrywio hyd yn oed o fewn plaid benodol.²⁴⁶

²⁴² Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 26 Hydref 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig); SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

²⁴³ SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

²⁴⁴ SCME(P)22 James Gilmour (Saesneg yn unig)

²⁴⁵ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

²⁴⁶ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

- O dan y trefniadau presennol, gall pleidleiswyr 'rannu' eu pleidleisiau drwy bleidleisio dros ymgeisydd etholaethol un blaid ac ymgeisydd rhanbarthol plaid arall; o dan system rhestr gaeedig bur, ni fydd hyn yn bosibl.²⁴⁷ Awgrymwyd y gallai hyn leihau cyfleoedd i feithrin datblygiad pleidiau, neu unigolion sy'n cynrychioli grwpiau neu safbwyntiau lleiafrifol.²⁴⁸

Effaith ar amrywiaeth ddisgrifiadol

- Ni fydd pleidleiswyr yn gallu dewis rhwng ymgeiswyr plaid, gan ddileu eu gallu i flaenoriaethu ymgeiswyr ar sail nodweddion demograffig megis ethnigrwydd neu rywedd. Bydd yn rhaid iddynt ddibynnu ar flaenoriaethu a graddio ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol.²⁴⁹ Dywedodd yr Athro McAllister wrthym y gallai pleidleiswyr ffafrio ymgeiswyr benywaidd ac ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ond na allant fynegi hyn mewn system rhestr gaeedig.²⁵⁰
- Dadleuodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru y dylai dylanwad cynyddol y pleidiau dros gyfansoddiad demograffig y Senedd gael ei adlewyrchu mewn mwy o atebolrwydd dros ddewis ymgeiswyr a threfnu rhestrau. Ychwanegodd fod ymchwil yn dangos mai dewis pleidiau – nid dewis pleidleiswyr – oedd yn cyfyngu ar gynrychiolaeth menywod.²⁵¹

Effaith ar bleidiau gwleidyddol llai ac ymgeiswyr annibynnol

- Mae'r system a gynigir yn y Bil yn cynnwys ymgeiswyr annibynnol a rhestrau plaid o un i wyth ymgeisydd. Mae'r cyfuniad o ddull D'Hondt a maint ardal o chwech yn arwain at drothwy lefel etholaeth effeithiol o tua 12 y cant.²⁵² Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod hwn yn drothwy rhesymol ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth yn y Senedd.²⁵³
- Roedd rhai cyfranwyr yn bryderus am yr effaith ar bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol, gan fod dull D'Hondt yn tueddu i ffafrio pleidiau gwleidyddol mwy o faint.²⁵⁴ Awgrymodd Cyngor Sir y Fflint y gallai hyn fod yn

²⁴⁷ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

²⁴⁸ SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

²⁴⁹ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

²⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 26 Hydref 2023

²⁵¹ SCME(P)10 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

²⁵² Byddai'r trothwy effeithiol yn gweithredu ar lefel etholaeth, h.y. gallai plaid sy'n cyflawni mwy na 12 y cant o'r gyfran o'r bleidlais genedlaethol fetu ag ennill unrhyw seddi pe na bai'n cyrraedd y trothwy effeithiol mewn unrhyw etholaethau unigol.

²⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 382-383], 26 Hydref 2023

²⁵⁴ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion [paragraffau 89-90], 26 Hydref 2023; SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru; SCME(P)29 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

annemocrataidd, ac y gallai atal pobl rhag sefyll a phleidleisio mewn etholiad.²⁵⁵ Roedd yn well gan rai, gan gynnwys ERS Cymru, fformiwla etholiadol Sainte-Laguë.²⁵⁶

Dadrymuso ymgeiswyr

- Awgrymodd y Sefydliad Materion Cymreig y gallai ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol a ddewisir yn nes i lawr ar restrau pleidiau benderfynu peidio â sefyll os oeddent yn teimlo nad oedd ganddynt lawer o obaith o gael eu hethol, neu gallent benderfynu sefyll fel ymgeiswyr annibynnol yn lle hynny.²⁵⁷

205. Pan ofynnwyd iddi am restrau caeedig, dywedodd yr Athro McAllister fod y Panel Arbenigol wedi gwrthod y system yn gynnwys iawn yn ei drafodaethau, ar y sail ei bod wedi methu â bodloni'r rhan fwyaf o'r egwyddorion a nodwyd gan y Panel ar gyfer asesu addasrwydd systemau etholiadol. Rhybuddiodd y gallai rhoi rhestrau caeedig ar waith effeithio ar gefnogaeth y cyhoedd i'r diwygiadau:

"[...] I think, if anything, when people are aware of the fact that they won't be able to actually choose a specific candidate, that that will be chosen for them, I think that could cause some real issues in terms of public support for any change".²⁵⁸

206. Yn yr un modd, clywsom gan yr Athro Stirbu am y risgiau o leihau – neu ymddangos fel bod yn lleihau – dewis pleidleiswyr o fewn cyd-destun ehangach anfodlonrwydd gwleidyddol.²⁵⁹ Disgrifiodd yr Athro Clark y system fel un is-optimaid, a cham yn ôl o'r safle bresennol, gyda'r system aelodau ychwanegol.²⁶⁰ Dywedodd Jess Blair ei bod yn hollbwysig bod pleidleiswyr yn gallu dewis pwy yw eu cynrychiolwyr etholedig, ac y byddai'n risg wirioneddol i fodlonrwydd y cyhoedd o ran democratiaeth pe bai cynlluniau'r rhestr gaeedig yn mynd yn eu blaen.²⁶¹

207. Aeth yr Athro Renwick ymhellach, gan ddweud, yng nghyd-destun anfodlonrwydd a dadrithiad gwleidyddol, lle mae gwleidyddion yn aml yn cael eu

²⁵⁵ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint

²⁵⁶ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁵⁷ SCME(P)23 Y Sefydliad Materion Cymreig

²⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 26 Hydref 2023

²⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 372], 26 Hydref 2023

²⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023

²⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 150], 9 Tachwedd 2023

gweld fel rhai heb ddealltwriaeth o fywydau pobl gyffredin, a lle mae tystiolaeth yn dangos bod pleidleiswyr yn gwerthfawrogi eu gallu i arfer dewis rhwng ymgeiswyr unigol:

“It just seems to me very, very clear that to remove that ability for voters to vote for individual candidates would create a significant danger of increasing public disaffection with the system. And when we're talking about a reform to increase the number of politicians, when that is the context, then the suggestion that you also then change the voting system in order to give voters less power to determine who the individual politicians filling those seats are seems to me really dangerous. I just would urge the committee and the Senedd as a whole to think very seriously about whether it really wants to go down that kind of path”.²⁶²

208. Ychwanegodd mewn tystiolaeth ysgrifenedig y byddai cyflwyno rhestrau caeedig yn golygu y byddai Cymru'n gweithredu'n groes i draddodiad democrataidd Prydain, ac arferion democrataidd modern Ewropeaidd.²⁶³

209. Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol am yr effaith ar gydbwysedd pŵer rhwng pleidleiswyr a phleidiau gwleidyddol ynghylch pwy sy'n cael eu hethol i'r Senedd, dywedodd nad oedd yn ystyried bod y Bil yn cynrychioli llawer o wahaniaeth i'r trefniadau presennol:

“[...] just as we had with the 40 constituencies, where you have 40 candidates on that, and that's what the parties do—they're deciding who is going to be their candidate, and, at the end of the day, the electors have to decide they want it, they want that candidate, or they don't want that candidate. [...] But I don't think it changes the positions of the parties at all. If people don't want the candidates, the team of candidates, then they won't vote for them”.²⁶⁴

210. Ar 13 Rhagfyr 2023, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod ei farn ar fanteision democrataidd rhestrau caeedig yn cynrychioli rhywfaint o'i farn yn unig ynghylch natur y system, ond o'i ran ef, ei fod wedi cymryd yr argymhellion a ddaeth i law a'u trosi yn ddeddfwriaeth. Ychwanegodd, fodd bynnag, ei fod yn

²⁶² Cofnod y Trafodion [paragraffau 67-71], 26 Hydref 2023

²⁶³ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

²⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 5 Hydref 2023

anghytuno â sylwadau a wnaed gan gyfranwyr am anfanteision rhestrau caeedig, ac yn gweld y system fel gwelliant ar y trefniadau presennol.²⁶⁵

211. Ar 5 Hydref 2023, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol sut – ar y sail ei fod wedi dweud mai ei rôl yw hwyluso dymuniadau'r Senedd – y byddai'n ystyried unrhyw gynigion ar gyfer systemau etholiadol eraill. Ailbwysleisiodd y bydd y Bil yn gofyn am fwyafrif o 40 Aelod, ar y lleiaf:

*“As I say, at the end of the day, though, none of this happens unless there is a two-thirds majority. If there was a two-thirds majority that wanted a different system, then that is what would happen, but that would have to be changes that went through the process. As far as I understand the position at the moment, it seems clear that there is support for—there is a two-thirds majority of support—and satisfaction with this system”.*²⁶⁶

212. Ar 13 Rhagfyr 2023, ailbwysleisiodd fel a ganlyn:

*“[...] first of all, I'm implementing the recommendations that have come through. In terms of, 'Do I think that the system that is being recommended is much better than the existing system?' The answer is I do think that, and I think that can be justified. There'll be others with other perspectives who think a slightly different system or an open list system or a single transferable vote system or others are better systems. The reality of getting constitutional change through, though, is, in order to do that, there has to be a two-thirds majority, and the proposals that are there, that are within the statute, have that capability”.*²⁶⁷

213. Yn adrannau nesaf yr adroddiad hwn, rydym yn edrych yn fanwl ar ddwy brif system etholiadol arall a gynigiwyd gan gyfranwyr at ein gwaith:

- Rhestrau hyblyg.
- Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

²⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 13 Rhagfyr 2023

²⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 5 Hydref 2023

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 231], 13 Rhagfyr 2023

Rhestrau hyblyg

214. Roedd rhai cyfranwyr a gododd amheumon ynghylch rhestrau caeedig yn argymhell rhestrau agored neu hyblyg.²⁶⁸ Yn ôl yr Athro Clark, byddai hyn yn helpu i ymgorffori rhyw lefel o ddewis i bleidleiswyr. Byddai pleidiau gwleidyddol yn gallu cynnig trefn eu hymgeisydd dewisol, a byddai pleidleiswyr yn gallu rhoi ffafriaeth rhwng ymgeiswyr ar restrau pleidiau.²⁶⁹ Cytunodd yr Athro Renwick y byddai rhestrau hyblyg yn darparu cydbwysedd rhwng rheolaeth gan blaid, a rheolaeth gan bleidleiswyr.²⁷⁰ Eglurodd Dr Gilmour, gyda rhestrau hyblyg, y byddai'r dewis sydd ar gael i bleidleiswyr yn gyfyngedig, er y byddai'n rhoi mwy o sgôp na rhestrau caeedig i bleidleiswyr wneud y canlynol:

"[...] decide the balance of representation of the differing views within that party, for example, on economic or social policy or in attitudes to coalition with other parties in the Senedd should a coalition be necessary or desirable".²⁷¹

215. Er bod ERS Cymru yn ffafrio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (fel yr argymhellir gan y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd), dywedodd, pe na bai modd gweithredu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy o ganlyniad i ddiffyg amser cyn etholiad 2026, y byddai rhestrau hyblyg yn well na rhestrau caeedig. Nododd fod rhestrau hyblyg yn cael eu defnyddio mewn llawer o wledydd Ewropeaidd a bod rhai – fel Sweden – sydd wedi defnyddio rhestrau caeedig yn flaenorol wedi deddfu wedi hynny i gyflwyno hyblygrwydd. Disgrifiodd system o'r math a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, lle gall pobl fwrw pleidlais naill ai dros restr plaid, neu dros eu hymgeisydd dewisol, gydag ymgeiswyr sy'n mynd heibio i drothwy pleidlais bersonol penodol yn symud i fyny'r rhestr. Dywedodd mai ychydig iawn o newidiadau fyddai eu hangen i gyflawni hyn, ond y byddai'r canlyniad yn golygu'r canlynol:

"[...] improve voter choice, and give voters a mechanism to effectively deselect a candidate at the top of the list if they believe they were not doing a good job".²⁷²

²⁶⁸ Er enghraifft, SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig), Cofnod y Trafodion [para 151], 9 Tachwedd 2023

²⁶⁹ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

²⁷⁰ Cofnod y Trafodion [para 73-75], 26 Hydref 2023

²⁷¹ SCME(P)22 James Gilmour (Saesneg yn unig)

²⁷² SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

216. Roedd yr Athro Watkin hefyd o blaid cyflwyno hyblygrwydd i gynnal y cysylltiad rhwng pleidleiswyr a'u cynrychiolwyr. Cydnabu y gallai hyn arwain at bapurau pleidleisio mawr neu gymhleth, ond nid oedd yn ystyried y dylai hyn fod yn rhwystr, yn enwedig pe bai pleidleisio electronig yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.²⁷³

217. Pan ofynnwyd iddo pam na chyflwynodd y Bil restrau hyblyg, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym mai'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig, ac a gymeradwywyd gan y Senedd, oedd rhestrau caeedig.²⁷⁴

Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

218. Roedd nifer sylweddol o gyfranwyr yn ffafrio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.²⁷⁵ Nododd ERS Cymru fod y system honno wedi'i hargymell gan y Panel Arbenigol, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol, a dau o aelodau'r Pwyllgor Diben Arbennig, yn ogystal â bod yn system y gall awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis ei mabwysiadu yn lle'r Cyntaf i'r Felin.²⁷⁶ Ychwanegodd Keith Bush fod Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy wedi'i hargymell gan Gomisiwn Richard yn 2003, ar y sail ei bod yn cydbwysu cyfranoldeb ac atebolrwydd lleol. Dywedodd:

"Nothing has happened during the past 20 years to call into question the careful judgment of the Richard Commission as to the relative merits of a closed party list system and the single transferable vote (STV) as methods of electing Members of the Senedd".²⁷⁷

219. Dywedodd Dawn Bowden AS, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol, wrthym:

"CSER recommended the introduction of the Single Transferable Vote (STV) electoral system. This is, of course, different to the closed list system recommended by the Special Purpose Committee and that has been provided for in the SCME Bill. However, the SCME Bill still provides for an electoral system that is not less proportional than the current system for Senedd elections. The SCME Bill goes some way towards meeting the principle of the CSER's recommendation, even if

²⁷³ SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin

²⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 13 Rhagfyr 2023

²⁷⁵ Er enghraifft, SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

²⁷⁶ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷⁷ SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

it does not deliver the system that was preferred by the CSER at the time of its work".²⁷⁸

220. Dadleuodd yr Athro Denis Mollison yn gryf o blaid Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gan ddweud ei bod yn galluogi pleidleiswyr i fynegi dewisiadau a ffefrir o fewn pleidiau, a rhwng pleidiau.²⁷⁹ Yn yr un modd roedd yn well gan y Sefydliad Materion Cymreig Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar sail cyfranoldeb, a chadw'r cysylltiad rhwng pleidleiswyr a'u cynrychiolwyr.²⁸⁰ Cytunodd Dr Gilmour, gan awgrymu mai dim ond Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy allai gyflawni'r canlynol:

"[...] provide the required proportional representation of the registered political parties and in addition, give PR within those parties, both as determined by the wishes of the voters. Uniquely, STV-PR would give voters a truly effective choice of representative, making all Senedd members more personally accountable to their constituents and thereby shifting the balance of power from the political parties to the voters. That would help to ensure that the elected members could hold the Government to account effectively in the unicameral Senedd".²⁸¹

221. Ychwanegodd Dr Gilmour y gallai'r hyn sydd yn y Bil o ran llenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau heb is-etholiadau gael ei chynnal gyda Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy, er enghraifft trwy ddefnyddio'r dull 'cyfrif eto' sydd ar waith ym Malta a Thasmania. Dywedodd y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gyflwyno digon o ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol, gan roi mwy o ddewis i bleidleiswyr a chymhellion i bleidiau gwleidyddol ehangu amrywiaeth yr ymgeiswyr o fewn pob tîm.²⁸²

222. Cydnabuwyd cymhlethdod trosi pleidleisiau yn seddi gan lawer a oedd o blaid cyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Dywedodd Keith Bush y gallai hynny gael ei orbwysleisio, gan ei bod ond yn ofynnol i bleidleiswyr nodi pa ymgeiswyr y maen nhw am bleidleisio drostynt, a'u trefnu yn ôl eu dewisiadau.

²⁷⁸ Llythyr oddi wrth gyn Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 19 Rhagfyr, 2023 (Saesneg yn unig)

²⁷⁹ SCME(P)28 Denis Mollison (Saesneg yn unig)

²⁸⁰ SCME(P)23 Y Sefydliad Materion Cymreig

²⁸¹ SCME(P)22 James Gilmour (Saesneg yn unig)

²⁸² SCME(P)22 James Gilmour (Saesneg yn unig)

Nododd, er bod dyrannu seddi yn gymhleth, y gellid gwneud y broses yn electronig. Ychwanegodd:

“Whereas Welsh voters are currently unfamiliar with it, the same was true of Northern Irish voters before 1998 and of local government voters in Wales in the areas of any councils that opt to adopt STV instead of FPTP”.²⁸³

223. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad a gomisiynwyd gan academyddion ym Mhrifysgolion Rhydychen, Caerdydd a Southampton ar roi Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar waith yng Nghymru.²⁸⁴ Mae'r adroddiad yn gwneud “argymhellion penodol ar gyfer cynllunio a gweithredu system etholiadol STV newydd ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru”. Yn dilyn hynny, rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 y fframwaith deddfwriaethol ar waith, i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i fabwysiadu'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn lle'r system y Cyntaf i'r Felin (yn amodol ar benderfyniad gan yr awdurdod lleol perthnasol, y cytunwyd arno gan uwchfwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf o nifer y seddi cyngor). Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer llenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau, drwy is-etholiadau.

Proses dau gam?

224. Awgrymodd rhai o'r rhai a fynegodd amheuon ynghylch rhestrau caeedig y gellid ystyried proses dau gam o ddiwygio etholiadol, gyda rhestrau caeedig yn cael eu defnyddio i ddechrau cyn symud i system etholiadol arall. Dywedodd yr Athro Stirbu y gallai'r Bil fod yn ddechrau'r broses, gan ychwanegu:

“[...] if then there is a commitment to review these arrangements, then maybe this could be the start rather than the end of the journey”.²⁸⁵

225. Yn yr un modd, dywedodd Alberto Smith o Make Votes Matter er y byddai rhestrau hyblyg yn well, ac y dylid eu cyflawni drwy'r Bil os yn bosibl:

²⁸³ SCME(P)18 Keith Bush (Saesneg yn unig)

²⁸⁴ Devine, Daniel; Larner, Jac; Turnbull-Dugarte, Stuart a Jennings, Will, [Rhoi system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy \(STV\) ar waith ar gyfer etholiadau lleol Cymru](#), 2021

²⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 371], 26 Hydref 2023

"[...] it's really important to emphasise that the jump in the system in terms of voter understanding is quite small if we did add flexible lists later. And so that's not a barrier, and it doesn't fundamentally alter the intention of this legislation; it simply just bakes in an ability for the voter to select intra-party candidates, which we think is important for accountability".²⁸⁶

226. Cydnabu'r Athro Renwick y gallai proses dau gam yn cynnwys rhestrau caeedig yn 2026 ac yna diwygio pellach i ddod i rym o 2030 ychwanegu at ddryswch pleidleiswyr, ond dywedodd nad yw'r un o'r systemau hyn, i bleidleiswyr, mewn gwirionedd yn gymhleth ofnadwy.²⁸⁷ Eglurodd fel a ganlyn:

"So, a shift from a closed list to a flexible list system is very easy to do. A shift from closed lists to STV is a little bit more, but actually not that much more, complicated. And similarly, you can do any of these systems in a system with six-Member districts. It makes a bit of a difference to the counting process, the ballot paper, that kind of thing, but it's not difficult to make that shift".²⁸⁸

227. Gan bwysleisio ei farn y byddai rhestrau caeedig yn cynrychioli cynnydd – ond gan gydnabod bod i'r system ei chryfderau a'i gwendidau – dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Whether, in its format, it is the exact system that would be maintained and adopted for future elections, well, that would obviously depend on the outcome of the statutory review that would take place after the 2026 elections, as to how this has all worked".²⁸⁹

228. Fodd bynnag, nid oedd Jess Blair yn ffafrio proses dau gam. Cydnabu y gallai adolygiad a gynhelir yn unol ag adran 19 o'r Bil ddarparu mecanwaith ar gyfer diwygio pellach yn y dyfodol, ond dywedodd:

"[...] we would argue that it probably needs to be addressed now, that one election under a closed list is probably too many. I think there's a

²⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 9 Tachwedd 2023

²⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 26 Hydref 2023

²⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 26 Hydref 2023

²⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 186], 13 Rhagfyr 2023

risk with a closed list that as soon as you run that election the public will disengage or they will feel disenfranchised by not having their say, so we would prefer that change to be made now, if possible".²⁹⁰

Llenwi seddi gwag

229. Mae Tabl 9 yn crynhoi'r mecanweithiau a ddefnyddir i llenwi seddi gwag mewn systemau rhestr gaeedig. Byddai'r Bil yn cynnal y mecanweithiau sy'n gymwys ar hyn o bryd i'r 20 sedd ranbarthol, ac yn diddymu'r ddarpariaeth ar gyfer is-etholiadau sy'n gymwys i'r 40 sedd etholaethol bresennol.

Tabl 9 Mecanwaith ar gyfer llenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau mewn systemau rhestr gaeedig

Gwlad	Mecanwaith ar gyfer llenwi sedd wag	Y drefn pan fydd y rhestr wedi disbyddu
Cymru/Yr Alban (Aelodau Rhanbarthol)	Nesaf ar y rhestr	Sedd yn parhau'n wag
Yr Almaen (Aelodau Tir yn unig)	Nesaf ar y rhestr	Sedd yn parhau'n wag
Kazakhstan	Nesaf ar y rhestr	Sedd yn parhau'n wag
Moldofa	Nesaf ar y rhestr	Wedi'i ailbennu i'r rhestr gyda'r cyfrifiad pleidlais uchaf nesaf
Montenegro	Nesaf ar y rhestr (yn ddarostyngedig i gwota rhywedd)	Wedi'i ailbennu i'r rhestr gyda'r cyfrifiad pleidlais uchaf nesaf
Gogledd Macedonia	Nesaf ar y rhestr (yn ddarostyngedig i gwota rhywedd)	Cynnal etholiad ychwanegol
Portiwgal	Nesaf ar y rhestr	Sedd yn parhau'n wag
Serbia	Nesaf ar y rhestr	Wedi'i ailbennu i'r rhestr gyda'r cyniferydd uchaf nesaf
Twrci	Is-etholiad	

230. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai cynnig y Bil i llenwi seddi gwag drwy restrau yn hytrach nag is-etholiadau yn lleihau costau a'r amser rhwng

²⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 9 Tachwedd 2023

seddi'n dod yn wag, a'r Aelod newydd yn cael ei ddychwelyd.²⁹¹ Byddai'r arbediad tua £140,000 fesul is-etholiad, er nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amcangyfrifon cost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan nad yw'n bosibl rhagweld gydag unrhyw sicrwydd pa mor aml y gallai fod angen galw is-etholiadau.²⁹²

231. Aiff y Memorandwm Esboniadol yn ei flaen i ddweud y byddai caniatáu i bleidiau gwleidyddol gyflwyno rhestrau o hyd at wyth ymgeisydd “yn sicrhau bod cyfansoddiad y Senedd yn dal mor gyflawn â phosibl”.²⁹³ Fodd bynnag, nid yw'n esbonio pam mae'r Bil yn lleihau uchafswm hyd y rhestr o'r 12 presennol (at ddibenion ethol pedwar Aelod fesul rhanbarth) i wyth (at ddibenion ethol chwe Aelod fesul etholaeth). Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol am hyn, dywedodd mai bwriad y terfyn presennol o ddeuddeg oedd adlewyrchu gallu ymgeiswyr i sefyll etholiad mewn etholaeth yn ogystal ag mewn rhanbarth. Ychwanegodd mai anaml iawn yr oedd pleidiau wedi cynnig mwy nag wyth ymgeisydd i sefyll mewn etholiadau blaenorol i'r Senedd. Yn seiliedig ar gyfradd y seddi gwag mewn Seneddau blaenorol, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol, mewn Senedd 96 o Aelodau gyda thymor etholiadol o bedair blynedd, ei fod yn rhagweld rhwng pedair a phump sedd wag.²⁹⁴

232. Disgrifiodd Colin Everett y darpariaethau yn y Bil fel rhai ymarferol. Cytunodd â'r Aelod sy'n gyfrifol mai prin iawn yw'r tebygolrwydd y byddai rhestrau'n cael eu disbyddu, ar yr amod bod pleidiau yn cynnig digon o ymgeiswyr i sefyll ar gyfer pob etholiad, a bod ymgeiswyr ar restrau pleidiau yn parhau i fod yn gymwys ac yn fodlon gwasanaethu fel Aelodau. Cydnabu fod materion gwahanol mewn perthynas ag Aelodau a etholwyd yn Aelodau annibynnol:

“My one concern throughout, as the Chair's already mentioned, is where would independent candidates stand, and, of course, that might not be a feature so much of the Senedd, but it's a very strong feature of local government, which we are versed in. And it is—if I can use a clumsy term—a slightly odd one out that, if an independent

²⁹¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Medi 2023](#), Medi 2023, paragraff 138

²⁹² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Medi 2023](#), Medi 2023, paragraff 531

²⁹³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Medi 2023](#), Medi 2023, paragraff 131

²⁹⁴ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

resigned or passed away, then it just remains vacant until the next election. That could be within a month, theoretically, of the new Senedd being formed. That does seem a slight oddity, but I'm not sure we could suggest a system that could work with by-elections with regional lists that wouldn't be cumbersome or out of sync".²⁹⁵

233. Dywedodd y Llywydd wrthym, er ei fod yn annhebygol y bydd llawer o seddi gwag heb eu llenwi, fod cyfansoddiad y Senedd yn effeithio nid yn unig ar gynrychiolaeth etholwyr, ond hefyd ar faterion megis dyrannu amser yn y Cyfarfod Llawn, dosbarthiad cadeiryddion pwyllgorau a chyfansoddiad pwyllgorau'r Senedd. Ni chynigiodd farn ynghylch a ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth i atal seddi rhag aros yn wag pe bai'r Aelod sy'n gadael yn cael ei ethol fel unigolyn, neu os yw rhestr plaid benodol wedi'i disbyddu, ond dywedodd ei fod yn fater y dylid ei ystyried.²⁹⁶

234. Roedd Rhys ab Owen AS yn pryderu bod y potensial i seddi gael eu gadael yn wag yn fan dall y gellid ei ddefnyddio gan y rheini sy'n gwrthwynebu'r Senedd, gyda goblygiadau o ran cynrychiolaeth a'r gallu i gynnal gwaith craffu. Nododd fod yna fecanweithiau mewn systemau cynrychiolaeth gyfrannol eraill ar gyfer cynnal is-etholiadau. Gan awgrymu y byddai is-etholiadau o'r fath yn brin, a dim ond yn berthnasol pan nad yw rhestr plaid benodol yn weithredol, dadleuodd na ddylem ganiatáu'r potensial ar gyfer tan-gynrychiolaeth o ran o boblogaeth Cymru, dim ond oherwydd y gost a'r drafferth o ethol cynrychiolydd newydd.²⁹⁷ Yn yr un modd, galwodd y Sefydliad Materion Cymreig am ddarpariaeth ar gyfer is-etholiadau, gan awgrymu bod yna oblygiadau i safonau a threfniadau atebolrwydd y Senedd yn sgil diffyg darpariaethau o'r fath:

"For example, if a Senedd Member resigns due to failing to meet the standards required, then is it fair and appropriate that the seat automatically goes to another candidate from the same party? In such instances, it would seem reasonable for a by-election to take place in that constituency, to establish whether the constituency still supports that seat being held by the party of the former Member. Not establishing such a mechanism weakens a structure which could

²⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 77-78], 15 Tachwedd 2023

²⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 254], 26 Hydref 2023

²⁹⁷ SCME(P)16 Rhys ab Owen (Saesneg yn unig)

*influence accountability and transparency of Members to the electorate”.*²⁹⁸

235. Roedd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnig safbwyntiau gwahanol; roedd rhai yn ffafrio is-etholiadau yn hytrach na llenwi seddi gwag drwy'r rhestr ar sail faint allai newid rhwng etholiadau. Teimlai eraill pe bai rhestrau wedi'u disbyddu y dylid caniatáu i bleidiau enwebu person i gymryd y sedd er mwyn osgoi iddi aros yn wag tan yr etholiad nesaf.²⁹⁹

236. Roedd Undeb y PCS yn pryderu y gallai'r diffyg mecanweithiau i lenwi sedd wag sy'n codi pe bai Aelod annibynnol yn gadael ei sedd gyfyngu ar ddewis pleidleiswyr a gwaethygu'r rhwystrau i ymgeiswyr annibynnol (a phleidiau llai o faint) os yw pleidleiswyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt bleidleisio dros bleidiau mwy o faint, yn hytrach na'r ymgeisydd annibynnol a ffefrir ganddynt:

*“[...] simply to ensure that their voice continues to be in the mix in a fair balance by means of someone vaguely of their political leaning sitting in every seat for their Constituency rather than leaving their voice depleted by means of an empty seat”.*³⁰⁰

237. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol nad yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer llenwi seddi gwag ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, neu os nad oes unrhyw ymgeiswyr ar ôl ar y rhestr ymgeiswyr a gyflwynwyd gan y blaid a enillodd y sedd wag yn yr etholiad diwethaf, sy'n gymwys i gymryd y sedd wag, neu'n fodlon gwneud hynny.³⁰¹ Dywedodd ei fod o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai llawer o seddi gwag na ellid eu llenwi:

“Well, I think you've got to look at the likelihood of what may happen, but also that the system does operate in a particular way where you put forward a list of candidates. So, the current requirement would be a list of eight candidates for six places. I'm not sure there are any constituencies where any one party is going to win all six of those

²⁹⁸ SCME(P)23 Y Sefydliad Materion Cymreig

²⁹⁹ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd Ieuenctid Cymru](#), Tachwedd 2023, paragraffau 11-12

³⁰⁰ SCME(P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig)

³⁰¹ I fod yn gymwys i gymryd sedd, rhaid i ymgeisydd fod wedi'i gynnwys ar restr y blaid yn yr etholiad diwethaf a bod yn fodlon gwasanaethu fel Aelod. Rhaid iddynt barhau i fod yn aelod o'r blaid wleidyddol berthnasol, ac ni ddylai'r blaid fod wedi dweud wrth y Swyddog Canlyniadau na ddylid hysbysu'r Llywydd o enw'r person (h.y. gall y blaid rwystro ymgeisydd neu ymgeiswyr oedd ar y rhestr rhag cael eu hethol, ac y byddent fel arall yn gymwys i gymryd y sedd).

there. So, if you took it that a party that might win three or possibly even four at a stretch out of that, you've then got four reserved places in terms of the list system there. I think it's very unlikely that vacancies will occur. It is a possibility—I think it is a remote one—but it goes with the territory of an increased Senedd and this particular system”.³⁰²

238. Ychwanegodd:

“I know that there has been thought given to maybe there could be a by-election. Maybe a by-election could take place, for example, on a first-past-the-post system. Well, all that is possible. Of course, what it would do then is change the nature of the proportional representation system and the way in which people appear here and can have, obviously, significant impacts. It's probably something that benefits the larger parties within that system and so on. So, I think, for the moment, certainly my thinking is that what we've devised with an increase and with the remoteness of these possibilities, they are something that could remotely occur, but that's just one of the things that you have to accept as a consequence within the changes that are made”.³⁰³

239. Galwodd ERS Cymru i bleidiau gwleidyddol sefyll rhestr lawn ym mhob etholaeth, os gallant er mwyn lleihau'r potensial i seddi gwag aros yn wag.³⁰⁴ Dywedodd Jess Blair wrthym nad oedd yn cefnogi is-etholiadau mewn systemau rhestr, er ei bod yn cydnabod bod risgiau y byddai seddi a ddelir gan Aelodau annibynnol yn parhau'n wag:

“Yes, it's definitely a risk. I think that there are similar provisions in Scotland, where seats are held vacant. It feels, on balance, like the appropriate response to take, but I totally accept that there are pluses and minuses with both approaches”.³⁰⁵

³⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 171], 5 Hydref 2023

³⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 177], 13 Rhagfyr 2023

³⁰⁴ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

³⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 233], 9 Tachwedd 2023

Cynllun papur pleidleisio

240. Pwysleisiodd ERS Cymru bwysigrwydd cynllunio papurau pleidleisio da a phrofi trwyadl.³⁰⁶

241. Mae cynllun papurau pleidleisio i'w defnyddio yn etholiadau'r Senedd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu a chydgrynhai newidiadau i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau cyn etholiad 2026. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd yr ymgynghoriad i lywio'r ymarfer hwn yn cynnwys "mesurau ymarferol, megis cynllun y papur pleidleisio."³⁰⁷ Byddai unrhyw newidiadau i gynllun y papur pleidleisio yn gofyn am ymgynghori ymlaen llaw â'r Comisiwn Etholiadol, yn unol ag adran 7(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

242. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch cynllunio papurau pleidleisio, ond mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

"Bydd enwau ymgeiswyr plaid yn cael eu cynnwys ar y papur pleidleisio, er mwyn i ddarpar ymgeiswyr fod yn fwy atebol na phe bai dim ond enw'r blaid yn ymddangos, gan y bydd etholwyr yn gallu bwrw eu pleidlais gan wybod yn iawn pwy ar restr plaid a allai lenwi'r sedd".³⁰⁸

243. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol pam nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol. Dywedodd:

"Bydd rheolau sy'n nodi pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar y Papur Pleidleisio - a dyluniad y Papur Pleidleisio ei hun - yn cael eu nodi mewn is ddeddfwriaeth, fel mewn etholiadau blaenorol. Felly, nid ystyrir bod angen darparu ar gyfer hyn ar wyneb y Bil".³⁰⁹

³⁰⁶ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

³⁰⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Medi 2023](#), Medi 2023, paragraff 345

³⁰⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Medi 2023](#), Medi 2023, paragraff 133

³⁰⁹ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

Rhoi system etholiadol newydd ar waith

Profiad o roi system etholiadol newydd ar waith yn yr Alban

244. Newidiwyd y system etholiadol ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban o'r Cyntaf i'r Felin i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, o 2007 ymlaen. Gwnaethom ofyn i Malcolm Burr, Cynullydd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, am brofiad cymuned etholiadol yr Alban o roi system etholiadol newydd ar waith. Wrth bwysleisio'r angen i gadw'r pleidleisiwr yn ganolog i unrhyw ddiwygiadau – a phwysigrwydd strwythurau fel byrddau rheoli etholiadol o ran darparu cydlyniant, arweiniad a chymorth i weinyddwyr etholiadol – dywedodd fod tri pheth allweddol i'w hosgoi:

- Dryswch pleidleiswyr.
- Gorgymhlethdod i swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol.
- Diffyg dealltwriaeth ymhlith ymgeiswyr ac asiantau.³¹⁰

245. Gan nodi'r pwysau ariannol a'r pwysau o ran capasiti ar lywodraeth leol, pwysleisiodd Malcolm Burr yr angen am addysg effeithiol i bleidleiswyr, a gwybodaeth a deunyddiau da ar gyfer yr holl randdeiliaid etholiadol, a chynllunio gofalus.³¹¹ Gofynnwyd iddo am effaith yr amrywiad mewn etholfraint etholiadol, ffiniau a systemau ar gyfer y gwahanol etholiadau a weinyddir gan weinyddwyr etholiadol yn yr Alban. Cydnabu'r cymhlethdod posibl, yn enwedig gan fod gan etholiadau lleol yn yr Alban, ac etholiadau i Senedd yr Alban, delerau penodol, ond gall etholiadau Senedd y DU ddod ar fyr rybudd, ac ychwanegodd fel a ganlyn:

“So, it is the quality of the materials, keeping in touch with your election teams, not just, of course, working with them at elections; that's critical, that people realise at all times that they're dealing with, in our case, three different systems”.³¹²

246. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban fod systemau etholiadol lluosog yn gwneud cynllunio, hyfforddi a gweinyddu yn

³¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 331-333], 9 Tachwedd 2023

³¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 333-334], 9 Tachwedd 2023

³¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 340], 9 Tachwedd 2023

fwy heriol, ac yn cyflwyno risgiau ychwanegol i weinyddwyr etholiadol ac i ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau. Ychwanegodd fel a ganlyn:

“These risks can all be managed but require robust governance frameworks and professional project planning to promote effective and well-managed systems”.³¹³

247. Cawsom wybod gan Malcolm Burr, ers yr etholiad lleol cyntaf a gynhaliwyd drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn yr Alban yn 2007, fod lefel y papurau pleidleisio a wrthodwyd wedi gostwng yn y mwyafrif o wardiau. Addysgu pleidleiswyr oedd yn gyfrifol am hynny, yn ei farn ef. Esboniodd fod y mwyafrif o bleidleisiau a wrthodwyd yn cael eu gwrthod oherwydd bod pleidleiswyr wedi rhoi croesau lluosog ar y papur, yn hytrach na rhestru eu dewisiadau yn ôl rhif.³¹⁴ Dywedodd yr Athro Clark fod ei ymchwil yn dangos bod lefel y pleidleisiau a ddifethwyd ar lefel debyg yn yr Alban ag yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, ac mae'r ddau ohonynt wedi defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy am gyfnod llawer hwy.³¹⁵

Rhoi rhestrau caeedig ar waith

248. Mae'r dystiolaeth a glywsom gan weinyddwyr etholiadol yn glir bod rhestrau caeedig yn ymarferol, ac y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.³¹⁶

249. Yn ôl Clare Sim o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, ni fyddai angen newidiadau mawr i'r system a gynigir yn y Bil. Eglurodd fel a ganlyn:

“So, it's a straightforward system, given how complex some forms of proportional representation can be to get people's heads around, the time frame that we have, and the other complexities that are coming in as well. So, having something that's familiar and understandable I think is a really helpful thing for the 2026 Senedd elections, mainly because of that familiarity. We are all used to that system, we know

³¹³ SCME(P)14 Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban

³¹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 352-353], 9 Tachwedd 2023

³¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 29], 9 Tachwedd 2023

³¹⁶ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

how it works and it shouldn't cause any additional burden in any respect because it's a tried and tested system in Wales".³¹⁷

250. Dywedodd Colin Everett, yn yr un modd – ar yr amod bod pleidiau gwleidyddol wedi addasu i'r system newydd – y byddai'r system rhestr gaeedig yn y Bil yn hawdd iawn i'w gweinyddu. Ychwanegodd, er bod angen cywirdeb a gofal ar weinyddwyr etholiadol:

"[...] it is a very well administered and safe system that parties understand and we are familiar with it. I appreciate that the voting public might not be, but why would they be? It's a technical system for us to operate. [...] we're quite comfortable with the workability of the proposals".³¹⁸

Rhoi system etholiadol arall ar waith

251. Yn ôl Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, byddai'r canlynol ymhlith materion allweddol i'w hystyried wrth fabwysiadu'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy:

- Hyfforddiant â ffocws i weinyddwyr etholiadol.
- Camau i leihau papurau pleidleisio a ddifethwyd, drwy sicrhau bod pleidleiswyr yn deall sut i fwrw eu pleidlais, gan gynnwys gwybodaeth gyhoeddus effeithiol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.
- Ystyried a ddylid cyfrif yn electronig neu â llaw. Er bod proses electronig o gyfrif yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau a'r rhan fwyaf o is-etholiadau ar gyfer awdurdodau lleol yn yr Alban, mae rhai swyddogion canlyniadau yn cyfrif is-etholiadau â llaw. Mae dull electronig o gyfrif yn cynnig cyflymder a chywirdeb, ac yn cynhyrchu data ar batrymau pleidleisio o werth i grwpiau gwleidyddol ac academyddion. Disgrifiodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban ddull electronig o gyfrif fel bod yn fuddsoddiad mawr ac yn ymarfer caffael sylweddol bob pum mlynedd, ond yn opsiwn effeithlon pan gaiff ei ddefnyddio ar draws cyfrifiadau lluosog.³¹⁹

252. Yn ôl yr Athro Clark, mae ei ymchwil ar roi Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar waith ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban yn awgrymu nad oes gan bleidleiswyr

³¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 61-63], 15 Tachwedd 2023

³¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 64-65], 15 Tachwedd 2023

³¹⁹ SCME(P)14 Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban

fawr o broblem wrth addasu i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel system etholiadol.³²⁰ Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal cryn dipyn o waith paratoi mewn perthynas â Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy, fel rhan o'i rhaglen o ddiwygio etholiadol llywodraeth leol. Dywedodd:

"I don't see why there's any reason that couldn't be scaled up, to adapt to the 16 constituencies electing a six-Members model that this Bill actually presents".³²¹

253. Gwnaethom ofyn i weinyddwyr etholiadol amlinellu graddau unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau y byddai eu hangen pe bai'r Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer system etholiadol arall. Dywedodd Colin Everett wrthym y byddai angen hyfforddiant ar grŵp cymharol fach o bobl. Dywedodd na fyddai'r costau'n sylweddol (er y gallai fod yn uwch ar gyfer systemau etholiadol a oedd yn cynnwys cyfrif hwy neu fwy cymhleth), ond y byddai'n bwysig sicrhau bod hyfforddiant yn cynnwys treialon i roi cyfleoedd i weinyddwyr ymarfer ac adeiladu eu profiad. Ychwanegodd fod popeth yn bosibl gyda gwaith cynllunio da.³²² Can nodi y byddai rhoi unrhyw system newydd ar waith am y tro cyntaf yn risg uchel, daeth i'r casgliad a ganlyn:

"I think any new system that was given to us we would make work. [...] And this all goes back to the principle that anything is decided early—the legislation is early, we can train people early, the guidance is early. So, I don't think anything would quite phase us, but we can only give you advice on what's before us at the moment or what we've done before, and Wales does have a very strong track record of delivering well, on time and without errors. So, we do show that we are adaptable, despite all the challenges that we have".³²³

254. Cytunodd Clare Sim y byddai angen hyfforddiant ar weinyddwyr etholiadol a staff cyfrif, ond awgrymodd y gallai hyn arwain at gostau sylweddol, yn enwedig os oedd y system etholiadol a gyflwynwyd yn sylweddol wahanol i'r systemau sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru. Ychwanegodd, pe bai Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cael ei gyflwyno, y byddai rhywfaint o arbenigedd ar gael o Ogledd Iwerddon a'r Alban.³²⁴ Gan gydnabod y gallai awdurdodau lleol eisoes

³²⁰ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

³²¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 9 Tachwedd 2023

³²² Cofnod y Trafodion [paragraffau 72 a 75], 15 Tachwedd 2023

³²³ Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 15 Tachwedd 2023

³²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 15 Tachwedd 2023

benderfynu mabwysiadu'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, dywedodd pe bai hyn yn digwydd, y byddai angen i bleidiau a'r cyhoedd gydnabod y byddai'r cyfrif yn cymryd mwy o amser, ac yn fwy cymhleth i ymgeiswyr ac asiantiaid ei ddeall. Dyma oedd ei chasgliad:

"[...] it's all about timing. We don't have a view necessarily as to what the best system is. But all we'd ask for is that, whatever system is decided upon, there is sufficient time to provide that training to administrators to be able to deliver those elections safely, but also to make sure that the public are aware of what those changes are, what the implications are on them in terms of those changes to voting systems, as well as what they need to do with their ballot papers, to prevent any high levels of disenfranchisement from ballot papers being rejected at counts due to a lack of understanding of how that process works as well".³²⁵

255. Clywsom dystiolaeth lai penodol am yr hyn a fyddai'n gysylltiedig â rhoi system etholiadol rhestr hyblyg ar waith, er i'r Athro Renwick ddisgrifio'r system rhestr hyblyg a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol fel a ganlyn:

"[...] a very simple system to operate. It's easy for voters to understand, easy for administrators to administer".³²⁶

256. Pan ofynnwyd i'r Comisiwn Etholiadol a fyddai unrhyw newidiadau i'r system etholiadol yn y Bil yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r diwygiadau ar gyfer etholiad 2026, dyma oedd ei hymateb:

"You will have heard from the WECB and the AEA, and there are pressures there, especially given the wider environment with other Bills and Acts that are affecting their work. But from the discussions that we've had with the WECB—and again, it goes back to having a strong community in Wales that works together very well—we understand that according to current timescales, new systems will be implementable".³²⁷

³²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 15 Tachwedd 2023

³²⁶ Cofnod y Trafodion [para 73-75], 26 Hydref 2023

³²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 22 Tachwedd 2023

Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pleidleiswyr

257. Pwysleisiodd llawer y pwysigrwydd – pa system etholiadol newydd bynnag a roddir ar waith – o sicrhau bod yna gyfathrebu effeithiol i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y newidiadau a'r hyn y mae'n ei olygu o ran y modd y maent yn bwrw eu pleidleisiau.

258. Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, gallai unrhyw system etholiadol newydd arwain at ddryswch ymhlith pleidleiswyr, a nododd ei fwriad fel a ganlyn:

"[...] cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth i roi gwybod i bleidleiswyr am y newid i'r system etholiadol, ochr yn ochr â'n hymgyrch arferol i annog pobl yng Nghymru i gofrestru i bleidleisio".³²⁸

259. Gofynnwyd i ba raddau y mae pleidleiswyr yn deall, ar hyn o bryd, sut mae Aelodau rhanbarthol yn cael eu hethol. Dywedodd Rhydian Thomas:

"I think understanding has improved, and also we've seen a list system for European Parliament elections as well, although turnout was pretty low in many of those elections. I think public understanding has improved, but I think there's probably a fair bit of work to be done, especially ahead of this new election, with a focus on a list system, in actually explaining what their vote means and indeed how the individual candidates are elected as Members of the Senedd. So there's a piece of work that would need to be done around that, certainly".³²⁹

260. Yn yr un modd, pwysleisiodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban bwysigrwydd ymgyrchoedd gwybodaeth i bleidleiswyr sy'n glir ac yn effeithiol, gan nodi y gallant fod yn fwy heriol i'w cyflawni os oes etholiadau lluosog yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod, gyda systemau etholiadol gwahanol. Ychwanegodd y gellir gwella effaith ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd os yw ymgyrchoedd lleol o dan arweiniad swyddogion canlyniadau yn cael eu halinio a'u cydlynu ag ymgyrchoedd cenedlaethol y Comisiwn Etholiadol.³³⁰

261. Cyfeiriodd yr Athro Clark at y cynigion yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar gyfer system gwybodaeth i bleidleiswyr, a ddisgrifiodd fel cam

³²⁸ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

³²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 22 Tachwedd 2023

³³⁰ SCME(P)14 Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban

cadarnhaol o ran cael y wybodaeth honno i bleidleiswyr ar yr adeg y mae arnynt ei hangen, sy'n agos at ddiwrnod yr etholiad.³³¹ Nid oedd o'r farn y byddai unrhyw risg sylweddol o ddryswch cynyddol i bleidleiswyr pe bai system etholiadol wahanol ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd, nag ar gyfer mathau eraill o etholiadau yng Nghymru:

"I think, just to reiterate that what is important is that public information campaigns, in the run-up to those elections, clearly explain what is required, as do polling station workers when people go to cast their vote. That works fairly well in Scotland; I don't see any reason why it shouldn't in Wales".³³²

262. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wrthym y byddai'r bwrdd rheoli etholiadol statudol – sydd i'w sefydlu o fewn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gan y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – yn arwain y gwaith o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyfleu'r newidiadau i bleidleiswyr a'r cyhoedd yn fwy eang.³³³ Eglurodd Will Whiteley fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu bwrdd cyflawni i hwyluso'r broses o ymgysylltu â gweithredwyr allweddol ym maes ymwybyddiaeth a chyfathrebu cyhoeddus. Roedd y partneriaid a gynrychiolwyd ar y bwrdd yn cynnwys Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol. Ychwanegodd y byddai'r llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr – sydd i'w sefydlu drwy'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – hefyd yn gyfrwng cyfathrebu ddefnyddiol.³³⁴

Y goblygiadau ariannol

263. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at y goblygiadau ar gyfer gallu ac adnoddau gweinyddwyr etholiadol sy'n deillio o roi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar waith ar yr un pryd. Yn ogystal â galw am gynllunio a chydgyssylltu effeithiol, dywedodd y Comisiwn Etholiadol:

"Bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod gweinyddwyr etholiadol yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni'r diwygiadau hyn, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i systemau

³³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 9 Tachwedd 2023

³³² Cofnod y Trafodion [paragraff 33-34], 9 Tachwedd 2023

³³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 244], 13 Rhagfyr 2023

³³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 13 Rhagfyr 2023

meddalwedd rheoli etholiadol yn cael eu datblygu a bod adnoddau ar eu cyfer”.³³⁵

264. Ailbwysleisiodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y pwyntiau hyn, gan nodi y dylai risgiau a nodwyd ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth gael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a gweinyddwyr etholiadol, a hefyd:

“[...] any electoral reform initiated by Governments should be fully funded by the respective Government”.³³⁶

265. Dywedodd Colin Everett fod gweinyddwyr etholiadol wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r amcangyfrifon ariannol yn ymwneud â chynnal etholiadau.³³⁷ Pan ofynnwyd iddo pwy ddylai fod yn gyfrifol am dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i system etholiadol y Senedd, ac a fyddent yn disgwyl i'r cyllid ddod gan Lywodraeth Cymru, dywedodd wrthym nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd eto y byddai'n talu'r costau, ond dywedodd y canlynol:

“We'd make that case, because our view is, rather like the UK Government with the Elections Act 2022 and what's changing for the system now, if a Government is introducing change, we would expect them to pay for the implementation, software, training, consequences. Training costs in the scheme, of your total RIA, are very, very small, so it might be a big increase in training, but it will still be a very small cost”.³³⁸

Ein barn ni

266. Nodwn farn yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai rhestrau caeedig sicrhau mwy o gyfranoldeb³³⁹ na'r system etholiadol bresennol; bod pleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru eisoes yn gyfarwydd i raddau â'r system rhestrau caeedig a ddefnyddir i ethol Aelodau rhanbarthol; y gallai'r system rhestrau caeedig

³³⁵ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

³³⁶ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

³³⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 15 Tachwedd 2023

³³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 15 Tachwedd 2023

³³⁹ Dywedodd Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn ei adroddiad mai Mynegai Gallagher o Anghyfranoldeb yw'r “ffordd o fesur cynrychiolaeth gyfrannol a dderbynnir yn rhyngwladol”. Mae Mynegai Gallagher yn mesur “y gwahaniaeth rhwng canran y pleidleisiau a gafwyd a chanran y seddau a gafodd plaid yn y ddeddfwrfa” (paragraff 11.08 a throednodyn 89).

gynnwys cwota rhywedd sy'n cynnwys meini prawf lleoli³⁴⁰; a bod partneriaid y Cytundeb Cydweithio o'r farn y gallai Bil sy'n cynnwys y system hon sicrhau uwchfwafrif yng Nghyfnod 4.³⁴¹

267. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y byddai'n lleihau'r dewis i bleidleiswyr, yn blaenoriaethu dylanwad a dymuniadau pleidiau gwleidyddol dros rai pleidleiswyr, yn erydu cysylltiadau ac atebolrwydd Aelodau i'w hetholwyr, ac yn cyflwyno trothwy etholiadol effeithiol o tua 12 y cant ar lefel etholaeth, gyda goblygiadau posibl i gyfleoedd etholiadol unigolion a phleidiau llai o faint.

268. Mae sicrhau system etholiadol sy'n gweithio yn hollbwysig o ran democratiaeth Cymru. Ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, ac er gwaethaf cynnydd posibl o ran cyfranoldeb yn sgil system rhestr gaeedig, mae gennym amheuan sylweddol ynghylch a yw Bil sy'n rhoi rhestrau caeedig ar waith o reidrwydd yn cynrychioli cam cadarnhaol ymlaen i ddemocratiaeth yng Nghymru.

269. Ni fu cynllunio system etholiadol fanwl yn rhan o'n gwaith. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau gan weinyddwyr etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol – ar yr amod bod y ddeddfwriaeth ar waith mewn da bryd cyn etholiad 2026, yn unol ag Egwyddor Gould – y byddai'n bosibl rhoi system etholiadol arall ar waith.

270. Mae'n eglur bod yna farn wahanol yn y Senedd o ran y system etholiadol a ffefrir. Mae'n eglur hefyd, os yw'r Bil hwn i lwyddo, y bydd rhaid i bob Aelod gydweithio i ddod i gyfaddawd all sicrhau uwchfwafrif. At hynny, pe gellir cyflawni'r uwchfwafrif hwnnw, a bod y Bil yn cael ei basio, bydd angen i bob Aelod a'r gymuned etholiadol yn fwy eang weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl Cymru yn deall y system newydd, a bod ganddynt hyder yng nghadernid ac uniondeb etholiad nesaf, ac etholiadau dilynol y Senedd.

271. Y tu hwnt i'n hamheuan ynghylch rhestrau caeedig, nid ydym wedi llunio barn fel Pwyllgor ar ba system etholiadol y dylid ei defnyddio i ethol Aelodau o'r Senedd. Nodwn fod y Panel Arbenigol wedi argymhell naill ai Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu restr hyblyg yn seiliedig ar drothwy pleidlais bersonol. Nodwn fod y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol wedi argymhell y system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, a bod y system honno yn opsiwn sydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru. Gallai'r naill neu'r llall o'r systemau hyn fynd

³⁴⁰ Er enghraifft, cwota a oedd yn cynnwys gofynion i bleidiau gwleidyddol osod ymgeiswyr sy'n fenywod ar frig eu rhestrau, neu a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau osod ymgeiswyr sy'n ddynion ac yn fenywod am yn ail.

³⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 185-187], 13 Rhagfyr 2023

rhywfaint o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r pryderon a glywsom am ddewis pleidleiswyr, atebolrwydd a dylanwad pleidiau gwleidyddol.

272. Rydym yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol yn gryf i weithio gyda phob plaid wleidyddol yn y Senedd er mwyn dod i gytundeb ar welliannau i'r Bil a all sicrhau bod y system etholiadol yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ac yn sicrhau bod Aelodau'r dyfodol yn fwy atebol i'w hetholwyr.

Argymhelliad 14. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd i ddod i gytundeb ar sut y gellid diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y system etholiadol yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ac yn sicrhau bod Aelodau'r dyfodol yn fwy atebol i'w hetholwyr.

273. Os aiff y Bil yn ei flaen y tu hwnt i Gyfnod 1 fel y'i drafftwyd, a bod y system rhestr gaeedig yn cael ei chadw, rydym o'r farn bod dwy agwedd benodol sydd angen mynd i'r afael â hwy:

- **Papurau pleidleisio.** Os cedwir rhestrau caeedig, dylai fod darpariaeth ar wyneb y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnwys enwau ymgeiswyr ar restrau pleidiau ar bapurau pleidleisio. Rydym yn deall ac yn derbyn ei bod yn fwy priodol i ddarpariaeth ynghylch y rhan fwyaf o fanylion cynllun papurau pleidleisio gael ei chynnwys yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, ond ein barn ni yw bod cynnwys enwau ymgeiswyr yn fater pwysig o egwyddor, y dylid ei ddirchafu i wyneb y Bil.
- **Seddi gwag.** Mae'n annerbyniol nad yw'r Bil yn cynnwys mecanwaith ar gyfer llenwi seddi gwag rhwng etholiadau, na ellir eu llenwi naill ai oherwydd bod yr Aelod sy'n gadael wedi'i ethol yn annibynnol, neu oherwydd bod rhestr ymgeiswyr y blaid berthnasol wedi'i disbyddu. Rydym yn deall mai isel yw tebygolrwydd amgylchiadau o'r fath. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae unrhyw risg o adael etholaeth heb gynrychiolaeth ddigonol, neu o leihau capasiti'r Senedd, yn ormod. Rydym yn cydnabod y bydd sedd sy'n cael ei llenwi gan Aelod sy'n cynrychioli plaid wahanol i'r un a gynrychiolir gan yr Aelod sy'n gadael yn effeithio ar gyfranoldeb y Senedd fel yr oedd ar ôl yr etholiad diwethaf. Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai effaith o'r fath yn ddim mwy na'r effaith ar gyfranoldeb o adael y sedd yn wag. Gellid ystyried amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys is-etholiadau ar sail y Cyntaf i'r Felin neu bleidlais arall, enwebiadau plaid benodol, neu ddyrannu'r sedd i'r blaid neu'r ymgeisydd a fyddai wedi ennill y sedd nesaf ar adeg yr etholiad. Mae gan bob un o'r opsiynau hyn fanteision ac anfanteision; yn ein barn

ni mae'r anfanteision yn cael eu gorbwyso gan fanteision sicrhau y gellir llenwi seddi gwag. Yn ogystal – pe bai'n dymuno – gallai'r Senedd gynnwys darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i leihau effaith unrhyw newid yng nghyfansoddiad y Senedd ganol y tymor drwy, er enghraifft, ddarparu bod amser yn cael ei ddyrannu yn y Cyfarfod Llawn, dyrannu cadeiryddion pwyllgorau a/neu gyfansoddiad aelodaeth pwyllgorau ar sail cyfansoddiad y Senedd yn syth ar ôl etholiad, yn hytrach nag olrhain unrhyw newidiadau yn aelodaeth Aelodau neu grwpiau gwleidyddol.

Argymhelliad 15. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i bapurau pleidleisio gynnwys enwau pob ymgeisydd, gan gynnwys enwau ymgeiswyr sy'n sefyll ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig.

Argymhelliad 16. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi llenwi'r holl seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau, gan gynnwys seddi gwag sy'n cael eu gadael gan Aelodau a etholwyd fel rhai annibynnol, neu gan Aelodau a etholwyd i gynrychioli pleidiau nad yw eu rhestrau ymgeiswyr yn cynnwys rhagor o ymgeiswyr cymwys neu ymgeiswyr sy'n fodlon gwasanaethu.

Argymhelliad 17. Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, confensiynau neu arferion i liniaru'r effaith ar fusnes y Senedd, gan gynnwys y system bwyllogorau, naill ai yn sgil seddi gwag na ellir eu llenwi, neu newidiadau yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Senedd rhwng etholiadau cyffredinol.

274. Pa bynnag system etholiadol a roddir ar waith, a beth bynnag fo'i chynllun manwl, mae'n amlwg y bydd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (y disgwylir iddo gael ei roi ar sylfaen statudol o fewn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gan Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)) rôl hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau bod y system yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn effeithiol, wedi'u cydlynu, ac wedi'u cynllunio a'u darparu'n dda. Mae cynnal gwaith craffu ar y cynigion ar gyfer bwrdd rheoli etholiadol statudol yn fater i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y cyfeiriwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ato. Ein barn ni yw ei bod yn hanfodol bod y cyfnod pontio'n cael ei gynllunio a'i gynnal yn ofalus, er mwyn sicrhau bod y bwrdd rheoli etholiadol yn gallu cyflawni ei rôl bwysig yn llawn wrth roi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith.

275. Bydd yn ofynnol i bartneriaid ar draws y gymuned etholiadol gydweithio er mwyn sicrhau gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth effeithiol am y diwygiadau etholiadol, a'r system etholiadol newydd yn benodol. Bydd hyn yn cynnwys swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd (y mae ganddo'r pŵer, ond nid y ddyletswydd, i hyrwyddo'r system etholiadol bresennol neu'r system sydd ar y gweill a'r system llywodraeth ddatganoledig bresennol neu'r un sydd ar y gweill³⁴²). Er ein bod yn nodi tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol y bydd y bwrdd rheoli etholiadol statudol yn chwarae rôl allweddol wrth arwain a hyrwyddo'r gweithgarwch hwn, nid yw hyn o reidrwydd yn glir o'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol.

Argymhelliad 18. Yn ei ymateb i'n adroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'n glir pwy fydd yn arwain, yn hyrwyddo ac yn cydlynu gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth lleol a chenedlaethol am y diwygiadau etholiadol, a'r system etholiadol newydd yn benodol.

276. Mae'n bwysig hefyd bod gweinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau yn cael y cymorth ariannol a'r cymorth a'r adnoddau eraill sydd eu hangen arnynt i roi'r darpariaethau yn y Bil ar waith.

Argymhelliad 19. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi sicrwydd i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth ariannol a'r cymorth a'r adnoddau eraill sydd eu hangen ar gyfer rhoi'r darpariaethau yn y Bil ar waith.

³⁴² Paragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

8. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Y cefndir

277. Mae Rhan 3 o'r Bil yn newid diben ac yn ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd ar gyfer cynnal adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd (a drafodir ymhellach ym Mhennod 9).

Y trefniadau presennol

278. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaethau na mecanweithiau deddfwriaethol ar waith ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd, nac ar gyfer dosrannu seddi i etholaethau a rhanbarthau'r Senedd.

279. Cyn 2011, roedd ffiniau'r Senedd yn cael eu cysylltu'n awtomatig â ffiniau Senedd y DU, gydag unrhyw newidiadau i ffiniau Senedd y DU yn cael eu gwneud i ffiniau'r Senedd, hefyd. Torrodd Deddf System Bleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011 y cysylltiad hwn.

280. Yn ei adroddiad yn 2017, awgrymodd y Panel Arbenigol fod yn "rhaid cymryd camau deddfwriaethol i sefydlu mecanweithiau o adolygu'r ffiniau neu'r dosraniad seddau gan ddarparu ar gyfer adolygiad llawn cyn etholiad 2026, pa un a gaiff ein cynigion ar gyfer diwygio eu gweithredu ai peidio".³⁴³

281. Yn ei adroddiad yn 2020, argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y dylid cyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn y Chweched Senedd i sefydlu trefniadau adolygu ar gyfer ffiniau'r Senedd, ni waeth a fyddai unrhyw ddiwygiadau eraill yn cael eu cyflwyno.³⁴⁴

282. Wedi hynny, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig:

- Y dylid rhoi'r pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- Y dylai deddfwriaeth ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd,

³⁴³ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Cymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, argymhelliad 13

³⁴⁴ Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, argymhelliad 8

gan gynnwys addasiadau priodol i'w gyfluniad, ei lywodraethiant, ei drefniadau staffio a'i adnoddau ariannol.³⁴⁵

Darpariaeth yn y Bil

283. Mae adran 11 yn newid enw byr Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i 'Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013'. Mae hyn yn adlewyrchu'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud iddi gan y Bil i estyn ei chwmpas y tu hwnt i lywodraeth leol.

284. Mae adran 12 yn newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i 'Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru' ("y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau"). Yn ôl y Memorandwm, bydd ailenwi'r corff yn "gwneud ei swyddogaethau diwygiedig yn eglur ac yn dryloyw", ac yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig.³⁴⁶

285. Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth i gynyddu nifer aelodau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau (gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd) o uchafswm o bump i uchafswm o naw. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y cynnydd hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn llwyth gwaith y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, y disgwylir iddo ddeillio o waith adolygu ffiniau'r Senedd yn ogystal â throsglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gynabyddiaeth Ariannol³⁴⁷ (drwy'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)).³⁴⁸

286. Mae adran 14 yn darparu ar gyfer cyfyngiadau ar bersonau y gellir eu penodi'n aelod o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau neu eu cyflogi'n brif weithredwr arno "fel bod didueddrwydd yn parhau wrth arfer ei swyddogaethau newydd o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd".³⁴⁹ Mae adran 14(1) yn diwygio'r rhestr bresennol o bersonau er mwyn newid "aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru" i "Aelod o'r Senedd", ac yn ychwanegu dwy swydd newydd at y rhestr o swyddi sy'n

³⁴⁵ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhellion 20 ac 21

³⁴⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 162-163

³⁴⁷ Mae'r Panel Annibynnol ar Gynabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu lefel y taliadau i aelodau etholedig o gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

³⁴⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 166

³⁴⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, Nodiadau Esboniadol, paragraff 34

anghymhwys person: aelod o staff y Senedd (“staff Comisiwn y Senedd”) a pherson a benodir i gynorthwyo Aelod o’r Senedd (“staff cymorth yr Aelodau”).

287. Mae adran 15 yn mewnosod pŵer dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru yn Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, i newid y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Ar hyn o bryd y cworwm a bennwyd yw tri; mae’r Bil yn darparu y gallai Gweinidogion Cymru newid hyn drwy reoliadau, ond nid i nifer llai na thri.

288. Mae adran 16 yn diwygio Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 mewn perthynas â phenodi comisiynwyr cynorthwyol i gynorthwyo comisiynwyr i gyflawni eu dyletswyddau. Mae’r diwygiadau’n caniatáu penodi mwy nag un person yn gomisiynydd cynorthwyol ac yn gwneud darpariaeth sy’n cyfateb i adran 14(1) i ddiwygio’r rhestr o bersonau sydd wedi’u hanghymhwysio rhag bod yn gomisiynydd cynorthwyol.

Cynyddu nifer aelodau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau

289. Mae’r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cynnwys cyfeiriadau at enw newydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, ac yn gosod swyddogaethau ychwanegol ar y corff hwnnw a allai ddibynnu ar y cynnydd yn nifer aelodau’r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau o dan adran 13 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

290. Mae’r Memorandwm yn nodi y bydd “arbedion maint” sy’n deillio o gydgrynhoi swyddogaethau’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i’r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn golygu y bydd cyfanswm nifer uchaf y comisiynwyr a’r aelodau yn lleihau, er nad yw’r arbediad hwn yn rhan o’r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).³⁵⁰

291. Gwnaethom ofyn i’r Aelod sy’n gyfrifol am y risgiau sy’n gysylltiedig â chynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â’r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau mewn dau Fil y mae’r Senedd yn craffu arnynt ar yr un pryd, gyda’r potensial i’r naill neu’r llall fethu naill ai yng Nghyfnod 1 neu yng Nghyfnod 4 (neu gael eu gohirio oherwydd eu bod wedi’u cyfeirio at y Goruchaf Lys neu’n destun Gorchymyn adran 114). Er ei fod yn cydnabod bod gorgyffwrdd y byddai angen ei reoli, dywedodd nad yw un yn methu os yw’r llall yn methu.³⁵¹

³⁵⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 167

³⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 5 Hydref 2023

292. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym nad oedd wedi ystyried uno Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn un darn o ddeddfwriaeth gan fod y cyntaf yn cael ei ystyried yn ddiwygiad cyfansoddiadol a'r ail yn ymwneud â chyfres gyfan o faterion yn ymwneud â'r modd y mae ein hetholiadau yn gweithredu mewn gwirionedd. Roedd yn derbyn bod modd cyfuno'r ddau Fil ond dywedodd ei fod yn ffafrio darnau llai o ddeddfwriaeth, sy'n fwy penodol.³⁵²

293. Wrth sôn am y profiad o gymryd cyfrifoldeb am ffiniau etholiadol Senedd yr Alban, amlygodd tystiolaeth ysgrifenedig Boundaries Scotland fod maint y gwaith sydd ei angen er mwyn llunio cynigion, ymgynghori'n effeithiol, dadansoddi ymatebion ac yn y blaen yn syrthio i raddau helaeth ar y staff.³⁵³ Buom yn archwilio'r cydbwysedd gwaith ar gyfer comisiynwyr a'r ysgrifenyddiaeth ymhellach gyda Chadeirydd Boundaries Scotland, yr Athro Ailsa Henderson. Esboniodd fod y ddeddfwriaeth yn yr Alban yn caniatáu ar gyfer cadeirydd, dirprwy a hyd at bedwar comisiynydd, er bod un swydd comisiynydd fel arfer wedi'i gadael yn wag nes i'r cyfrifoldeb am adolygu ffiniau Senedd yr Alban gael ei drosglwyddo i Boundaries Scotland:

"I think the commission needs to have a certain number of commissioners to do the job—but my point was just that there was no mention, given the expanded capacity for the democracy and boundary commission in Wales, of an enhanced capacity in terms of the secretariat, and so if there were to be significantly enhanced responsibilities, then secretariat size would, I think, become relevant".³⁵⁴

294. Dywedodd yr Athro Henderson wrthym fod Boundaries Scotland wedi ymdopi'n dda â nifer y comisiynwyr sydd ganddo. Esboniodd fod Boundaries Scotland yn delio â'i holl swyddogaethau (gan gynnwys cyllid, cyfathrebu a pherfformiad) ochr yn ochr â'i waith adolygu. Er y gallai hyn olygu cyfarfodydd amlach, teimlai fod cyfranogiad pawb ym mhob agwedd ar y gwaith, gan gynnwys llywodraethiant, yn dda o beth.³⁵⁵ Pan ofynnwyd iddi fynegi barn ar nifer y comisiynwyr ychwanegol y gellid eu penodi o dan y Bil, dywedodd:

³⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 5 Hydref 2023

³⁵³ SCME(P)8 Boundaries Scotland (Saesneg yn unig)

³⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 307-308], 9 Tachwedd 2023

³⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 358], 9 Tachwedd 2023

“Well, I think it would be for the Welsh commission to say what numbers they think are appropriate. What I'm saying is that, for our context, our numbers are fine”.³⁵⁶

295. Wrth sôn am nifer uchaf y comisiynwyr a gynigir yn y Bil, esboniodd Bev Smith, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, y byddai'r llwyth gwaith a ragwelir yn eithaf sylweddol:

“[...] I think what's important is that we have the right capacity, the right skills and the right resources to be able to deliver, especially within the tight timescales, perhaps, around phase 1 of the Senedd reform in particular. So, to make sure that we can manage community and electoral reviews and not impact that programme and take on the additional functions, I think the number is about right”.³⁵⁷

296. Dywedodd Shereen Williams, Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, y byddai comisiynwyr yn cael eu defnyddio'n wahanol i'r Alban oherwydd swyddogaethau ychwanegol y Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dywedodd wrthym y byddai angen carfan lawn o gomisiynwyr i ymgymryd â gwaith y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.³⁵⁸

297. Mewn gohebiaeth ar 8 Tachwedd 2023, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol fod trafodaethau cychwynnol ag ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu y gallai'r adolygiad paru cychwynnol ar gyfer 2026 gael ei gynnal, o bosibl, gyda'r nifer presennol o gomisiynwyr. Mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig i uchafswm o naw comisiynydd, a'r cynnydd yn llwyth gwaith y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn y tymor hwy, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“[...] nifer mwyaf o Gomisiynwyr yw hwn, ac nid targed. Bydd unrhyw gynnydd yn nifer y Comisiynwyr yn amodol ar ofyniad, ynghyd â gweithdrefn penodiadau cyhoeddus gadarn”.³⁵⁹

³⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 362], 9 Tachwedd 2023

³⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 149], 22 Tachwedd 2023

³⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 155 a 162], 22 Tachwedd 2023

³⁵⁹ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

Penodi comisiynwyr

298. Pwysleisiodd yr Athro Renwick fod y ffaith bod argymhellion y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn yr adolygiadau ffiniau yn cael eu gweithredu'n awtomatig yn gwneud didueddrwydd y broses adolygu hyd yn oed yn bwysicach, ac awgrymodd fod angen mesurau diogelu rhag dylanwad gwleidyddol gormodol:

*“There's very little in the legislation currently about how the commissioners are appointed, and ensuring that there's some kind of independent process that produces either a candidate or a small list of candidates, from whom Ministers then choose, would seem to be appropriate”.*³⁶⁰

299. Cytunodd yr Athro McAllister nad oes digon o fanylion am gyfansoddiad y comisiwn, a phwysleisiodd bwysigrwydd amrywiaeth diriogaethol wrth benodi comisiynwyr newydd oherwydd dyna'r unig ffordd y bydd y cyhoedd yn teimlo bod gan y comisiwn ei ddilysrwydd a'i uniondeb ei hun.³⁶¹ Eglurodd Bev Smith fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun cymunedol y meysydd i'w hadolygu wrth recriwtio comisiynwyr:

*“When we ask a commissioner to do a review of an electoral boundary or a community boundary, in order to ensure that total independence, we don't ask them to do a review of the area that they live in. What they need to have is an understanding of the context, the community context, of the area that they're reviewing. That doesn't mean to say they have to live within that area in order to do that. So, it is a balance, really, between analytical, communication and engagement skills, an ability to look at a lot of complex information and make a good, robust judgment on that evidence before them, and an understanding of the Welsh context, but not necessarily to live within the community that they're reviewing”.*³⁶²

³⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 104-105], 26 Hydref 2023

³⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 108-109], 26 Hydref 2023

³⁶² Cofnod y trafodion [paragraff 303], 22 Tachwedd 2023

300. At hynny, dywedodd yr Athro Renwick y dylid penodi comisiynwyr am dymhorau penodol, heb fod modd iddynt gael eu hailethol, fel nad oes perygl iddynt gael eu dylanwadu'n amhriodol yn y gobaith o gael eu hailethol.³⁶³

301. Dywedodd yr Athro Henderson wrthym mai pedair blynedd yw hyd y penodiadau i Boundaries Scotland, ac y gellir ailethol comisiynydd unwaith yn unig, fel sy'n wir am benodiadau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Esboniodd y rhesymeg dros ganiatáu i gomisiynwyr wasanaethu hyd at wyth mlynedd:

*“My thinking on this relates to the cycle of electoral boundary reviews, and it depends how often those are happening, because, if they're happening every eight years, it is possible then that, within one eight-year cycle, someone will be able to do one review and will not have an eight-year term in which they have undertaken no review work. Likewise, you're not likely to have multiple reviews during your eight-year term. But, if your term is four years, it's entirely possible that you would spend the entire four years on a boundary commission without ever having undertaken any review work”.*³⁶⁴

302. Pan holwyd Bev Smith a fyddai un tymor wyth mlynedd yn well, teimlai y gallai'r ymrwymiad amser hwy atal pobl rhag ymgeisio, ac awgrymodd ei bod yn bwysicach amrywio pryd y caiff comisiynwyr eu penodi er mwyn osgoi colli setiau sgiliau i gyd ar unwaith. Eglurodd y byddai'r cadeirydd ac un comisiynydd arall yn gorffen yn 2026, gyda phenodiadau'r comisiynwyr sy'n weddill yn dod i ben yng ngwanwyn 2025, a dywedodd fod trafodaethau eisoes ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau parhad ar adeg allweddol yn y rhaglen waith.³⁶⁵

Anghymhwysu pobl rhag cael eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau

303. Mae'r Bil yn diweddarau'r rhestr gyfredol o bersonau sydd wedi'u hanghymhwysu rhag cael eu penodi'n gomisiynydd, yn gomisiynydd cynorthwyol neu'n brif weithredwr i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.

³⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 26 Hydref 2023

³⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 370], 9 Tachwedd 2023

³⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 165 a 300], 22 Tachwedd 2023

304. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cododd Undeb y PCS nifer o bryderon am y personau ychwanegol a anghymhwyswyd rhag cael eu penodi'n gomisiynwyr i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau o dan adrannau 14(1)(b) a 14(2) o'r Bil:

- Gan nad yw'r Senedd yn cyflogi staff yn uniongyrchol, roedd o'r farn y dylai'r cyfeiriad at "aelod o staff Senedd Cymru" fod at "aelod o staff Comisiwn y Senedd".
- Ystyriai fod y term "a benodwyd i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau'r Aelod" yn ddiffiniad llac iawn a allai gwmpasu rolau gwirfoddol neu bleidiol, ac roedd yn pryderu y gallai arwain yn anfwriadol at leihau'r gynrychiolaeth bosibl ar y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.
- Nododd fod person yn cael ei anghymhwysu ar adeg ei benodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, a dadleuodd y dylid gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer anghymhwysu person o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ar adeg ei benodi yn "aelod o staff Senedd Cymru" neu "i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gynnal swyddogaethau'r Aelod", o ystyried y gwrthdaro o ran cyflawni'r ddwy rôl.³⁶⁶

305. Dywedodd Siwan Davies y gallai'r derminoleg a ddefnyddir yn adrannau 14(1)(b), 14(2) ac 16(1)(b)(ii) i ddisgrifio'r staff a gyflogir gan Gomisiwn y Senedd a'r rheini a gyflogir fel staff cymorth yr Aelodau fod yn gliriach. Awgrymodd y dylai fod yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall.³⁶⁷ Nododd y Llywydd:

"[...] mae'n bwysig iawn ar bob cyfle, felly, yn y ddeddfwriaeth yma ac ym mhopeth arall, ein bod ni'n glir ynglŷn ag ai staff y Comisiwn sydd ddim yn wleidyddol neu staff gwleidyddol sy'n gweithio i Aelodau. Os oes yna unrhyw fan yn y Mesur ble nad yw hynna'n glir, yna byddwn i'n croesawu'r pwyllgor i amlygu hynna yn eich gwaith chi".³⁶⁸

306. Roedd yr Athro Renwick o'r farn y dylid ystyried anghymhwysu ar seiliau penodol, gan awgrymu y byddai gofyniad na ddylai comisiynwyr fod yn aelodau o bleidiau gwleidyddol yn fan cychwyn eithaf amlwg a sylfaenol.³⁶⁹

³⁶⁶ SCME(P)13 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (Saesneg yn unig)

³⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 26 Hydref 2023

³⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 195], 26 Hydref 2023

³⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 26 Hydref 2023

307. Clywsom na fyddai ymgeisydd yn cael ei anghymhwysu rhag gwasanaethu fel comisiynydd ar gyfer Boundaries Scotland oherwydd ei fod wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol, neu wedi gwasanaethu fel aelod etholedig o ddeddfwrfa. Eglurodd yr Athro Henderson y byddai ymgeiswyr yn cael eu holi am hyd a lled eu gweithgareddau gwleidyddol fel rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus, ac y byddai hyn yn cael ei archwilio ymhellach pe bai'r ymgeisydd yn mynd yn ei flaen i gyfweliad.³⁷⁰

308. Dywedodd Shereen Williams fod y rhestr o ddeiliaid swyddi sydd wedi'u hanghymhwysu rhag cael eu penodi'n aelodau o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn gynhwysfawr iawn. Dywedodd y gallai fod ychydig yn ormodol gwneud newidiadau ychwanegol i atal deiliad swyddi rhag cymryd swydd, maes o law, a fyddai'n eu hanghymhwysu, yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.³⁷¹

309. Pan ofynnwyd iddi pam y mae'r Bil yn anghymhwysu staff cymorth yr Aelodau neu staff Comisiwn y Senedd rhag cael eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, ond nid gweision sifil na chynghorwyr i Lywodraeth Cymru, dywedodd Shereen Williams fod y broses penodiadau cyhoeddus bresennol yn eithaf trwyadl. Dywedodd nad oedd hi o'r farn bod angen ychwanegu gweision sifil neu gynghorwyr Llywodraeth Cymru at y rhestr o bobl sydd wedi'u hanghymhwysu rhag cael eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.³⁷²

Perthynas â'r Senedd

Atebolrwydd

310. Gofynnwyd am farn y Llywydd ar beth y dylai'r berthynas fod rhwng y Senedd a'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, o ystyried ei gyfrifoldebau newydd ar gyfer cynnal adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd:

“Well, I would make the point that this commission is different to any other commission, in that it will have far more interest to political parties and potential politicians—direct interest in how constituencies are configured. So, the principle of retaining the total independence

³⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 366 a 368], 9 Tachwedd 2023

³⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 199 a 203], 22 Tachwedd 2023

³⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 213], 22 Tachwedd 2023

of the boundary commission from the party political process is quite an important principle to guard".³⁷³

311. Awgrymodd Siwan Davies y gellid ystyried modelau atebolrwydd mewn mannau eraill ar gyfer comisiynau ffiniau, neu i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Bwyllgor Llywydd y Senedd (gweler Blwch 8).³⁷⁴

Blwch 8 Modelau atebolrwydd

Boundaries Scotland

- Corff cyhoeddus anadrannol cynghorol yw Boundaries Scotland, a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth yr Alban. Penodir cadeirydd ac aelodau Boundaries Scotland gan Weinidogion yr Alban, drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth yr Alban. Nid yw Senedd yr Alban yn chwarae unrhyw ran yn y broses benodi. Defnyddir cynllun corfforaethol tair blynedd Boundaries Scotland i lywio ei ddyraniad cyllidebol ym Mil Cyllideb blynyddol Llywodraeth yr Alban, sy'n destun gwaith craffu gan Senedd yr Alban.³⁷⁵ Mae Boundaries Scotland yn cynhyrchu adroddiad blynyddol yn crynhoi gweithgareddau allweddol ac alldro yn erbyn ei ddyraniad cyllideb.³⁷⁶ Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cael ei osod gerbron Senedd yr Alban.³⁷⁷

Comisiynau Ffiniau'r DU

- Mae pedwar Comisiwn Ffiniau³⁷⁸, gyda phob un ohonynt yn gyfrifol am adolygu etholaethau Senedd y DU yn un o wledydd y DU. Maent yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth y DU, fel cyrff cyhoeddus anadrannol cynghorol. Cadeirydd *ex-officio* pob Comisiwn yw Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a'r confensiwn yw nad yw'n chwarae unrhyw ran yn nhrefodion unrhyw Comisiwn. Rhaid i'r dirprwy gadeiryddion fod yn Farnwyr Uchel Lys, gan fod eu hannibyniaeth yn sicrhau didueddrwydd a thegwch y broses adolygu.³⁷⁹ Adran noddi Llywodraeth y DU sy'n goruchwyllo llywodraethiant

³⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 273], 26 Hydref 2023

³⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 283-284], 26 Hydref 2023

³⁷⁵ Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban, [Cynllun Corfforaethol 2021-2024](#). (Saesneg yn unig)

³⁷⁶ Boundaries Scotland, [Adroddiad Blynyddol 2021-22](#). (Saesneg yn unig)

³⁷⁷ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Boundaries Scotland yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Tachwedd 2023](#). (Saesneg yn unig)

³⁷⁸ Y Comisiwn Ffiniau i Loegr, y Comisiwn Ffiniau i Gymru, y Comisiwn Ffiniau i'r Alban a'r Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon

³⁷⁹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Adolygiadau ffiniau etholaethau a nifer yr Aelodau Seneddol Tachwedd 2023](#). (Saesneg yn unig)

corfforaethol ac atebolrwydd o ran defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ac yn effeithlon.

Y Comisiwn Etholiadol

- Mae Pwyllgor y Llywydd, y mae'n rhaid iddo gael ei gadeirio naill ai gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, yn gyfrifol am gynnal gwaith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol (y telir amdanynt o Gronfa Gyfunol Cymru) a chynlluniau pum mlynedd fel y maent yn ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol, mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.³⁸⁰

312. Pan ofynnwyd iddi a ddylai'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau fod yn destun llinellau atebolrwydd tebyg i'r Senedd â'r Comisiwn Etholiadol, dywedodd Shereen Williams:

"I appreciate that a lot of reform that's coming through the Bill mirrors what's in the Parliamentary Constituencies Act 2020. We currently don't have that kind of relationship with the UK Parliament. Our relationship as Boundary Commission for Wales is with our sponsor division, and we submit our reports directly to the Minister of State and the Speaker of the House of Commons. And we provide updates that way. So, that is the current programme of engagement we have with that, and if it is in the interest of transparency and governance for that to change, when this new Bill comes through, then we'd be happy to take that on board".³⁸¹

313. Cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol at y gofyniad presennol yn adran 20 o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, sef bod y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, a bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r adroddiad ac yn ei osod gerbron y Senedd. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai hyn yn darparu mecanwaith i'r Senedd drafod sut y mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn gweithredu. Awgrymodd y byddai mynd ymhellach yn effeithio ar annibyniaeth y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.³⁸²

³⁸⁰ Senedd Cymru, [Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25, Tachwedd 2023](#)

³⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 22 Tachwedd 2023

³⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 13 Rhagfyr 2023

314. Yn ogystal â mesurau i amddiffyn rhag unrhyw ymyrraeth neu ddylanwad gwleidyddol posibl gan y Senedd, gwnaethom hefyd drafod gyda'r Aelod sy'n gyfrifol yr angen i sicrhau nad oes unrhyw ymyrraeth na dylanwad gwleidyddol gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd wrthym:

"[...] if the Senedd were to make suggestions that there were things that it was deeply unhappy with in terms of how the system had been operating, those would have to be taken into account. It depends what they are, what the format would be, what the mechanism would be, whether it's through primary legislation or whether there were other means of things being done, but the views of this committee and the views of whatever would come from the Senedd would obviously be of massive importance. I take the ownership of these systems as being ultimately within the Senedd itself".³⁸³

Gwrandawiadau cyn penodi

315. Mewn gohebiaeth ar 8 Tachwedd 2023, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai comisiynwyr a chadeirydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cael eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus y cafodd comisiynwyr a chadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eu penodi drwyddi yn flaenorol. Ychwanegodd fod y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rhoi sicrwydd annibynnol bod penodiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.³⁸⁴

316. Fel rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus a ddilynir ar gyfer nifer o benodiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru—megis cadeiryddion cyrff diwylliannol a byrddau iechyd, a'r Comisiynwyr ar gyfer Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol—caiff pwyllgorau'r Senedd gynnal gwrandawiadau cyn penodi. Pan ofynnwyd iddi a ddylid cynnal gwrandawriad cyn penodi ar gyfer cadeirydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, awgrymodd y Llywydd fod angen rhoi cryn ystyriaeth i'r mater, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penodiad.³⁸⁵

317. Gan bwysleisio'r pa mor bwysig ydyw bod y broses yn annibynnol, yn gadarn ac yn dryloyw, dywedodd Bev Smith y byddai'n agored i weld gwrandawiadau o'r

³⁸³ Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 13 Rhagfyr 2023

³⁸⁴ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

³⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 274], 26 Hydref 2023

fath yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses benodi ar gyfer cadeirydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.³⁸⁶

318. At hynny, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol ei barodrwydd i ystyried cynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer swydd y cadeirydd:

"[...] that's something I think we would be very interested in giving consideration to. Don't forget, pre-appointment scrutiny can also be a form of political interference as well, so it's a question as to how it operates and what its purpose is—the scope and the framework within which it actually takes place as well".³⁸⁷

Perthynas â phartneriaid etholiadol eraill

319. Yn absenoldeb corff statudol, mae Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r gwaith strategol o gydgyssylltu gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru ar sail wirfoddol, gyda chefnogaeth y Comisiwn Etholiadol.

320. Mae'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn rhoi swyddogaethau Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o gydlynu a gweinyddu etholiadau datganoledig, cydweithredu â swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol, a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd democrataidd y genedl.³⁸⁸

321. Dywedodd Malcolm Burr wrthym fod gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban berthynas agos iawn â Boundaries Scotland, sy'n cynnwys gwahoddiad sefydlog i'r ysgrifennydd fynd i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban fel un o'i gynghorwyr.³⁸⁹ Fodd bynnag, wrth fyfyrio ar y cynnig i sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru fel rhan o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, dywedodd Malcolm Burr wrthym mai rhan o gryfder y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban oedd ei annibyniaeth:

"Boundaries Scotland is one of our advisory group, like the electoral registration committee of the assessors, like the Association of Electoral Administrators, SOLAR, the Society of Local Authority

³⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 196], 22 Tachwedd 2023

³⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 13 Rhagfyr 2023

³⁸⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Hydref 2023, paragraff 1.2

³⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 397], 9 Tachwedd 2023

Lawyers and Administrators in Scotland, the Scottish and UK Governments and the commission. You know, we work with all of these bodies, but I don't immediately see it as—. I wouldn't be recommending that we become part of any one of them or merged with any one of them. I don't think that's essential. But I don't in any way suggest that it would compromise the independence of the EMB were that to happen".³⁹⁰

322. Rhannwyd y farn hon gan yr Athro Henderson, a ddywedodd ei bod yn hollol hanfodol bod pleidleiswyr yn ymddiried yn y Bwrdd Rheoli Etholiadol ac yn ymddiried yn y ffordd y caiff etholiadau eu gweinyddu. Rhybuddiodd y gallai pobl gysylltu sylwadau negyddol yn y wasg yn ymwneud ag adolygiadau ffiniau â'r rheini sy'n gweinyddu etholiadau, a bod perygl felly o danseilio ffydd y cyhoedd yn y broses etholiadol.³⁹¹

323. Teimlai'r Fonesig Elan Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Cymru, y gallai cylchoedd gwaith gwahanol iawn y ddau gorff arwain at ddryswch, a dywedodd y byddai'n well, yn ei barn hi, pe baent yn gyrff ar wahân.³⁹²

324. Mynegodd Clare Sim bryderon hefyd am y cynnig i roi swyddogaethau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Tynnodd sylw at y ffaith bod llwyddiant y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban yn dibynnu'n fawr ar arbenigedd gweinyddwyr etholiadol hynod wybodus a hirdymor, ac ychwanegodd:

"[...] it's making sure that the boundary commission going forward have that level of expertise that understands the complexity of electoral registration, not only in the Senedd and local government elections in Wales, but the bigger picture of the sort of increase in divergence issues that are becoming one of the biggest issues for administrators in Wales at the moment, and having that awareness to be able to plan that programme of work, to be able to review things effectively and carry on in the direction that the Wales Electoral Coordination Board have".³⁹³

³⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 414], 9 Tachwedd 2023

³⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 418], 9 Tachwedd 2023

³⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 22 Tachwedd 2023

³⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 168], 15 Tachwedd 2023

325. Ar y llaw arall, roedd Colin Everett yn hollol gyfforddus â'r cynnig a theimlai y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru yn gwneud cystal â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, ar yr amod bod ganddo arbenigedd, uniondeb a'i fod yn cael rhywfaint o annibyniaeth. Dywedodd fod trafodaethau manwl ar y gweill gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch sut i sicrhau y bydd yn gweithio, a dywedodd wrthym:

"If I honestly thought, having set this up and run it for seven years, that that proposal would in any way curtail our ability to operate properly, I would tell you. I don't, provided the commission adopt it in the way that we're recommending in practice".³⁹⁴

326. Gwnaethom ofyn i Bev Smith a oedd hi'n gweld unrhyw botensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau pe bai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd i Gymru yn rhan annatod o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:

"I don't, as long as we've got the governance and the clarity of roles and responsibilities clear, and that's a piece of work that we're working with the sponsorship body on now, so making sure that we understand where the decisions are being made, where the accountability and responsibility for those decisions sit, and also that we make sure that the commissioners that sit on the electoral management board have the right skill set to provide that level of support, and that the organisation as a whole has the governance and audit function and the right level of secretariat support for that electoral management board".³⁹⁵

327. Wrth drafod y penderfyniad i gynnwys swyddogaethau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru o fewn y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn hytrach na chreu corff statudol ar wahân, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'r ffaith bod rolau'n cael eu diffinio'n glir iawn o fewn un corff yn gwrthbwysu'r gost a'r fiwrocratiaeth.³⁹⁶

³⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 160 a 162], 15 Tachwedd 2023

³⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 22 Tachwedd 2023

³⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 13 Rhagfyr 2023

Enw'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau

328. Awgrymodd yr Athro Clark y dylid newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i 'Gomisiwn Ffiniau Cymru' gan ei fod yn teimlo bod risg o ddrysu 'Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru' â'r Comisiwn Etholiadol.³⁹⁷

329. Fodd bynnag, dywedodd Bev Smith wrthym fod yr enw a gynigir yn y Bil yn cyfleu rôl ehangach y sefydliad:

"[...] I think it adequately reflects perhaps a shifting role in terms of that oversight of democratic health—so, looking in particular at how community electoral boundaries and Senedd boundaries contribute to it, but also picking up that remuneration element in terms of whether that's a barrier or an opportunity to help additional standing of councillors. And then, the third element, really, around that electoral management board, I think it provides that wider scope to look at democratic health across all of those strands and perhaps provide trends and analysis back to Ministers to be able to look at whether we need to shift or change any policy".³⁹⁸

Ein barn ni

330. Rydym yn fodlon ar y drefn o roi'r swyddogaethau ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth ar ei newydd wedd, ac rydym yn cefnogi ei ailenwi i adlewyrchu ei rôl ehangach.

331. Rydym yn cydnabod bod y cynnydd arfaethedig o ran nifer uchaf y comisiynwyr yn ystyried y swyddogaethau a roddir i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau gan Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn ogystal â'r swyddogaethau ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd. Serch hynny, rydym wedi cael tystiolaeth groes am nifer y comisiynwyr y bydd eu hangen i gefnogi'r swyddogaethau newydd. Er bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi awgrymu nad oedd y terfyn yn darged, ac y gallai'r adolygiad paru cychwynol gael ei gynnal o bosibl gan y nifer bresennol o gomisiynwyr, mae'n amlwg i ni fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn bwriadu recriwtio'r nifer uchaf o gomisiynwyr o'r cychwyn. Mae hyn yn cyferbynnu â'r dystiolaeth a glywsom fod Boundaries Scotland wedi ymdopi o fewn ei therfyn presennol o chwe aelod ers ennill

³⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 109], 9 Tachwedd 2023

³⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 22 Tachwedd 2023

cyfrifoldeb am adolygu ffiniau Senedd yr Alban, gan roi'r pwyslais yn lle hynny ar ysgrifenyddiaeth ag adnoddau da. Mae'r terfyn aelodaeth arfaethedig o naw yn uchel yn ein barn ni. Mae'n hanfodol i'r penderfyniadau a wneir i recriwtio comisiynwyr ychwanegol gael eu seilio ar dystiolaeth, a chael eu hategu gan fuddsoddiad digonol yn yr ysgrifenyddiaeth.

Argymhelliad 20. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 4(1)(c) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 13 o'r Bil i leihau nifer aelodau (ac eithrio'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ddim mwy na phump.

Argymhelliad 21. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol wneud rhagor o waith gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn:

- Sefydlu nifer y comisiynwyr ychwanegol sydd i'w recriwtio (gan gynnwys sgiliau, cyfrifoldebau ac amseriad penodol penodiadau o'r fath).
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amrywiaeth ddaearyddol comisiynwyr.
- Nodi unrhyw ofynion am gymorth ysgrifenyddol ychwanegol.

332. Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus 2023, nodwn y bydd cadeirydd, dirprwy gadeirydd, comisiynwyr a phrif weithredwr y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cael eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus, fel yn achos penodiadau blaenorol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae'n hanfodol i hyn barhau, yn ein barn ni, a chredwn y dylid diwygio'r Bil i'r perwyl hwn.

Argymhelliad 22. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu ar wyneb y Bil bod rhaid i benodiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i rolau'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd, y comisiynwyr a'r prif weithredwr gael eu cynnal drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

333. Rydym yn fodlon ar y drefn o benodi comisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru am gyfnod o bedair blynedd gan ganiatáu iddynt gael eu haillethol unwaith, fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer penodiadau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Boundaries Scotland. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o amrywio amseriad penodiadau, i er mwyn gwarchod rhag colli arbenigedd

sylweddol ar yr un pryd, yn enwedig gan mai dim ond unwaith ym mhob cyfnod o wyth mlynedd y cynhelir adolygiadau.

334. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig nad oes unrhyw elfen wleidyddol, nac unrhyw ganfyddiad o hynny, o ran y penodiadau a wneir i rolau allweddol y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, gan gynnwys y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd, comisiynwyr, comisiynwyr cynorthwyol a'r prif weithredwr. Er enghraifft, nid ydym o'r farn y byddai'n briodol i rywun a gyflogir gan Lywodraeth Cymru fel gwas sifil neu gynghorydd arbennig, neu gan blaid wleidyddol mewn unrhyw gyd-destun, gael unrhyw un o'r rolau hyn. At hynny, mae'n bwysig parhau â mesurau i ddiogelu rhag ymyrraeth a gweithgarwch gwleidyddol tra bydd unigolion yn eu swyddi.

Argymhelliad 23. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnwys personau eraill a gyflogir gan Lywodraeth Cymru neu bleidiau gwleidyddol, ac i sicrhau bod mesurau diogelu cadarn tebyg ar waith i atal gweithgarwch gwleidyddol tra byddant yn y swydd.

335. O ran y personau ychwanegol sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, nodwn y pryderon a fynegwyd gan Gomisiwn y Senedd ac Undeb y PCS ynghylch amwysedd y term "aelod o staff Senedd Cymru" yn adrannau 14(1)(b), 14(2) ac 16(1)(b)(ii) o'r Bil. Cynigir yr un derminoleg hefyd mewn perthynas ag anghymhwyso o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru, a fewnosodir gan adran 1(2) o Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Rydym yn cytuno y gallai'r geiriad fod yn gliriach, yn enwedig gan nad yw Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 yn cynnwys diffiniadau o'r term hwn, nac ychwaith y term "person a benodwyd i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau'r Aelod".

Argymhelliad 24. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a yw'r termau "aelod o staff Senedd Cymru" a "person a benodwyd i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau'r Aelod", sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 a gaiff ei hailenwi gan adrannau 14(1)(b), 14(2) ac 16(1)(b)(ii) o'r Bil, yn ddigon clir ac yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall.

336. Rydym yn cydnabod y bydd adroddiad blynyddol y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn darparu un dull y gall y Senedd a'i phwyllgorau ei ddefnyddio, os dymunant, i ddwyn y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau i gyfrif. Bydd angen i'r Senedd ystyried a yw'r mecanwaith hwn, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys gofyniad

yn unig i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'i osod, yn darparu trefniadau atebolrwydd digonol a phriodol sy'n cydbwysu'r canlynol:

- Parch at annibyniaeth y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.
- Sicrwydd bod ei lywodraethiant a'i weithrediad parhaus yn effeithiol.
- Tryloywder yn y broses benodi.

337. Nid ein rôl ni yw penderfynu ar ddyluniad trefniadau o'r fath. Fodd bynnag, mae atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Bwyllgor y Llywydd yn fodel y dylid ei ystyried. At hynny, rydym yn gryf o'r farn y byddai gwrandawriad cyn penodi ar gyfer rolau'r cadeirydd a'r prif weithredwr yn darparu mwy o dryloywder a hygrededd i'r broses benodi. Dylid adlewyrchu hyn wrth ddiweddarau'r protocol presennol ar gyfer gwrandawriadau cyn penodi y cytunir arno gan y Llywydd a'r Prif Weinidog.

Argymhelliad 25. Fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried modelau priodol o atebolrwydd ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ran ei swyddogaethau mewn perthynas â ffiniau etholaethau'r Senedd, gan gynnwys y defnydd posibl o Bwyllgor y Llywydd. Dylai'r model atebolrwydd a roddir ar waith gynnwys yr opsiwn i un o bwyllgorau perthnasol y Senedd, os yw'n dymuno gwneud hynny, gynnal gwrandawriad cyn penodi fel rhan o'r prosesau ar gyfer penodi cadeirydd a phrif weithredwr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

338. Gan fod Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ill dau yn cynnwys darpariaeth ynghylch newid diben ac ad-drefnu'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, mae'n anochel bod ein gwaith craffu wedi cyffwrdd â'r cynnig yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru. Roedd yna wahaniaeth barn ymhlith cyfranwyr i'n gwaith o ran pa mor briodol y byddai i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru fod yn rhan o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, yn hytrach na chael ei sefydlu fel corff ar wahân. Rydym felly wedi dwyn y dystiolaeth a gasglwyd gennym ar y mater hwn i sylw'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, sydd ar hyn o bryd yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).³⁹⁹

³⁹⁹ [Llythyr at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#), 16 Tachwedd 2023

9. Etholaethau Senedd Cymru ac adolygu ffiniau

Y cefndir

Y trefniadau presennol

339. Fel y nodir uchod, ers 2011 ni fu unrhyw fecanweithiau ar gyfer adolygu ffiniau etholaethol neu ranbarthol y Senedd. Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar newidiadau posibl i ffiniau'r Senedd a threfniadau adolygu ffiniau.⁴⁰⁰ Fodd bynnag, cyhoeddodd yn ddiweddarach fod rhoi'r gorau i'r adolygiad o ffiniau Senedd y DU yn 2013 yn golygu nad oedd angen uniongyrchol mwyach i ailsefydlu'r cysylltiad rhwng y ddwy set o etholaethau, ac nad oedd yn bwriadu bwrw ymlaen ag unrhyw gynigion deddfwriaethol.⁴⁰¹

Darpariaeth yn y Bil

340. Mae adran 2 o'r Bil yn dileu adran 2 o Ddeddf 2006 (sy'n ymwneud ag etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Senedd) ac yn cyflwyno adran 2 newydd yn ei lle i ddarparu:

- Mai etholaethau'r Senedd yw'r etholaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (a fewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil).⁴⁰²
- Hyd nes y bydd rheoliadau o dan adran 49J mewn grym, bydd cyfeiriadau yn adran 2 newydd o Ddeddf 2006, sydd i'w mewnosod gan adran 2 o'r Bil, i'w darllen fel cyfeiriadau at reoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 1 i'r Bil.

341. Mae Rhan 4 o'r Bil yn cyflwyno Atodlenni 1 a 2. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd at ddibenion yr etholiad cyffredinol cyntaf sydd i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026, yn enwedig rôl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wrth benderfynu beth fydd yr etholaethau (a beth i'w galw). Mae

⁴⁰⁰ Llywodraeth y DU, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol](#), Mai 2012 (Saesneg yn unig)

⁴⁰¹ Swyddfa Cymru, [Trefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol](#), Mawrth 2013 (Saesneg yn unig)

⁴⁰² Gelwir y Ddeddf hon ar hyn o bryd yn Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Bydd adran 11 o'r Bil yn ei hailenwi yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Gweler pennod 8 o'r adroddiad hwn am drafodaeth bellach ar adran 11.

Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth debyg ynghylch etholaethau'r Senedd at ddibenion etholiadau cyffredinol sydd i'w cynnal ar ôl 1 Ebrill 2030.⁴⁰³

Model ffiniau etholaethau

Y rhesymeg dros y model ffiniau

342. Yn ei adroddiad yn 2017, archwiliodd y Panel Arbenigol y potensial o ddefnyddio'r ardaloedd etholiadol neu weinyddol presennol, neu'r rhai a ragwelir, fel sail i ffiniau'r Senedd. Argymhellodd fodolau'n seiliedig ar naill ai'r 40 o etholaethau presennol y Senedd neu'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y pryd, roedd adolygiad o ffiniau Senedd y DU yn 2018 (y rhoddwyd y gorau iddo yn ddiweddarach) wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer 29 o etholaethau posibl Senedd y DU. Daeth y Panel i'r casgliad y byddai seilio etholaethau'r Senedd ar etholaethau Senedd y DU yn lleihau hyblygrwydd gan adael etholaethau'r Senedd yn agored i newid o ganlyniad i "newidiadau demograffig neu newidiadau mewn mannau eraill yn y DU, yn hytrach na ffactorau sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru".⁴⁰⁴

343. Yn y datganiad safbwynt ym mis Mai 2022, dywedodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd:

- Y dylid ffurfio etholaethau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 drwy baru'r 32 o etholaethau Senedd y DU a gynigir gan Adolygiad Seneddol 2023.
- Yna dylid cynnal adolygiad llawn o'r ffiniau, gyda'i argymhellion yn dod i rym o'r etholiad cyntaf ar ôl 2026.⁴⁰⁵

344. Adlewyrchwyd y cynigion hyn yn yr argymhellion a dderbyniwyd drwy fwyafrif⁴⁰⁶ gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.⁴⁰⁷ Mae'r Bil yn rhoi effaith iddynt.

⁴⁰³ Nodir dyddiadau etholiadau disgwylidig y Senedd yn y modd hwn, yn hytrach na thrwy gyfrifo'r dyddiad disgwylidig penodol yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan adran 3 o'r Bil, er mwyn cymryd i ystyriaeth y pwerau sydd gan y Llywydd a Gweinidogion Cymru i amrywio dyddiad yr etholiad o dan rai amgylchiadau.

⁴⁰⁴ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, paragraffau 14.06-14.07

⁴⁰⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Ffordd ymlaen ar gyfer diwygio'r Senedd](#), 10 Mai 2022

⁴⁰⁶ Dywed yr adroddiad ym mharagraff 169 fod Jane Dodds AS yn ffafrio defnyddio'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol i greu 17 o etholaethau amlaelod.

⁴⁰⁷ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhellion 18 a 22

345. Clywsom rai galwadau am fodelau ffiniau etholaethau amgen (gweler Blwch 9), ond roedd mwyafrif y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at ein gwaith yn cefnogi'r cynigion yn y Bil yn fras.

Blwch 9 Modelau ffiniau etholaethau amgen

32 o etholaethau, gyda phob un yn ethol dau neu dri Aelod o'r Senedd

- Awgrymwyd y byddai'r model hwn yn osgoi creu ardaloedd daearyddol mawr, ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr Aelodau ac ardaloedd lleol.⁴⁰⁸
- Awgrymodd Cyngor Sir y Fflint y gallai 32 o etholaethau gyda maint ardal o ddau ddarparu cynnydd bach yng nghapasiti'r Senedd heb wanhau atebolrwydd, fel y gall ddigwydd pan fo ardaloedd daearyddol mawr yn cael eu cynrychioli gan lawer o aelodau.⁴⁰⁹ Yn groes i hynny, dywedodd cyfranwyr a oedd yn cefnogi'r syniad o 16 o etholaethau chwe Aelod y byddai ardaloedd mwy o faint yn cynyddu cyfranoldeb, i bob pwrpas yn lleihau'r trothwy ar gyfer ennill sedd, ac y gallent hwyluso mwy o amrywiaeth ddisgrifiadol ac ieithyddol a/neu amrywiaeth o ran persbectif.⁴¹⁰

Ffiniau etholaethau yn seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol

- Awgrymodd Jess Blair y byddai defnyddio ffiniau awdurdodau lleol ychydig yn fwy effeithiol o ran mapio cymunedau yng Nghymru na ffiniau newydd San Steffan, ond dywedodd ei bod yn derbyn efallai na fydd newidiadau i'r graddau hynny yn bosibl yn y Bil.⁴¹¹

Model ffiniau sefydlog ynghyd ag adolygiadau o faint ardaloedd

- Awgrymwyd y gallai'r dull a ddefnyddir mewn llawer o systemau rhestr gyfrannol o bennu ffiniau daearyddol, gan amrywio maint ardal i adlewyrchu newidiadau demograffig, i gynnal cydraddoldeb cynrychiolaeth eang ac i adlewyrchu cymunedau a ffiniau naturiol, fod yn llai trafferthus nag adolygu ffiniau daearyddol wrth bennu meintiau ardal.⁴¹²

⁴⁰⁸ SCME(P)17 Mike Hedges (Saesneg yn unig)

⁴⁰⁹ SCME(P)24 Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn unig)

⁴¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 487 a 494], 9 Tachwedd 2023; SCME(P)21 Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig)

⁴¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 9 Tachwedd 2023

⁴¹² SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig); SCME(P)8 Boundaries Scotland (Saesneg yn unig); Cofnod y Trafodion [paragraffau 151 a 180], 9 Tachwedd 2023

Effaith ar weinyddiaeth etholiadol

346. Disgrifiodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y model etholaethol a gynigir yn y Bil fel un sy'n ymarferol ac yn gallu cael ei weithredu'n ddiogel ac yn effeithlon gan weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol.⁴¹³ Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol mai'r model oedd y peth mwyaf rhesymegol i'w wneud, ond y byddai heriau ynghlwm wrtho.⁴¹⁴ Galwodd y ddau sefydliad am gwblhau'r ymarfer paru cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl i gynllunio a pharatoi.⁴¹⁵

347. Y brif risg a amlygwyd gan weinyddwyr etholiadol oedd y cymhlethdod sy'n deillio o ffiniau'n torri ar draws sawl ardal awdurdod lleol. Bydd angen i rai swyddogion canlyniadau etholaethol gydgyssylltu â gweinyddwyr etholiadol o hyd at bum awdurdod lleol arall, a bydd gweinyddwyr etholiadol mewn rhai awdurdodau lleol yn gweithio gyda hyd at bedwar swyddog canlyniadau. Eglurodd Clare Sim y byddai ffactorau lleol hefyd yn effeithio ar wahanol etholaethau, er enghraifft mewn perthynas â dosbarthu (ac ailddosbarthu) pleidleisiau post. Dywedodd fod y sefyllfa yn un y gellid ei rheoli, ar yr amod y câi ei chydgyssylltu'n ganolog i hwyluso cysondeb.⁴¹⁶

348. Nid yw etholaethau Senedd yr Alban a Senedd y DU yn yr Alban wedi bod yn gydffiniol ers 2005. Roedd Malcolm Burr yn cydnabod y risgiau a amlinellwyd gan weinyddwyr etholiadol yng Nghymru, ac adleisiodd eu galwadau am waith cynllunio gofalus, gwaith paratoi da, ac amserlenni digonol.⁴¹⁷

349. Roedd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn hyderus y gallai gwaith cynllunio, ynghyd â chydweithio ac ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus effeithiol, liniaru'r risgiau, ond ychwanegodd fod yn rhaid i'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i swyddogion canlyniadau etholaeth adlewyrchu'r ffaith y byddai ganddynt rôl ehangach ar gyfer yr etholiad hwn.⁴¹⁸ Pwysleisiodd Colin Everett fod swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol fel arfer yn cydweithio, gan ddarparu sylfaen dda ar gyfer gweithredu'r model etholaethol newydd. Dywedodd y byddai

⁴¹³ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

⁴¹⁴ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

⁴¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 114-115, 118-119 a 120-122], 15 Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig). Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â'r amserlenni ar gyfer adolygiad paru 2026 ymhellach isod.

⁴¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 120-122], 15 Tachwedd 2023

⁴¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 320], 9 Tachwedd 2023

⁴¹⁸ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn ôl pob tebyg yn cynghori bod cyfrifon etholiad yn digwydd y diwrnod ar ôl yr etholiad yn hytrach na dros nos.⁴¹⁹

Effaith dull adolygu ffiniau dau gam

350. Tynnodd rai o'r cyfranwyr sylw at y newidiadau sy'n debygol o ddeillio o'r dull adolygu ffiniau dau gam yn y Bil. I osgoi creu dryswch i bleidleiswyr, roedd y Sefydliad Materion Cymreig yn galw am gyfathrebu clir ac effeithiol, wedi'i ategu gan gyllideb sylweddol.⁴²⁰

351. Yn yr un modd rhybuddiodd y Comisiwn Etholiadol am ddryswch posibl i bleidleiswyr, mwy o gymhlethdod i weinyddwyr etholiadol, ac anawsterau i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr wrth reoli'r broses o gyfathrebu â phleidleiswyr. Roedd yn cydnabod y câi ei liniaru i ryw raddau gan y gofyniad ar Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn adran 49C newydd Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 i geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newid â phosibl i etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i'r anghyfleustra a ddaw yn sgil unrhyw newidiadau.⁴²¹ Awgrymodd Tom Davies, Uwch-gynghorydd Polisi Comisiwn Etholiadol Cymru, y byddai'n ddefnyddiol pe bai cysondeb eang rhwng yr enwau a roddir i etholaethau yn ystod yr adolygiad paru, a'r enwau a roddir i etholaethau yn ystod yr adolygiad llawn cyntaf.⁴²²

352. Roedd gweinyddwyr etholiadol yn llai pryderus am y potensial i bleidleiswyr gael eu drysu. Gwnaethant ddweud wrthym fod pleidleiswyr a rhanddeiliaid etholiadol wedi arfer â ffiniau gwahanol ar gyfer etholiadau lleol, etholiadau'r Senedd, etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Er y byddai angen i randdeiliaid, megis awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, addasu ac ystyried y ffiniau gwahanol wrth ymgysylltu â'r Aelodau rhwng etholiadau, roedd ffiniau gwahanol yn annhebygol o achosi dryswch sylweddol i bleidleiswyr.⁴²³

Methodoleg adolygu ffiniau

353. Mae'r Bil yn nodi'r prosesau a'r rheolau ar gyfer adolygiad paru cychwynnol i ddarparu ar gyfer etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026 (Atodlen 1), ac i ddarparu ar gyfer adolygiadau dilynol o ffiniau etholaethau'r Senedd (Atodlen 2). Ceir crynodeb yn Atodiad 3 o'r prosesau, gan

⁴¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 114-115 a 118-119], 15 Tachwedd 2023

⁴²⁰ SCME(P)23 Y Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

⁴²¹ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁴²² Cofnod y Trafodion [paragraff 107], 22 Tachwedd 2023

⁴²³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 8, 131 a 133], 15 Tachwedd 2023)

gynnwys y dyddiadau dangosol a ddarparwyd inni gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o ran yr adolygiad paru. Mae rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y ddwy Atodlen, a drafodir ymhellach isod, ond clywsom hefyd am faterion sy'n gyffredin i'r ddau.

Clymau lleol a fyddai'n cael eu torri gan barau arfaethedig neu newidiadau i ffiniau etholaethau

354. Yn ystod yr adolygiad paru ac adolygiadau llawn, efallai y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cymryd i ystyriaeth “unrhyw gwllwm lleol sy'n cael ei dorri” o ganlyniad i'w benderfyniadau.

355. Nid yw'r naill Atodlen na'r llall yn ceisio diffinio beth y gallai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ei ystyried yn “gwllwm lleol”. Fodd bynnag, mae crynodeb yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn y Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

*“Mewn adolygiadau blaenorol o ffiniau llywodraeth leol, mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi ystyried y Gymraeg fel agwedd ar glymau lleol y dylid ei hystyried. **Disgwylir y bydd hyn hefyd yn wir ar gyfer adolygiadau o ffiniau'r Senedd, fel bod cynigion yn cael eu cyflwyno nad ydynt yn tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg**”.*⁴²⁴ [ychwanegwyd y pwyslais]

356. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym y bwriadwyd i hyn fod yn enghraifft yn unig ac na fwriadwyd iddi “ddangos y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o reidrwydd yn mabwysiadu'r un dull gweithredu mewn perthynas ag adolygiad o ffiniau'r Senedd.” Ychwanegodd mai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel corff annibynnol, fyddai'n “penderfynu ar ystyr a defnydd y rheolau sy'n berthnasol i adolygiadau'r Senedd”.⁴²⁵

357. Eglurodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, cyn cynnal adolygiad paru 2026, y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cyhoeddi dogfen ganllaw a fyddai'n cynnwys, ymhlith materion eraill, y ffactorau y byddai'n eu hystyried yn ystod yr ymarfer paru. Cyn cyhoeddi'r canllaw, mae'n

⁴²⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023

⁴²⁵ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

bwriadu cyfarfod â “rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cynnwys pleidiau gwleidyddol cymwys ac Aelodau presennol o’r Senedd”.⁴²⁶

358. Dywedodd Lowri Williams, Cyfarwyddwr Strategol Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, wrthym fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi nodi’r Gymraeg fel cwlwm lleol mewn canllawiau ar gyfer ei adolygiadau o etholaethau Senedd y DU. Fodd bynnag, nododd fod y Gymraeg wedi bod yn “un ystyriaeth ymhlith nifer”. Dywedodd, “gorau oll petai hynny eto ar flaen y Bil fel rhywbeth ddylai fod yn cael ystyriaeth lawn”.⁴²⁷

Gweithredu argymhellion yn awtomatig

359. Croesawyd y ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn awtomatig, heb bwerau i Weinidogion Cymru na’r Senedd wneud unrhyw welliannau. Eglurodd yr Athro Renwick y byddai’r model hwn, sydd hefyd yn berthnasol ar gyfer adolygiadau o ffiniau Senedd y DU, yn helpu i gynnal annibyniaeth a didueddrwydd y broses. Fodd bynnag, nododd y byddai’n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd gael trefniadau llywodraethu a phrosesau penodi cadarn i gyd-fynd â’r drefn o weithredu argymhellion yn awtomatig.⁴²⁸

360. Yn yr Alban, mae gan Lywodraeth a Senedd yr Alban rolau yn y gwaith o gymeradwyo a gweithredu argymhellion Boundaries Scotland.⁴²⁹ Dywedodd yr Athro Henderson fod hyn wedi arwain at heriau, ac y gallai arwain at gwestiynau ynghylch ymreolaeth ac annibyniaeth y corff.⁴³⁰ Dywedodd mai gweithredu argymhellion yn awtomatig oedd y ffordd ymlaen.⁴³¹

Cyhoeddi adroddiadau a sylwadau

361. Mae'r ddwy Atodlen yn cynnwys gofynion i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gyhoeddi sylwadau sy’n dod i law yn ystod yr ail gyfnod gwneud sylwadau. Awgrymodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru⁴³² y gallai mân ddiwygiadau helpu i gael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch a yw’r

⁴²⁶ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 488], 9 Tachwedd 2023

⁴²⁸ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

⁴²⁹ Yn yr un modd, arferai Llywodraeth y DU a Senedd y DU chwarae rhan wrth gymeradwyo a gweithredu argymhellion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholaethau Senedd y DU.

⁴³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 376-377], 9 Tachwedd 2023

⁴³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 379], 9 Tachwedd 2023

⁴³² SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

gofyniad hwn yn berthnasol i'r holl sylwadau sy'n dod i law yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod gwneud sylwadau, neu dim ond yr ail gyfnod.

362. Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn galw am ddiwygiadau i ddarparu y dylai cofnodion gwrandawiadau cyhoeddus a manylion am y sylwadau sy'n dod i law yn ystod yr ail gyfnod gael eu cyhoeddi ar wahân, ond ochr yn ochr ag ail adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Dywedodd y byddai hyn yn atal yr ail adroddiad rhag mynd yn rhy fawr i fod yn hygyrch, ac y byddai hefyd yn adlewyrchu adran 5(4B) a (5) o Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

363. Yn yr un modd, mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnig bod Atodlen 1 yn cael ei diwygio i egluro bod y rhwymedigaeth ar Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gyhoeddi adroddiad terfynol yn dilyn diwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau a'r broses o gymryd i ystyriaeth y sylwadau sy'n dod i law yn ystod yr ail gyfnod hwnnw. Awgrymodd y gellid mynd i'r afael â hyn drwy symud y testun ym mharagraff 7(5) i ddechrau paragraff 8 er mwyn creu cysylltiad mwy amlwg rhwng diwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau a pharatoi a chyhoeddi'r adroddiad terfynol, ac adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd ym mharagraff 7(1) ynghylch y cysylltiad rhwng diwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau a chyhoeddi'r ail adroddiad. Awgrymodd hefyd ddiwygiadau cyfatebol i Atodlen 2, yn enwedig symud y testun yn 49H(5) i adran 49I.

Atodlen 1 Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026

Amserlenni

364. Caiff Atodlen 1 ei chyflwyno i'r Bil gan adran 17. Mae'n darparu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad i sefydlu etholaethau newydd i'w defnyddio cyn yr etholiad cyffredinol cyntaf sydd i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y rheolau a'r prosesau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu dilyn i benderfynu ar yr etholaethau hynny. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel corff annibynnol, fydd yn penderfynu ar "ystyr a defnydd y rheolau sy'n berthnasol i adolygiad 2026". Dywedodd hefyd fod trafodaethau cychwynnol ag ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi ei sicrhau y gallai'r Comisiwn

Democratiaeth a Ffiniau “o bosibl gynnal yr adolygiad gyda’r nifer bresennol o Gomisiynwyr”.⁴³³ Cadarnhawyd hyn gan Bev Smith.⁴³⁴

365. Teimlai cyfranwyr at ein gwaith yn gyffredinol fod yr amserlenni yn dynn ond yn gyraeddadwy. Nododd yr Athro Henderson mai rôl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru oedd cyfuno nifer cymharol fach o flociau adeiladu, gan ychwanegu bod nifer yr amrywiadau posibl hefyd yn eithaf cyfyngedig mewn rhai ardaloedd.⁴³⁵ Er ei fod yn cytuno bod yr amserlenni yn gyraeddadwy, rhybuddiodd Tom Davies y byddai unrhyw lithriad yn dechrau creu rhai pryderon eithaf sylweddol i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol fel ei gilydd.⁴³⁶ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Comisiwn Etholiadol, er enghraifft, pe bai’r rheoliadau i weithredu argymhellion yr adolygiad yn cael eu gohirio tan haf 2025:

*“[...] byddai perygl y byddai hyn yn golygu na fyddai gan weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol ddigon o amser i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr etholiad. Gallai hefyd achosi problemau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol o ran cyhoeddi eu cofrestrau etholiadol ym mis Rhagfyr 2025”.*⁴³⁷

366. Gan bwysleisio cymhlethdod gweinyddol y model etholaethol, mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn galw am ddwyn ymlaen y terfyn amser ar gyfer yr adolygiad paru:

*“We understand the need for sufficient time for consultation, but the potential for Senedd constituency boundaries to come into force as late as July 2025 offers little time for designated constituency ROs to plan and co-ordinate to the scale required of them”.*⁴³⁸

367. Awgrymodd Colin Everett⁴³⁹ yn yr un modd y gellid gofyn i Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gwblhau ei waith yn gynt, tra bod Malcolm Burr yn awgrymu y byddai’r adroddiad cychwynol a’r ail adroddiad i’w cyhoeddi ar

⁴³³ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁴³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 22 Tachwedd 2023

⁴³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 310], 9 Tachwedd 2023

⁴³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 105-106], 22 Tachwedd 2023

⁴³⁷ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁴³⁸ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

⁴³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 15 Tachwedd 2023

gyfer ymgynghoriad ym mis Medi 2024 a mis Ionawr 2025 yn rhoi rhybudd da i bawb o'r hyn a allai fod yn digwydd.⁴⁴⁰

368. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cydnabod “yr heriau sy'n gysylltiedig ag amserlen gywasgedig”, ond ychwanegodd “os darperir adnoddau ariannol priodol” ei fod yn hyderus y gallai gwblhau'r adolygiad erbyn 1 Ebrill 2025.⁴⁴¹ Dywedodd Shereen Williams wrthym y byddai gwaith cynllunio'n dechrau yn gynnar yn 2024 er mwyn galluogi sesiynau briffio cychwynnol gyda rhanddeiliaid i ddechrau o fewn wythnosau i gael Cydsyniad Brenhinol.⁴⁴² Cadarnhaodd na allai gwaith ddechrau'n ffurfiol cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, ond dywedodd pe bai hyn yn digwydd yn gynt na'r disgwyl, y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn dechrau ar ei waith yn gynt.⁴⁴³

369. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei fod yn hyderus bod yr amserlenni'n gyraeddadwy. Roedd yn cydnabod bod ychydig iawn o le i lithriad, yn rhannol oherwydd ei fod yn hollol benderfynol o gydymffurfio'n llawn ag Egwyddor Gould, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bopeth fod yn ei le chwe mis cyn yr etholiadau eu hunain.⁴⁴⁴ Ychwanegodd Will Whiteley, er na fyddai'r rheoliadau ar waith tan haf 2025, y byddai'r parau diffiniol yn hysbys o 1 Ebrill 2025 pan fydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol.⁴⁴⁵

Ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd yn yr adolygiad paru

370. Mae'r adolygiad paru yn cynnwys dau gyfnod o bedair wythnos i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyflwyno sylwadau ar y cynigion, ond dim darpariaeth ar gyfer gwrandawriadau cyhoeddus. Holodd Boundaries Scotland a fyddai'r cyfnodau pedair wythnos yn heriol i rai rhanddeiliaid, gan ddweud, yn ei brofiad ef, y gallai rhanddeiliaid sydd ag amserlen sefydlog o gyfarfodydd, fel prif gynghorau neu gynghorau cymuned, ei chael yn anodd ymateb mewn pryd.⁴⁴⁶

371. Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol a fydd y broses yn rhoi digon o gyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb ymgysylltu, cydnabu y byddai llai o gyfle i ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod yr adolygiad paru nag yn ystod adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd. Dywedodd fod y ddarpariaeth yn Atodlen 1

⁴⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 322], 9 Tachwedd 2023

⁴⁴¹ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 217], 22 Tachwedd 2023

⁴⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 238], 22 Tachwedd 2023

⁴⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 15-16], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁴⁶ SCME(P)8 Boundaries Scotland (Saesneg yn unig)

yn ddigonol oherwydd “cwmpas cymharol gyfyngedig yr adolygiad cyn etholiad 2026”.⁴⁴⁷

372. Gan fyfyrir ar amserlenni a chwmpas yr adolygiad paru, eglurodd Shereen Williams fod y 32 o etholaethau Senedd y DU eu hunain wedi bod yn destun proses ymgynghori eithaf helaeth. Dywedodd wrthym fod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn bwriadu defnyddio cwestiynau penodol a chaeedig i sicrhau bod yr ymatebion yn canolbwyntio ar faterion perthnasol. Dywedodd fod y Memorandwm wedi nodi ychydig o dan £120,000 at ddibenion cyfathrebu, hysbysebu ac ymgysylltu er mwyn hwyluso ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r adolygiad, y cynigion a sut i gyflwyno sylwadau.⁴⁴⁸

Cynrychiolaeth gyfartal

373. Cafodd etholaethau Senedd y DU a fydd yn sail i etholaethau'r Senedd eu llunio ar sail etholfraint Senedd y DU⁴⁴⁹ a'r cwota etholiadol o ±5 y cant. Mae gan Ynys Môn statws 'etholaeth warchoddedig', sy'n ei heithrio o'r cwota. Amlinellodd Shereen Williams enghraifft o baru Ynys Môn â Dwyfor Meirionnydd gan ddefnyddio cofrestr etholwyr y Senedd ar gyfer mis Rhagfyr 2021:

*“The electoral quota is 146,787. The minimum constituency would have to be 132,000, which the Ynys Môn-Dwyfor Meirionnydd combination is approximately 10,000 electors short of.”*⁴⁵⁰

374. Dywedodd ERS Cymru y byddai pleidleiswyr mewn etholaeth o'r fath yn cael eu gorgynrychioli i bob pwrpas.⁴⁵¹ Gwnaethom holi'r Athro McAllister a ddylid rhoi unrhyw ystyriaeth i amrywio maint ardal y pâr etholaeth a oedd yn cynnwys Ynys Môn am gyfnod y Seithfed Senedd. Rhybuddiodd y gallai gwneud hynny arwain at gyfres o broblemau eraill.⁴⁵²

375. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol y byddai gwahaniaeth rhwng pâr Ynys Môn a pharau eraill ar gyfer etholiad 2026, ac o bosibl rhywfaint o wahaniaeth rhwng

⁴⁴⁷ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

⁴⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 218 a 220], 22 Tachwedd 2023

⁴⁴⁹ Mae etholfraint llywodraeth leol a'r Senedd yn cynnwys nifer o grwpiau nad ydynt yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, gan gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor cymwys.

⁴⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 22 Tachwedd 2023

⁴⁵¹ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

⁴⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 26 Hydref 2023

etholaethau eraill o ganlyniad i'r gwahanol etholfreintiau ar gyfer etholiadau'r Senedd a Senedd y DU. Ychwanegodd:

“However, even if there are some divergencies in the sizes of the resulting Senedd constituencies for 2026—as a result of the different franchises for the Senedd and UK Parliament—they are likely to be significantly less divergent than those of the existing 40 Senedd constituencies, because these boundaries have effectively been ossified.”⁴⁵³

Atodlen 2 Adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd (2030 ymlaen)

Amserlenni

376. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol fod y targed arfaethedig, sef 1 Rhagfyr, ar gyfer cyhoeddi adroddiadau terfynol yr adolygiad ffiniau yn cyd-fynd â'r dyddiad olaf y mae'n ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi'r gofrestr etholwyr ddiwygiedig yn dilyn y canfasiad blynyddol. Awgrymodd pe bai'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi adroddiadau terfynol yr adolygiad ffiniau yn gynharach, y byddai'n galluogi swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried unrhyw newidiadau i'r ffiniau wrth gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig. Byddai hyn yn osgoi gorfod ailgyhoeddi ac ailddosbarthu'r cofrestrau yn ddiweddarach, a dywedodd y gallai hynny arwain at faich ychwanegol ar swyddogion cofrestru etholiadol ac achosi dryswch i dderbynwyr cofrestrau, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol.⁴⁵⁴

Cwota etholiadol

Lefel y cwota a'r gofyniad i wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl

377. Mae adran 49C(1) newydd o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (fel y'i mewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil), yn darparu bod yn rhaid i'r etholwyr ar gyfer pob un o etholaethau'r Senedd fod o fewn ± 10 y cant i'r cwota etholiadol. Mae adran 49C(2) newydd yn darparu mai'r cwota etholiadol yw cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i rannu â nifer etholaethau'r Senedd.

⁴⁵³ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

⁴⁵⁴ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

378. Yn groes i hynny, mae Rheol 2 ar gyfer adolygiadau o etholaethau Senedd yr Alban⁴⁵⁵ yn darparu bod yn rhaid i etholwyr etholaeth fod mor agos at y cwota etholiadol ag sy'n ymarferol, gan roi sylw i Reol 1, sef gofyniad bod yn rhaid rhoi sylw i ffiniau awdurdodau lleol. At hynny, mae Rheol 2 hefyd yn darparu y caiff Boundaries Scotland ddewis peidio â chymhwyso Rheol 1 yn llwyr os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn osgoi gwahaniaeth gormodol rhwng pleidleiswyr etholaeth a'r cwota etholiadol neu rhwng pleidleiswyr etholaeth ac etholaethau cyfagos.⁴⁵⁶ Dywedodd yr Athro Henderson wrthym fod hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau lleol.⁴⁵⁷ Dywedodd Boundaries Scotland yn ei adolygiadau o ffiniau etholiadol lleol (sydd â darpariaeth debyg ar gyfer hyblygrwydd yn hytrach na gofyniad am union gydraddoldeb rhifol), fod hyblygrwydd wedi helpu i gynnal clymau lleol a lleihau newidiadau. Ychwanegodd:

*“By specifying a percentage target the Commission’s ability to balance the parity rule with other rules could be constrained and may give rise to otherwise avoidable situations for example very large geographical constituencies or wards where population is sparse or breaking of community ties in order to meet the target”.*⁴⁵⁸

379. Eglurodd yr Athro Renwick fod gosod y lefel ar gyfer cwota etholiadol yn gyfaddawd rhwng sicrhau cynrychiolaeth gyfartal a'r hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau megis daearyddiaeth, clymau lleol a chysylltiadau cymunedol.⁴⁵⁹ Mae Deddf Etholaethau Seneddol 2020, sy'n nodi rheolau ar gyfer adolygu etholaethau Senedd y DU, yn rhagnodi cwota etholiadol o ± 5 y cant.

380. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol am ragor o wybodaeth am y rhesymeg dros y cwota etholiadol o ± 10 y cant. Dywedodd:

“Ystyrir bod amrywiant o 10% yn briodol gan ei fod yn rhoi cydbwysedd a hyblygrwydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried ffactorau ar wahân i'r cwota, gan gynnal hefyd lefel o

⁴⁵⁵ Gweler paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Alban 1998 (fel y'i diwygiwyd)

⁴⁵⁶ Mae Rheol 3 yn darparu y caiff hefyd ddewis peidio â chymhwyso Rheolau 1 a 2 yn llwyr os yw'n credu bod ystyriaethau daearyddol arbennig yn golygu bod hynny'n ddymunol. Cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl wrth roi effaith i Reolau 1 i 3, rhaid iddo gymryd i ystyriaeth yr anghyfleustra o wneud newidiadau heblaw at ddibenion Rheol 1, ac unrhyw glymau lleol a fyddai'n cael eu torri.

⁴⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 293], 9 Tachwedd 2023

⁴⁵⁸ SCME(P)8 Boundaries Scotland (Saesneg yn unig)

⁴⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 101-102], 26 Hydref 2023

gynrychiolaeth gyfartal rhwng etholwyr mewn gwahanol etholaethau.⁴⁶⁰

381. Eglurodd nad yw'n bwriadu creu etholaethau sy'n amrywio'n sylweddol o ran maint. Yn hytrach, bwriad y cwota yw galluogi hyblygrwydd i ymateb i newid posibl, newid demograffig, newid etholfraint ac yn y blaen. Ychwanegodd:

"[...] that gives the boundary commission the flexibility to ensure that there is, I think, as fair a capacity to embrace change, movements in population, growth of population and so on, across the board".⁴⁶¹

382. Gwnaethom hefyd ofyn a fyddai unrhyw densiwn rhwng y gofynion yn adran 49C(1) newydd Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (fel y'i mewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil) i gydraddoli maint etholaethau'r Senedd, a'r gofynion yn adran 49C(2)(b) newydd (a fewnosodir yn yr un modd gan Atodlen 2) i geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl i etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud newidiadau. Dywedodd wrthym fod y gofyniad i etholaethau gydymffurfio â'r cwota yn "absoliwt", ac wrth sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosibl neu ystyried yr anghyfleustra, y byddai'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gydymffurfio â'r amrywiant a ganiateir.⁴⁶²

383. Cadarnhaodd Shereen Williams y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn defnyddio pa bynnag gwota a rheolau sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.⁴⁶³ Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y byddai'r rhwymedigaeth i sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosibl yn arwain at ffocws cul ar nifer yr etholwyr yn ei adolygiadau yn y dyfodol, gan arwain felly at ganlyniadau israddol wrth benderfynu ar ffiniau etholaethau'r Senedd. Rhoddodd enghraifft o etholaeth arfaethedig a chanddo 110.5 y cant o'r cwota etholiadol. Gan nodi mai'r dull a ffefrir mewn amgylchiadau o'r fath fyddai addasu'r ffiniau ar sail ward neu gymuned llywodraeth leol sy'n bodoli eisoes, dywedodd efallai na fyddai'r dull yn gyfreithlon pe bai'n arwain at newid o fwy na 0.5 y cant o gwota'r system etholiadol, h.y. y newid lleiaf sydd ei angen ar sail rifol. Ychwanegodd y gallai breintio cydymffurfiaeth â'r cwota gynyddu'r angen i rannu unedau etholiadol presennol mewn ffyrdd na fyddai efallai'n parchu clymau lleol, ac y gallai

⁴⁶⁰ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁴⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 37], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁶² [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁴⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 22 Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)

gynyddu'r gwahaniaeth rhwng ffiniau lleol, ffiniau'r Senedd a ffiniau Senedd y DU. Awgrymodd ddau ddull amgen:

- Dileu'r ddarpariaeth yn adran 49C(2)(b)(i) newydd i sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosibl ar y sail y byddai'r rhwymedigaeth yn adran 49C(2)(b)(ii) i roi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud newidiadau yn amddiffyniad digonol heb greu'r un canlyniadau annymunol.
- Diwygio'r ddarpariaeth yn adran 49C(2)(b) i fynnu bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn rhoi sylw i'r ffaith ei bod yn **ddymunol** gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl wrth adolygu etholaethau, yn hytrach na'i fod yn ofynnol **ceisio sicrhau** y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl. O wneud hynny, awgrymodd y byddai modd i'r ffactor i gael ei ystyried heb fod angen rhannu unedau etholiadol llywodraeth leol er mwyn bodloni'r cwota etholiadol.⁴⁶⁴

Diffiniad o 'etholwyr'

384. Mae'r Bil yn darparu mai'r diffiniad o 'etholwyr' at ddibenion adolygiadau o ffiniau'r Senedd yw cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i rannu â nifer etholaethau'r Senedd. Nododd ERS Cymru mai dyma'r un dull ag adolygiadau o ffiniau Senedd y DU. Fodd bynnag, rhybuddiodd na fyddai cofrestrau etholiadol o reidrwydd yn gyflawn, a dywedodd y byddai'n ffafrio seilio'r cwota etholiadol ar boblogaeth.⁴⁶⁵

385. Mae diffiniad y cwota etholiadol ar gyfer etholaethau Senedd yr Alban yn seiliedig ar nifer y bobl y mae eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol berthnasol. Eglurodd yr Athro Henderson fod hyn yn golygu y gallai Boundaries Scotland ystyried:

- Etholwyr (16 oed neu drosodd).
- Y rhai a fydd yn dod i oed (a fydd yn gymwys i bleidleisio o fewn dwy flynedd, ac sydd felly yn 14 oed neu drosodd).

386. Nododd fod angen trin data personol pobl ifanc yn ofalus, ond dywedodd ei fod yn galluogi Boundaries Scotland i ystyried y tueddiadau a ragwelir o blith yr etholwyr a sut y gallai effeithio ar etholaethau:

⁴⁶⁴ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴⁶⁵ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

“So, it allows us to identify trends, so we have not just the electorate, but also what the electorate will likely be. So, sometimes, there are areas, particularly if there's been a lot of building work, where we might expect that there would be more families moving in and therefore more younger people. Therefore, we have a particularly large number of attainers. It allows us to get a sense of where things will go in the future. But it is something to be mindful of in terms of whether you want names on the register or you want electors.”⁴⁶⁶

Ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd mewn adolygiadau llawn o ffiniau

387. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i rhwng dau a phum gwrandawriad cyhoeddus gael eu cynnal yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau. Dywedodd Boundaries Scotland wrthym fod y terfyn hwn wedi bod yn ddi-fudd yn ystod ei adolygiadau o etholaethau Senedd y DU gan ei fod wedi arwain at wneud dewisiadau cyfyngol ynghylch ble y dylid cynnal gwrandawiadau. Awgrymodd y dylai fod hyblygrwydd i gyrff adolygu ffiniau benderfynu ar nifer a lleoliad y gwrandawiadau sydd eu hangen i sicrhau hygyrchedd ledled y wlad.⁴⁶⁷ Yn wahanol i'r cynigion yn y Bil, nid yw Boundaries Scotland yn gallu cynnal gwrandawiadau hybrid a rhithwir. Dywedodd yr Athro Henderson fod daearyddiaeth yr Alban yn golygu:

“[...] five is not a lot. It's really difficult to identify where can we put them where it makes sense, because we want to hear from people in those local areas, but also where can we put them so that we don't place them so far away from people that they're not able to engage.”⁴⁶⁸

388. Dywedodd Shereen Williams wrthym fod gwrandawiadau cyhoeddus yn golygu adnoddau a chostau sylweddol, ac nad oedd presenoldeb da bob amser. Dywedodd fod adolygiad y Comisiwn Ffiniau i Gymru o etholaethau Senedd y DU yn awgrymu y dylai rhwng dau a phump fod yn ddigon. Ychwanegodd, erbyn i'r gwrandawiadau cyhoeddus gael eu cynnal yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, y byddai gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru syniad da ynghylch ble y byddai unrhyw faterion dadleuol yn codi ac y gallai gynllunio yn unol â hynny. Nododd hefyd nad gwrandawiadau cyhoeddus oedd yr unig ffordd

⁴⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 343-344 a 346], 9 Tachwedd 2023

⁴⁶⁷ SCME(P)8 Boundaries Scotland (Saesneg yn unig)

⁴⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 313-315], 9 Tachwedd 2023

y gallai'r cyhoedd neu randdeiliaid gyfrannu at y broses ac y gallent hefyd ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig.⁴⁶⁹

389. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y dylid gwneud diwygiadau i egluro'r trefniadau ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus, yn enwedig rhoi mwy o amlygrwydd i'r ddarpariaeth yn adran 49G(9)(c)—sy'n galluogi cadeirydd gwrandawriad cyhoeddus i gyfyngu ar bwy a gaiff gyflwyno sylwadau mewn gwrandawriad cyhoeddus ar sail yr amser sydd ar gael—drwy gynnwys croesgyfeiriad yn adran 49G(8)(b). Ychwanegodd y byddai'r dull hwn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) y mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u seilio i raddau helaeth arnynt.⁴⁷⁰

Rheoliadau o dan adran 49J

390. Eglurodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod adran 49I yn darparu bod yn rhaid i'r adroddiad terfynol a gyhoeddir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn dilyn adolygiad o etholaethau'r Senedd naill ai:

- Nodi'r manylion am unrhyw newidiadau sydd eu hangen i etholaethau'r Senedd (gan gynnwys y ffiniau sydd i'w newid, enwau etholaethau sydd i'w newid, ac a yw pob etholaeth sydd i'w newid i'w dynodi'n etholaeth sirol neu'n etholaeth bwrdeistref), neu
- Nodi nad oes angen unrhyw newid i etholaethau'r Senedd.

391. Mae adran 49J(1) yn darparu, pan fo'r adroddiad terfynol yn nodi newidiadau, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi effaith i'r penderfyniadau yn yr adroddiad terfynol. Dywedodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, os bydd yr adroddiad terfynol yn gwneud newidiadau i rai o etholaethau'r Senedd, ond nid pob un, mae hyn yn golygu na fydd y rheoliadau a wneir o dan adran 49J(1) ond yn diwygio'r trefniadau presennol yn hytrach nag ailbennu pob etholaeth yn y Senedd. Roedd yn dadlau bod goblygiadau i elfennau eraill o'r Bil yn sgil hyn:

“Er enghraifft, byddai cymal 2 y Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y fath fodd ag y byddai'n diffinio etholaethau'r Senedd fel 'yr etholaethau a nodir mewn rheoliadau o dan adran

⁴⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 290 a 292], 22 Tachwedd 2023

⁴⁷⁰ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

49J', pan wneir set gyntaf o reoliadau o dan y ddarpariaeth honno (gyda rheoliadau a wneir yn dilyn arolwg ffiniau 2026 yn effeithiol at y diben hwn hyd nes y gwneir y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J yn unig). Mae'r dull hwn, efallai, yn anwybyddu'r ffaith na fydd y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J o reidrwydd yn diffinio set gyflawn o etholaethau'r Senedd ar gyfer Cymru (ond yn hytrach yn debygol o ddiwygio trefniadau a wnaed yn dilyn arolwg ffiniau 2026 yn unig) – fel na ellir defnyddio'r set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J fel yr unig bwynt cyfeirio ar gyfer etholaethau'r Senedd.

3.45 Mae pryder tebyg yn effeithio ar baragraff 1(b) Atodlen 1 i'r Bil, yn ogystal â'r diffiniad o 'etholaeth y Senedd' yn adran newydd arfaethedig 49L(1) Deddf 2013 (a fewnosodir trwy adran 1 Atodlen 2 i'r Bil) a'r ddarpariaeth drosiannol ym mharagraff 3 Atodlen 2 i'r Bil".⁴⁷¹

392. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu y gellid mynd i'r afael â hyn drwy fynnu bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, pan fydd yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar adolygiad, yn nodi set lawn o etholaethau'r Senedd. Yn sgil hynny, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan adran 49J(1), wneud set newydd o reoliadau sy'n pennu'r set lawn o etholaethau'r Senedd. Yna ni fyddai angen unrhyw groesgyfeirio rhwng gwahanol setiau o reoliadau, gan ddarparu mwy o symlrwydd a hygyrchedd. Ychwanegodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y byddai hyn hefyd yn adlewyrchu geiriad Deddf Etholaethau Seneddol 1986, sy'n llywodraethu cynnwys adroddiadau a baratoir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn dilyn ei adolygiadau o etholaethau Senedd y DU.⁴⁷²

393. Nododd yr Athro Renwick fod gan Lywodraeth y DU gyfnod o bedwar mis i wneud rheoliadau i roi effaith i argymhellion adolygiadau o ffiniau Senedd y DU, tra bod adran newydd 49J(3) yn rhoi hyd at chwe mis i Weinidogion Cymru. Dywedodd ei bod yn aneglur pam y mae cyfnod mor hir yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.⁴⁷³

394. Dywedodd Will Whiteley wrthym fod y Bil yn darparu ar gyfer cyfnod o chwe mis oherwydd y byddai canlyniad yr adolygiad llawn cyntaf ar ôl 2026 yn debygol o fod yn fwy arwyddocaol na'r ymarfer paru ar gyfer 2026 ac, at hynny, y byddai angen i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fod yn ddwyieithog.⁴⁷⁴ Pan

⁴⁷¹ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴⁷² SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴⁷³ SCME(P)1 Alan Renwick (Saesneg yn unig)

⁴⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 13 Rhagfyr 2023

holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol am hyn, dywedodd wrthym mai diben y cyfnod o chwe mis oedd sicrhau bod digon o amser i ymdrin â'r holl faterion sy'n deillio o'r adolygiad, ond os gellir ei wneud yn gyflymach, y bydd yn hapus i wneud hynny.⁴⁷⁵

Enwau etholaethau

Pennu enw etholaeth

395. Mae'r ddwy Atodlen yn darparu bod rhaid i bob un o etholaethau'r Senedd gael enw at ddibenion ei adnabod mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Gymraeg ac enw at ddibenion ei adnabod mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Saesneg, oni bai bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ystyried bod un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd gan etholaeth naill ai enwau dwyieithog, neu un enw uniaith (a allai fod yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg).

396. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sy'n gyfrifol am bennu enwau etholaethau, gan gynnwys penderfynu a yw un enw uniaith yn dderbyniol, er bod y ddwy Atodlen hefyd yn darparu bod rhaid i enwau'r etholaethau fod yn un o'r materion y mae'r Comisiwn yn gwahodd sylwadau yn ei gylch yn ystod y cyfnodau sylwadau. Dywedodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y byddai'r canllawiau a lunnir ganddo cyn adolygiad paru 2026 yn mynd i'r afael â sut y bydd yn mynd ati i enwi etholaethau.⁴⁷⁶ Mae gofyniad i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (a gaiff ei drafod ymhellach isod), ond nid oes rôl benodol i Gomisiynydd y Gymraeg wrth benderfynu ar yr enwau eu hunain.

397. Dywedodd Anna Hind, Uwch-gyfreithiwr yn Llywodraeth Cymru, wrthym mai'r rheswm dros adael i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru enwi etholaethau yw er mwyn cadw annibyniaeth y Comisiwn.⁴⁷⁷

398. Pwysleisiodd Lowri Williams pa mor gymhleth yw nodi enwau priodol, ond cytunodd y gallai'r broses greu cyfleoedd i adlewyrchu enwau hanesyddol o bwys i'r ardaloedd perthnasol.⁴⁷⁸ Gwnaethom holi Comisiynydd y Gymraeg ynghylch y dull y dylid ei fabwysiadu i nodi enwau sy'n briodol ar gyfer yr etholaethau newydd, yn hytrach na chyfuno enwau etholaethau presennol Senedd y DU. Dywedodd nad oedd trafodaethau wedi dechrau eto, ond y byddai'n ddefnyddiol

⁴⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁷⁶ SCME(P)20 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

⁴⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁷⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 496], 9 Tachwedd 2023

cael confensiynau ar waith i sicrhau cysondeb ac amddiffyn rhag enwau afresymol o hir.⁴⁷⁹ Ychwanegodd y byddai'n:

"[...] ddymunol iawn petai confensiynau cytunedig yn cael eu datblygu gan bwyllgor o arbenigwyr a'u cadw o dan ystyriaeth wrth ymgymryd â thasg o'r fath a bod hynny yn ofyniad statudol fel rhan o waith y Comisiwn ar y cyd â'r Comisiynydd".⁴⁸⁰

Enwau uniaith

399. Cydnabu Comisiynydd y Gymraeg y gall penderfyniadau ynghylch a yw enw uniaith yn briodol fod yn gymhleth, ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol i ganllawiau ddarparu meini prawf. Croesawodd y ffaith bod y Bil yn derbyn y gall enwau uniaith fod yn briodol. Fodd bynnag, byddai'n well ganddi weld rhagdybiaeth y dylai etholaethau gael enw uniaith Gymraeg oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.⁴⁸¹ Awgrymodd y byddai hyn yn helpu i "osgoi enwau deuol diangen".⁴⁸²

400. Amlinellodd Cymdeithas yr Iaith safbwynt tebyg:

"Yn unol â'n cred yn y Gymraeg fel priod iaith Cymru, rydym yn cefnogi'r angen i roi enwau uniaith Gymraeg ar etholaethau ac eisiau bod hynny'n cael ei weld fel y ffordd arferol o enwi etholaethau a bod y Gymraeg bob tro yn cael ei weld fel norm".⁴⁸³

401. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn galw am ddiwygio'r Bil er mwyn sicrhau, os yw etholaeth i gael un enw uniaith, mai dim ond enw Cymraeg y caiff hwnnw fod:

"Byddai polisi cadarn o blaid enw uniaith—a'r rheini'n enwau Cymraeg—yn fodd o osgoi trafodaethau hirfaith am enwau ac yn fodd o hyrwyddo a phoblogeiddio'r defnydd o enwau Cymraeg yn unig fel sydd wedi dod yn arfer poblogaidd yn ddiweddar ymhlith ein parciau

⁴⁷⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 472], 9 Tachwedd 2023

⁴⁸⁰ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 478], 9 Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)

⁴⁸² SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁸³ SCME(P)26 Cymdeithas yr Iaith

cededlaethol. Buasai mabwysiadu enw Cymraeg yn unig yn arwydd grymus o statws y Gymraeg yng Nghymru".⁴⁸⁴

402. Nid oedd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cefnogi'r safbwynt hwn. Dywedodd mai mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru oedd enwau'r etholaethau, ac y gallai darpariaeth sy'n cyfyngu ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i'r Comisiwn fod yn wrthgynhyrchiol:

"Where there is a common objective of, 'I think we would like to see more monolingual Welsh names', there may be good reasons why that wouldn't be appropriate or that now is not the right time to do it, or whatever. The answer is that I don't really know on that, other than I think that the way the statute is set out in terms of that engagement process enables that to happen, but to happen in a way that is co-operative. And that seems to me to be the way forward".⁴⁸⁵

Orgraff enwau etholaethau

403. Mae'r ddwy Atodlen yn gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wrth benderfynu ar enwau etholaethau, ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, h.y. y ffordd dderbyniol o sillafu ac ysgrifennu geiriau. Mae gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Croesawyd y gofyniad hwn gan Gymdeithas yr Iaith.⁴⁸⁶ Fe'i croesawyd hefyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, er iddi ddweud y gallai fod angen adnoddau ychwanegol arni i adlewyrchu'r cyfrifoldeb statudol ychwanegol.⁴⁸⁷

404. Nododd Comisiynydd y Gymraeg nad yw'r ddyletswydd ymgynghori ond yn ymwneud ag orgraff "yr enw arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg", nid yr enw arfaethedig yn Saesneg nac unrhyw enw uniaith arfaethedig yn y naill iaith na'r llall. Holodd pam y cafodd y Bil ei ddrafftio fel hyn, pan fo ei chyfrifoldeb yn ymestyn i safoni enwau lleoedd yng Nghymru, nid dim ond enwau sy'n tarddu o'r Gymraeg. Eglurodd fod ei gwaith ar safoni enwau lleoedd yn cael ei lywio gan banel o arbenigwyr a chanllawiau cenedlaethol, a dywedodd y gallai'r ddarpariaeth bresennol atal Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru rhag mynd

⁴⁸⁴ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 13 Rhagfyr 2023

⁴⁸⁶ SCME(P)26 Cymdeithas yr Iaith

⁴⁸⁷ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

ati i gael cyngor ar orgraff enwau yn Saesneg neu enwau uniaith yn y Gymraeg neu'r Saesneg.⁴⁸⁸

405. Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg a'i Chyfarwyddwr Strategol enghreifftiau o'r materion technegol a all godi wrth enwi etholaethau:

- Achosion lle nad oes ond amrywiad bach rhwng yr enwau Cymraeg a Saesneg am le, megis etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy/Alyn and Deeside lle nad oes ond un llythyren o wahaniaeth rhwng 'Alun' ac 'Alyn'.⁴⁸⁹
- Cwestiynau ynghylch a ddefnyddir 'a/ac' neu 'and' i gyfuno enwau etholaethau Senedd y DU. Gall hyn fod yn arbennig o wir pan fo enwau'r etholaethau sydd i'w paru yn enwau uniaith Gymraeg. Er enghraifft, pe bai Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn yn cael eu paru:

"[...] a fyddai'n gorfod bod yn 'Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn' yn Gymraeg yn ogystal â 'Dwyfor Meirionnydd and Ynys Môn' yn Saesneg neu a allai fod yn 'Dwyfor Meirionnydd Ynys Môn' a fyddai'n gweithio yn y ddwy iaith, ond o bosibl ddim yn dderbyniol gan etholwyr gan ei fod yn enw gwneud sy'n pentyrru elfennau ac yn ddieithr ar yr olwg gyntaf".⁴⁹⁰

406. Dywedodd Shereen Williams wrthym unwaith y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi dod i gasgliadau cychwynnol ar y parau arfaethedig y byddai'n ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg:

"[...] to get input on the name combinations, also, obviously, making sure we check our spellings, accents, things like that, to ensure that it's as accurate as possible".⁴⁹¹

407. Eglurodd ei bod, fel mater o arfer ar gam y cynnig cychwynnol, yn cymryd safbwynt argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer enwau lleoedd, ond gan y byddai enwau etholaethau yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, y byddai comisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn rhoi sylw i unrhyw

⁴⁸⁸ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 445], 9 Tachwedd 2023

⁴⁹⁰ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 223], 22 Tachwedd 2023

safbwyntiau a geir gan y cyhoedd neu randdeiliaid, yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg.⁴⁹²

408. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, pan na fydd ei hargymhellion ar orgraff yn cael eu mabwysiadu, y gall arwain at anghysondeb yn orgraff enwau lleoedd a ddefnyddir mewn gwahanol gyd-destunau.⁴⁹³ Dywedodd y byddai'n croesawu diwygiadau i'w gwneud yn ofynnol gweithredu ar ei sylwadau ar orgraff:

"Fy asesiad i yw ein bod ni'n rhwystredig gyda'r sefyllfa bresennol, lle rŷn ni'n cynghori, ond does dim rhaid i bobl wrando arnom ni. Felly, ar bwy maen nhw'n gwrando, te—rhywun sydd â dim cefndir? Hynny yw, pwy arall? Mae'r wybodaeth a'r arbenigedd gyda ni, wedi ei adeiladu dros gyfnod o amser, felly pam ddim gwrando arnom ni ar ôl inni wneud y gwaith? Dyna fyddai fy ateb i hynny. Felly, byddwn i'n croesawu gallu bod y person sy'n penderfynu".⁴⁹⁴

409. Nid oedd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cefnogi'r safbwynt hwn, gan ddweud na fyddai'n ffafrio gweld rhywbeth sydd yn y bôn yn cymryd rhan o annibyniaeth a chyfrifoldeb Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Gan awgrymu y gellid ystyried hyn ymhellach mewn unrhyw adolygiad o'r Ddeddf, ychwanegodd:

"Well, I think that the danger is that when you give the functions and the responsibilities to the commission in terms of the boundaries and so on, when it's their specific function, but then say to them, 'Well, it doesn't matter what your function is, because if, say, the commissioner says, "I think you should do this", you have to follow it'. I think these things are double-edged swords—if you try to impose one set of responsibilities on a body that has similar responsibilities. I think that these are things that work out by means of goodwill and proper engagement. And I think that there is a logic and a common purpose. You've obviously taken evidence on this, and my understanding of the evidence is that it is a recognised constructive collaboration".⁴⁹⁵

410. Nododd Shereen Williams pe bai unrhyw newid yn cael ei wneud i'r Bil mewn perthynas â naill ai rôl Comisiynydd y Gymraeg o ran orgraff enwau etholaethau, neu mewn perthynas ag enwau etholaethau yn fwy cyffredinol, yna

⁴⁹² Cofnod y Trafodion [paragraffau 223 a 225], 22 Tachwedd 2023

⁴⁹³ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 458], 9 Tachwedd 2023

⁴⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 91-93], 13 Rhagfyr 2023

roedd y darpariaethau o ran gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn awtomatig yn golygu y byddai angen ymgorffori enwau terfynol yr etholaethau yn adroddiad terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru cyn ei gyhoeddi.⁴⁹⁶

Ein barn ni

411. Drwy fwyafrif, rydym yn fodlon bod y model 16 etholaeth ag iddynt chwe Aelod a gynigir yn y Bil yn briodol. Er ein bod yn deall y pryderon a fynegwyd gan rai y gallai etholaethau amlaelod ac ardaloedd daearyddol mwy wanhou'r cysylltiad rhwng etholwyr ac Aelodau unigol, neu gyflwyno heriau logistaidd i'r Aelodau perthnasol, mae'r rhain yn brofiadau sydd eisoes yn gyfarwydd i Aelodau rhanbarthol. Mae'r cyfranoldeb a allai ddeillio o feintiau ardal o chwech yn debygol o gynyddu'r potensial i etholwyr gael eu cynrychioli gan o leiaf un Aelod sy'n rhannu ei safbwyntiau gwleidyddol. Mae hefyd yn cynyddu'r potensial i'r garfan o Aelodau sy'n cynrychioli ardal ddod o gefndiroedd neu gymunedau gwahanol, er y bydd i ba raddau y gwireddir hyn yn ymarferol yn dibynnu ar bleidiau'n dewis ymgeiswyr mwy amrywiol, yn enwedig os gweithredir rhestrau caeedig.

412. Er y bydd ad-drefnu'r ffiniau yn peri cymhlethdod i weinyddwyr etholiadol, rydym yn sicr y gellir gweithredu'r model etholaethol ar gyfer etholiad 2026. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oes lle i unrhyw lithriad o ran yr amserlen ar gyfer yr adolygiad paru na gweithredu ei gynigion. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau i roi effaith i'r adolygiad o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn cael eu dwyn ymlaen yn ddi-oed yn dilyn adroddiad terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ac yn sicr ymhell cyn diwedd y cyfnod o 14 wythnos. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod gweinyddwyr etholiadol yn cael y cymorth ariannol ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen i sicrhau bod y model ffiniau yn cael ei roi ar waith yn ddidrafferth.

413. Rydym yn ymwybodol y gallai'r broses adolygu ffiniau dau gam beri dryswch posibl i bleidleiswyr, a chymhlethdod posibl i weinyddwyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr. Nid yw'n ddelfrydol y gallai fod newidiadau sylweddol o fewn cyfnod byr o amser, ond mae'n cynrychioli dull cymesur o sicrhau y gellir gweithredu'r diwygiadau erbyn etholiad nesaf y Senedd heb fod adolygiad llawn o ffiniau'r Senedd yn seiliedig ar etholfraint y Senedd yn cael ei oedi'n ormodol.

⁴⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 236], 22 Tachwedd 2023

414. Gall adolygiadau ffiniau fod yn ddadleuol, gyda rhai yn eu gweld fel ymyrraeth wleidyddol. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r darpariaethau yn Atodlenni 1 a 2 i'r Bil sy'n darparu ar gyfer gweithredu cynigion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn awtomatig heb unrhyw le i Lywodraeth Cymru⁴⁹⁷ na'r Senedd eu haddasu. Bydd y drefn o weithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn awtomatig yn helpu i sicrhau uniondeb y broses adolygu ffiniau, ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei didueddrwydd. Ond, mae hefyd yn ei gwneud yn hollbwysig bod y fframwaith a ddarperir yn y Bil ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau yn adlewyrchu'r materion, y gwerthoedd a'r meini prawf y mae'r Senedd yn cytuno, drwy uwchfwyafrif, y dylid rhoi effaith iddynt. Y ffaith y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gweithredu'n annibynnol ac yn ddiuedd yw'r union reswm y mae'n rhaid i'r rheolau eu hunain fod yn glir, yn gadarn ac yn briodol.

415. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cadarnhau inni mai ei rôl yw gweithredu'r rheolau fel y'u nodir mewn deddfwriaeth, nid rhoi sylwadau ar rinweddau'r cynigion. Serch hynny, mae wedi argymhell y dylid ystyried cyfres o newidiadau technegol i roi mwy o eglurder a gwella hygyrchedd y rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru i roi effaith i adolygiadau olynol o ffiniau. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, materion fel y canlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil y ffordd y mae'r cwota etholiadol yn rhyngweithio â'r gofyniad yn adran 49C(2)(b)(i) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl wrth adolygu etholaethau. Deallwn fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd wedi darparu'r argymhellion hyn i Lywodraeth Cymru. Os bydd y Bil yn pasio Cyfnod 1, byddai'n ddefnyddiol er mwyn llywio gwaith craffu parhaus y Senedd, i ddeall barn yr Aelod sy'n gyfrifol ar y materion technegol hyn.

Argymhelliad 26. Os bydd y Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ysgrifennu atom ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i'r cynnig egwyddorion cyffredinol gael ei dderbyn, yn nodi ei farn ar bob un o'r argymhellion ar gyfer newidiadau technegol i Atodlenni 1 a 2 a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig inni. Dylai'r llythyr hwn gynnwys, ar gyfer pob argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, eglurhad a yw'n cytuno â'r Comisiwn bod

⁴⁹⁷ Heblaw am bŵer Llywodraeth Cymru i wneud addasiadau ar gais penodol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru er mwyn cywiro gwallau.

angen y newid ai peidio, y rhesymau dros ei farn, a chadarnhad ynghylch a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i roi effaith i'r argymhelliad ai peidio.

416. Rydym yn cydnabod bod y Memorandwm yn tynnu sylw at y Gymraeg fel enghraifft o gwllwm lleol y gallai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ei ystyried wrth bennu parau neu adolygu ffiniau'r Senedd yn y dyfodol. Rydym yn croesawu hyn, ond yn nodi hefyd nad yw hyn yn ofynnol o dan y Bil. Hoffem weld y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu y dylid rhoi ystyriaeth i effaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar y Gymraeg.

Argymhelliad 27. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i ddarparu bod effaith ar y Gymraeg yn un o'r clymau lleol y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hystyried wrth bennu ffiniau etholaethau'r Senedd.

417. Nid yw mwyafrif y Pwyllgor wedi ei ddarbwylllo gan y cyfiawnhad a roddodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod angen caniatáu amrywiant mor eang o'r cwota etholiadol er mwyn sicrhau hyblygrwydd. Gyda'r model etholaethau pâr, gallai caniatáu'r amrywiant hwn olygu bod gan rai etholaethau hyd at 30,000 yn llai o bleidleiswyr nag eraill. Mae tri o'r Aelodau o'r farn bod hyn yn rhy eang a bod angen lleihau'r ffigur.⁴⁹⁸ Mae dau o'r Aelodau yn fodlon ar y ddarpariaeth fel y'i drafftwyd.

Argymhelliad 28. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r amrywiant a ganiateir o ± 10 y cant.

418. Nid ydym ychwaith yn glir beth yw'r rhesymeg dros seilio'r cyfrifiad o'r cwota etholiadol ar nifer yr etholwyr mewn etholaeth yn hytrach na nifer yr etholwyr ynghyd â'r rhai a fydd yn dod i oed, fel sy'n digwydd yn yr Alban. Byddai cynnwys y rhai a fydd yn dod i oed yn y cwota etholiadol yn rhoi mwy o sgôp i ddiogelu ffiniau at y dyfodol er mwyn ystyried y newidiadau demograffig posibl yn ystod y cyfnod wyth mlynedd y byddant mewn grym. Fel rhan o'r broses o weithredu ein hargymhelliad, bydd angen i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi trefniadau addas ar waith (fel y mae eu cymheiriaid yn yr Alban wedi'i wneud) ar gyfer trin data sy'n ymwneud â phlant 14 oed a hŷn.

⁴⁹⁸ Mae un o'r Aelodau hyn o'r farn y dylid lleihau'r amrywiant i ± 5 y cant; mae dau o'r farn y dylid ei leihau i rif sydd rhwng ± 5 y cant a ± 10 y cant.

Argymhelliad 29. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i ddarparu y dylid cynnwys etholwyr a'r rhai a fydd yn dod i oed wrth gyfrifo'r cwota etholiadol.

419. Rydym yn cytuno â Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol nad yw'n helpu bod y terfyn amser arfaethedig, sef 1 Rhagfyr, a nodir yn adran 49I(1) newydd ar gyfer llunio'r adroddiad terfynol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cyd-daro â'r terfyn amser, sef 1 Rhagfyr, sydd eisoes ar waith i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr etholwyr yn dilyn y canfasiad blynyddol. Mae'r gwrthdaro hwn o ran dyddiadau yn peri risg o ddyblygu a dryswch i weinyddwyr a'r rhai sy'n derbyn ac yn defnyddio cofrestrau etholiadol. Pe bai'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer adroddiadau terfynol yr adolygiad ffiniau yn gynharach, byddai'n galluogi swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried unrhyw newidiadau i'r ffiniau wrth gyhoeddi cofrestrau. Ceir disgresiwn ynghylch union amseriad y prosesau adolygu ffiniau o fewn y cyfnod tair blynedd rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Tachwedd 2028, a mwy fyth ran y cyfnodau wyth mlynedd ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau dilynol. Ni welwn unrhyw reswm pam na allai'r terfyn amser ar gyfer adroddiad terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fod yn gynharach.

Argymhelliad 30. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49I(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i nodi dyddiad cynharach erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a'u hanfon at Weinidogion Cymru er mwyn osgoi gwrthdaro â'r terfyn amser o 1 Rhagfyr a bennwyd eisoes i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi'r gofrestr etholwyr ddiwygiedig yn dilyn y canfasiad blynyddol.

420. Nid ydym wedi ein darbwylllo ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur i Weinidogion Cymru gael chwe mis i wneud rheoliadau i roi effaith i ganlyniadau adolygiadau llawn o ffiniau. Rydym yn deall bod y rheoliadau o dan adran 49J newydd Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, yn wahanol i'r rhai a wneir gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020. Fodd bynnag, mae'r ddau fis ychwanegol y tu hwnt i'r pedwar mis yn Neddf 2020 yn anghymesur, yn enwedig gan fod adran 49J newydd hefyd yn cynnwys mesurau diogelu i alluogi mwy o amser i fod ar gael pe bai amgylchiadau eithriadol yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud y rheoliadau mewn modd amserol.

Argymhelliad 31. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49J(1)(b) a (3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r cyfnod y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynddo i roi effaith i argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o chwe mis i bedwar mis.

421. Yn ystod ein gwaith craffu rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaethau ynghylch enwau etholaethau. Rydym wedi myfyrio ar y cyfrifoldebau a'r arbenigedd sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safoni enwau lleoedd yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ar y darpariaethau yn y Bil sy'n darparu nad oes ond rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd ar orgraff yr enwau Cymraeg arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

422. Rydym yn deall barn yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch pwysigrwydd cydweithio rhwng Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwylllo bod darpariaethau'r Bil ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r cydbwysedd o ran y cyfrifoldebau a'r arbenigedd perthnasol yn y maes hwn. Hoffem weld y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i sylwadau a wneir ganddi, mewn perthynas â'r enwau arfaethedig eu hunain, nid eu horgraff yn unig.

Argymhelliad 32. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar enw neu enwau arfaethedig etholaethau'r Senedd (ac unrhyw newidiadau i'r enw neu'r enwau arfaethedig), a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir.

423. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil y gellir rhoi enw uniaith i etholaeth os ystyrir bod hynny'n briodol ar gyfer cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ein barn ni, dylai fod rhagdybiaeth o blaid rhoi enw uniaith ar etholaeth, oni bai bod rheswm penodol pam y mae enwau dwyieithog yn briodol. Fodd bynnag, byddem yn pryderu pe bai'r ddarpariaeth yn y Bil yn cael ei defnyddio i roi enwau uniaith Saesneg ar etholaethau. Yn ein barn ni, dylid diwygio'r Bil i ddarparu, os yw etholaeth i gael enw uniaith, dim ond enw Cymraeg y caiff yr enw hwnnw fod.

Argymhelliad 33. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu y dylid rhoi enw uniaith ar bob un o etholaethau'r

Senedd (oni bai bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o'r farn bod rhesymau penodol pam y mae enwau dwyieithog yn briodol).

Argymhelliad 34. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu mai yn Gymraeg yn unig y caiff enw etholaeth fod os rhoddir enw uniaith iddi.

424. Rydym yn rhannu pryder Comisiynydd y Gymraeg nad yw'r Bil yn cydnabod ei rôl wrth safoni orgraff enwau lleoedd yng Nghymru yn yr iaith Saesneg. Nid yw'n glir ychwaith a yw'r gofyniad ymgynghori yn berthnasol i enwau uniaith Gymraeg y bwriedir eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu yn y ddwy iaith.

Argymhelliad 35. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rôl Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau arfaethedig yn gymwys i bob enw etholaeth arfaethedig (neu newidiadau i'r enwau hynny), p'un a yw'r cynigion at ddibenion adnabod etholaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gyfrwng y Saesneg, neu drwy enw uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall.

425. Rydym yn deall bod rhaid i gomisiynau ffiniau, wrth gynnal adolygiadau, gydbwysu tystiolaeth a sylwadau gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y cyhoedd, rhanddeiliaid ac arbenigwyr technegol. Serch hynny, rydym yn rhannu pryderon Comisiynydd y Gymraeg nad yw'r gofyniad mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau ond yn ymwneud ag ymgynghori a 'rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir'. Mae orgraff yn fater technegol y mae gan Gomisiynydd y Gymraeg, gyda chymorth panel o arbenigwyr, gryn arbenigedd ynddo. Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru weithredu unrhyw argymhellion y mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu gwneud ar gyfer newidiadau i orgraff enwau'r etholaethau arfaethedig.

Argymhelliad 36. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru weithredu unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau arfaethedig. Yn unol â'n Argymhelliad 35, dylai hyn gynnwys orgraff enwau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac unrhyw enwau uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall.

10. Anghymhwyso ar sail ble y mae person yn preswyllo

Y cefndir

Y trefniadau presennol

426. Er mwyn bod yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd etholaethol neu ymgeisydd rhanbarthol rhaid i berson, ar y diwrnod y caiff ei enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio, fod:

- Yn o leiaf 18 oed.
- Yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig.

427. Mae deiliaid rhai swyddi wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll etholiad ar gyfer y Senedd neu gael eu hethol i'r Senedd.⁴⁹⁹

Darpariaeth yn y Bil

428. Mae adran 6 yn cyflwyno gofyniad newydd ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd a'r rhai sydd eisoes yn Aelodau o'r Senedd. Yn benodol, mae'n anghymhwyso person nad yw wedi'i gofrestru ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd rhag sefyll etholiad neu rhag parhau i fod yn Aelod.

429. Mae'r Memorandwm yn nodi sail resymegol Llywodraeth Cymru:

"Yn benodol, ystyrir ei bod yn briodol y dylai ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion preswyllo ag unigolyn sy'n dymuno pleidleisio yn yr etholiad hwnnw".⁵⁰⁰

⁴⁹⁹ Gweler Atodlen 1A i Ddeddf 2006 a [Gorchymyn Senedd Cymru \(Anghymhwyso\) 2020](#). (Saesneg yn unig)

⁵⁰⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 182

430. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyfiawnhau'r gofyniad drwy dynnu sylw at y ffaith bod cyflwyno rhestrau caeedig yn golygu na fydd pleidleiswyr sydd am gefnogi plaid wleidyddol benodol yn gallu dewis peidio â phleidleisio dros ymgeisydd penodol oherwydd nad yw'n preswyllo yng Nghymru.⁵⁰¹

431. Rhaid i unrhyw ymgeisydd ar restr plaid sy'n ceisio llenwi sedd wag sy'n codi rhwng etholiadau "fod yn preswyllo yng Nghymru pan fyddant yn cymryd y sedd wag ac am gyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn Aelod o'r Senedd".⁵⁰²

Egwyddor gofyniad 'preswyllo'

432. Gwnaeth nifer o gyfranwyr at ein gwaith sylwadau ar rinweddau cyflwyno gofyniad bod ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol ac Aelodau yn byw yng Nghymru.

433. Roedd yr Athro Diana Stirbu yn cytuno â'r egwyddor y dylai person sy'n sefyll etholiad i'r Senedd i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru hefyd fyw yng Nghymru a bod yn ddarostyngedig i'r cyfreithiau hynny.⁵⁰³ Yn yr un modd, dywedodd yr Athro McAllister wrthym y byddai'n gwbl anghyson cael cynrychiolwyr yn y Senedd nad ydynt yn byw o fewn ffiniau cenedlaethol Cymru.⁵⁰⁴ Cefnogwyd y cynnig hefyd gan Gymdeithas yr Iaith, a oedd yn credu ei bod yn groes i egwyddorion democratiaeth Cymru i rywun nad yw'n preswyllo yng Nghymru gael ei ethol i'r Senedd.⁵⁰⁵

434. Er bod yr Athro Renwick yn pwysleisio'r egwyddor o roi'r dewis i bleidleiswyr, yn absenoldeb rhestrau hyblyg, teimlai fod mwy o gyfiawnhad dros osod cyfyngiadau ar y pleidiau pan fyddant yn dewis ymgeiswyr.⁵⁰⁶

435. Yn groes i hynny, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd yr Athro Clark fod hanes diweddar cyfraith etholiadol yng Nghymru wedi tueddu i fod yn fwy agored a chaniataol o ran mynediad i'r bleidlais, ac awgrymodd y gallai'r cynnig i gyfyngu ymgeiswyr ac aelodau i'r rhai hynny sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru gael ei gyflwyno o bosibl fel cam sy'n cyfyngu ar fynediad i'r bleidlais. Aeth ymlaen i ddweud:

⁵⁰¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraffau 183-184

⁵⁰² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 326

⁵⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 380], 26 Hydref 2023

⁵⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 26 Hydref 2023

⁵⁰⁵ SCME(P)26 Cymdeithas yr Iaith

⁵⁰⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 115], 26 Hydref 2023

“Whether this restriction would apply to a large number of candidates is probably unlikely, since political and campaign discourse highlighting their registration status would almost inevitably provide a deterrent to most candidates except the most determined or high profile. Such candidates would also, presumably, be unable to vote for themselves”.⁵⁰⁷

436. Roedd yr Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a gymerodd ran mewn grŵp ffocws ar-lein o blaid ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ac ymgeiswyr fod wedi’u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru, gan ddweud y dylid mynd ymhellach a’i gwneud yn ofynnol iddynt fyw neu weithio yn yr etholaeth y maent yn ei chynrychioli neu’n ymgeisio ynddi.⁵⁰⁸

437. Roedd ymatebion ysgrifenedig gan y rhai a rannodd eu barn drwy ein hymgyngoriad ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd yn cefnogi’r gofyniad i ymgeiswyr ac Aelodau fod wedi’u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru er mwyn iddynt ddeall y materion a’r problemau sy’n wynebu’r bobl sy’n byw yma, ac awgrymwyd y byddai’n arwain at Senedd sy’n fwy cynrychioliadol. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai gofyniad culach i breswyllo yn yr ardal y maent yn ymgeisio ynddi yn rhoi gwell dealltwriaeth i’r unigolyn dan sylw o anghenion a phroblemau’r ardal honno, yn ogystal â helpu’r gymuned i deimlo mwy o gysylltiad â’r person sy’n eu cynrychioli.⁵⁰⁹

438. Roedd mwyafrif yr unigolion a roddodd sylw i’r cynnig hwn o blaid y gofyniad i ymgeiswyr ac Aelodau fod wedi’u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru, gydag un unigolyn yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i Aelodau fyw yn yr etholaeth y maent yn ei chynrychioli. Roedd un unigolyn yn gwrthwynebu’r cynnig, gan ddweud y gallai olygu bod Cymru ar ei cholled o ran ymgeiswyr cymwys iawn sydd â mwy o brofiad strategol na gwleidyddion ‘cartref’.⁵¹⁰

Mandad i ddeddfu

439. Gwnaethom ofyn i’r Aelod sy’n gyfrifol pam ei fod wedi cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil pan nad oedd y Panel Arbenigol, y Pwyllgor ar Ddiwygio

⁵⁰⁷ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

⁵⁰⁸ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Grŵp Ffocws Senedd Ieuenctid Cymru](#), Tachwedd 2023, paragraff 8

⁵⁰⁹ Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): [barn plant a phobl ifanc](#)

⁵¹⁰ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen yr ymgynghoriad ar y we](#).

Etholiadol na'r Pwyllgor Diben Arbennig wedi trafod y mater na gwneud argymhellion yn ei gylch. Dywedodd wrthym:

"[...] once you start putting this legislation together in this particular way, the issue arises of who should be entitled to vote. We do already have some divergence on that in terms of UK Government reserved elections, but that was one where it naturally needed to be addressed, and it basically seemed a logical issue to say, 'Well, residency should be those who live in Wales, that make the laws for Wales, are affected by the laws for Wales.' If that is something the Senedd doesn't want, then it can take that out or change it".⁵¹¹

440. Pan holwyd Will Whiteley a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y ddarpariaeth cyn ei chynnwys yn y Bil, dywedodd nad oedd amser i wneud hynny.⁵¹²

441. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro a oedd cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil felly yn 'benderfyniad gwleidyddol'. Dywedodd:

"Well, it was a practical, operational decision made as to what are the criteria for people to be able to stand for candidacy within legislation like this, and clarity, simplicity and operationability and proportionality were the ones that were really the factors around that. And, again, that's forward here and, of course, the residency issue again is a matter for Senedd consideration".⁵¹³

Diffiniad o'r 'gofyniad preswyllo'

442. At ddibenion person sy'n sefyll fel ymgeisydd ar gyfer etholiad i'r Senedd neu berson sydd eisoes yn Aelod sydd am barhau yn ei sedd, y diffiniad o 'breswyllo' yn y Bil yw bod y person wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr ac Aelodau fod wedi'u cofrestru yn yr etholaeth y maent yn bwriadu sefyll ynddi neu y maent eisoes yn ei chynrychioli.⁵¹⁴

⁵¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 5 Hydref 2023

⁵¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 100], 5 Hydref 2023

⁵¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 5 Hydref 2023

⁵¹⁴ Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 325

443. Mae hyn yn wahanol i'r gofynion ar gyfer pleidleiswyr, y mae'n rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru i bleidleisio gyda chyfeiriad mewn etholaeth benodol er mwyn pleidleisio ynddi. Mae hefyd yn wahanol i'r gofynion ar gyfer y rhai sy'n ceisio cael eu hethol yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru (y gallent, er enghraifft, fod wedi bod yn berchen ar dir neu safle yn yr ardal berthnasol, y gallai eu prif fan gwaith neu eu hunig fan gwaith fod wedi bod yn yr ardal berthnasol, neu y gallent fod wedi byw yn yr ardal berthnasol, am gyfnod penodol).⁵¹⁵

444. Mae'r Memorandwm yn nodi y rhoddwyd ystyriaeth i ddatblygu diffiniad "pwrpasol" o breswyllo. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r diffiniad presennol o breswyllo at ddibenion cofrestru etholiadol (a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983), gan nodi bod y diffiniad - "er ei fod yn rhoi cryn benrhyddid o ran ei ddehongli - wedi hen ennill ei blwyf mewn cyfraith etholiadol".⁵¹⁶

445. Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi yr ystyriwyd diffinio'r meini prawf preswyllo fel "bod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ar sail preswyllo" ond penderfynodd Llywodraeth Cymru fod cofrestru, yn hytrach na bod yn gymwys i gofrestru yn unig, yn rhoi "elfen o eglurder i ddarpar ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, gweinyddwyr etholiadol ac - yn y pen draw - i lys sy'n ystyried mater o'r fath".⁵¹⁷

446. Dywedodd Colin Everett wrthym fod y gofyniad i berson fod wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn ffordd ddiogel iawn o fynd ati, gan y gall unrhyw un sy'n dewis ei herio fynd ati i wirio'r gofrestr.⁵¹⁸

447. Awgrymodd yr Athro McAllister y gallai fod yn anodd mynd ymhellach drwy fynnu cysylltiad lleol â'r etholaeth berthnasol drwy ddeddfwriaeth. Awgrymodd y byddai'n haws pe bai pleidiau gwleidyddol yn ystyried hynny wrth ddewis ymgeiswyr.⁵¹⁹

448. Gwnaethom ofyn a oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi ystyried cymhwyso'r gofyniad preswyllo mewn cyd-destun trawsffiniol, er enghraifft a fyddai'n briodol anghymhwyso unigolyn sy'n byw'n agos at ffin Cymru. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi dewis yr egwyddor gliriaf, symlaf a mwyaf dealladwy.

⁵¹⁵ [Deddf Llywodraeth Leol 1972](#). (Saesneg yn unig)

⁵¹⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 182

⁵¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 191

⁵¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 21], 15 Tachwedd 2023

⁵¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 113-114], 26 Hydref 2023

Awgrymodd y byddai'n anodd iawn bod yn rhy ragnodol o ran clymu'r gofyniad i etholaeth yng Nghymru neu drosi'r mater trawsffiniol yn ddeddfwriaeth.⁵²⁰

449. Pan ofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol a allai maen prawf sy'n seiliedig ar agosrwydd at etholaeth fod yn ddull amgen ymarferol i osgoi canlyniadau rhyfedd, dywedodd:

"No, I don't think it's odd at all. I think if you live in Wales, you're accountable to Wales. If you don't live in Wales, you're accountable to the laws that apply in England, and vice versa. So, I don't really see that as being a difficulty. If you wanted to try and actually look at the issue of proximity and how you actually start defining it, I think you basically go down a road that makes it almost impossible to legislate, or you end up with something that is so complex and challengeable".⁵²¹

450. Mewn gohebiaeth ddilynol, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol fod amrywiaeth o opsiynau wedi'u hystyried ar gyfer gweithredu'r gofyniad preswyllo, gan gynnwys y darpariaethau cymhwys a geir ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, roedd o'r farn ei bod yn briodol i ymgeiswyr sy'n ceisio mewn etholiad fod â "budd sylweddol a phendant yn nemocratiaeth Cymru" a byddai'r gofyniad "eu bod yn cofrestru i bleidleisio - ac felly'n breswyl - yng Nghymru yn helpu i sicrhau cyswllt o'r fath". Er ei fod yn derbyn y gellir dangos cyswllt sylweddol a diriaethol mewn ffyrdd eraill, megis cyflogaeth, roedd o'r farn ei bod yn briodol i berson sy'n sefyll fel ymgeisydd fod yn gymwys i gymryd rhan yn yr etholiad hwnnw fel pleidleisiwr.⁵²²

Anghymhwysu ar adeg ymgeisio neu ar adeg etholiad

451. Buom yn trafod â'r Athro McAllister a fyddai'n fwy priodol anghymhwysu person ar y pwynt y daw'n Aelod yn hytrach na phan gaiff ei enwebu fel ymgeisydd:

"I can see the benefits, actually, of each side of that, because, clearly, if we want to create a more diverse Senedd, people are taking a risk in terms of standing for election. There's never any guarantee that one will be elected, despite maybe even being towards the top of a closed

⁵²⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 5 Hydref 2023

⁵²¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 5 Hydref 2023

⁵²² [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

list. So, it might be prohibitive to candidates who want to put themselves forward if you stop it being at the point of candidature, rather than acceptance of the position”.⁵²³

452. Wrth drafod ei benderfyniad y byddai'r anghymhwysiad yn berthnasol i ymgeiswyr ac Aelodau, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“I think we've looked at a whole range of different ways of trying to achieve that, to achieve the residency, and I think, again, coming within the simplicity, the clarity and something that made operational sense is basically that to be a candidate, you need to be on the register. To be elected, once you're elected, you need to be on the register, and those were the criteria—so, I think the ones that actually work”.⁵²⁴

Cydymffurfio

Ymgeiswyr

453. Roedd gweinyddwyr etholiadol yn cwestiynu a fyddai unrhyw ofyniad i orfodi'r gofyniad preswyllo ar gyfer ymgeiswyr. Pwysleisiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol bwysigrwydd cynnal yr egwyddor bod gweinyddwyr etholiadol yn derbyn y wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr fel ffaith a dywedodd y dylid parhau i wneud hynny ar gyfer y gofyniad preswyllo. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y bydd swyddogion cofrestru etholiadol yn parhau i roi cyngor anffurfiol i ymgeiswyr ac asiantau ar gais, ond mai eu hunig rôl yw sicrhau bod papurau enwebu'n gyflawn ac yn cydymffurfio.⁵²⁵ Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol⁵²⁶ a'r Comisiwn Etholiadol⁵²⁷ yn glir mai'r ymgeisydd ddylai fod yn gyfrifol bob amser.

454. Dywedodd Will Whiteley fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys datganiad preswyllo yn y system enwebu bresennol:

⁵²³ Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 26 Hydref 2023

⁵²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 5 Hydref 2023

⁵²⁵ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

⁵²⁶ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

⁵²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 22 Tachwedd 2023

“There are processes, as part of the nomination window, where certain people are able to check what people have made, but, again, I think the returning officer would take that information, as they do other information within the nomination papers, at face value, and then, obviously, there are ways in which that can be challenged as well, either for candidates or for Members, as required”.⁵²⁸

455. Awgrymodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru mai un ateb ymarferol fyddai gofyn i ymgeiswyr ddatgan ar eu ffurflenni enwebu eu cyfeirnod cofrestr etholiadol unigryw, a fyddai'n caniatáu i eraill wirio a herio cymhwystra'r ymgeisydd yn hawdd.⁵²⁹

Aelodau

456. Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol⁵³⁰, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru⁵³¹ a'r Comisiwn Etholiadol⁵³² oll yn glir o blaid sicrhau bod unrhyw wiriadau cydymffurfiaeth ar gyfer y rhai sydd eisoes yn Aelodau o'r Senedd yn fater i'r Senedd ei hun, yn hytrach nag i weinyddwyr etholiadol.

457. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, pe bai'r Senedd yn cynnal gwiriadau, y byddai angen i ddeddfwriaeth ddarparu bod swyddogion cofrestru etholiadol yn cyflenwi'r gofrestr etholwyr a hysbysiad o newid i'r Senedd. Fodd bynnag, nid oedd yn credu bod angen gwiriadau am nad oes unrhyw wiriadau rhagweithiol eraill ar gyfer cymhwystra yn cael eu cynnal yn unrhyw le arall ym Mhrydain Fawr.⁵³³

458. Awgrymodd y Fonesig Elan Closs Stephens, os credir bod angen cynnal unrhyw wiriad parhaus, y gellid gwneud rhyw fath o ddatganiad gan Aelod, yn debyg i'r ffordd y mae buddiannau'n cael eu datgan, naill ai'n rheolaidd neu os bydd ei amgylchiadau personol yn newid.⁵³⁴

⁵²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 13 Rhagfyr 2023

⁵²⁹ SCME(P)12 Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

⁵³⁰ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

⁵³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 15 Tachwedd 2023

⁵³² SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁵³³ SCME(P)3 Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

⁵³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 22 Tachwedd 2023

Canlyniadau anfwriadol

Gwallau gweinyddol

459. Fel y'i drafftiwyd, pe bai Aelod yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr byddai'n cael ei anghymhwysu a byddai'n rhoi'r gorau i'w sedd ar unwaith. Fodd bynnag, gallai hyn ddigwydd heb yn wybod i'r Aelod, er enghraifft, pe bai ei gofrestrriad yn cael ei ddileu mewn camgymeriad.

460. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Llywydd yn codi pwyntiau ymarferol ynghylch yr effaith pe bai person sydd eisoes yn Aelod yn cael ei anghymhwysu am iddo gael ei ddileu o'r gofrestr etholiadol, yn enwedig gan fod proses ar gyfer apelio i'r Llys Sirol pan gaiff person ei ddileu. Tynnodd sylw at y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas ag Aelodau Tŷ'r Arglwyddi, sydd ag wyth diwrnod ar ôl iddynt gael eu hethol i'r Senedd i wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol er mwyn osgoi cael eu hangymhwysu rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.⁵³⁵ Dywedodd y Llywydd wrthym fod hwn yn fater y mae angen i Lywodraeth Cymru ac eraill ei ystyried ymhellach o ran sut y gellid galluogi'r hawl i apelio cyn rhoi effaith i'r anghymhwysiad.⁵³⁶

461. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a ddylai fod 'cyfnod gras' tra bod Aelod yn apelio yn erbyn tynnu ei enw oddi ar y gofrestr etholiadol. Dywedodd fod y risg y byddai etholwr yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr heb yn wybod iddo yn isel, gan yn ei bod yn ofynnol i'r swyddog cofrestru etholiadol gynnal adolygiad yn gyntaf cyn dileu enw. Awgrymodd hefyd y byddai unrhyw 'gyfnod gras' yn creu ansicrwydd ac y gallai arwain at sedd wag yn y pen draw o hyd pe na bai Aelod yn gallu sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad preswyllo yn ystod y cyfnod hwnnw.⁵³⁷

462. Yn ei sesiwn dystiolaeth olaf, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod pobl yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn ddamweiniol. Aeth ymlaen i ddweud:

"I think where there is a mistake that has occurred and it's a governmental mistake or an administrative mistake, then that is something that shouldn't disqualify someone; that's surely something that needs to be considered in terms of how the system will actually operate. It would not be right for—you know, an official has made an error and someone has been accidentally taken off it et cetera. So,

⁵³⁵ SCME(P)2 Y Llywydd

⁵³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 250], 26 Hydref 2023

⁵³⁷ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

there needs to be checks and balances on that, but that's not something that should happen".⁵³⁸

Effaith ar ymgeiswyr 'wrth gefn'

463. Rydym wedi ystyried effaith y gofyniad preswyllo ar ymgeiswyr 'wrth gefn' (h.y. ymgeiswyr sy'n is i lawr ar restrau pleidiau y gellir eu dychwelyd fel Aelodau pe bai seddi gwag yn codi rhwng etholiadau) na fyddent yn gallu llenwi sedd wag oni bai eu bod wedi'u cofrestru i bleidleisio gyda chyfeiriad yng Nghymru ar yr adeg pan gododd y sedd wag. Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar ar 5 Hydref 2023, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"I think people take decisions in terms of their experiences, if they're not elected first through the general election, et cetera. People will inevitably make decisions and there will be circumstances that impact on their life, et cetera, and they take those within that knowledge. I think that is just part of the system, but it means that if someone does come into a vacancy, they are on the register, they are resident, they are living in and accountable to, et cetera".⁵³⁹

464. Gwnaethom ysgrifennu wedyn at yr Aelod sy'n gyfrifol i ofyn am ei farn ynghylch a fyddai pobl yn cael eu darbwyllo i beidio â chynnig eu henwau i'w dethol, neu i beidio â chytuno i gael eu henwebu pe baent yn cael eu dewis yn is i lawr ar restrau'r pleidiau, yn absenoldeb unrhyw fecanwaith sy'n galluogi ymgeisydd ar restr plaid i sicrhau o'r newydd ei fod yn bodloni'r gofyniad preswyllo o fewn cyfnod rhesymol pe bai sedd wag yn codi rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin. Nid oedd yn credu y byddai'r gofyniad yn atal person rhag ceisio enwebiad oni bai ei fod eisoes yn bwriadu symud i ffwrdd o Gymru ar adeg ei ymgeisyddiaeth.⁵⁴⁰

465. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth olaf gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, aethom ar drywydd yr angen am fecanwaith i roi cyfnod o amser i ymgeiswyr wrth gefn sydd fel arall yn gymwys i gymryd sedd a ddaw'n wag rhwng etholiadau i sicrhau o'r newydd eu bod yn bodloni'r gofyniad preswyllo os byddant wedi adleoli i rywle arall yn y cyfamser. Dywedodd:

⁵³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 143 a 146], 13 Rhagfyr 2023

⁵³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 175], 5 Hydref 2023

⁵⁴⁰ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

"Listen, that's something I'm more than happy to take away and look at, if you make that recommendation, and I think it's something we will look at, in any event, to see how something like that might happen. I understand the point that you're making on that. None of these things we want to do are to be exclusive. We want to be as inclusive as possible, but we also want to be fair to the totality of people that are on the register and a system that actually works with simplicity and clarity".⁵⁴¹

Cyfeiriadau eilaidd

466. Buom yn ystyried pryderon ynghylch y defnydd o'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol i ddiffinio ble y mae person yn preswyllo a'r bwlch posibl a geir yn y rheolau i'r rhai sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn ail gartrefi yng Nghymru.

467. Cydnabu Colin Everett y gallai person fodloni'r gofyniad pe bai ganddo ail gartref yng Nghymru ac awgrymodd ei fod yn ymwneud yn fwy â'r ffordd y mae pleidiau'n ystyried cynghori eu hymgeiswyr ynghylch hyder y cyhoedd ynddynt.⁵⁴²

468. Cydnabu Clare Sim y pryderon ond cyfeiriodd at yr egwyddor sefydledig yn y cyd-destun cofrestru ehangach y gallwch gofrestru mewn dau gyfeiriad os oes gennych rywfaent o sefydlogrwydd ynddynt.⁵⁴³ Eglurodd Rhydian Thomas fod swyddogion cofrestru etholiadol yn edrych ar geisiadau i gofrestru i bleidleisio o gyfeiriad eilaidd fesul achos:

"You must be deemed resident, as it states in the guidance, at an address in order to register to vote there.

We do provide guidance to electoral registration officers on this. So, for example, property ownership on its own isn't sufficient to establish if someone is resident at an address, and it will depend on the amount of time that an individual spends there".⁵⁴⁴

469. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol y bwlch posibl yn y rheolau a derbyniodd nad oes unrhyw system yn gwbl berffaith. Ychwanegodd:

⁵⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 13 Rhagfyr 2023

⁵⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 15 Tachwedd 2023

⁵⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 15 Tachwedd 2023

⁵⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 100-101], 22 Tachwedd 2023

"I think the objective of the use of the register is that it creates as few loopholes as possible. It has the clarity and simplicity. There may be issues that arise that are not perfect et cetera, but it seems to me to be the best way forward, at a time when you want to keep an understanding of what are quite major changes as simple as possible".⁵⁴⁵

Ein barn ni

470. Mae anghymhwysu ymgeiswyr ac Aelodau nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd yn agwedd ar y Bil nad yw wedi deillio o unrhyw ran o'r gwaith blaenorol a wnaed mewn perthynas â diwygio'r Senedd. Fe'i datblygwyd gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw ymgynghoriad nac ymgysylltiad â'r cyhoedd. Fel mwyafrif y cyfranwyr at ein gwaith, rydym yn cytuno â'r egwyddor o gael gofyniad preswyllo sy'n berthnasol i ymgeiswyr ac Aelodau. Rydym hefyd yn fodlon ar y drefn o asesu'r gofyniad preswyllo ar sail p'un a yw person wedi'i gofrestru mewn chyfeiriad yng Nghymru ar y gofrestr etholiadol. Serch hynny, mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod y cynnig yn codi nifer o ystyriaethau ymarferol ac ystyriaethau polisi y byddent wedi elwa o brosesau ymgynghori, ymgysylltu a chraffu priodol cyn deddfu.

471. Rydym yn cytuno â Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, y dylai gweinyddwyr etholiadol dderbyn y wybodaeth am breswyllo a ddarperir gan ymgeiswyr fel ffaith. Mae hyn yn gyson â'r arfer presennol ar gyfer papurau enwebu ymgeiswyr. Rydym hefyd yn cefnogi awgrym Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y dylai fod angen nodi cyfeirnod cofrestr etholiadol ymgeisydd ar y ffurflen enwebu i gynorthwyo eraill i ddilysu cymhwysra ymgeisydd, er y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data cyn gweithredu'r cynnig hwn.

Argymhelliad 37. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymrwymo i gynnwys gofyniad i ymgeiswyr ddarparu eu cyfeirnod cofrestr etholiadol ar y papurau enwebu a ragnodir yn y gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel rhan o'r adolygiad a'r ymgynghoriad i lywio'r broses o wneud y gorchymyn, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data i sicrhau y gellir cymryd unrhyw gamau priodol mewn perthynas â'r rhai sy'n gymwys i gofrestru'n ddiennw.

⁵⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 13 Rhagfyr 2023

472. Yn y pen draw, rhaid i'r ymgeisydd unigol fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gofyniad preswyllo wedi'i fodloni. Yn yr un modd, yr Aelodau sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio drwy gydol tymor y Senedd. Mae'r egwyddor hon yn wir am bob categori o bersonau a swyddi a gaiff eu hanghymhwyso gan Atodlen 1A i Ddeddf 2006 ac nid ystyriwn fod angen gosod anghymhwysiad ar wahân ar sail preswyllo. O'r herwydd, nid ydym o'r farn bod angen sefydlu gwiriadau cydymffurfio parhaus ar gyfer y rhai sydd eisoes yn Aelodau.

473. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai materion y bydd angen rhoi sylw iddynt os bydd y Bil yn mynd rhagddo. Yn gyntaf, fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai person sydd eisoes yn Aelod yn cael ei anghymhwyso ar unwaith oherwydd nad yw bellach ar y gofrestr, er enghraifft, pe bai'n cael ei ddileu o ganlyniad i gamgymeriad gweinyddol. Ni ellid ystyried unrhyw apêl y gallai'r Aelod ei gwneud yn erbyn ei ddileu. Ni waeth pa mor annhebygol ydyw y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol, byddai dileu person yn ddamweiniol yn arwain at ganlyniadau trychinebus ac anghyfiawn i'r unigolyn dan sylw a, phe bai'n digwydd i Aelod a etholir fel unigolyn neu Aelod a etholir ar restr plaid nad oedd yn cynnwys unrhyw ymgeiswyr cymwys neu barod eraill, gallai olygu bod gan y Senedd sedd wag na ellir ei llenwi. Er bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cytuno â ni na ddylai person gael ei anghymhwyso yn y sefyllfa hon, nid yw'n glir pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryder hwn. Nodwn yr hyn a ddywedodd y Llywydd yn ei thystiolaeth, sef bod Aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn cael cyfnod o wyth diwrnod, ar ôl iddynt gael eu hethol i'r Senedd, i wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol er mwyn osgoi cael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. Rydym yn credu y dylai Aelodau o'r Senedd hefyd gael cyfnod gras priodol i'w diogelu rhag cael eu hanghymhwyso o ganlyniad i ddileu eu henwau ar ddamwain o'r gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru.

Argymhelliad 38. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 6 o'r Bil i ddarparu cyfnod gras priodol fel y gall Aelod apelio os caiff ei enw ei ddileu o'r gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru, i'w atal rhag colli ei sedd o ganlyniad i ddileu ei enw ar ddamwain o'r gofrestr.

474. Yn ail, o ganlyniad i'r ddarpariaeth breswyllo, byddai ymgeisydd wrth gefn y gelwir arno i lenwi sedd wag sy'n codi yn ystod tymor y Senedd yn cael ei anghymhwyso ar unwaith pe bai wedi adleoli y tu allan i Gymru ers hynny (gan olygu nad yw ei enw ar y gofrestr etholiadol mewn cyfeiriad yng Nghymru mwyach). Mae'n afresymol disgwyl i ymgeisydd wrth gefn a oedd yn bodloni'r gofyniad preswyllo pan safodd yn yr etholiad, ac sydd wedi'i ethol yn gyfreithlon ar

restr plaid, breswyllo yng Nghymru drwy gydol tymor y Senedd rhag ofn y bydd sedd wag yn codi. O dan yr amgylchiadau hyn, credwn y dylid diwygio'r Bil i gynnwys cyfnod gras neu fodel o ryddhad i alluogi ymgeisydd wrth gefn i symud yn ôl i Gymru, cofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad cymwys a chymryd y sedd wag, os yw'n dymuno gwneud hynny.

Argymhelliad 39. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mecanwaith i ymgeisydd wrth gefn, a fyddai fel arall yn gymwys i gymryd sedd wag sy'n codi yn ystod tymor Senedd, gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Dylai'r mecanwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod rhesymol o amser y byddai'n ofynnol i'r darpar Aelod fodloni'r cymhwystra yn unol ag ef.

475. Yn olaf, nodwn fod y ddarpariaeth breswyllo yn darparu bwlch posibl yn y rheolau lle gallai person sy'n byw yn bennaf y tu allan i Gymru fodloni'r gofyniad preswyllo yn adran 6 o'r Bil os yw ei enw ar y gofrestr etholiadol mewn cyfeiriad yng Nghymru yn sgil y ffaith bod ganddo ail gartref. Er ein bod yn cydnabod bod swyddogion cofrestru etholiadol yn edrych ar geisiadau i gofrestru i bleidleisio o gyfeiriad eilaidd fesul achos wrth asesu ble y mae person yn preswyllo, mae'r bwlch posibl yn tanseilio nod y ddarpariaeth breswyllo o ran polisi.

Argymhelliad 40. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau na fydd person y mae ei brif breswylfa y tu allan i Gymru yn bodloni'r gofyniad preswyllo yn adran 6 o'r Bil os yw ei enw ar y gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru oherwydd bod ganddo ail gartref.

11. Mekanweithiau adolygu

Darpariaeth yn y Bil

476. Mae'r Bil yn cynnwys dwy ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd a etholir gan y Senedd yn dilyn yr etholiad yn 2026 gyflwyno cynigion cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad (a dim hwyrach na chwe mis ar ôl y cyfarfod hwnnw) i gynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgorau i ymgymryd â thasgau penodedig:

- Mae adran 7(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddiben cynnal adolygiad o'r "graddau (i) y dylai personau allu dal unrhyw swydd berthnasol ar y cyd; (ii) y dylai person allu dal swydd berthnasol dros dro tra nad yw'r person a benodir i'r swydd honno neu a etholir i'r swydd honno ar gael" a llunio adroddiad ar hynny. Mae adran 7(3) yn diffinio'r swyddi sy'n "swydd berthnasol" at ddibenion yr adolygiad. Mae adran 7(5) yn darparu, os bydd y pwyllgor yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, fod rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad yn nodi eu hymateb i'r adroddiad ac unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion.
- Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddiben cynnal adolygiad o "weithrediad ac effaith darpariaethau Deddf 2006 a gaiff eu diwygio, neu eu mewnosod yn y Ddeddf honno, gan Rannau 1 a 2" o'r Bil ac "i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru". Rhaid i'r cynnig hefyd nodi bod rhaid i'r pwyllgor gwblhau adroddiad ar ei adolygiad ddim hwyrach na deuddeg mis ar ôl yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 (ni waeth pryd y cafodd y cynnig ei gyflwyno neu ei drafod).

Mecanwaith adolygu

477. Mae trefn a strwythur tebyg i adrannau 7 a 19. Yn y ddwy adran, mae gofyniad i'r Llywydd gyflwyno cynnig o fewn cyfnod penodol o amser fod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i gyflawni gwaith penodol. Mae'r mecanwaith hwn wedi cael ei ddisgrifio fel un od⁵⁴⁶ ac fel darpariaeth eithaf anarferol a rhyfedd.⁵⁴⁷ Dywedodd yr Athro Stirbu fod y darpariaethau wedi ei synnu, gan ychwanegu ei bod yn

⁵⁴⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 259], 9 Tachwedd 2023

⁵⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 348], 26 Hydref 2023

problematig pan fo'r llywodraeth mewn grym yn ceisio gorfodi rhywbeth neu roi dyletswydd ar Senedd yn y dyfodol.⁵⁴⁸

478. Can ganolbwyntio'n benodol ar adran 7, dywedodd yr Athro McAllister a Dr Vale Gomes:

"Seeking to commit a future Senedd to an action such as this is unusual, as is placing a statutory duty on a future Llywydd. We concur with the evidence submitted by the current Llywydd questioning the appropriateness of this. We regard this requirement as overly prescriptive. It also poses risks as to the surety of progress for such a review, as well as representing an anomaly in parliamentary practice".⁵⁴⁹

479. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Llywydd hefyd fod y darpariaethau yn "anarferol". Tynnodd sylw at amryw o faterion:

- *"ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru sy'n sail i'r darpariaethau hyn;*
- *a yw'n briodol i'r Weithrediaeth gynnig gosod dyletswydd ar unrhyw ddeiliad swydd yn y Senedd yn y dyfodol mewn perthynas â sefydlu pwyllgorau'r Senedd, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud ag ystyried materion polisi neu waith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru;*
- *effaith y posibilrwydd o sefydlu dau o bwyllgorau'r Senedd ar swyddogaeth y Pwyllgor Busnes o ran penderfynu ar strwythur ac amserlenni pwyllgorau'r Seithfed Senedd a sut, pe bai'n cael ei gytuno, y byddai'n effeithio ar y nod o gynyddu capasiti pwyllgorau'r Seithfed Senedd o ran craffu;*
- *natur ragnodol y ddarpariaeth mewn perthynas â'i dasg, amseriad yr adolygiad arfaethedig o dan adran 19, a'r amserlen ar gyfer ei chwblhau".⁵⁵⁰*

⁵⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 355], 26 Hydref 2023

⁵⁴⁹ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig)

⁵⁵⁰ SCME(P)2 Y Llywydd

480. Rhybuddiodd y Panel Arbenigol y dylai'r Senedd "ffrwyno'i hun yn y ffordd y mae'n gwneud defnydd o unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad [...] i sicrhau bod y manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf".⁵⁵¹ Nododd y byddai nifer a maint y pwyllgorau yn ddau o'r ffactorau a ddylai gael eu hystyried yn benodol.

481. Nododd y Llywydd, er mai prif nod diwygio'r Senedd oedd cynyddu'r capasiti o ran gwaith craffu, y byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywydd yn y dyfodol gynnig sefydlu dau bwyllgor penodol at ddibenion diffiniedig yn ystod chwe mis cyntaf y Seithfed Senedd. Eglurodd y gall unrhyw Senedd sefydlu unrhyw bwyllgor fel y mae'n ei ddymuno, heb fod angen deddfwriaeth. Dywedodd y dylai fod gan y Seithfed Senedd hyblygrwydd i benderfynu a oedd yn dymuno sefydlu pwyllgorau i gyflawni'r gwaith a gynigir yn adrannau 7 a 19 (ac os felly, pryd). Ychwanegodd y byddai'n bryderus am unrhyw ofyniad a oedd yn gorfodi'r Senedd i sefydlu'r naill bwyllgor neu'r llall.⁵⁵²

Adran 7 Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd

482. Amlinellodd yr Athro Stirbu ganfyddiadau'r gwaith a wnaed ganddi ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn 2017 y gallai'r opsiwn o rannu swyddi olygu bod pobl yn fwy tebygol o sefyll i gael eu hethol, yn enwedig menywod, pobl ag anableddau, pobl â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill, a phobl sydd am gynnal eu gyrfaoedd proffesiynol presennol.⁵⁵³ Yn yr un modd, canfu gwaith a wnaed gan ERS Cymru y gallai rhannu swyddi leihau'r rhwystrau rhag ymgeisio.⁵⁵⁴ Dywedodd Undeb PCS fod rhannu swyddi yn fater allweddol o ran cydraddoldeb, yn enwedig yng nghyd-destun cyflenwi'r rôl tra bo Aelod yn cymryd absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant a rennir, neu fel addasiad rhesymol i bobl ag anableddau.⁵⁵⁵ Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg y gallai mwy o hyblygrwydd ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymgeisio mewn etholiadau, gan fod y cyfrifiad yn dangos mai'r grwpiau oedran oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg oedd y mwyaf tebygol hefyd o fod yn magu teuluoedd ac yn datblygu eu gyrfaoedd.⁵⁵⁶ Roedd yr Athro McAllister a Dr Vale Gomes yn dadlau y gallai

⁵⁵¹ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Cymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, argymhellid 3

⁵⁵² Cofnod y Trafodion [paragraffau 203-204, 212 a 214], 26 Hydref 2023

⁵⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 366-367], 26 Hydref 2023

⁵⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 258], 9 Tachwedd 2023

⁵⁵⁵ SCME(P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig)

⁵⁵⁶ SCME(P)6 Comisiynydd y Gymraeg

hefyd fod yn opsiwn deniadol i bobl sy'n gweithio yn y sector preifat neu ym myd busnes.⁵⁵⁷

483. Gwnaeth y Pwyllgor Diben Arbennig ddau argymhelliad ynglŷn â rhannu swyddi:

“Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r ddau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis Cadeirydd Pwyllgor).⁵⁵⁸

484. Dywedodd y Llywydd wrthym, yn unol ag argymhelliad 14, y byddai'r Pwyllgor Busnes yn dechrau gweithio “yn gynnar yn 2024” i ystyried a ddylid gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i hwyluso rhannu swyddi ar gyfer rhai rolau anstatudol fel cadeiryddion pwyllgorau.⁵⁵⁹

485. O ran galluogi etholiad ar sail rhannu swydd (argymhelliad 13), nodir yn y Memorandwm fod sawl sefydliad ac adroddiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi cynnig bod rhannu swyddi “yn fesur ymarferol a allai helpu i wneud yr amodau'n fwy gwastad o ran mynediad at swydd etholedig”, yn enwedig i grwpiau sy'n cynnwys menywod, pobl hŷn, pobl anabl a gofalwyr.⁵⁶⁰ Fodd bynnag, yn hytrach na chyflwyno trefniadau rhannu swyddi, mae adran 7 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Seithfed Senedd gyflwyno cynnig bod pwyllgor yn cael ei sefydlu i gynnal adolygiad, a llunio adroddiad arno, sy'n ystyried y graddau:

- Y dylai personau allu dal unrhyw swydd berthnasol ar y cyd (Aelod o'r Senedd, Llywydd, Dirprwy Lywydd, Comisiynydd y Senedd, Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru, un o Ddirprwy Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol).
- Y dylai person allu dal un o'r swyddi hyn dros dro tra nad yw'r person a benodir i'r swydd honno neu a etholir i'r swydd honno ar gael. Mae'r

⁵⁵⁷ Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr. Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023 (Saesneg yn unig)

⁵⁵⁸ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*, Mai 2022, argymhellion 13 a 14

⁵⁵⁹ SCME(P)2 Y Llywydd

⁵⁶⁰ Llywodraeth Cymru, *Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Medi 2023, paragraff 202

Memorandwm yn trafod yr enghraifft o “AS locwm’ yn gweithredu yn lle AS nad yw’n gallu gweithredu am gyfnod estynedig o amser (e.e. oherwydd absenoldeb rhiant) neu AS yn dal rôl weithredol neu rôl yn y Senedd dros dro os nad yw’r person a benodir yn gallu gweithredu am gyfnod estynedig.”⁵⁶¹

486. Roedd llawer o’r cyfranwyr yn siomedig â’r ddarpariaeth hon.⁵⁶² Roedd Jess Blair yn deall bod angen rhagor o waith datblygu polisi, ond roedd yn poeni mai effaith adran 7 i bob pwrpas yw oedi’r gwaith am gyfnod amhenodol.⁵⁶³ Awgrymodd, os mai pwyllgor oedd y mecanwaith priodol, y dylai’r pwyllgor hwnnw gael ei sefydlu yn y Chweched Senedd:

*“[...] we don’t know the make-up of a future Senedd. There’s no guarantee this would actually be passed as a motion in a future Senedd. If we want work on job-sharing to happen, it should happen in this Senedd, where there is the interest and the support”.*⁵⁶⁴

487. Roedd yr Athro McAllister a Dr Vale Gomes hefyd yn poeni am hyn, gan nodi fel a ganlyn:

*“[...] job share for elected politicians has been on the political radar in Wales for quite some time. Postponing any serious further investigation until after elections to a reformed and enlarged Senedd seems to us anomalous”.*⁵⁶⁵

488. Nododd Undeb PCS nad yw adran 7, yn wahanol i adran 19, yn cynnwys unrhyw amserlen ar gyfer pryd y byddai’n ofynnol i unrhyw bwyllgor a sefydlir gyflwyno adroddiad. Awgrymodd y dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2027 am y rheswm a ganlyn:

“This would strike a balance between a comprehensive study of the options and ensuring that any resultant legislation or other rules

⁵⁶¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 203

⁵⁶² Er enghraifft, SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig); SCME(P)10 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (Saesneg yn unig); SCME (P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig); SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

⁵⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 258], 9 Tachwedd 2023

⁵⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 263], 9 Tachwedd 2023

⁵⁶⁵ [Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig)

*changes have the time to be drafted and implemented in time for candidates in the following election to consider a job-share as a viable option”.*⁵⁶⁶

489. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn canolbwyntio'n llwyr ar rannu swyddi posibl yn y Senedd a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn mynd gam ymhellach, drwy nodi:

*“Fel rhan o'i waith, mae'n bosibl y gallai'r Pwyllgor (pe câi ei sefydlu) ystyried hefyd y trefniadau rhannu swyddi y darperir ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Leol 2021, a'r defnydd o rannu swyddi mewn llywodraeth leol yng Nghymru”.*⁵⁶⁷

490. Eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai'r rheswm dros ddefnyddio'r dull a welir yn y Bil oedd nad oedd digon o amser wedi bod i drafod yn fanwl yr ystod o faterion cyfansoddiadol ac ymarferol cymhleth.⁵⁶⁸ Fodd bynnag, dywedodd fod adran 7 yn ei farn ef yn rhoi effaith i argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig ar y sail a ganlyn:

*“[...] what it does is ensure that the desire for this to be considered is actually going to happen. Now, you could say that the Senedd, of course, has the ability to consider all of these things without it being in the legislation. What I think the legislation does is make sure that it actually will happen—so, within six months”.*⁵⁶⁹

491. Aeth ymlaen i ddweud:

“It is an incredibly complex area, because job sharing means different things to different people at different levels and so on. So, firstly, the analysis of what it means is extremely complex. It really does need to be [thought] out. It also has not just the practical aspects to it, it has the constitutional aspects to it in a system where you are electing representatives and at what level. So, for example, there are things that could happen—committees themselves could, actually,

⁵⁶⁶ SCME(P)13 Undeb PCS (Saesneg yn unig)

⁵⁶⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, paragraff 205

⁵⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 107 a 112], 5 Hydref 2023

⁵⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 5 Hydref 2023

potentially, decide, the Senedd itself could decide, for example, job sharing in terms of Chairs of committees and things like that.

Where it gets far more complicated, I think, is when you start saying, 'Job sharing in terms of elected representatives.' How would that actually work? How would it work within a proportional system? Who has the major responsibility? What happens if there are conflicts? There are so many criteria, and at what level? There are very specific statutory functions, for example First Minister, Counsel General—are those things that should be considered for job sharing and so on? So, I actually think that the consideration of that is something that is appropriately included within the legislation as something that will be discussed by the next Senedd. So, the next Senedd will definitely have a motion tabled to consider the issue of job sharing, but I think it's something that is of such complexity in practical and constitutional matters that it really requires a lot more thought".⁵⁷⁰

492. Ychwanegodd, pe bai'r Senedd am sefydlu pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd i gyflawni rhywfaint o'r gwaith hwn, mai mater i'r Senedd yn hytrach na Llywodraeth Cymru oedd hynny.⁵⁷¹

493. Tynnodd rhai cyfranwyr, gan gynnwys yr Athro McAllister a Dr Vale Gomes,⁵⁷² sylw at faterion y byddai angen eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o rannu swyddi. Nododd yr Athro Clark y byddai system y rhestr gaeedig yn golygu na allai pleidleiswyr arfer dewisiadau penodol ynghylch unrhyw bartneriaid rhannu swyddi ar restrau'r pleidiau.⁵⁷³ Ar drywydd tebyg, eglurodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod ei siom na fyddai gwaith pellach ar rannu swyddi yn digwydd tan y Seithfed Senedd yn deillio'n rhannol o'r ffaith ei fod yn atal:

"[...] the exploration of job-sharing to integrate with and inform scrutiny of other aspects of Senedd reform legislation, including Senedd expansion, the voting system and gender quotas".⁵⁷⁴

⁵⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 269-270], 13 Rhagfyr 2023

⁵⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 275], 13 Rhagfyr 2023

⁵⁷² [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig)

⁵⁷³ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

⁵⁷⁴ SCME(P)10 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (Saesneg yn unig)

494. Rhybuddiodd yr Athro Clark hefyd y gallai cyflwyno trefniadau rhannu swyddi fod yn ddadleuol pe bai unrhyw Aelodau sy'n rhannu swyddi hefyd yn cyflawni swyddi eraill y tu allan i'r Senedd.⁵⁷⁵ Nododd y Comisiwn Etholiadol y byddai angen newidiadau technegol a deddfwriaethol ar gyfer papurau enwebu a phapurau pleidleisio, ac y byddai angen i ddarpariaeth fod ar waith pe bai un partner rhannu swydd yn rhoi'r gorau iddi, yn cael ei anghymhwysu neu'n newid plaid.⁵⁷⁶

495. Pan ofynnwyd a fyddai'n ddichonadwy i unrhyw argymhellion a wneir gan bwyllgor o dan adran 7 gael eu gweithredu yn barod at etholiad 2030, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Well, it is feasible. It's up to the Senedd how quickly it completes that work and develops a policy that can be converted into legislation".⁵⁷⁷

Adran 19 Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026

Cyfrifoldeb am adolygu

496. Nid y Bil yw'r unig enghraifft o ddeddfwriaeth diwygio etholiadol sy'n cynnwys darpariaeth adolygu statudol. Fodd bynnag, mae'r mecanwaith penodol yn anarferol. Mae'r enghreifftiau eraill o ddarpariaethau adolygu statudol mewn cyfraith etholiadol yn cynnwys:

- Mae adran 38 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad o fewn cyfnod penodedig ar y darpariaethau yn y Ddeddf honno sy'n ymwneud ag estyn yr hawl i bleidleisio a newidiadau o ran anghymhwysu Aelodau.
- Mae adran 62 o Ddeddf Etholiadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol Iunio, cyhoeddi a gosod adroddiad ar weithrediad y Ddeddf honno o fewn cyfnod penodedig.
- Mae adran 6ZA o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol adolygu nifer o faterion sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yng Nghymru, ac i gyhoeddi a chyflwyno adroddiadau ar y materion hynny o bryd i'w

⁵⁷⁵ SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

⁵⁷⁶ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁵⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 5 Hydref 2023

gilydd i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ofyn i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater neu faterion y gwneir, neu y gellid gwneud, darpariaeth ar eu cyfer mewn Deddf gan Senedd Cymru.

497. Pan ofynnwyd iddo am adran 19, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“Er mai Bil Llywodraeth Cymru yw hwn, ei bwrpas craidd yw rhoi effaith ddeddfwriaethol i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, y cymeradwywyd ei argymhellion gan y Senedd.

Felly, er bod gosod dyletswydd adrodd ar Weinidogion Cymru wedi cael ei ystyried, penderfynodd y llywodraeth ei bod yn fwy priodol i'r Senedd ymgymryd ag unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf”.⁵⁷⁸

498. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd y Llywydd sylw at “natur ragnodol y ddarpariaeth mewn perthynas â'i dasg [y pwyllgor o dan adran 19], amseriad yr adolygiad arfaethedig o dan adran 19, a'r amserlen ar gyfer ei chwblhau”.⁵⁷⁹ Wrth roi dystiolaeth lafar, dywedodd mai'r amserlenni oedd ei phrif bryder. Eglurodd pe bai'n cymryd hyd at chwe mis i sefydlu'r pwyllgor (gan gynnwys cytuno ar y trefniadau cadeirio ac aelodaeth), yna efallai mai dim ond chwe mis y byddai ganddo i gwblhau ei waith a'i adroddiad. Ychwanegodd:

“I'm not sure why that is in the legislation in that way”.⁵⁸⁰

499. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym mai'r rheswm oedd:

“I want to make sure that those things happen and they happen very early on”.⁵⁸¹

500. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol, yng nghyd-destun tymhorau pedair blynedd, fod rhaid cynnal yr adolygiad yn gynnar er mwyn gwneud unrhyw newidiadau erbyn 2030. Ychwanegodd mai mater i unrhyw bwyllgor oedd sut y byddai'n cyflawni ei waith yn unol â'r terfynau amser a oedd ar gael. Awgrymodd y gallai barhau â'i waith y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis y mae'n ofynnol iddo gyflwyno

⁵⁷⁸ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁵⁷⁹ SCME(P)2 Y Llywydd

⁵⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 227-228 a 230], 26 Hydref 2023

⁵⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 251], 13 Rhagfyr 2023

adroddiad o'i fewn⁵⁸² (er nad yw adran 19 yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i hyn gael ei gynnwys yn y cynnig y mae'n ofynnol i'r Llywydd ei gyflwyno).

501. Cydnabu Anna Hind fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig nodi bod rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad o fewn 12 mis, ond dywedodd y caiff yr Aelodau ddiwygio'r cynnig a bod cyfle i'w newid felly.⁵⁸³

502. Yn gyffredinol, roedd y cyfranwyr a soniodd am y mater hwn yn meddwl ei bod yn briodol i gorff ar wahân i Lywodraeth Cymru gynnal yr adolygiad. Dywedodd Dr Larner y gallai corff annibynnol, neu un o bwyllgorau'r Senedd, gynnal yr adolygiad.⁵⁸⁴ Pwysleisiodd Jess Blair fod rhaid ymgysylltu â phleidleiswyr fel rhan o unrhyw adolygiad.⁵⁸⁵ Roedd yr Athro Stirbu yn cytuno, gan ddweud ei bod yn hollbwysig cynnwys y cyhoedd.⁵⁸⁶ Nododd fod gan bwyllgorau'r Senedd hanes cadarnhaol o ymgysylltu â'r cyhoedd ac o ddysgu am brofiadau pobl, ond awgrymodd y dylid ystyried sut i ymgorffori mentrau democratiaeth cyfranogol ac ymgynghorol.⁵⁸⁷

503. Ni fynegodd y Llywydd farn ar bwy ddylai gynnal unrhyw adolygiad, er iddi nodi bod darnau eraill o ddeddfwriaeth etholiadol fel arfer yn rhoi'r ddyletswydd ar y weithrediaeth yn hytrach na'r ddeddfwrfa.⁵⁸⁸ Ychwanegodd, pe bai'n ofynnol i un o bwyllgorau'r Senedd wneud y gwaith, y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn barod o hyd i roi tystiolaeth a dadansoddiad o ran gweithrediad y Ddeddf ac i ba raddau yr oedd elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru. Dywedodd y gallai unrhyw bwyllgor hefyd ystyried comisiynu gwaith ymchwil annibynnol i lywio ei waith, ond rhybuddiodd:

"We know that all of that analysis on election results, for example, usually takes a good six months for a university to turn out after an election, so I am concerned about the timetabling in this Bill".⁵⁸⁹

504. Tynnodd Colin Everett sylw at y gwerthusiadau ymarferol a gweinyddol a gynhaliwyd gan weinyddwyr etholiadol, a rôl statudol y Comisiwn Etholiadol wrth werthuso ac adrodd ar y modd y cynhelir etholiadau'r Senedd. Dywedodd:

⁵⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 251], 13 Rhagfyr 2023

⁵⁸³ Cofnod y Trafodion [paragraff 257], 13 Rhagfyr 2023

⁵⁸⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 9 Tachwedd 2023

⁵⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 246-252], 9 Tachwedd 2023

⁵⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 353], 26 Hydref 2023

⁵⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 356], 26 Hydref 2023

⁵⁸⁸ SCME(P)2 Y Llywydd

⁵⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 308], 26 Hydref 2023

“So, there are all sorts of ways of going about reviewing elections. And it'd be interesting to see how the Senedd might propose pulling all that together. Because we wouldn't want an Electoral Commission review over here, and a Senedd review over there. But, clearly, I think, for 2026, quite a lot of surveying of voter experience, understanding of the lists and the new system, will be as important as how well we've done in pulling it off with yourselves as parties”.⁵⁹⁰

505. Yn yr un modd, tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at ei ddyletswydd statudol i adrodd ar weinyddiaeth etholiadau'r Senedd, a chadarnhaodd y byddai'n cyhoeddi “adroddiad ar ôl yr etholiad” yn 2026. Dywedodd:

“Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth a dadansoddiad o brofiadau pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol yn yr etholiad. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon, yn ogystal ag unrhyw fewnwelediadau eraill sydd gennym ar weithredu diwygio'r Senedd, i gefnogi'r gwaith a fydd yn cael ei wneud o dan y darpariaethau hyn”.⁵⁹¹

506. Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Rhydian Thomas y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn ystyried ceisiadau gan y Senedd am yr hyn yr hoffai weld yn cael ei gynnwys yn adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiad 2026, neu'n cael ei gyhoeddi fel atodiad iddo.⁵⁹² Cadarnhaodd y Fonesig Elan Closs Stephens hyn, gan ychwanegu y byddai'n dderbyniol gofyn i'r Comisiwn Etholiadol wneud mwy o waith o'r fath, heb fod hynny o reidrwydd wedi'i gynnwys yn y Bil.⁵⁹³

Cwmpas adolygiadau

507. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol nodi dau fater y dylid cynnal adolygiad ohonynt yn y cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor:

- Gweithrediad ac effaith darpariaethau Deddf 2006 a gaiff eu diwygio, neu eu mewnosod yn y Ddeddf honno, gan Rannau 1 a 2 o'r Bil hwn, h.y. y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Senedd a'i Haelodau, nifer Gweinidogion Cymru, a'r system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.

⁵⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 15 Tachwedd 2023

⁵⁹¹ SCME(P)9 Y Comisiwn Etholiadol

⁵⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 120], 22 Tachwedd 2023

⁵⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 22 Tachwedd 2023

- I ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.

508. Roedd consensws ymhlith y cyfranwyr fod yr elfen gyntaf (gweithrediad Rhannau 1 a 2) i'w chroesawu. Fodd bynnag, clywsom safbwyntiau cymysg ynghylch yr ail ran (i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru).

509. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ei fod am weld trafodaeth barhaus am iechyd democratiaeth, gan gynnwys materion fel y niferoedd sy'n pleidleisio mewn etholiadau, datblygu polisi, a chyfranogiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd.⁵⁹⁴ Ategir hyn yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil a gynhwysir yn y Memorandwm, sy'n nodi:

“41. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r Pwyllgor gynnwys, yn ei adroddiad, asesiad o unrhyw faterion eraill Diwygio'r Senedd y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol, megis:

(i). Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o etholiadau a llywodraeth ddatganoledig Cymru;

(ii). Asesiad o'r lefelau pleidleisio ac archwiliad o gynigion ar sut y gellir eu cynyddu;

(iii). Cymorth ar gyfer aelodau a phleidiau i ymgymryd â'u rolau yn y Senedd;

(iv). Y seilwaith sydd ar waith i gefnogi democratiaeth gref yng Nghymru.”⁵⁹⁵

510. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai rhestr enghreifftiol yn unig oedd hon, ac na fwriadwyd iddi rwyngu'r pwyllgor mewn unrhyw ffordd i ystyried y materion penodol hynny.⁵⁹⁶

511. Roedd ERS Cymru yn croesawu darpariaeth ynghylch cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru a'r materion a restrir yn y Nodiadau Esboniadol. Awgrymodd y dylai cwmpas unrhyw

⁵⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 5 Hydref 2023

⁵⁹⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), Medi 2023, Nodiadau Esboniadol, paragraff 41

⁵⁹⁶ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

adolygiad fod mor eang â phosibl.⁵⁹⁷ Cynigiodd Jess Blair y dylid ystyried yn benodol sut y gellir mesur iechyd democratiaeth, gan gynnwys pa ddata sydd ar gael o ran y niferoedd sy'n pleidleisio ar sail gwahanol grwpiau demograffig.⁵⁹⁸

512. Er bod croeso i'r term "democratiaeth iach", roedd rhai, gan gynnwys yr Athro McAllister, yn rhybuddio nad oedd y term yn ddigon clir:

"[...] is that about turnout, or is it about citizens' understanding and the intelligibility of the system and maybe different demographics and how that's played out?".⁵⁹⁹

513. Roedd cyfranwyr eraill yn llai sicr ynghylch rhinweddau'r ddarpariaeth. Dywedodd yr Athro Clark ei fod yn croesawu'r egwyddor o gynnal adolygiad neu archwiliad ehangach o ddemocratiaeth, ond bod perygl y byddai cynnwys term y gellid ei ddehongli mor eang yn dargyfeirio'r gwaith ôl-ddeddfwriaethol i ffwrdd o weithrediad y Ddeddf. Galwodd am ddiwygio'r Bil i ddileu adran 19(2)(a)(ii) er mwyn atal unrhyw adolygiad rhag cael ei ddargyfeirio at faterion nad ydynt yn berthnasol i weithrediad y Bil.⁶⁰⁰

514. Dywedodd yr Athro McAllister fod rhaid i unrhyw waith ehangach ar iechyd democratiaeth edrych y tu hwnt i etholiadau'r Senedd, ac yn lle hynny ystyried democratiaeth fewnol Cymru yn gyffredinol, gan gynnwys llywodraeth leol.⁶⁰¹ Roedd yr Athro Stirbu yn cytuno, gan ddweud:

"[...] I would like to see is a more kind of wholesome review around a healthy democracy in Wales. [...] We have a very complex situation here, where you have three different electoral systems and three different types of political representation in Wales. Just focusing on reviewing how these arrangements work at the level of the Senedd elections, I don't think that it will take us too far along the aim of having a healthy democracy in Wales as a whole".⁶⁰²

⁵⁹⁷ SCME(P)5 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

⁵⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 9 Tachwedd 2023

⁵⁹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 26 Hydref 2023

⁶⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 117 a 121], 9 Tachwedd 2023, SCME(P)4 Alistair Clark (Saesneg yn unig)

⁶⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 26 Hydref 2023

⁶⁰² Cofnod y Trafodion [paragraffau 349-350], 26 Hydref 2023

Ein barn ni

515. Mae'r darpariaethau ar gyfer cynnal adolygiad yn adrannau 7 a 19 yn wahanol o ran eu diben, ond yn gyffredinol debyg o ran eu cynllun. Mae adran 7 yn cynnig bod un o bwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth, yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Mae adran 19 yn cynnig bod un o bwyllgorau'r Senedd yn cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r Ddeddf ac yn archwilio iechyd democratiaeth yng Nghymru, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

516. Nodwn ein barn ni ar y ddwy ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, ni waeth a gaiff y Bil ei basio ai peidio gyda'r darpariaethau hyn fel y'u drafftwyd, nodwn nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol neu weithdrefnol a fyddai'n atal:

- Y Chweched Senedd rhag sefydlu pwyllgor neu ofyn i bwyllgor presennol gyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn adran 7 (rhannu swyddi) neu adran 19(2)(a)(ii) (adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru) cyn etholiad 2026 (nac unrhyw Senedd ddilynol rhag gwneud hyn yn ddiweddarach).
- Y Seithfed Senedd (nac unrhyw Senedd ddilynol) rhag sefydlu pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf (neu unrhyw Ddeddf arall), neu ofyn i bwyllgor perthnasol wneud hynny.
- Unrhyw un o bwyllgorau'r Senedd y byddai'r materion hyn yn berthnasol i'w gylch gwaith rhag mynd ati'n rhagweithiol i gynnal gwaith o'r fath ar ba bynnag adeg ac ar ba bynnag ffurf y mae'n dymuno.
- Llywodraeth Cymru rhag ymgymryd â gwaith datblygu polisi neu adolygiadau.

517. Rydym yn cytuno â barn y Llywydd:

"[...] as a point of principle I think it's important that we allow the next Senedd and then, ultimately, any committee that's formed to decide on how it wants to do its work. I find binding the hands of a committee in a future Senedd to be not an issue that I would consider that a piece of legislation should involve itself in".⁶⁰³

518. Nodwn y dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'i swyddogion nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhwymo Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag,

⁶⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 232], 26 Hydref 2023

byddai natur ragnodol y darpariaethau, pe baent yn cael eu pasio, yn gorfodi'r Seithfed Senedd i gyflawni ewyllys y Senedd hon o ran natur y gwaith a gynigir ac, yn adran 19, yr amserlenni ar gyfer ei gyflawni. Am y rheswm hwn, rydym o'r farn bod adrannau 7 a 19 yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol, ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol. Byddem yn ffafrio dileu'r ddwy ddarpariaeth o'r Bil. Fel y nodir isod, nid yw hyn yn golygu nad ydym am weld rhagor o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â rhannu swyddi, nac adolygiad ôl-ddeddfwriaethol cadarn o'r Ddeddf nac ystyriaeth o iechyd democratiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch y mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r dibenion hyn.

Argymhelliad 41. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adrannau 7 (adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd) a 19 (adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026) o'r Bil ar y sail bod y darpariaethau yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol.

519. Nid ydym yn gweld pam y dylid gohirio gwaith pellach ar rannu swyddi tan ar ôl 2026, hyd yn oed os nad yw'n bosibl rhoi unrhyw argymhellion ar waith yn ddeddfwriaethol cyn etholiad 2026. Felly, rydym yn ategu argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig "y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd".⁶⁰⁴

520. Nodwn yn benodol fod y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell rhoi ystyriaeth bellach i rannu swyddi ar sail drawsbleidiol. Mae adran 7 o'r Bil yn ceisio rhoi effaith i ddehongliad yr Aelod sy'n gyfrifol, sef y dylai un o bwyllgorau'r Senedd wneud y gwaith hwn. Er y caiff pwyllgorau'r Senedd ddewis ymgymryd â gwaith i ddatblygu polisiau a deddfwriaeth, mae'n anarferol i hynny fod ar gais Llywodraeth Cymru neu iddo fod yn ofynnol gan ddeddfwriaeth. Mae'n fwy arferol i bolisiau a deddfwriaeth gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithio gyda phartneriaid eraill pan fo hynny'n briodol, er enghraifft drwy'r Cytundeb Cydweithio, neu drwy gyd-gynhyrchu neu ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nid ydym wedi ein darbwylo bod dehongliad yr Aelod sy'n gyfrifol o argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig o reidrwydd yn drech na'r egwyddor mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu ei pholisiau a'i deddfwriaeth ei hun, na'r egwyddor mai'r Senedd ei hun a ddylai bennu ei strwythurau ei hun a sut i ddefnyddio Aelodau'r meinciau cefn wrth gyflawni ei swyddogaethau o ddwyn Llywodraeth Cymru i

⁶⁰⁴ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhelliad 13

gyfrif, craffu ar ei pholisïau, ei deddfwriaeth, ei gwariant a'i threthiant, a chynrychioli pobl Cymru. Fodd bynnag, y tro hwn, rydym yn cydnabod y gallai un o bwyllgorau'r Senedd fod mewn lle da i wneud y gwaith hwn.

Argymhelliad 42. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried naill ai cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd i archwilio i ba raddau y dylai personau allu dal y swyddi a restrir yn adran 7(3) o'r Bil ar y cyd, gan gynnwys i ba raddau y dylai person allu dal swydd o'r fath dros dro tra nad yw'r person a etholir neu a benodir i'r swydd honno ar gael, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gwaith perthnasol ymgymryd â gwaith o'r fath. Os bydd un o bwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith o'r fath, dylai'r Pwyllgor Busnes drefnu amser yn y Cyfarfod Llawn er mwyn i'r Senedd drafod y canlyniadau.

521. O ran adran 19, rydym yn cefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai deddfwriaeth fod yn ddarostyngedig i waith adolygu a gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol i sicrhau ei bod yn gweithredu yn ôl y bwriad. Rydym yn cydnabod barn cyfranwyr fod rhaid i waith o'r fath gynnwys y cyhoedd ac na ddylid ei adael yn llwyr i'r llywodraeth. Nodwn farn yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'n fwy priodol i un o bwyllgorau'r Senedd gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf o dan adran 19. Serch hynny, nid yw wedi rhoi unrhyw resymau cymhellol dros hyn, nac wedi egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi dilyn yr enghreifftiau yn neddfwriaeth etholiadol flaenorol Cymru a'r DU o roi dyletswydd adolygu statudol ar y weithrediaeth. Ni fyddai dull o'r fath yn atal un o bwyllgorau'r Senedd rhag ymgymryd â gwaith i graffu ar adolygiad gan Lywodraeth Cymru, ei drafod ac adeiladu arno, gan fanteisio ar gyngor annibynnol, arbenigedd ac ymgysylltu â dinasyddion. Ni fyddai ond yn sicrhau bod cwmpas ac amseriad unrhyw waith o'r fath yn ôl disgrisiwn y Senedd a'i phwyllgorau, yn hytrach na deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Byddai hefyd yn cyd-fynd â'r hyblygrwydd presennol sydd gan bwyllgorau'r Senedd, ac y maent yn ei ddefnyddio, i gynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar unrhyw Ddeddf (neu ddarpariaethau penodol mewn unrhyw Ddeddf) a basiwyd gan y Senedd pan fo'n briodol ac yn amserol gwneud hynny yn eu barn hwy.

Argymhelliad 43. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad ar weithrediad Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio'r penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Seneddau'r dyfodol a'u pwyllgorau o ran p'un a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol, ac os felly, pryd a sut.

522. Nodwn hefyd fod yr enghreifftiau o ddyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a

Deddf Etholiadau 2022 yn darparu y caiff y darpariaethau fod mewn grym am gyfnod llawer hirach cyn bod rhaid cynnal adolygiad. Rydym yn rhannu pryderon y Llywydd am yr amserlen dynn ar gyfer cynnal adolygiad o dan adran 19. Byddai'n ofynnol i bwyllgor a sefydlir i adolygu gweithrediad y Ddeddf o dan adran 19(2)(a)(i) gyflwyno adroddiad o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Seithfed Senedd. Fel y dywedodd y Llywydd wrthym, gall gymryd hyd at chwe mis ar ôl etholiad i academyddion a'r Comisiwn Etholiadol gynnal gwaith ymchwil a dadansoddi annibynnol. Rydym yn pryderu hefyd y byddai'r amserlenni yn cyfyngu i ba raddau y gallai unrhyw adolygiad gynnwys y cyhoedd mewn modd arwyddocaol, er enghraifft drwy ddulliau ymgynghorol a chyfranogol.

523. Nid yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn cynnig dim hyblygrwydd i'r Llywydd o ran y cynnig y mae'n rhaid iddo ei gyflwyno, a dim hyblygrwydd i unrhyw bwyllgor a sefydlir o ran yr hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud nac erbyn pryd. Dywedodd swyddogion yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod ffurf y cynnig sydd i'w gyflwyno gan y Llywydd yn y Seithfed Senedd wedi'i rhagnodi mewn deddfwriaeth, ond y gallai unrhyw Aelod arall gynnig gwelliannau i'r cynnig i addasu materion fel cwmpas y gwaith neu'r amserlenni adrodd. Mae hynny'n gywir o ran gweithdrefn, ond nid yw'n golygu o reidrwydd ei fod yn ddull priodol o sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei gynnal yn effeithiol. Er enghraifft, pe bai'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd yn dod i'r casgliad y byddai'n well ganddynt newid yr amserlenni neu'r cwmpas, yr unig ffordd o gyflawni hynny fyddai bod Aelod arall yn cyflwyno gwelliannau i gynnig y Llywydd. Fel y nodir uchod, rydym yn ffafrio'n gryf ddileu adrannau 7 a 19 o'r Bil. Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 41, dylid o leiaf ddiwygio'r adrannau hynny er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, er enghraifft drwy ddileu adran 19(2)(b) lle rhoddir terfyn amser penodol ar gyfer cwblhau'r gwaith, neu o leiaf ei diwygio i ddarparu y caiff y cynnig bennu'r amserlenni y mae'n rhaid i'r pwyllgor arfaethedig gyflwyno adroddiad yn unol â hwy. Mae ein Hargymhelliad 44 a'n Hargymhelliad 45 yn cynnig dwy ffordd arall o gyflawni hyn; o'r ddau, byddem yn ffafrio Argymhelliad 44.

Argymhelliad 44. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor a sefydlir i gynnal adolygiad o faterion sy'n ymwneud ag adolygu'r Ddeddf ac i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2026).

Argymhelliad 45. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41 nac Argymhelliad 44, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 19(2)(b) i ddileu'r gofyniad presennol bod rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd bennu bod gwaith y pwyllgor i'w gwblhau o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2026 a rhoi yn ei le ddarpariaeth y caiff y cynnig gynnwys terfyn amser arfaethedig erbyn pryd y mae rhaid cwblhau adroddiad y pwyllgor.

524. O ran y gofyniad yn adran 19(2)(a)(ii) ynghylch cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru, clywsom dystiolaeth gymysg. Er bod rhai wedi croesawu'r ddarpariaeth ac wedi galw am i adolygiad o'r fath fod mor eang â phosibl, mae eraill wedi awgrymu bod y term yn amwys, y gallai'r adolygiad fethu â chymryd democratiaeth ehangach yng Nghymru i ystyriaeth os yw'n canolbwyntio ar y Senedd yn unig, a/neu y gallai gwaith eang o'r fath ddargyfeirio'r ffocws i ffwrdd o gynnal adolygiad effeithiol o weithrediad y Ddeddf. Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o archwilio iechyd democratiaeth yng Nghymru, mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn rhannu'r amheuan a fynegwyd gan gyfranwyr ynghylch ai dyma'r mecanwaith priodol ar gyfer gwaith o'r fath. Gallai ei gynnwys ochr yn ochr ag adolygiad o weithrediad y Ddeddf olygu ei fod yn methu â chymryd ehangder democratiaeth a strwythurau democrataidd Cymru i ystyriaeth. Gallai ei wneud yn ddarostyngedig i'r amserlenni a bennir yn adran 19(2)(b) gyfyngu ar ei gwmpas a'r dulliau ar gyfer ei gynnal. Fel y nodir uchod, rydym yn ffafrio dileu adran 19 yn llwyr o'r Bil. Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41, mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylid, o leiaf, ddileu adran 19(2)(a)(ii). Os bydd adran 19 yn parhau yn y Bil, yna mae Llyr Gruffydd AS yn fodlon y dylai adran 19(2)(a)(ii) hefyd barhau yn y Bil.

Argymhelliad 46. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, os nad yw'n derbyn ein Hargymhelliad 41, gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(a)(ii) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru).

525. Nodwn fod adran 7(5) yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymateb i adroddiad a gyflwynir gan bwyllgor o dan adran 7, a'r argymhellion a wneir ganddo. Wrth gwrs, y drefn arferol ar gyfer adroddiadau a gyflwynir gan bwyllgorau'r Senedd yw i Weinidogion Cymru osod ymatebion o'r fath gerbron y Senedd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gosod gofyniad deddfwriaethol ar eu hollynwyr i ymateb i adroddiad gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig o dan adran 7(1), nid yw'n glir i ni pam na fyddent o'r

farn ei bod yr un mor angenrheidiol cynnwys darpariaeth gyfatebol mewn perthynas ag adroddiad gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig o dan adran 19(1). Fel y nodir uchod, rydym yn ffafrio dileu adran 19 yn llwyr o'r Bil. Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 41, dylid o leiaf ei diwygio i gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 7(5).

Argymhelliad 47. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fewnosod yn adran 19 ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 7(5) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i'r adroddiad a gyflwynir a'r argymhellion a wneir gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig o dan adran 19(1).

12. Materion eraill

Y cefndir

526. Ein rôl ni fu ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Mae dau fater arwyddocaol arall wedi dod i'r amlwg, fodd bynnag:

- Yr adnoddau sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol i lywio gwaith datblygu polisi, gan gynnwys datblygu llwyfannau polisi amgen.
- Mecanweithiau, er enghraifft adalw, ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol.

Adnoddau datblygu polisi ar gyfer pleidiau gwleidyddol

Trefniadau mewn mannau eraill

527. Ym 1975, cyflwynwyd Arian Short yn Nhŷ'r Cyffredin i gefnogi'r gwrthbleidiau.⁶⁰⁵ Mae cymhwystra i gael yr arian hwn yn seiliedig ar nifer y seddi a enillwyd gan y pleidiau yn yr etholiad diwethaf, a nifer y pleidleisiau a gawsant. Diwygiwyd y cynllun ym 1999 a 2016 i gyflwyno swm penodol i Arweinydd yr Wrthblaid, i addasu'r fformiwla ar gyfer cyfrifo dyraniadau, i gyflwyno dull mynegeio blynyddol, i wella tryloywder, ac i gymhwyso trothwyon ariannu isaf ac uchaf ar gyfer pleidiau sydd â hyd at bum Aelod Seneddol.

528. Ym 1996, cyflwynwyd cynllun gweddol debyg (sef Arian Cranborne) yn Nhŷ'r Arglwyddi i ddarparu cymorth ariannol i'r ddwy wrthblaid fwyaf. Ym 1999, cytunwyd ar benderfyniad ar wahân i ddarparu cymorth ariannol i Gynullydd Arglwyddi'r Meinciau Croes. Cyfunwyd y ddau gynllun yn 2002.

529. Yn Senedd yr Alban, mae Corff Corfforedig Senedd yr Alban yn gweinyddu cynllun a elwir yn Arian Short. Fe'i sefydlwyd o dan adran 97 o Ddeddf yr Alban 1998 sy'n darparu ar gyfer darparu cymorth ariannol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn unol â threfniadau a bennir gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Yn 2021, pasiodd Senedd yr Alban Ddeddf i ddiwygio adran 97 i ddarparu y gellir gwneud rheolau ar gymorth ariannol i bleidiau gwleidyddol drwy benderfyniad gan Senedd yr Alban.

⁶⁰⁵ Cyflwynwyd cynllun ar wahân, sef Arian Cynrychioli, yn 2006 i gefnogi pleidiau nad yw eu Haelodau Seneddol wedi tyngu llw.

530. Yng Ngogledd Iwerddon, darperir cymorth ariannol i bob plaid wleidyddol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol i Bleidiau Gwleidyddol. Gwneir y Cynllun gan Gomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon drwy arfer y pŵer a roddir gan Ddeddf Cymorth Ariannol i Bleidiau Gwleidyddol (Gogledd Iwerddon) 2000.

Cymorth i bleidiau a gynrychiolir yn y Senedd

531. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd, ar y sail bod rhestrau caeedig yn cynyddu rôl pleidiau gwleidyddol, wedi ystyried cynnwys darpariaeth yn y Bil i ymdrin ag ariannu gwaith datblygu polisi. Roedd yn cydnabod y byddai rhestrau caeedig yn creu ffocws ac atebolrwydd llawer cliriach o ran manifestos, ond dywedodd fod gwaith datblygu polisi fel arfer yn fater o fewn y pleidiau eu hunain.⁶⁰⁶

532. Cadarnhaodd Will Whiteley nad yw'r Bil yn gwneud dim darpariaeth ar gyfer gwaith datblygu polisi'r pleidiau gwleidyddol, ond dywedodd fod mecanweithiau o fewn y Senedd a Chomisiwn y Senedd eisoes o ran ariannu grwpiau'r pleidiau.⁶⁰⁷ Mae Blwch 10 yn crynhoi'r rhain.

Blwch 10 Cymorth ariannol i bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd

Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

- Mae'r lwfans hwn yn daladwy drwy Benderfyniad y Bwrdd Taliadau mewn perthynas â chostau a ysgwyddir gan yr Aelodau yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Gellir ei ddefnyddio i gyflogi staff grŵp plaid wleidyddol neu ar gyfer costau polisi ac ymchwil, yn ogystal â materion fel offer swyddfa a deunydd ysgrifennu, teithio, diswyddo a llogi cyfleusterau.
- Mae Penderfyniad 2023-24 yn nodi mai £1,089,640 fydd y lwfans. Mae pleidiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru yn cael lwfans gweinyddol craidd o £11,980 fesul Aelod, hyd at uchafswm o £179,520. Mae pleidiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru yn cael lwfans gweinyddu craidd o £59,260 os oes ganddynt dri Aelod neu ragor. Caiff y cyllid sy'n weddill ei ddyrannu fesul Aelod ymhlith pleidiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru.

⁶⁰⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 5 Hydref 2023

⁶⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 5 Hydref 2023

Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

- Mae'r lwfans hwn yn daladwy drwy'r Penderfyniad, a gall unrhyw Aelod ei ddefnyddio i gael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol am gyfnod penodol i gyflawni darn penodol o waith polisi, ymchwil neu gyfathrebu. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, waith datblygu polisi, archwilio materion sydd o bwys i etholwyr, neu graffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.
- Caiff Aelodau gomisiynu gwaith ar y cyd ag Aelodau eraill, neu drosglwyddo arian i'r blaidd wleidyddol y maent yn perthyn iddi at ddibenion comisiynu gwaith ymchwil.

Y Grant Datblygu Polisi

- Gweinyddir y grant hwn gan y Comisiwn Etholiadol, sy'n cael £2 filiwn y flwyddyn gan Senedd y DU. Mae'r grant ar gael i unrhyw blaidd sydd â dau Aelod Seneddol sy'n eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin ac sydd wedi tyngu llw.
- Caiff £1 miliwn ei ddsbarthu'n gyfartal rhwng y pleidiau ac £1 miliwn ei ddyrannu ar sail cyfran yr etholwyr cofrestredig lle mae'r blaidd yn ymladd etholiadau (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon), a'r gyfran o'r bleidlais a gafodd y blaidd ym mhob rhan o'r DU.

533. Mewn gohebiaeth, ychwanegodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Ychydig o ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r mater hwn. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi y gallai Pwyllgor sy'n adolygu'r gweithrediad ac effaith Rhannau 1 a 2 o'r Bil ystyried amrywiaeth o faterion Diwygio'r Senedd y mae'n ystyried sy'n berthnasol, fel 'Cymorth i aelodau a phleidiau i gyflawni eu rolau yn y Senedd.'

Gellir nodi hefyd mai dim ond un elfen yw'r fframwaith deddfwriaethol mewn ystyriaeth ehangach o ran cefnogi datblygiad polisi gan wrthbleidiau gwleidyddol yng Nghymru".⁶⁰⁸

534. Gwnaethom ofyn i'r Llywydd a oedd hi, neu Gomisiwn y Senedd, wedi ystyried y mater hwn neu wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch y mater. Dywedodd wrthym, fel rhan o weithredu'r Bil, y gellid ystyried

⁶⁰⁸ Lythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2023

darparu adnoddau ar gyfer “gwahanol agweddau o fywyd gwleidyddol”.⁶⁰⁹ Eglurodd Siwan Davies fod trafodaethau’n dechrau rhwng Comisiwn y Senedd a’r Bwrdd Taliadau ynghylch sut y gallai Senedd â 96 o Aelodau weithredu a chael ei chefnogi. Ychwanegodd y byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, adolygiad gan y Bwrdd Taliadau o’r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, wedi’i lywio gan waith ymgysylltu ag Aelodau, grwpiau gwleidyddol a staff cymorth yr Aelodau.⁶¹⁰

535. Dywedodd Dr Haywood wrthym y byddai adolygiad y Bwrdd Taliadau yn:

“[...] look back at first principles. What is that political party support allowance for? What should it cover? What does it cover? And [we’re] looking internationally at the various different models and then we’ll test that out and see whether that works in terms of the Senedd and whether there are other ideas, and then come up with recommendations”.⁶¹¹

536. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym y byddai creu unrhyw gronfa yng Nghymru sy’n cyfateb i grant datblygu polisi’r DU “yn ddibynnol ar ariannu gan Lywodraeth Cymru a beth fyddai angen i’w wneud”. Ychwanegodd Rhydian Thomas y byddai’r Comisiwn Etholiadol yn agored i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru gan fod “yr angen i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru edrych ar bolisiau ac i edrych ar ledaenu’r neges a sut i gyfathrebu efo pleidleiswyr yn un dilys”.⁶¹² Cydnabu’r Fonesig Elan Closs Stephens y gallai anghysonderau fod o fewn y system, wrth i ddatganoli esblygu, ond dywedodd na allai hi wneud unrhyw ymrwymadau cyn i drafodaethau pellach gael eu cynnal.⁶¹³

Cymhwysedd deddfwriaethol

537. O dan y model cadw pwerau, mae gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar bob mater nad yw wedi’i gadw’n benodol i Senedd y DU. Mae ariannu pleidiau gwleidyddol a’u Haelodau a’u swyddogion yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 6 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae’r mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 6 yn ddarostyngedig i eithriad sy’n caniatáu gwneud taliadau i unrhyw blaid gwleidyddol at ddiben cynorthwyo Aelodau o’r Senedd sy’n gysylltiedig â’r blaid i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd. Os yw darpariaeth mewn Bil gan y Senedd yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, bydd y tu allan i gymhwysedd

⁶⁰⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 186], 26 Hydref 2023

⁶¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 26 Hydref 2023

⁶¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 30 Tachwedd 2023

⁶¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 22 Tachwedd 2023

⁶¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 22 Tachwedd 2023

deddfwriaethol y Senedd. Penderfynir a yw darpariaeth yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi sylw (ymhlith pethau eraill) i'w heffaith o dan yr holl amgylchiadau.

Ein barn ni

538. Er ei fod y tu allan i gwmpas y Bil, rydym o'r farn bod gweithrediad effeithiol democratiaeth seneddol hefyd yn dibynnu ar allu pleidiau gwleidyddol i ddatblygu polisi cadarn sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth. Cydnabyddir hyn ar lefel y DU drwy ddarpariaeth Arian Short, Arian Cranborne a'r grant datblygu polisi a weinyddir gan y Comisiwn Etholiadol. Er bod trefniadau ar gyfer y mecanweithiau ariannu hyn yn amrywio, y ffactor cyson wrth benderfynu ar gymhwysra a dyrannu yw lefel y gynrychiolaeth yn Senedd y DU.

539. Yng Nghymru, mae'r Bwrdd Taliadau yn rhoi cymorth i grwpiau gwleidyddol yn y Senedd at ddibenion cefnogi gwaith yr Aelodau. Mae'r cyllid hwn yn bwysig o ran sicrhau bod grwpiau gwleidyddol y Senedd yn gweithredu'n effeithiol, ond nid yw'n gyfwerth digonol â'r cyllid ehangach sydd ar gael ar lefel y DU ar gyfer gwaith datblygu polisi'r pleidiau gwleidyddol.

Argymhelliad 48. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i adolygu'r adnoddau a'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru at ddibenion datblygu polisi, ac i ba raddau y mae cymhwysra ar gyfer adnoddau a chyllid o'r fath, a'r modd y cânt eu dyrannu, yn adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig, cefnogaeth etholiadol i'r pleidiau yng Nghymru a'u cynrychiolaeth yn y Senedd. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, y dylid ei gwblhau a'i gyhoeddi mewn digon o bryd i ganiatáu i'r canlyniadau gael eu gweithredu o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026, dylid ystyried lefelau cyllido, trefniadau llywodraethu, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 49. Wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn y Bil, dylai Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ystyried unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall y gellid ei darparu drwy ei Benderfyniad. Yn ystod y broses hon, dylai ystyried yn benodol i ba raddau y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r lefel a'r mathau o gymorth sydd ar gael mewn mannau eraill, gan gynnwys Arian Short ac Arian Cranborne yn Senedd y DU. Dylid gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026.

Atebolrwydd Aelodau

540. Pan gaeodd ar 31 Rhagfyr 2023, roedd 2,013 o lofnodion ar ddeiseb yn galw ar y Senedd i fabwysiadu gweithdrefn adalw sy'n debyg i'r broses a ddefnyddir yn San Steffan, ond gyda mecanwaith sbarduno, sef deiseb ar-lein â 100 o lofnodion.⁶¹⁴ Mae cyfranwyr hefyd wedi codi mecanweithiau adalw gyda ni. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig ei fod yn bryderus nad oedd y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer adalw, ac ychwanegodd fod diffyg gwybodaeth ynghylch sut y bydd safonau'n cael eu cynnal yn fwllch sylweddol. Awgrymodd:

"A modern democracy requires a clear recall mechanism to improve scrutiny, transparency and accountability on behalf of the electorate. Without this, the Senedd will fall further behind its Westminster equivalent in this area which, however flawed, has clear processes around recall mechanisms for parliamentarians".⁶¹⁵

541. Roedd Colin Everett yn cefnogi'r egwyddor o adalw ar sail lleihau'r ymwahanu rhwng trefniadau etholiadol Cymru a'r DU:

"[...] it's become quite a significant feature of democracy, where it's not a disqualification, but [...] where there is still some cause for doubt about the suitability of a candidate to remain in office. I think it's something that should be considered on the principle of consistency between UK and Wales if we want the rigour of Senedd elections to have the same level of public confidence. How we would make it work would be something we'd need to return to".⁶¹⁶

542. Ychwanegodd, o dan Ddeddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 ("Deddf 2015"), fod prosesau adalw yn brosesau logistaidd cymhleth iawn i'w rhedeg, yn enwedig o ran y ddeiseb adalw.⁶¹⁷ Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys sicrhau bod modd i ddigon o bobl lofnodi'r ddeiseb ar draws ardaloedd daearyddol sydd o bosibl yn fawr, a hynny dros gyfnodau estynedig o amser.⁶¹⁸ Roedd Clare Sim yn cytuno, ac awgrymodd, pe câi unrhyw system ar gyfer adalw'r Senedd ei chyflwyno, y dylid

⁶¹⁴ Deiseb: 'Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor.' [fel ar 2 Ionawr 2024]

⁶¹⁵ SCME(P)23 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn unig)

⁶¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 101], 15 Tachwedd 2023

⁶¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 15 Tachwedd 2023

⁶¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 107], 15 Tachwedd 2023

ystyried adroddiadau'r Comisiwn Etholiadol ar y deisebau adalw sydd wedi'u cynnal o dan Ddeddf 2015.⁶¹⁹

543. Darparodd y Comisiwn Etholiadol grynodedb inni o'r adroddiadau hyn.⁶²⁰ Dywedodd Rhydian Thomas wrthym fod Deddf 2015 wedi gweithio'n eithaf da, er bod rhai problemau wedi codi yn ymwneud â hyd cyfnod llofnodi'r ddeiseb a lleoliad a nifer y gorsafoedd llofnodi. Tynnodd sylw at yr anawsterau sydd ynghlwm wrth weithredu trefniadau adalw cyfatebol mewn system etholiadol nad yw'n llenwi seddi gwag drwy is-etholiadau.⁶²¹

544. Ar 5 Hydref 2023, disgrifiodd yr Aelod sy'n gyfrifol adalw fel mater amserol iawn o ran atebolrwydd Aelodau unigol. Dywedodd wrthym nad oedd wedi'i gynnwys yn y Bil oherwydd nad oedd wedi'i argymhell gan y Pwyllgor Diben Arbennig. Ychwanegodd y byddai cynnwys adalw o fewn rhestrau caeedig yn eithaf cymhleth, ond cytunodd nad oedd unrhyw reswm dros beidio â rhoi ystyriaeth bellach iddo.⁶²² Mewn gohebiaeth, dywedodd y byddai'n agored i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd gennym, ond:

"Mae heriau sylweddol o ran gweithredu proses deiseb adalw mewn system etholiadol ar sail rhestr gyfrannol. Cafodd rhai o'r heriau hyn eu nodi mewn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gynnig Bil Aelodau Preifat yn yr Alban ar gyfer gweithredu system deiseb adalw mewn perthynas â seddi ar restr ranbarthol Senedd yr Alban, na allai bennu 'sut y gallai'r aelod, ac ymgeiswyr eraill sy'n ceisio cael eu hethol ar gyfer sedd, gystadlu mewn unrhyw fath o is-etholiad'".⁶²³

545. Er ei bod yn cytuno â'r egwyddor ei bod yn briodol ystyried beth y gellid ei wneud i gynyddu atebolrwydd Aelodau drwy broses adalw, awgrymodd y Llywydd y gallai lleihau hyd tymhorau'r Senedd, o bum mlynedd i bedair blynedd, leihau (ond nid dileu) yr awydd posibl i adalw Aelodau unigol.⁶²⁴

⁶¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 15 Tachwedd 2023

⁶²⁰ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Tachwedd 2023](#)

⁶²¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 22 Tachwedd 2023

⁶²² Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 5 Hydref 2023

⁶²³ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 8 Tachwedd 2023

⁶²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 266], 26 Hydref 2023

546. Nododd yr Athro Clark fod rhaid ystyried nid yn unig sut y byddai unrhyw seddi gwag o ganlyniad i adalw yn cael eu llenwi, ond hefyd beth fyddai'n sbarduno unrhyw broses adalw.⁶²⁵

547. Mewn gohebiaeth, dywedodd y Comisiynydd Safonau, er ei fod yn croesawu unrhyw fesur a fyddai'n cynyddu atebolrwydd Aelodau, fod ganddo bryderon difrifol ynghylch cynnwys mecanwaith adalw yn y Bil sy'n debyg i'r un yn Neddf Adalw Aelodau Seneddol 2015. Roedd ei resymau'n cynnwys diffyg darpariaeth ar gyfer is-etholiadau mewn system rhestr gaeedig:

"That would mean that 10% of the eligible electorate would be able to remove a Member from office. And where the Member was an independent, it would mean that the electorate would be represented by one fewer Member than previously until the next election which could be several years away".⁶²⁶

548. Yn ei farn ef, prif wendid y trefniadau atebolrwydd presennol yw:

"[...] the absence of any way to remove from office a Member-

- 1. who has been convicted of a serious offence but sentenced to imprisonment for a period of one year or less; or*
- 2. who has simply stopped carrying out the duties of a Member for a prescribed period".⁶²⁷*

549. Y camau unioni yr oedd yn eu ffafrio oedd:

- Diwygio paragraff 6(1) o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 i ddarparu y byddai dedfryd fer o garchar, neu efallai unrhyw ddedfryd o garchar, yn arwain at anghymhwyso awtomatig.
- Cynyddu'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan fo wedi'i fodloni bod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Caiff eisoes argymell tynnu hawliau a breintiau oddi ar Aelodau y mae cwynion yn eu herbyn wedi'u cadarnhau, a'u gwahardd am gyfnodau penodol. Nododd y Comisiynydd Safonau fod Aelod yn parhau yn ei swydd yn ystod gwaharddiad o'r fath, ond bod ei etholwyr wedi'u hamddifadu o

⁶²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 99], 9 Tachwedd 2023

⁶²⁶ [Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Safonau](#), 4 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

⁶²⁷ [Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Safonau](#), 4 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

ran o leiaf o'r gynrychiolaeth a ddylai fod ar gael iddynt. Dywedodd y gallai deddfwriaeth gyflwyno cosb newydd o ddiswyddo, ond ychwanegodd y byddai angen mesurau diogelu megis gofynion o ran mwyafrif neu uwchfwyafrif o ddwy ran o dair er mwyn osgoi camddefnyddio'r mecanwaith gan bleidiau mwyafrifol.⁶²⁸

Ein barn ni

550. Credwn yn gryf y dylai Aelodau unigol fod yn atebol i'w hetholwyr. Mae rhai mecanweithiau eisoes ar waith drwy drefniadau safonau ac urddas a pharch y Senedd, ond credwn fod lle i gryfhau'r rhain.

551. Rydym wedi clywed awgrymiadau gwahanol ynghylch sut i gyflawni hyn. Cynigiodd llawer o gyfranwyr y dylid cyflwyno mecanwaith adalw wedi'i fodelu ar Ddeddf 2015, boed hynny fel copi union, neu gydag addasiadau i hyd cyfnod y ddeiseb neu er mwyn cyflwyno proses un cam lle gofynnir i etholwyr nodi a ydynt am i'r unigolyn barhau i'w cynrychioli ai peidio neu a ydynt am iddo adael ei sedd ac iddi gael ei llenwi gan y person nesaf ar restr y blaid. Rydym hefyd wedi clywed, fodd bynnag, am heriau o ran gweithredu mecanwaith o'r fath o fewn rhestrau caeedig. A dywedodd y Comisiynydd Safonau wrthym nad oedd yn cefnogi mecanwaith adalw, ond y byddai'n ffafrio ystyried cryfhau'r anghymwysadau sy'n gymwys i Aelodau a'r ystod o sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan fo cwyn yn erbyn Aelod wedi'i chadarnhau.

552. Mae'r dystiolaeth wedi cadarnhau ein cred y dylid datblygu mecanweithiau atebolrwydd cryfach. Mae hefyd wedi dangos cymhlethdod datblygu cynigion a fydd yn gweithio'n gadarn, yn dryloyw, yn deg ac yn effeithiol o fewn trefniadau etholiadol y Senedd. Nid yw'r cymhlethdod hwn, ac ni ddylai fod, yn rhwystr rhag gweithredu. Ond, yn ein barn ni, mae'n rhwystr rhag cymryd camau deddfwriaethol yn y Bil hwn gan nad oes digon o amser ar gyfer y gwaith polisi a deddfwriaethol manwl a'r gwaith ymgynghori cysylltiedig o fewn yr amserlenni y mae rhaid cadw atynt er mwyn i'r pecyn o ddiwygiadau ddod i rym ar gyfer etholiad 2026.

553. Fodd bynnag, ni ddylai 'dim nawr' fod yn gyfystyr â 'byth'. Rhaid gwneud rhagor o waith i ddatblygu cynigion i gryfhau atebolrwydd Aelodau unigol am gynnal y safonau ymddygiad a ddisgwylir, ac y dylid eu disgwyl, ganddynt cyn diwedd y Senedd hon. Credwn y dylai'r gwaith hwn gael ei arwain gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, ond y dylai gael ei lywio gan waith ymgysylltu ag ystod o

⁶²⁸ [Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Safonau](#), 4 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

bartneriaid gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) y Comisiynydd Safonau a'r pleidiau gwleidyddol cofrestredig. Bydd gan Lywodraeth Cymru hefyd rôl allweddol yn y broses hon o ran capasiti ac arbenigedd deddfwriaethol a pholisi. Unwaith y bydd opsiynau posibl wedi'u datblygu, dylent fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y ffordd ymlaen.

Argymhelliad 50. Dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad weithio gyda'r Comisiynydd Safonau, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol. Dylai hyn gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026.

Atodiad 1: Trosolwg o ddiwygio'r Senedd

2004

- Argymhellodd Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai fod 80 o Aelodau, wedi'u hethol drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.⁶²⁹

2006

- Rhoddodd Deddf 2006 bwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad o fewn fframwaith Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Ni wnaed unrhyw newidiadau i nifer yr Aelodau na'r ffordd y cânt eu hethol. Cynyddwyd uchafswm maint Llywodraeth Cymru o naw i 14.

2011

- Yn dilyn refferendwm, daeth Rhan 4 o Ddeddf 2006 i rym, gan roi pwerau llawn i wneud deddfwriaeth sylfaenol i'r Cynulliad.

2014

- Tynnodd Comisiwn Silk sylw at y “bwlch o ran gallu”, a daeth i'r casgliad bod “angen mwy o aelodau mainc cefn ar y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn gallu craffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru yn fwy trwyadl”.⁶³⁰
- Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bwerau ariannol newydd i'r Cynulliad, gan gynnwys trethiant a benthyca.

2015

- Daeth Comisiwn y Cynulliad i'r casgliad a ganlyn mewn adroddiad ar gapasiti'r Cynulliad: “Cyda dim ond 60 o Aelodau, mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cenedlaethol ond mae gormod o bwysau yn cael ei roi arno”.⁶³¹

⁶²⁹ Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Adroddiad Comisiwn Richard](#), 2004 (Saesneg yn unig)

⁶³⁰ Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, [Grymuso a chyfrifoldeb: pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru](#), 2014

⁶³¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Dyfodol y Cynulliad a'i gapasiti i gyflawni ar gyfer Cymru](#), Ionawr 2015

2017

- Cyflwynodd Deddf Cymru 2017 fodel cadw pwerau o ddatganoli, a rhoddodd bwerau i'r Cynulliad dros ei enw, ei faint a'i drefniadau etholiadol.
- Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai fod rhwng 80 a 90 o Aelodau, wedi'u hethol naill ai drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu Gynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg ar sail etholaethau wedi'u seilio ar etholaethau presennol y Cynulliad neu ardaloedd presennol yr awdurdodau lleol. Gwnaeth argymhellion hefyd o ran mesurau i gynyddu amrywiaeth, gan gynnwys cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr, rhannu swyddi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr. Yn ogystal â hynny, argymhellodd y Panel y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.⁶³²

2018

- Cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad ar argymhellion y Panel Arbenigol, ac o'r 1,830 o ymatebion i gwestiynau am nifer yr Aelodau, roedd 56 y cant o blaid cael mwy o Aelodau, 39 y cant yn gwrthwynebu, a 5 y cant yn ansicr neu heb fynegi dewis. O'r 1,330 o ymatebion i gwestiynau am y systemau etholiadol a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, roedd 54 y cant yn ffafrio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, 17 y cant yn ffafrio Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg, 16 y cant yn ffafrio'r System Gyfrannol Aelodau Cymysg, a 13 y cant nad oeddent yn ffafrio'r un o'r tri opsiwn.⁶³³

2019

- Daeth Comisiwn y Cynulliad i'r casgliad ei fod yn "hyderus bod yr achos o blaid cynyddu'r nifer o Aelodau wedi'i ddadlau'n llwyddiannus", ond nad oedd consensws gwleidyddol eto ar y system etholiadol.⁶³⁴
- Cytunodd y Cynulliad y dylid gwneud rhagor o waith trawsbleidiol i drafod argymhellion y Panel Arbenigol.⁶³⁵

⁶³² Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017

⁶³³ Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018

⁶³⁴ [Llythyr oddi wrth y Llywydd at Aelodau o'r Senedd](#), 10 Mehefin 2019

⁶³⁵ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 442], 18 Medi 2019

2020

- Yn unol â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu Welsh Parliament.
- Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y dylid cyflwyno deddfwriaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd i gynyddu maint y Senedd i rhwng 80 a 90 o Aelodau wedi'u hethol drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ac y dylai hynny ddod i rym o etholiad 2026 ymlaen.⁶³⁶

2021

- Yn unol â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, roedd pobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor cymhwysol yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf.

2022

- Cyhoeddodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd ddatganiad safbwynt ar y cyd yn awgrymu y dylai fod gan y Senedd 96 o Aelodau, wedi'u hethol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig (gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt i ddyrannu seddi, a chan gynnwys cwotâu rhywedd statudol ar gyfer ymgeiswyr) ar sail 16 o etholaethau amlaelod, a phob un yn ethol chwe Aelod.⁶³⁷
- Roedd argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd at ei gilydd yn adlewyrchu'r cynigion hyn.⁶³⁸
- Pleidleisiodd y Senedd drwy fwyafrif i gymeradwyo cynnig i nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig a chymeradwyo'r argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ynghylch gweithredu deddfwriaeth mewn pryd ar gyfer etholiad 2026.⁶³⁹

⁶³⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020

⁶³⁷ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Ffordd ymlaen ar gyfer diwygio'r Senedd](#), 10 Mai 2022

⁶³⁸ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022

⁶³⁹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 537], 8 Mehefin 2022

- Ymatebodd y Pwyllgor Busnes i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig a daeth i gasgliadau ar faterion a oedd yn cynnwys maint Llywodraeth Cymru a nifer y Dirprwy Lywyddion.⁶⁴⁰

2023

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a nododd ei bod yn bwriadu “gwneud darpariaeth ar gyfer cwotâu rhywedd a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr y Senedd mewn deddfwriaeth sydd i ddod”.⁶⁴¹
- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai cyflwyno Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), i ddarparu ar gyfer cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, yn cael ei ohirio.

⁶⁴⁰ Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd - Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Rhagfyr 2022

⁶⁴¹ Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 209

Atodiad 2: Tystiolaeth

Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Bil](#).

Dyddiad	Enw a sefydliad
5 Hydref 2023	Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru Will Whiteley, Llywodraeth Cymru Anna Hind, Llywodraeth Cymru Tom Jackson, Llywodraeth Cymru
26 Hydref 2023 Panel 1	Yr Athro Laura McAllister, Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad Yr Athro Alan Renwick, Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
26 Hydref 2023 Panel 2	Elin Jones AS, Y Llywydd Manon Antoniazzi, Comisiwn y Senedd Siwan Davies, Comisiwn y Senedd Alun Davidson, Comisiwn y Senedd
26 Hydref 2023 Panel 3	Yr Athro Diana Stirbu, Prifysgol Fetropolitan Llundain
9 Tachwedd 2023 Panel 1	Yr Athro Alistair Clark, Prifysgol Newcastle Dr Jac Lerner, Prifysgol Caerdydd
9 Tachwedd 2023 Panel 2	Jess Blair, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru Alberto Smith, Make Votes Matter

9 Tachwedd 2023 Panel 3	Yr Athro Ailsa Henderson, Boundaries Scotland Malcolm Burr, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban
9 Tachwedd 2023 Panel 4	Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg Lowri Williams, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
15 Tachwedd 2023	Clare Sim, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Colin Everett, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
22 Tachwedd 2023 Panel 1	Y Fonesig Elan Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol, Cymru Tom Davies, Comisiwn Etholiadol, Cymru
22 Tachwedd 2023 Panel 2	Bev Smith, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Shereen Williams, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
30 Tachwedd 2023	Dr Elizabeth Haywood, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd Daniel Hurford, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
13 Rhagfyr 2023	Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru Will Whiteley, Llywodraeth Cymru Anna Hind, Llywodraeth Cymru Tom Jackson, Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig

Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r ohebiaeth a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar [wefan y Bil](#).

Atodiad 3: Trosolwg o'r prosesau a'r amserlenni ar gyfer adolygu ffiniau

Adolygiad o'r ymarfer paru ar gyfer 2026

Cyfnod	Gofynion
<p>Hysbysiad cychwyn adolygiad a llunio cynigion (Awst/Medi 2024)⁶⁴²</p>	<p>Rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi⁶⁴³ hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cychwyn yr adolygiad i ddatgan bod yr adolygiad wedi dechrau a'r dyddiad y dechreuodd. ▪ Llunio cynigion ar gyfer 16 o etholaethau'r Senedd, gyda phob un yn cynnwys ardaloedd cyfunedig dwy o etholaethau Senedd y DU sy'n gyffiniol.⁶⁴⁴ ▪ Ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff⁶⁴⁵ enwau Cymraeg yr etholaethau, a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
<p>Adroddiad cychwynnol ar adolygiad ffiniau 2026 a chynnod o bedair wythnos ar gyfer sylwadau (cyhoeddi adroddiad cychwynnol: wythnos yn cychwyn 16 Medi 2024; cyhoeddi'r sylwadau a</p>	<p>Rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi adroddiad cychwynnol yn nodi'r 16 o etholaethau arfaethedig y Senedd a'r enwau arfaethedig ar gyfer pob un, a gwahodd sylwadau ar y cynigion. ▪ Hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad, a hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cynnod cyntaf ar gyfer sylwadau. <p>Ar ddiwedd y cynnod o bedair wythnos, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p>

⁶⁴² Darparwyd yr holl ddyddiadau gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig.

⁶⁴³ Rhaid i adroddiadau a dogfennau y mae'n ofynnol i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi ar ei wefan ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

⁶⁴⁴ Nid yw'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol yn diffinio 'cyffiniol'. Mae paragraff 4 o Atodlen 1 yn darparu, wrth ystyried y cyfuniadau posibl o etholaethau Senedd y DU, y caiff y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ystyried y canlynol: ffiniau llywodraeth leol; ystyriaethau daearyddol arbennig megis maint, siâp a hygyrchedd etholaethau arfaethedig; ac unrhyw gysylltiadau lleol y gellid eu torri yn sgil y paru arfaethedig.

⁶⁴⁵ Ystyr orgraff yw'r ffordd dderbyniol o sillafu ac ysgrifennu geiriau.

Cyfnod	Gofynion
gafwyd: dechrau mis Rhagfyr 2024)	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd. ▪ Ystyried ei gynigion, gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd. Os bydd yn ystyried unrhyw newidiadau i'w gynigion ynghylch enwau Cymraeg unrhyw etholaeth neu etholaethau, ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
<p>Ail adroddiad a chyfnod o bedair wythnos ar gyfer sylwadau</p> <p>(cyhoeddi ail adroddiad: wythnos yn cychwyn 6 Ionawr 2025; cyhoeddi'r sylwadau a gafwyd: dechrau mis Mawrth 2025)</p>	<p>Rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi ail adroddiad yn nodi'r 16 o etholaethau arfaethedig y Senedd a'r enwau arfaethedig ar gyfer pob un, a gwahodd sylwadau ar y cynigion. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynol, a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau. ▪ Hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad, a hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau. <p>Ar ddiwedd y cyfnod o bedair wythnos, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd. ▪ Ystyried ei gynigion, gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd. Os bydd yn ystyried unrhyw newidiadau i'w gynigion ynghylch enwau Cymraeg unrhyw etholaeth neu etholaethau, ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
Adroddiad terfynol	<p>Cyn 1 Ebrill 2025, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi adroddiad terfynol yn nodi'r 16 o etholaethau'r Senedd. Rhaid i'r adroddiad nodi enw pob etholaeth ac a yw pob un wedi'i dynodi'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.⁶⁴⁶ Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion

⁶⁴⁶ Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw feini prawf y dylid seilio'r dynodiad hwn arnynt. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn pennu bod etholaethau sy'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach fel arfer yn cael eu dynodi'n etholaethau sirol. Ym mhob achos arall, byddai'r etholaeth yn cael ei dynodi'n etholaeth fwrdeistrefol. Ar gyfer etholiadau Senedd y DU, mae'r dynodiad hwn yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel swyddog canlyniadau a'r terfyn ar wariant ymgeiswyr. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol i adlewyrchu costau is rhedeg ymgyrch mewn ardal drefol.

Cyfnod	Gofynion
(cyhoeddi'r adroddiad terfynol: wythnos yn cychwyn 31 Mawrth 2025)	<p>unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad, a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru. <p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Osod yr adroddiad gerbron y Senedd.
Addasiadau	<p>Os bydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei osod, ond cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud, yn nodi unrhyw wallau yn yr adroddiad terfynol y mae angen eu haddasu, caiff:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Anfon datganiad at Weinidogion Cymru i bennu'r addasiadau a'r rhesymau drostynt (rhaid hefyd gyhoeddi unrhyw ddatganiad o'r fath). <p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Osod unrhyw ddatganiad a gafwyd gerbron y Senedd, a sicrhau bod y rheoliadau i roi effaith i'r adroddiad terfynol hefyd yn rhoi effaith i'r addasiadau a bennir yn y datganiad.
Rheoliadau	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wneud rheoliadau i roi effaith i'r adroddiad terfynol (ac unrhyw addasiadau os pennir hynny mewn datganiad gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau). ▪ Gosod y rheoliadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, o fewn 14 wythnos ar ôl gosod yr adroddiad terfynol. ▪ Os bydd amgylchiadau eithriadol yn gymwys ac nad yw'r rheoliadau'n cael eu gosod o fewn 14 wythnos i gyhoeddi'r adroddiad terfynol, osod datganiad gerbron y Senedd yn egluro'r amgylchiadau eithriadol, a datganiadau dilynol bob pedair wythnos hyd nes y caiff y rheoliadau eu gosod.

Adolygiadau llawn ar gyfer 2030 a thu hwnt

Rhaid cwblhau adolygiad ffiniau yn unol â'r broses a ganlyn unwaith ym mhob cyfnod adolygu. Diffinnir cyfnod adolygu fel: rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Tachwedd 2028, y cyfnod o wyth mlynedd sy'n dechrau ag 1 Rhagfyr 2028 a phob cyfnod dilynol o wyth mlynedd.

Cyfnod	Gofynion
Hysbysiad cychwyn adolygiad a llunio cynigion	<p>Rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Gyhoeddi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cychwyn yr adolygiad i ddatgan bod yr adolygiad wedi dechrau a'r dyddiad y dechreuodd.▪ Llunio cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau i'r 16 o etholaethau'r Senedd sydd ar waith bryd hynny. Wrth lunio cynigion, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau sicrhau bod nifer yr etholwyr ar gyfer pob etholaeth yn cyfateb i ± 10 y cant o'r cwota etholiadol. Caiff roi sylw i ffiniau llywodraeth leol (gan gynnwys ffiniau arfaethedig), ystyriaethau daearyddol arbennig, ac unrhyw gysylltiadau lleol y gellid eu torri. Rhaid iddo geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl a rhoi sylw i anghyfleustra unrhyw newidiadau.▪ Ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau Cymraeg yr etholaethau, a rhoi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
Adroddiad cychwynnol a'r cyfnod cyntaf (wyth wythnos) ar gyfer sylwadau	<p>Rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Gyhoeddi adroddiad cychwynnol yn nodi'r cynigion ar gyfer newidiadau i etholaethau'r Senedd a'r enwau arfaethedig ar gyfer pob un, a gwahodd sylwadau ar y cynigion. Os nad yw'n ystyried bod angen unrhyw newidiadau, rhaid iddo gyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw.▪ Hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad, a hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.

Cyfnod	Gofynion
<p>Ail gyfnod (chwe wythnos) ar gyfer sylwadau</p>	<p>Ar ddiwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyhoeddi dogfen yn nodi unrhyw sylwadau a gafwyd, a gwahodd sylwadau mewn perthynas â'r sylwadau a nodir yn y ddogfen. ▪ Hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad, a hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau. ▪ Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr amseroedd a'r lleoedd y cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus (gan gynnwys sut i gymryd rhan o bell os cynhelir gwrandawiadau hybrid). <p>Yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gynnal rhwng dau a phump o wrandawiadau cyhoeddus i alluogi gwneud sylwadau ynghylch ei gynigion, y mae rhaid iddynt rhyngddynt gwmpasu Cymru gyfan.
<p>Cyfnod terfynol (pedair wythnos) ar gyfer sylwadau</p>	<p>Ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ystyried ei gynigion, gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod. Os bydd yn ystyried unrhyw newidiadau i'w gynigion ynghylch enwau Cymraeg unrhyw etholaeth neu etholaethau, ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Comisiynydd. ▪ Cyhoeddi ail adroddiad sy'n nodi unrhyw sylwadau a gafwyd, cofnodion y gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd, cynigion y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ar gyfer newidiadau i'r ffiniau neu'r enwau (neu, os nad yw'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, ddatganiad i'r perwyl hwnnw), a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion yn yr adroddiad cychwynnol ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.

Cyfnod	Gofynion
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwahodd sylwadau ar yr ail adroddiad. Rhaid iddo hefyd hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad, a hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau. <p>Ar ddiwedd y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd. ▪ Ystyried ei gynigion, gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd. Os bydd yn ystyried unrhyw newidiadau i'w gynigion ynghylch enwau Cymraeg unrhyw etholaeth neu etholaethau, ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
Adroddiad terfynol	<p>Cyn 1 Rhagfyr ym mlwyddyn derfynol pob cyfnod adolygu, rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi adroddiad terfynol yn nodi manylion unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, neu'n nodi nad oes unrhyw newid i'w wneud. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad, a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau. ▪ Os oes unrhyw newidiadau i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, rhaid i'r adroddiad nodi enw pob etholaeth ac a yw pob un wedi'i dynodi'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. ▪ Anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru. <p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Osod yr adroddiad gerbron y Senedd.
Addasiadau	<p>Os bydd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei osod, ond cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud, yn nodi unrhyw wallau yn yr adroddiad terfynol y mae angen eu haddasu, caiff:</p>

Cyfnod	Gofynion
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Anfon datganiad at Weinidogion Cymru i bennu'r addasiadau a'r rhesymau drostynt (rhaid hefyd gyhoeddi unrhyw ddatganiad o'r fath). <p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Osod unrhyw ddatganiad a gafwyd gerbron y Senedd, a sicrhau bod y rheoliadau i roi effaith i'r adroddiad terfynol hefyd yn rhoi effaith i'r addasiadau a bennir yn y datganiad.
Rheoliadau	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wneud rheoliadau i roi effaith i'r adroddiad terfynol (ac unrhyw addasiadau os pennir hynny mewn datganiad gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau). ▪ Gosod y rheoliadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, o fewn chwe mis ar ôl gosod yr adroddiad terfynol. ▪ Os bydd amgylchiadau eithriadol yn gymwys ac nad yw'r rheoliadau'n cael eu gosod o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad terfynol, osod datganiad gerbron y Senedd yn egluro'r amgylchiadau eithriadol, a datganiadau dilynol bob pedair wythnos hyd nes y caiff y rheoliadau eu gosod.